GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn rhan o adroddiadau cyhoeddus blynyddol y Bwrdd Iechyd. Mae'n amlinellu ein gwasanaethau a'u darpariaeth, ein perfformiad amgylcheddol ac ariannol ar gyfer y flwyddyn, ac yn disgrifio ein trefniadau rheoli a llywodraethu.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a ddarperir fel Atodiad i'r ddogfen hon, yn rhan o adran Adroddiad Atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol, ac mae'n rhoi adroddiad manwl ar ein llywodraethu, trefniadau rheoli risg a systemau rheoli mewnol.

Gallwch lawrlwytho copïau o'r holl ddogfennau hyn oddi ar wefan y Bwrdd Iechyd https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/

neu maent ar gael ar gais gan Dîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd yn BIPBC, Bloc 5, Cwrt Carlton, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JG, ar y ffôn ar 01248 384776 neu drwy anfon e-bost at bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk

# Cynnwys

**RHAN UN - ADRODDIAD PERFFORMIAD**


**Trosolwg ar Berfformiad ..... 6**
Cyflwyniad y Prif Weithredwr ..... 6
Meysydd Cyfrifoldeb ..... 10
Effaith Covid-19 ..... 12
Gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ..... 13
*Practisau Meddygon Teulu ..... 13*
*Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC) ..... 13*
*Clystyrau ..... 14*
*Yr Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol ..... 15*
*Fferylliaeth ..... 16*
*Deintyddiaeth ..... 17*
*Optometreg ..... 18*
*Nyrsio Ardal ..... 18*
*Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ..... 19*
*Ysbytai Cymunedol ..... 20*
*Biwro Cartref yn Gyntaf ..... 21*
*Gwasanaethau Therapi ..... 21*
COVID-19 Profion a Brechu ..... 22
*Darpariaeth Leol Profi, Olrhain, Diogelu ..... 22*
*Brechu COVID-19 ..... 22*
*Cynllunio Imiwneiddio Ehangach ar gyfer y Dyfodol ..... 23*
Ailgynllunio Gwasanaethau Acíwt i Ddarparu Gofal COVID-19 ..... 24
*Gofal wedi'i Gynllunio ..... 24*
*Gofal Critigol ac Anestheteg ..... 25*
*Ysbytai Dros Dro ..... 25*
*Gofal Brys Ysbyty ..... 25*
*Hyfforddi ac Adleoli Staff ..... 28*
Mesurau Rheoli Heintiau a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) ..... 29
*Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ..... 29*
*Ailgynllunio Ystadau ac Addasiadau Ffisegol ..... 29*
*Cyfathrebu ..... 29*
Darparu Gofal a Thriniaeth Nad yw'n Ymwneud â COVID-19 ..... 30
*Canser ..... 30*
*Llawdriniaeth Ddewisol - Rhestrau Aros a Haenau Risg ..... 30*
*Gofal y Llygaid ..... 32*
*Diagnosteg – Radioleg ..... 33*
*Diagnosteg- Endosgopi ..... 33*
*Diagnosteg - Cardioleg a Chanolfan Gardiaidd Gogledd Cymru ..... 34*
*Profion Sgrinio ..... 34*
*Cleifion Allanol ..... 35*
*Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ..... 35*
*Trin Pobl fel Unigolion ..... 37*
Gweithio i Wella ..... 39
*Cwynion ..... 40*
*Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ..... 41*
*Digwyddiadau ..... 42*
*Hawliadau ..... 43*
Darparu mewn Partneriaeth ..... 45
*Gweithio gyda Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ..... 45*
*Cefnogi Gofal Cymdeithasol – Sicrhau Rhyddhau Diogel ..... 45*
*Cefnogi Cartrefi Nyrsio ..... 46*

Rheoli Gweithlu a Lles ..... 47
*Sicrhau Lefelau Staffio Diogel* ..... *47*
*Mentrau Lles ar gyfer Staff* ..... *47*
*Asesiadau Risg a Gwarchod Staff* ..... *48*
*Adolygu Marwolaethau Staff sy'n Gysylltiedig â COVID-19* ..... *49*
*Rôl Grwpiau Cynghori Gweithwyr a Phroffesiynol* ..... *49*
*Fforwm Partneriaeth Leol* ..... *49*
Ein Dyfodol Digidol ..... 50
Casgliad ac Edrych Ymlaen ..... 51

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ..... 53**
*Mabwysiadau'r Pum Ffordd o Weithio* ..... *54*
*Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Bwrdd Rhan 9)* ..... *55*
*Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus* ..... *56*

**Cynaliadwyedd ..... 58**

**Y Gymraeg ..... 59**
*Datblygu'r Gweithlu* ..... *59*
*Gweithgareddau Hyrwyddo* ..... *60*
*Cydymffurfiaeth Statudol* ..... *60*
*Llywodraethu a Pherfformiad* ..... *60*
*Y Cynnig Gweithredol* ..... *61*

**RHAN DAU - ADRODDIAD ATEBOLRWYDD**

**Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ..... 62**
Adroddiad y Cyfarwyddwyr ..... 62
*Y Bwrdd* ..... *62*
*Y Pwyllgor Archwilio* ..... *62*
*Datganiad o Fuddiannau Cyfarwyddwyr* ..... *63*
*Diogelwch Data* ..... *63*
*Cydymffurfio â Gofynion Dyrannu Costau* ..... *63*
Datganiad ar Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) 64
Datganiad ar Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r Cyfrifon ..... 65
Datganiad Llywodraethu Blynyddol ..... 65

**Adroddiad Tâl ..... 66**
*Polisïau Ynghylch Tâl Staff ac Uwch Reolwyr* ..... *66*
*Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth* ..... *67*
*Perthnasoedd Tâl* ..... *68*
*Nifer y Pecynnau Tâl dros £100,000* ..... *68*
*Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo* ..... *70*
*Cyflog Uwch Reolwyr a Datgeliadau Pensiwn a Chyfanswm Ffigur Tâl* ..... *70*

**Adroddiad Staff ..... 86**
*Ymrwymiadau Oddi ar y Gyflogres a Gwaith Ymgynghori* ..... *87*
*Cydraddoldeb a Hawliau Dynol* ..... *88*

**Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru ..... 89**
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd ..... 76
Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd ..... 81

**RHAN TRI - CYFRIFON BLYNYDDOL**


**Rhagair ..... 1A**
**Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ..... 2A**
**Gwariant Net Cynhwysfawr arall ..... 2A**
**Datganiad o Sefyllfa Ariannol ..... 3A**
**Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ..... 4A**
**Datganiad o Lif Arian ..... 6A**
**Nodiadau i'r Cyfrifon ..... 7A**


**ATODIAD - Datganiad Llywodraethu Blynyddol**


**1 Y Cwmpas Cyfrifoldeb ..... 1B**
**2 Y Gallu i Reoli Risg ..... 1B**
**3 Ein Fframwaith Llywodraethu ..... 2B**
**4 Sicrhau Ansawdd Data ..... 5B**
**5 Pwrpas y System Rheoli Mewnol ..... 5B**
**6 Asesu Risg ..... 5B**
**7 Y Fframwaith Risgiau a Rheoli ..... 7B**
**8 Elfennau o'r Fframwaith Sicrwydd ..... 10B**
**9 Archwilio Mewnol ..... 10B**
**10 Llywodraethu Ansawdd ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ..... 12B**
**11 Rheoliad 28 (Atal Marwolaethau yn y Dyfodol) ..... 16B**
**12 Diogelwch Data ..... 17B**
**13 Trefniadau Cynllun Pensiwn y GIG ..... 17B**
**14 Addasu at Newid yn yr Hinsawdd ..... 18B**
**15 Bod yn Barod am Argyfwng ..... 18B**
**16 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol ..... 20B**
**17 Trefniadau Atal Twyll a Gwrth-lwgrwobrwyo ..... 20B**
**18 Cynllun Tymor Canolig Integredig ..... 21B**
**19 Ymyrraeth wedi'i Thargedu ..... 22B**
**20 Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ..... 24B**
**21 Materion Arwyddocaol ..... 25B**
**22 Adolygu Effeithiolrwydd ..... 22B**
**23 Casgliad ..... 23B**
**Atodiad 1 - Cyfarfodydd Y Bwrdd Iechyd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2021/22 ..... 31B**
**Atodiad 2 - Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau 2021/22 ..... 32B**
**Atodiad 3 - Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus yn 2021/22 ..... 39B**
**Atodiad 4 - Cylchlythyrau Iechyd Cymru 2021/22 ..... 42B**

## Trosolwg ar Berfformiad

### Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod eithriadol arall i'r gwasanaethau iechyd wrth i ni barhau i ymateb i bandemig COVID-19 a gweithredu yn ei gyd-destun parhaus.

Rwy'n dechrau felly, drwy ddatgan diolch diffuant y Bwrdd, a minnau, i'n staff am eu hymdrechion aruthrol yn ystod cyfnod mor anodd. Diolch hefyd i'n partneriaid am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad wrth i ni geisio sicrhau iechyd a lles cymunedau gogledd Cymru, a diolch i'n cleifion a'u teuluoedd am eu hamynedd a'u dealltwriaeth wrth i'r pandemig barhau i darfu ar sawl agwedd ar ein gwasanaethau arferol ac achosi oedi i driniaethau.

Er na fu 2021/22 yn llai heriol na'r flwyddyn flaenorol, mae natur yr her honno wedi esblygu.

Mae COVID-19 yn parhau i fod yn ein cymunedau ac mae gwahanol amrywiolion yn dod i'r amlwg. Serch hynny, flwyddyn yn ddiweddarach, rydym wedi dysgu cymaint am y dulliau effeithiol o drin cleifion sydd â COVID-19, ac rydym yn gweld buddion yr ymdrech enfawr i gyflwyno'r rhaglen frechu. Wrth gwrs, mae pob colled sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn drasiedi ac rydym yn cofio am bawb sydd wedi dioddef profedigaeth. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n mynd yn ddifrifol wael ac yn dioddef o niwed mawr o ganlyniad uniongyrchol i'r haint wedi lleihau'n sylweddol.

Wrth i'r sefyllfa wella, rydym wedi gweld lleihad graddol yn y mesurau rhagofalus a roddwyd ar waith yng Nghymru. Dyma gynnydd pwysig. Cafodd y cyfnodau clo a chyfyngiadau eraill effaith sylweddol ar sawl agwedd ar y gymdeithas gan gynnwys lleihau gweithgarwch economaidd, tarfu ar addysg a chynyddu unigedd cymdeithasol. Gall y rhain i gyd effeithio ar lesiant ac iechyd emosiynol a chorfforol unigolion. Rydym yn parhau i asesu'r effeithiau hyn, yn enwedig o ran iechyd meddwl a gwasanaethau cymunedol.

Mae arwyddion eraill bod y sefyllfa'n gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cau'r tri chyfleuster ysbyty dros dro a sefydlwyd yn nyddiau cynnar y pandemig pan oedd pryder y byddai gwasanaethau iechyd yn cael eu llethu. Rydym yn falch iawn na wnaethom gyrraedd y sefyllfa hon ac y gellir dychwelyd y safleoedd i'w swyddogaethau arferol erbyn hyn. Wrth wneud hyn, hoffwn gydnabod y gefnogaeth hael gan ein partneriaid, y gwirfoddolwyr a'n staff i gyd a gyfrannodd at sefydlu'r cyfleusterau dros dro a'u defnyddio. Dechreuwyd drwy ddarparu llety yng Nglannau Dyfrdwy ar gyfer cleifion a oedd yn gwella ac yna, sefydlwyd canolfannau brechu torfol ar bob safle.

Er bod y datblygiadau hyn yn adlewyrchu cynnydd sydd i'w groesawu, mae hi'n bwysig cydnabod bod COVID-19 yn parhau i effeithio ar y profiad gofal yr ydym wedi gallu ei ddarparu i gleifion.

Mae cydweithwyr wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau cynnal safonau triniaeth glinigol ac ymyriadau er gwaethaf yr amgylchiadau anodd yr ydym wedi eu hwynebu. Ond rydym yn parhau i fod yn atebol am ansawdd ein gwasanaethau i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu ac i'n rhanddeiliaid ehangach. Mae hi'n bwysig felly, ein bod yn nodi ac yn deall lle yr ydym wedi cyfaddawdu a'n bod ni'n gallu bodloni'n hunain a'r cyhoedd, bod y cyfaddawdau hyn wedi'u cyfiawnhau a'u bod yn rhesymol, a'n bod wedi lliniaru eu heffaith cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl.

Er hynny, gwn fod ymweld ag ysbytai a mynd gydag aelodau o'r teulu i apwyntiadau yn un maes lle mae cleifion a'u teuluoedd yn awyddus i weld llacio ar y cyfyngiadau. Rwy'n deall yr anawsterau mae'r mesurau hyn wedi'u hachosi drwy atal cleifion mewnol rhag cael y gefnogaeth gan deulu a ffrindiau y mae ymwelwyr fel arfer yn ei chynnig, a thrwy atal unigolion yn enwedig y rhai sy'n wynebu'r posibilrwydd o gael newyddion drwg, rhag cael cwmni i fynd gyda nhw i apwyntiadau.

Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r cleifion sydd yr ysbyty yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau COVID-19, a hynny oherwydd eu hoedran neu gyflyrau iechyd eraill. Rydym wedi gorfod sicrhau ein bod yn gwarchod y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ogystal â cheisio lleihau'r risg o amharu ar ein gwasanaethau oherwydd bod rhaid i staff hunanynysu.

Ar hyn o bryd, wrth i mi ysgrifennu yng nghanol mis Mehefin 2022, mae newidiadau i'r canllawiau cenedlaethol wedi caniatáu i ni lacio nifer o'r amodau ar gyfer ymweld. Rydym yn gobeithio y bydd sefyllfa ehangach COVID-19 yn caniatáu i ni lacio'r cyfyngiadau ymweld ymhellach yn yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod.

Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai cleifion yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â'r anawsterau cynyddol o ran cael apwyntiadau meddygon teulu a deintyddion dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn ogystal â'r lleihad yn nifer yr ymgynghoriadau wyneb yn wyneb yn sgil mesurau atal COVID-19.

Wrth i ni symud ymlaen, mae ffocws y Bwrdd Iechyd bellach yn glir ar fynd i'r afael â'r effaith y mae COVID-19 wedi'i gael ar driniaethau cleifion sydd â chyflyrau eraill. Mae ein staff wedi gwneud ymdrech eithriadol i sicrhau bod cleifion sydd â diagnosis o ganser a chyflyrau eraill sy'n hanfodol o ran amser yn parhau i gael eu triniaeth. Er mwyn gwneud hyn, a pharhau i ymateb i'r galwadau brys cynyddol a achosir gan y pandemig, bu'n rhaid i ni ohirio ein gwasanaethau dewisol arferol am gyfnodau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cadw pellter cymdeithasol, yr angen i gadw cleifion â COVID-19 ar wahân, a'r gweithdrefnau rheoli heintiau ychwanegol y bu'n rhaid i ni eu cyflwyno, i gyd wedi lleihau capasiti ein gwasanaethau ar gyfer triniaethau wedi'u cynllunio.

O ganlyniad, mae nifer y cleifion ar ein rhestrau aros a'r amser y maent yn aros i gael eu gweld, wedi cynyddu'n sylweddol. Rydym yn cydnabod ac yn deall bod hyn yn golygu bod cleifion a'u teuluoedd yn byw gydag effeithiau eu cyflyrau am gyfnodau hwy ac y gall hyn olygu llai o symudedd, poen barhaus, anawsterau gweithio ac angen am fwy o ofal gan aelodau eraill y teulu.

Mae'r sefydliad yn gweithio i ailsefydlu'r capasiti a gollwyd oherwydd cyfyngiadau COVID-19 er mwyn i'r cleifion sydd yn aros hwyaf gael triniaeth gefnogol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhoi cynnig triniaeth yn y sector annibynnol, yn enwedig o fewn orthopaedeg ac offthalmoleg i gleifion sy'n glinigol addas. Wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio a'u codi, mae gan y sefydliad gynlluniau ailddechrau er mwyn cyflwyno rhagor o weithgarwch dros y blynyddoedd nesaf.

Ysgogodd ein hymateb i'r pandemig gryn arloesedd a chyflymodd y broses o fabwysiadu technolegau newydd a gweithredu newidiadau, yn enwedig ym meysydd ymgynghoriadau rhithiol ac o bell, a gwaith tîm amlddisgyblaethol. Gwnaed hyn yn wreiddiol er mwyn lleihau cyswllt wyneb yn wyneb ac i gadw pellter cymdeithasol. Serch hynny, roedd y mesurau'n galluogi clinigwyr i weld niferoedd uwch o gleifion yn gyflym.

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni barhau i fireinio a gwella'r trefniadau hyn. Fodd bynnag, lle y bo hi'n glinigol ddiogel a phriodol, bydd y dulliau newydd hyn o weithio yn parhau i chwarae rhan fawr wrth adennill y tir rydym wedi'i golli a sicrhau ein bod yn gallu lleihau'r amser mae cleifion yn ei aros cyn cael eu gweld.

Mae hi'n hollbwysig wrth geisio ailadeiladu ac ehangu ein capasiti, ac ailgynllunio ein gwasanaethau, ein bod ni'n sicrhau ein bod yn cynnal ansawdd ein gwasanaethau ac yn eu gwella.

Oherwydd y newid mewn pwyslais a blaenoriaethau a ddaeth yn sgil y pandemig, penderfynodd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020, i oedi'r broses asesu yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP). Gweithiodd y Byrddau Iechyd i gynllun blynyddol ar gyfer 2021/22.

Aseswyd perfformiad drwy gydol y flwyddyn yn erbyn mesurau fframwaith cyflawni cenedlaethol GIG Cymru. Yn gyffredinol, gwelsom welliant mewn 39 o'r mesurau, a dirywiad ym mherfformiad 35 o'r mesurau. Roedd y dirywiad ar y cyfan, yn ymwneud â gofal dewisol a gofal heb ei drefnu. Fel y nodwyd eisoes, mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar y meysydd hyn oherwydd yr oedi yn y gweithgarwch dewisol arferol, y cyfyngiadau mewn capasiti a'r galw cynyddol am ofal brys. Yn bwysig, mae ein hymdrechion i gynnal gwasanaethau i gleifion sydd â chanser wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan; er na chyflawnwyd y gyfradd darged o 75% yn erbyn y mesur 62 diwrnod, mae ein perfformiad yn parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru.

O'r 276 o gamau gweithredu a gafodd eu monitro gan y Bwrdd drwy Adroddiad Monitro'r Cynllun Gweithredol ar gyfer 2021/22, cwblhawyd 176 o fewn y cyfnod. Roedd yr oedi cyn cwblhau'r gweddill yn bennaf oherwydd effaith barhaus COVID-19 ac amserlenni recriwtio.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Bwrdd wedi gweithio o fewn ei ddyraniadau ariannol blynyddol ac wedi nodi gwarged o £0.3 miliwn ym 2021/22. Er gwaethaf hyn, oherwydd gorwariant 2019/20, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd statudol i adennill costau dros y cyfnod o dair blynedd yr asesir perfformiad ariannol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar gyfres o flaenoriaethau ar gyfer 2022/23, a blaenoriaethau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol. Yr athroniaeth sy'n ganolog yn ein cynllunio yw mabwysiadu'r dull system gyfan. Mae'r ymateb i'r pandemig unwaith eto wedi dangos os ydym ni am ddarparu gofal yn y modd mwyaf effeithiol, mae angen i ni gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, gyda phob elfen o'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio mewn dull cydgysylltiedig.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, cefnogi unigolion sy'n byw â chyflyrau iechyd hirdymor a mynd i'r afael â'r nifer cynyddol o unigolion sy'n dioddef problemau iechyd meddwl ac sy'n byw gyda dementia wedi'u nodi fel blaenoriaethau penodol yn y cynllun.

Blaenoriaethau'r gwasanaeth yw adfer gweithgarwch gofal wedi'i gynllunio, gwella mynediad at ofal heb ei drefnu, integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion (AMH) a phlant a phobl ifanc (CAMHS) yn well, gwella mynediad i wasanaethau niwroddatblygiadol gan gynnwys asesu a chefnogaeth, a gwneud gwelliannau i'r modd rydym yn rhoi ein model gwasanaethau fasgwlaidd ar waith.

Yn 2022/23, byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar adfer gwasanaethau a dychwelyd ein gweithgarwch craidd i lefelau cyn y pandemig yn ogystal â lleihau'r ôl-groniad o weithgarwch sydd wedi'i achosi gan y pandemig. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant yn Fframwaith Ymyrraeth Wedi'i Thargedu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag Ysbyty Glan Clwyd a gyhoeddwyd ar 7 Mehefin 2022.

Mae'r cynllun yn nodi cyfres o feysydd gweithredu â blaenoriaeth. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn y ddogfennaeth IMTP sydd ar gael ar ein gwefan yn https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/imtp

Byddwn ynghyd â'n gwaith ar y blaenoriaethau IMTP hyn, yn cwblhau ein Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'n Cynllun a Strategaeth Pobl ac yn symud ymlaen â'n rhaglen datblygu sefydliadol drwy sefydlu ein model gweithredu cymunedau iechyd integredig newydd yn 2022. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn datblygu Strategaeth Ansawdd newydd ar gyfer 2022-25 ac mae wedi gosod cyfres o flaenoriaethau ansawdd dros dro wrth i'r strategaeth gael ei datblygu.

Heb amheuaeth, y ddwy flynedd ddiwethaf yw'r rhai anoddaf i'r GIG eu profi erioed. Serch hynny, rydym wedi cyrraedd man lle gallwn edrych y tu hwnt i'r pandemig yn hyderus a chanolbwyntio ar adfer, datblygu a gwella. Bydd y cynlluniau rydym yn eu rhoi ar waith yn rhoi ffocws a chyfeiriad clir wrth i ni symud ymlaen ac yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r heriau newydd ynghyd â'r heriau hir sefydlog sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd.

Rydym yn gwybod y bydd y cyfnod adfer yn cymryd amser a bod ein cynlluniau ar gyfer gwella yn uchelgeisiol. Fel bob amser, bydd ein llwyddiant yn dibynnu ar waith ein cydweithwyr ar draws gogledd Cymru. Mae ein staff wedi dangos gwytnwch, arloesedd, cydweithrediad a brwdfrydedd eithriadol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn rhoi hyder i mi ar gyfer y dyfodol ac unwaith eto, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bob cydweithiwr am eu cyfraniad nhw yn ystod cyfnod mor heriol.

**Jo Whitehead**
**Prif Weithredwr**

## Meysydd Cyfrifoldeb

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer mwy na 700,000 o bobl ar draws chwe sir gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Rydym hefyd yn gyfrifol, mewn partneriaeth, am wella iechyd a lles pobl leol, er enghraifft drwy raglenni, megis ein rhaglenni brechu llwyddiannus a gweithgarwch iechyd ysgolion.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl yn ogystal ag ysbytai acíwt. Mae'n gweithredu tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a chanolfannau timau cymunedol. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau gofal iechyd carchar i CEM Berwyn, Wrecsam. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydlynu gwaith 97 o bractisau meddygon teulu, a gwasanaethau'r GIG sy'n cael eu darparu gan 82 o bractisau deintyddol ac orthodonteg, 72 o bractisau optometreg ac optegwyr a 150 o fferyllfeydd yng ngogledd Cymru.

Yn 2021/22 roedd gan y Bwrdd Iechyd incwm refeniw o £1.87 biliwn ac roedd yn cyflogi oddeutu 19,350 (16,850 o staff gyfwerth ag amser cyflawn).

Gohiriwyd trefniadau cynllunio tymor canolig integredig ar draws GIG Cymru yn 2020/21 wrth i'r gwasanaeth ymateb i bandemig COVID-19 a pharhaodd hyn yn 2021/22. Gan adeiladu ar y Fframwaith Gweithredu chwarterol a ddatblygwyd yn 2020/21, datblygodd y Bwrdd Iechyd, gynllun blynyddol yn ymateb i'r heriau unigryw a oedd yn deillio o'r pandemig ac yn wynebu'r holl wasanaethau cyhoeddus a'r gymdeithas yn gyffredinol. Roedd yn adlewyrchu'r heriau roedd yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â nhw wrth ddarparu gwasanaethau iechyd yn ogystal â chefnogi a diogelu staff. Ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Tymor Canolig Integredig 3 blynedd ar gyfer y cyfnod 2022-25.

Canlyniad y gwaith i fynd i'r afael â phandemig COVID-19 oedd ysgogi mwy o weithio mewn partneriaeth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol a buom yn cymryd rhan weithredol mewn nifer o raglenni Cymru gyfan. Roedd ein cynllun yn cydnabod y gwaith sydd angen ei wneud mewn partneriaeth, i gefnogi cymunedau sy'n agored i niwed a diogelu iechyd a lles y boblogaeth er mwyn cefnogi egwyddorion 'Cymru Iachach'.

Er mwyn bodloni ysbryd a bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fe wnaethom barhau â'n gwaith tuag at wella sut rydym yn gweithio at yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein busnes bob dydd. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar y Bwrdd Iechyd ynghyd â chyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru, i gyfrannu at gyflawni saith nod llesiant cenedlaethol, i ehangu'n golygon ac i ystyried y tymor hir wrth wneud hynny.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau â'r gwaith i atgyfnerthu ei ffocws ar iechyd y boblogaeth, gan weithio mewn partneriaeth gydag ystod o sefydliadau ledled gogledd Cymru. Yn ystod 2021/22, buom yn gweithio ar adnewyddu asesiad rhanbarthol anghenion iechyd y boblogaeth sydd ynghyd â'n gweithwyr rhanbarthol, yn cefnogi ein gweithgarwch cynllunio. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac mae ein rhaglen 'Gogledd Cymru Iach' yn parhau'n ganolbwynt i'r gwaith hwn o fewn y Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol i sicrhau y darperir ystod eang o raglenni cenedlaethol megis sgrinio, brechu ac iechyd plant ar lefel leol.

Yn ogystal â gwella iechyd a darparu gwasanaethau clinigol a gofal, mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd sector cyhoeddus ehangach i gefnogi polisi cenedlaethol, er enghraifft o ran hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol, yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a hybu grwpiau sydd dan anfantais gymdeithasol-economaidd.

Er mwyn cyflawni'n hamcanion, rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner megis awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i drafod anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â nhw, hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned a manteisio ar gyfleodd i gydweithio. Mae'r cyrff yn cynnwys:

- Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol;
- Awdurdodau Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam);
- Cydbwyllgor Canolbarth Cymru;
- Cyrff GIG cyfagos yng Nghymru a Lloegr;
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus/Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol;
- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol;
- Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Rhanbarthol;
- Partneriaid o'r Trydydd Sector;
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

## Effaith COVID-19

Mae pandemig COVID-19 wedi parhau i gael effaith fawr ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd drwy gydol y flwyddyn.

Er bod ein gwasanaethau wedi ymdopi'n dda â'r gofynion ychwanegol gan gleifion â COVID-19, mae hyn wedi golygu bod angen parhau â'r trefniadau eithriadol a roddwyd ar waith ar ddechrau 2020. Mae hyn wedi cynnwys parhau i newid dynodiad a phwrpas rhai wardiau er mwyn creu ardaloedd ar wahân gyda chapasiti digonol ar gyfer cleifion â COVID-19.

Rydym wedi gorfod cadw'r mesurau sydd eu hangen ar gyfer lleihau'r risg o drosglwyddo haint, gan gynnwys mwy o ddefnydd o offer amddiffynnol personol (PPE) gan staff, a rheoli mynediad a chreu mwy o ofod corfforol (gan gynnwys rhwng gwelyau ac mewn mannau aros) er mwyn cynnal pellter cymdeithasol. Rydym wedi parhau i adleoli staff i gefnogi lle'r oedd y galw mwyaf ac i sicrhau bod digon o staff i weithredu'n ddiogel pan oedd cydweithwyr yn sâl neu'n hunanynysu, ac i weithredu'r rhaglen frechu ac atgyfnerthu. Yn hyn o beth, mae hyblygrwydd ein gweithlu wedi bod yn wirioneddol glodwiw.

Mae'r ffactorau hyn i gyd wedi cyfrannu at leihau capasiti cyffredinol ein gwasanaethau. O ganlyniad, a thrwy gydol y flwyddyn, bu'n rhaid blaenoriaethu pa wasanaethau y gallem barhau i'w darparu, gan gynnwys gofal brys a thriniaethau am gyflyrau megis canser lle y gall cyflymder yr ymyrraeth effeithio ar y canlyniad yn sylweddol. Mae hyn wedi golygu ein bod ar brydiau yn ystod y flwyddyn, wedi gorfod gohirio'r gwasanaethau arferol a gynlluniwyd.

Yn anochel, mae hyn wedi achosi cynnydd sylweddol yn nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiadau a thriniaethau. Rydym yn rhoi cynlluniau adfer ar waith yn ddi-oed ac mae gennym gynlluniau tymor hwy i liniaru'r cyfyngiadau parhaus ar ein capasiti a lleihau nifer y cleifion ar ein rhestrau aros.

Bydd y cynlluniau hyn yn adeiladu ar yr arloesedd a gafodd ei sbarduno gan y pandemig. Mae'r modd mae llawer o'r gwasanaethau'n cael eu darparu wedi gorfod esblygu'n gyflym, gan gynnwys llawer mwy o ddefnydd o'r ffôn, fideo a systemau ar-lein i ddarparu ffyrdd newydd i gleifion gysylltu â gwasanaethau ac i alluogi ymgynghoriadau heb gyswllt wyneb yn wyneb.

Cyflwynwyd gwasanaeth cenedlaethol GIG 111 a ddarperir gan Wasanaethau Ambiwlans Cymru yng ngogledd Cymru ym mis Mehefin 2021. Gan adeiladu ar wasanaeth Galw Iechyd Cymru, mae'n cynnig un rhif ffôn rhad ac am ddim y gall ein poblogaeth ei ddefnyddio i gael cyngor a chymorth iechyd. Os nad yw hyn yn ddigon i ddatrys materion cleifion ar unwaith, gall GIG 111 Cymru gyfeirio unigolion at y gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion, gan gynnwys gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau a gofal deintyddol brys.

# Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol

## Practisau Meddygon Teulu

Bu i bob practis meddyg teulu aros ar agor yn ystod y pandemig gan ddatblygu datrysiadau lleol a chefnogi nifer o 'hybiau' clwstwr i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau Atal a Rheoli Heintiau (IP&C). Bu'n rhaid i lawer weithredu dulliau amgen i sicrhau mynediad a thriniaeth i'w cleifion. Atgyfnerthwyd y berthynas waith rhwng y Bwrdd Iechyd a chontractwyr gofal sylfaenol annibynnol wrth i bawb gydweithio'n agos i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau ar gael i fodloni anghenion y boblogaeth ac i ofalu am y gweithlu gofal sylfaenol. Yn ogystal â chynnig eu gwasanaethau craidd, mae practisau meddygon teulu wedi cyfrannu'n sylweddol at ddarparu'r rhaglen frechu COVID-19 drwy gydol 2021/22.

Fel rhan o'r ymateb hwn, cefnogodd y Bwrdd Iechyd y broses o gyflwyno gwasanaethau ar-lein drwy gomisiynu llwyfannau digidol megis 'eConsult' ac accuRx ar ran practisau meddygon teulu. Mae'r rhain yn caniatáu i gleifion gael gafael ar wasanaethau hunangymorth, gwasanaethau brysbennu ar-lein ac ymgynghoriadau digidol, sydd wedi cynyddu'r mynediad at y gwasanaethau mae'r practisau'n eu cynnig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu cyllid er mwyn parhau â'r trefniadau cyfathrebu ar-lein yn 2022/23.

Fodd bynnag, bu twf sylweddol yn y galw am ymgynghoriadau gofal sylfaenol yn ystod y flwyddyn. Er i astudiaeth ddangosol ddod i'r casgliad bod gweithgarwch mewn practisau meddygon teulu wedi cynyddu cymaint ag 20%, sy'n cynnwys apwyntiadau dros y ffôn, fideo ac wyneb yn wyneb, mae heriau'n parhau o ran bodloni'r galw ychwanegol, ac rydym yn cydnabod bod rhai cleifion wedi cael anawsterau wrth geisio gwasanaethau.

Mewn ymateb i'r galw cynyddol, cynigiodd lawer o bractisau oriau agor ychwanegol dros fisoedd y gaeaf ac, yn unol â'r rhaglen strategol genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol, mae Ardaloedd y Dwyrain a'r Canol wedi sefydlu Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC). Mae cwblhau'r gwaith i sefydlu'r UPCC mewn lleoliadau strategol ar hyd gogledd Cymru yn un o flaenoriaethau cytunedig y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC)

Mae canolfannau Ardal y Dwyrain sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac yn Ysbyty Cymuned Yr Wyddgrug, yn cefnogi'r 39 o bractisau meddygon teulu yn Siroedd Wrecsam a'r Fflint, yn ogystal ag Adran Achosion Brys Ysbyty Maelor Wrecsam, gan ddarparu gwasanaeth brys ar yr un dydd i gleifion. Mae Canolfan Gofal Sylfaenol Brys y Dwyrain yn cael ei staffio gan feddygon teulu ac Uwch Ymarferwyr nyrsio sy'n darparu ymgynghoriadau dros y ffôn ac apwyntiadau wyneb yn wyneb gyda chleifion fel y bo'n briodol.

Cafodd y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys yn Ardal y Canol ei chynllunio ar sail model clwstwr meddygon teulu unigol a chafodd ei sefydlu yng Nghlwstwr Gogledd Sir Ddinbych. Mae'r Ganolfan yn cael ei chynnal gan bractis Healthy Prestatyn Iach, sy'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd ac yn darparu gofal brys ar y diwrnod i gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda phractisau meddygon teulu yn y clwstwr. Arweinir y gwasanaeth gan Uwch Ymarferwyr a chynigir ymgynghoriadau rhithiol ac wyneb yn wyneb i gleifion fel y bo'n briodol. Sefydlwyd contract â'r elusen MIND i weld unigolion sy'n profi gorbryder ac iselder hefyd.

Fel rhan o'r rhaglen fraenaru genedlaethol, mae'r Canolfannau Gofal Brys Sylfaenol yn cael eu gwerthuso a defnyddir arolwg cleifion i fesur boddhad.

**Clystyrau**

Mae gwaith clwstwr yn parhau i ddatblygu, gyda thimau'n cydweithio o fewn eu clwstwr ac yn cydweithredu gyda chlystyrau eraill i nodi anghenion cleifion a mynd i'r afael â nhw yn eu cymunedau lleol drwy arloesi a sefydlu gwasanaethau newydd.

Yn ystod 2021/22, ymestynwyd y Rhaglenni Ffordd o Fyw drwy benodi staff ychwanegol. Mae'r rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar ffactorau megis lefelau gweithgarwch a deiet er mwyn lleihau'r risg o gyflyrau cronig fel Diabetes Math 2 a gordewdra yn y boblogaeth.

Mae clystyrau'n parhau i gefnogi pobl mewn cartrefi gofal. Maent wedi ehangu'r defnydd o Uwch Ymarferwyr Nyrsio a hyfforddeion er mwyn datblygu gwasanaeth ymweliadau cartref wedi'u halinio ar gyfer y practisau clwstwr. Mae hyn yn ein galluogi i leihau amlgyffuriaeth (cleifion yn cymryd meddyginiaeth ddiangen, a all ddigwydd yn arbennig gyda chleifion sydd â mwy nag un cyflwr) yn y cartrefi ac i leihau'r galwadau i Wasanaethau Ambiwlans Cymru ac ymweliadau ag adrannau achosion brys y tu allan i oriau.

Dechreuodd arweinwyr Fferyllfeydd Cymunedol yn eu swyddi yn 2021/2022 sydd wedi hwyluso cyfraniad cynyddol at waith y clystyrau lleol.

Mae'r clystyrau yn Ardal y Gorllewin wedi recriwtio pedwar uwch ymarferydd nyrsio dan hyfforddiant i weithio ym maes gofal sylfaenol er mwyn helpu bodloni'r galw cynyddol gan y boblogaeth leol ac i gynyddu capasiti at y dyfodol.

Mae'r ddarpariaeth rhagnodi cymdeithasol yn mynd o nerth i nerth. Cafodd ei hymestyn yn Ynys Môn er mwyn cynnig ymyrraeth gynnar i unrhyw gleifion a'u teuluoedd a oedd yn dioddef unigedd, unigrwydd neu bryderon cymdeithasol.

Mae fferyllwyr cymunedol wedi bod yn gweithio gyda chlystyrau yn Nwyfor i gefnogi'r galw cynyddol gan drigolion dros dro yn ystod cyfnodau prysur, pan fo'r boblogaeth yn cynyddu i deirgwaith ei maint. Mae'r Prosiect Rhagnodwr Annibynnol yn golygu bod mwy o gapasiti i ddelio â'r mewnlifiad o drigolion dros dro gan ganiatáu i feddygfeydd ganolbwyntio ar ofalu am gleifion sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Mae ymarferwyr llesiant teulu wedi gweithio'n agos gyda chlystyrau i ddatblygu rôl sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phryderon iechyd emosiynol a hefyd, i gynnig llwybr uniongyrchol i oedolion sydd â phryderon iechyd a lles lefel isel. Byddant yn cysylltu â therapyddion galwedigaethol 'Fedra'i' o fewn gofal sylfaenol a chanolfannau cymunedol 'Fedra'i' er mwyn darparu dull cyfannol.

Yn Ardal y Dwyrain, mae clystyrau wedi cynyddu eu defnydd o dechnoleg drwy ddefnyddio systemau megis eConsult, Attend Anywhere a Microsoft Teams sydd wedi ychwanegu capasiti a gwytnwch a hwyluso'r ddarpariaeth lawn o gyngor meddygol a lleihau'r potensial o drosglwyddo COVID-19. Maent hefyd wedi sefydlu gwasanaeth fflebotomi ar y safle a gweithio gyda phartneriaid system gan gynnwys cartrefi gofal, i sicrhau bod cynlluniau gofal ymlaen llaw yn eu lle ar gyfer pob claf lle bo hynny'n briodol.

Mae therapyddion galwedigaethol wedi gweithio'n agos gyda chlystyrau i ddatblygu rôl o fewn gofal sylfaenol er mwyn darparu asesiad ac ymyriad cynnar a chyfannol, yn ogystal â chynllun ymyriad personol i unrhyw glaf sy'n dioddef symptomau sy'n effeithio ar eu gallu i weithredu. Gall therapyddion galwedigaethol wneud y gorau o'r sgiliau amlddisgyblaethol o fewn y Tîm Gofal Sylfaenol a'u gwella trwy ddefnyddio dulliau gofal rhagweladwy neu fesul cam fel y bo'n briodol, er mwyn gwella canlyniadau cleifion.

Mae'r clystyrau yn adeiladu ar eu llwyddiannau. Mae'r gwaith pennu cyfeiriad a wnaed yng Ngorllewin Conwy a Meirionydd wedi cyfrannu gwybodaeth allweddol i gefnogi rhoi'r Rhaglen Datblygu Clystyrau ar Garlam (ACD) cenedlaethol ar waith.

Bydd hyn yn parhau i gael ei ddatblygu'r flwyddyn nesaf drwy gynnal gweithdai gyda phartneriaid er mwyn cytuno sut y bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno yng ngogledd Cymru, a'r gwerth y bydd yn ei ychwanegu at drefniadau presennol y Clystyrau. Bydd Grwpiau Cynllunio'r Holl Glystyrau (PCPG) yn cael eu sefydlu er mwyn cymryd rhan fwy gweithredol o fewn y bartneriaeth. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu â'r contractwyr gofal sylfaenol annibynnol, gan gynnwys fferylliaeth gymunedol, deintyddiaeth ac offthalmoleg a chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ACD, yn ogystal â chefnogi sefydlu Cydweithrediadau Proffesiynol.

Bydd cydweithwyr o feysydd gwybodeg a pherfformiad yn cefnogi'r rhaglen i ddeall y data sydd ei angen gan y Clystyrau wrth gynllunio a chomisiynu datblygiadau a bydd y rhain yn cael eu hymgorffori mewn dangosfwrdd data digidol. Bydd hyn yn defnyddio ystod o ddata a gwybodaeth gan gynnwys demograffeg, proffiliau poblogaeth, penderfynyddion ehangach o ddata iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn adeiladu asesiadau cynhwysfawr o anghenion lleol.

Fel rhan o'r prosiect Deddf Gofal Gwrthgyfartal, mae tîm y rhaglen hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Iechyd Cyhoeddus i drawsnewid asesiadau anghenion ardaloedd lleol, yn ogystal â sgyrsiau cymunedol, yn gyfres o fewnwelediadau y gellir eu gweithredu. Bydd y rhain yn cefnogi Clystyrau wrth iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd orau o ddiwallu anghenion eu poblogaeth.

**Yr Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol**

Sefydlwyd yr Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol fel rhan o genhadaeth y Bwrdd Iechyd i gadw gogledd Cymru ar flaen y gad o ran gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.

Yn ystod 2021/22 mae'r Academi wedi arwain, datblygu a chyflwyno'r Interniaeth Cymdeithion Meddygol mewn Gofal Sylfaenol ar draws gogledd Cymru. Cafodd y rhai a gyfranogodd wobr y Poster Gorau yn y categori Dylunio Gwasanaeth yng Nghynhadledd RCGP 2021.

Gan weithio ar y cyd gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, mae'r Academi hefyd wedi arwain datblygiad Modelau Cylchdro mewn Gofal Sylfaenol, gydag Uwch Ymarferwyr Parafeddygol yn cefnogi darparu gofal mewn practisau meddygon teulu. Mae crynodebau a phosteri ar y gwaith hwn wedi'u derbyn yng nghynadleddau cenedlaethol EMS 999 (Gwasanaethau Meddygol Brys) a Bord Gron Ryngwladol Parafeddygaeth.

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddwyd mai Nia Boughton, Nyrs Ymgynghorol - Gofal Sylfaenol oedd Nyrs y Flwyddyn yn y Categori Nyrsio Uwch ac Arbenigol yng Ngwobrau Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru. Mae'r wobr hon yn cydnabod ei gwaith yn gwella ansawdd a chysondeb yr hyfforddiant a roddir i nyrsys sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal sylfaenol ar hyd a lled gogledd Cymru. Mae'n cynnwys cyflwyno fframwaith hyfforddi arloesol sydd wedi'i seilio ar fodel gofal cymdeithasol sy'n archwilio'r ystod o ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd unigolyn, yn hytrach na dim ond yr hyn sy'n cael ei gyflwyno'n feddygol. Mae ymarferwyr sy'n defnyddio fframwaith Nia wedi nodi gwelliant sylweddol yn eu profiad hyfforddi, ac mae gwerthusiad cychwynol yn awgrymu ei fod wedi gwella canlyniadau cleifion ac arwain at fwy o gysondeb yn ansawdd ymgynghoriadau Uwch Ymarferwyr Nyrsio.

**Fferylliaeth**

Parhaodd fferyllfeydd cymunedol yng ngogledd Cymru i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau yn 2021/22 a hynny er gwaethaf tonnau olynol pandemig COVID-19. Fodd bynnag, bu problemau staffio sylweddol a ddwysawyd oherwydd salwch a gofynion hunanynysu a achosodd i rai fferyllfeydd gau am gyfnodau byr.

Mae ymchwydd yn y galw, ynghyd â gofynion cadw pellter cymdeithasol parhaus sy'n cyfyngu ar nifer y cleifion y caniateir iddynt fynd i mewn i fferyllfa ar yr un pryd, wedi achosi rhesi o gleifion yn aros i gael eu gweld mewn rhai fferyllfeydd. Ar y cyfan fodd bynnag, mae timau'r fferyllfeydd wedi gallu bodloni'r galw a pharhau i ddarparu gwasanaeth ardderchog i'w cwsmeriaid.

Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau ychwanegol wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig ac mae gwasanaethau wedi cynyddu dros y flwyddyn. Golyga hyn fod llai o bwysau ar feddygon teulu a gwasanaethau gofal heb ei gynllunio a'u bod nhw'n gallu ymateb i ofynion cleifion sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae hyn hefyd wedi cynnwys cyflwyno'r Gwasanaeth Fferylliaeth Rhagnodi Annibynnol ac mae ugain o fferyllfeydd yng ngogledd Cymru bellach wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.  Yn yr hydref 2021, ail-lansiwyd y Gwasanaeth Profi a Thrin Dolur Gwddw. O dan y cynllun hwn, gall fferyllwyr roi cymorth i gleifion sydd â dolur gwddw a rhoi gwrthfiotig os yw'n briodol.

Ym mis Hydref 2021, cymeradwywyd yr Asesiad o Anghenion Fferyllol ar gyfer gogledd Cymru gan y Bwrdd Iechyd, gan roi sicrwydd i gontractwyr i'w galluogi i fuddsoddi yn eu hadeiladau a'u gwasanaethau.

Ym mis Rhagfyr 2021, cytunodd Llywodraeth Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru a chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd ar Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol newydd ac fe'i cyhoeddwyd.  Mae'r fframwaith newydd hwn yn darparu llwyfan arbennig ar gyfer datblygu'r sector ac yn symud y ffocws yn sylweddol i gydbwyso'r gwasanaethau dosbarthu/cyflenwi a gynigir gan y fferyllfeydd, â'r gwasanaethau clinigol y gallant eu cynnig. Mae hyn yn cynnig nifer o gyfleoedd yng ngogledd Cymru ac yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf o ran datblygu gwasanaethau, megis y rhai sy'n defnyddio rhagnodwyr sy'n fferyllwyr annibynnol er mwyn ei gwneud hi'n haws cael gafael ar wasanaethau a symud gofal yn nes at y cartref.

Yn ystod y flwyddyn bu llawer llai o ddefnydd o'r hyblygrwydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r pandemig a oedd yn caniatáu lleihau oriau agor a gwasanaethau i gael eu darparu o bell dros y ffôn neu alwadau fideo. Wrth i'r hyblygrwydd ddirwyn i ben ym mis Mawrth 2022, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda chontractwyr i ddiwygio'u horiau gweithredu er mwyn cefnogi llesiant staff a sicrhau bod gwasanaethau diogel ac effeithiol yn cael eu darparu mewn modd cynaliadwy.

Dros y flwyddyn, gwelwyd colli staff o fferyllfeydd o ganlyniad i ymddeoliadau neu symud i weithio i sectorau gwahanol. Mae hyn wedi arwain at faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu fferylliaeth ar hyd a lled y DU ac wedi'i gwneud yn anos dod o hyd i staff i lenwi'r bylchau sy'n codi. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n agos gyda darparwyr fferylliaeth i hybu recriwtio, gydag ymgyrch recriwtio traws-sector, bwrpasol yn cael ei harwain gan dîm fferylliaeth y Bwrdd Iechyd, gyda chwmnïau fferyllol yn cynnig ychwanegiadau recriwtio a swyddi ar y cyd yn cael eu datblygu ar draws meysydd fferylliaeth gymunedol, gofal sylfaenol a gofal eilaidd.

**Deintyddiaeth**

Mae COVID-19 wedi cael effaith fawr ar y gwasanaethau a ddarperir gan ymarferwyr deintyddol cyffredinol a Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol y Bwrdd Iechyd. Mae gofal deintyddol yn golygu bod cyswllt wyneb yn wyneb agos ac mae llawer o driniaethau deintyddol yn cynhyrchu aerosolau, ac felly'n cynyddu'r risg o drosglwyddo'r feirws sy'n achosi COVID-19.

O ganlyniad, bu'n rhaid i bractisau deintyddol roi'r gorau i'r rhan fwyaf o driniaethau ar ddechrau'r pandemig er i'r mwyafrif aros ar agor i roi ymgynghoriadau a chynnig cyngor dros y ffôn, trefnu presgripsiynau a darparu triniaethau brys syml nad oeddent yn cynhyrchu aerosolau. Sefydlodd y Bwrdd Iechyd ganolfannau deintyddol brys dynodedig gydag offer i drin cleifion a oedd angen triniaethau brys mwy sylweddol.

Ers mis Gorffennaf 2020, mae practisau wedi gallu adfer gwasanaethau fesul cam, yn unol â chanllawiau gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Mae practisau yng ngogledd Cymru bellach yn darparu gwasanaethau deintyddol cynhwysfawr, er ei fod ar lai o gapasiti i ganiatáu gweithdrefnau rheoli haint gwell, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol yn adeiladau'r practisau, mwy o awyru a chyfnodau tawelach rhwng cleifion er mwyn caniatáu amser i awyru a glanhau.

Mae'r capasiti is hwn yn dilyn gohirio triniaethau ar ddechrau'r pandemig, yn golygu bod practisau deintyddol wedi wynebu ôl-groniad o gleifion ac felly, wedi gorfod blaenoriaethu cleifion yn ôl angen clinigol, gydag archwiliadau arferol yn aros nes bod cleifion sydd ag angen triniaeth weithredol wedi cael eu gweld.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu capasiti ychwanegol ar sail achlysurol, gyda deintyddion y Stryd Fawr er mwyn helpu ateb y galw am ofal brys. Bydd hyn yn ei le hyd at fis Mawrth 2022, pan fydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal.

Mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn parhau i gynnig gwasanaeth i bobl sy'n agored i niwed ond mae'n wynebu heriau sylweddol wrth geisio gwella'r trefniadau awyru yn ei adeiladau. Bydd angen mynd i'r afael â hyn er mwyn dod â chapasiti yn ôl i lefelau cyn y pandemig.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau rhaglen drawsnewid Gwasanaethau Deintyddol yng ngogledd Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys staff y Bwrdd Iechyd a chontractwyr annibynnol i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n ein hwynebu wrth i ni symud o fesurau pandemig COVID-19. Mae hyn yn ymwneud â'r holl wasanaethau a'r bwriad yw sicrhau bod y gwasanaethau deintyddol yng ngogledd Cymru yn addas at eu diben, gan safoni arferion gwaith, mabwysiadu methodoleg gwelliant parhaus i brosesau TG, hyfforddi a chreu llwybrau cleifion, a sicrhau bod offer, strategaeth, a chefnogaeth briodol ar waith i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i'n poblogaeth.

Rydym wedi datblygu cyfarwyddyd comisiynu deintyddol a blaenoriaethau comisiynu ar gyfer y cyfnod pum mlynedd 2022/23 i 2027/28. Mae'r rhain yn ymwneud â mynediad at wasanaethau ar bob lefel - gwasanaethau deintyddol cyffredinol (gan gynnwys gwasanaethau Haen 2 mwy cymhleth), gwasanaethau deintyddol cymunedol, gwasanaethau triniaeth frys, ac orthodonteg.

Mae'r Rhaglen Diwygio Contractau yn ail ddechrau ar y 1 Ebrill 2022. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda phractisau i geisio deall a fyddent yn dewis ymuno â'r Rhaglen, dychwelyd at gontractau'n seiliedig ar weithgarwch unedau deintyddol (UDA) neu roi eu contractau'n ôl i'r Bwrdd Iechyd.

**Optometreg**

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y gwasanaethau a ddarperir gan Bractisau Optometreg Gymunedol.

Ailddechreuodd archwiliadau llygaid arferol ym mis Gorffennaf 2020 gyda'r mwyafrif o bractisau'n ailagor ar yr amod eu bod yn dilyn canllawiau llym COVID-19. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys cadw pellter a glanhau offer yn well rhwng cleifion sy'n lleihau'r capasiti ym mhob practis.

Yn dilyn ail ddechrau'r gwasanaethau arferol, bu galw mawr a chynyddol am archwiliadau gofal llygaid arferol ac estynedig a gofynnwyd i bractisau barhau i flaenoriaethu cleifion brys pan fo angen.

Sicrhawyd parhad y Llwybrau Partneriaethau Integredig rhwng Gofal Sylfaenol ac Eilaidd a gychwynwyd yn 2020, drwy achos busnes Trawsnewid Gofal Llygaid llwyddiannus ym mis Mehefin 2021. Parhaodd y llwybrau i ddarparu gofal yn nes at y cartref a mynediad mwy amserol at ofal i gleifion glawcoma a retinopathi diabetig.

Bydd diwygio contractau optometreg dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen o fis Ebrill 2022: gyda'r nod o gynyddu cyfleoedd ar gyfer llwybrau integredig Cymru gyfan, drwy ddatblygu sgiliau'r gweithlu optometreg gofal sylfaenol a diwygio contractau optometreg cenedlaethol.

**Nyrsio Ardal**

Yn ystod y flwyddyn, mae ein Timau Nyrsio Ardal wedi addasu eu ffyrdd o weithio ymhellach er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau 24 awr i gleifion yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r timau wedi gweithio'n ddiflino ac wedi bod yn hyblyg o ran eu gwyliau er mwyn cynnal y gwasanaeth. Mae hyn, ynghyd â buddsoddiad ychwanegol mewn Cynorthwywyr Gofal Iechyd, wedi sicrhau bod mwy o bobl yn cael gofal yn eu cartrefi gan gynnwys darparu gofal cam i fyny a gofal cam i lawr pan gânt eu rhyddhau o'r ysbyty; yn ogystal â chefnogi awdurdodau lleol a chartrefi gofal i lenwi'r bylchau oherwydd diffyg staff gofal cartref a nyrsio a staff cartrefi gofal nyrsio a phreswyl. Mae hyn wedi ein helpu ni i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbytai ac wedi galluogi unigolion i gael gofal a chefnogaeth yn y man o'u dewis.

Yn ogystal â gofalu am y rhai sy'n gaeth i'r tŷ, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer sy'n dewis marw gartref, ac mae'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal wedi bod ar flaen y gad o ran darparu'r gofal diwedd oes hwn, gan gadw urddas a pharch tuag at y cleifion a'u teuluoedd.

Mae'r Timau Nyrsio Ardal hefyd wedi chwarae rhan bwysig yn addysgu a darparu gwybodaeth i gleifion, eu perthnasau a'u teuluoedd i'w helpu nhw i ymdopi a rheoli eu cyflyrau a'u triniaethau yn y cartref ac mewn cartrefi gofal er mwyn osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty.

Ynghyd â'u gwaith arferol, mae'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal hefyd wedi darparu miloedd o frechiadau ffliw a brechiadau atgyfnerthu COVID-19 i unigolion ar hyd a lled gogledd Cymru, yn enwedig i'r rhai sy'n gaeth i'w tai.

Yn 2021-22, gwelwyd gwelliannau mewn mynediad a darpariaeth TG i'r Timau Nyrsio Ardal ar draws gogledd Cymru gan alluogi staff i weithio'n fwy hyblyg ac yn fwy effeithiol. Darparwyd ffonau symudol clyfar i bob Nyrs Ardal a Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yng ngogledd Cymru er mwyn gweithredu system amserlennu Malinko a rhoi mynediad i e-bost, MS TEAMS ac adnoddau ar-lein i Nyrsys Ardal tra eu bod wrth eu gwaith.

Bu cynnydd pellach o ran gweithredu cynllun Egwyddorion Nyrsio Ardal Llywodraeth Cymru wrth i rolau Ymarferwyr Cynorthwyol gael eu datblygu, ac maen nhw'n gwneud cyfraniad cynyddol i'r timau.

Fel rhan o brosiect Queen's Nursing Institute, mae un tîm yn treialu Un Man Cyswllt (SPOC) ar gyfer Nyrsio Ardal. Mae manteision cyfathrebu effeithiol a gweithio'n fwy effeithlon wedi cael effaith gadarnhaol ar y cleifion a bydd y cynllun yn cael ei ehangu.

Mae'r gwasanaeth Tuag Adref (Homeward Bound) yn Ardal y Gorllewin wedi parhau trwy gydol y flwyddyn â'r holl gyfeiriadau'n cael eu cydlynu trwy un ganolfan. Yn ogystal â sicrhau y gellid parhau i ofalu am gleifion gofal lliniarol yn eu cartrefi, maen nhw wedi darparu mwy o gymorth er mwyn osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty a hwyluso rhyddhau cynnar gan helpu i leihau'r pwysau ar welyau cleifion mewnol. Ar unrhyw un adeg, mae'r tîm yn cefnogi tua 40-50 o gleifion yn eu cartrefi.

**Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc**

Mae **Ymweliadau Iechyd** wedi bod yn wasanaeth angenrheidiol trwy gydol y pandemig; mae teuluoedd wedi profi unigedd a systemau cymorth cymdeithasol cyfyngedig sy'n golygu ei bod yn bwysicach fyth i Ymwelwyr Iechyd roi cefnogaeth i rieni a phlant. Mae cynnal y rhaglen o gysylltiadau a nodir yn Plant Iach Cymru wedi bod yn heriol ond fe'i hystyriwyd yn flaenoriaeth. Mae Ymwelwyr Iechyd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol er mwyn cynnig cefnogaeth ychwanegol i deuluoedd sy'n agored i niwed ac angen gofal cofleidiol. Mae'r timau wedi gorfod addasu'r cymorth a gynigir i deuluoedd; gyda mwy o gyswllt dros y ffôn ac asesu risg cyn ymweliadau cartref.

Mae'r **Timau Nyrsio Ysgol** wedi gweithio'n arbennig o galed yn ystod y pandemig er mwyn cefnogi plant, yn enwedig tra bod ysgolion ar gau. Mae'r timau wedi imiwneiddio plant mewn lleoliadau amgen ac yn ystod gwyliau'r ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag afiechydon gan gynnwys HPV (feirws papiloma dynol). Cyflwynwyd y rhaglen imiwneiddio rhag ffliw i bob plentyn ysgol uwchradd yn ogystal â'r rhaglen ysgolion cynradd, gyda nifer dda yn manteisio arni. Mae cyfeiriadau diogelu wedi cynyddu gan gynnwys achosion o gam-drin domestig a phlant sydd angen gofal. Mae Nyrsys Ysgol a Phediatryddon Cymunedol wedi chwarae rhan sylweddol wrth ymateb i'r galw hwn.

Mae **Pediatryddon Cymunedol a Thimau Anabledd** wedi cael blwyddyn heriol gyda chynnydd yn nifer y cyfeiriadau am gymorth ac asesiadau. Mae'r straen a achoswyd gan y pandemig wedi arwain at gynnydd yn nifer y lleoliadau teulu a maethu sy'n methu ac mae'r timau wedi bod yn rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi teuluoedd a diogelu plant.

Bu cynnydd yn nifer y derbyniadau yn yr **Adrannau Pediatreg a Newydd-anedig** oherwydd cyflyrau anadlol yn ymwneud â COVID-19 a phobl ifanc yn hunan-niweidio oherwydd gofid. Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd yn nifer a chymhlethdod y plant sydd ag anghenion sylweddol ac wedi cefnogi nifer â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd drwy'r llwybr diwedd oes. Mae penodi Pediatregydd Ymgynghorol ar gyfer Gofal Diwedd Oes wedi bod yn ddatblygiad o bwys. Mae cefnogi rhieni sy'n ofalwyr wrth barhau i weithio o fewn cyfyngiadau diogelwch COVID-19 wedi bod yn heriol i'r gwasanaeth.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)** - Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi cael profedigaeth neu ddioddef trawma arall yn ystod y cyfnod hwn. Mae unigedd wedi bod yn anodd i bobl ifanc ynghyd â phryderon ynglŷn â gwaith ysgol, coleg neu brifysgol a thorri ar y drefn arferol. Ers y cyfnod clo cyntaf, bu cynnydd yn nifer y bobl ifanc mewn argyfwng sy'n bryderus iawn, yn hunan-niweidio neu'n colli gobaith ynglŷn â'r dyfodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Rhaglen Wella Ranbarthol wedi'i Thargedu  i arwain y gwaith o drawsnewid a gwella ar draws y gwasanaethau a chynllunio adfer ar ôl COVID-19.  Sefydlwyd 12 ffrwd waith gan gynnwys Mynediad i Wasanaethau, Ymateb i Argyfwng, Profiadau Cleifion, Gweithlu a Recriwtio gydag arweinwyr y ffrydiau gwaith wedi'u penodi o wasanaethau a rhanddeiliaid CAMHS gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau.

Roedd angen ffyrdd newydd o weithio i ymateb i'r cyfeiriadau i'r gwasanaeth a oedd yn cynyddu mewn cymhlethdod yn ystod y pandemig gan gynnwys apwyntiadau rhithiol a chomisiynu asesiadau a therapi preifat i leihau ôl-groniadau'r rhestrau aros ar gyfer gofal arferol.

Mae'r galw cynyddol am Wasanaethau Brys yn ystod y pandemig wedi arwain at chwilio am ffyrdd newydd o weithio er mwyn adnabod mesurau i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu i fod yn argyfwng.  Mae'r rhain yn cynnwys Prosiect Man Diogel / Noddfa sef cynllun peilot yn ardal Wrecsam sy'n cynnig man amgen i unigolion yn hytrach na chael eu derbyn i'r ysbyty.  Mae cynlluniau wedi'u paratoi ar gyfer cynllun peilot yn 2022/23 a fydd yn cynnig addysg a hyfforddiant i staff cartrefi gofal preswyl cymdeithasol i gefnogi pobl ifanc mewn argyfwng.  Mae yna hefyd gynllun peilot ar gyfer ap i helpu pobl ifanc leihau ymddygiad hunan-niweidiol.

Derbyniodd gwasanaethau CAMHS fuddsoddiad sylweddol yn 2021/2022 i gyflawni rhaglen wella ynghyd â chynllun Rhaglen Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.  Darparwyd cyllid ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Argyfwng, CAMHS Arbenigol, Anhwylderau Bwyta, Therapïau Seicolegol a chyflwyniad llawn y prosiect Ysgolion Mewngymorth sy'n darparu ymgynghoriad proffesiynol i bob ysgol yng ngogledd Cymru i gefnogi plant a phobl ifanc.  Mae'r ariannu hwn wedi creu dros 120 o swyddi newydd  yn y gwasanaethau hyn ledled gogledd Cymru.

Mae Arweinwyr Profiadau Cleifion wedi bod yn gweithio tuag at wreiddio strategaeth ar y cyd rhwng CAMHS a'r Adran Niwroddatblygiadol er mwyn gwella ymgysylltu a phrofiadau plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr.  Mae'r gwaith allweddol yn cynnwys cynllun peilot hyfforddiant arweinyddiaeth i bobl ifanc, datblygu presenoldeb cyfryngau cymdeithasol a chyflwyno hyfforddiant Hawliau Plant.

Mae Strategaeth Dim Drws Anghywir sy'n dod â gwasanaethau aml-asiantaeth ar draws gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg ynghyd er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc wedi cael ei gyd-gynhyrchu gyda'n hasiantaethau partner. Bydd Is-grŵp Plant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gyda chefnogaeth Rhaglen Gwella CAMHS yn gweithredu'r strategaeth.  Bydd buddsoddiad pellach yn ein gwasanaethau ymyriad cynnar ac atal yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer ariannu iechyd meddwl Llywodraeth Cymru yn 2022/23.

**Ysbytai Cymunedol**

Fel rhan o wreiddio a mireinio ein llwybrau D2RA (Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu), sydd â'r bwriad o hwyluso asesiadau mwy cywir o anghenion gofal tymor hir cleifion ar ôl iddyn nhw ddychwelyd i'w hamgylchedd byw arferol, rydym wedi ail-fodelu sut rydym ni'n gofalu am ein cleifion yn ein hysbytai cymunedol ac wedi atgyfnerthu ein dulliau adsefydlu ac ail-alluogi (adfer). Rydym wedi rhoi prosesau newydd ar waith sy'n seiliedig ar arfer gorau cenedlaethol er mwyn lleihau'r oedi i gleifion a gwella eu profiadau a'u canlyniadau. Mae hyn wedi cynnwys datblygu bwrdd gwyn electronig a'i roi ar waith ar frys, er mwyn gwella sut rydym yn adolygu statws cleifion bob dydd gan helpu i wella asesiadau rhyddhau a chynllunio a rhoi gwell gwybodaeth am oedi wrth ryddhau cleifion.

**Biwro Cartref yn Gyntaf**

Sefydlwyd y Biwro Cartref yn Gyntaf yn 2020 i gyd-fynd â Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o'r Ysbyty COVID-19. Mae'r Tîm Cartref yn Gyntaf yn defnyddio dulliau amlddisgyblaethol ac aml-asiantaeth mewn lleoliadau cymunedol er mwyn lleihau'r angen i dderbyn cleifion i'r ysbyty ac i gefnogi rhyddhau cleifion yn gynnar o welyau ysbytai acíwt a chymunedol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ethos mai'r lle gorau i'r claf yw ei gartref, neu cyn agosed i'w gartref a phosibl cyn belled â bod hynny'n glinigol ddiogel ac yn briodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dysgu o'n profiadau cynnar er mwyn mireinio prosesau yn y Biwro Cartref yn Gyntaf sydd wedi lleihau oedi, sicrhau cyfeirio mwy effeithiol a gwneud y defnydd gorau o'r capasiti gofal cymunedol sydd ar gael. Rydym wedi recriwtio staff ychwanegol ac wedi diwygio protocolau i baratoi ar gyfer lansio ffurflen gyfeirio Trosglwyddo Gofal (TOC) electronig ar gyfer rhyddhau. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth o ansawdd gwell i'r Tîm Cartref yn Gyntaf a chartrefi gofal. Bydd hyn yn helpu i leihau oedi wrth ryddhau o'r ysbyty ac yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r capasiti iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael.

**Gwasanaethau Therapi**

Parhaodd y penderfyniad i oedi gwasanaethau nad ydynt yn rhai hanfodol ym mis Mawrth 2020, i gael effaith sylweddol ar wasanaethau therapi yn 2021/22. Bu'n rhaid adleoli staff therapi ac ailddyrannu gofod adfer er mwyn ymdopi â'r ymchwydd yng nghapasiti'r ysbytai. Symudodd rhai therapyddion i weithio mewn amgylcheddau anghyfarwydd er mwyn cefnogi'r staff oedd eisoes yn gweithio mewn gofal critigol ac ar wardiau eraill. Gwirfoddolodd eraill i weithio yn y gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu a chymryd rhan yn y rhaglen frechu.

Yn anochel, cafodd hyn effaith ar amseroedd aros am wasanaethau therapi nad ydynt yn rhai hanfodol. Mae'r heriau mwyaf yn parhau i fod gyda'r gwasanaethau ffisiotherapi, yn rhannol oherwydd diffyg lle ac yn rhannol oherwydd bod angen sgiliau clinigol mewn gofal sydd heb ei drefnu'n hytrach nag mewn gofal parhaus wedi'i gynllunio. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd amseroedd aros ar gyfer ein cleifion yn Ardal y Canol ac Ardal y Dwyrain dros 40 wythnos ac mae gwasanaethau Therapi Galwedigaethol Ardal y Gorllewin yn wynebu heriau cyffelyb.

Mae'r diffyg gofod ar gyfer y gwasanaethau adsefydlu yn parhau i gyfyngu'n sylweddol ar adferiad llawn yn 2022. Rydym yn edrych ar opsiynau i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys ystyried a ellir dod o hyd i le mewn cyfleusterau gofal sylfaenol neu gymunedol a'r posibilrwydd o addasu trefniadau staffio i ganiatáu gweithio ar y penwythnos. Rydym wedi llwyddo cael lle ychwanegol yn Ardal y Dwyrain, sef Plas Gororau sydd gerllaw Ysbyty Maelor Wrecsam. Bydd yn cael ei addasu i ddarparu clinigau ychwanegol, gan gynnwys gwasanaethau therapi.

Mae recriwtio staff hefyd wedi bod yn heriol, gan adlewyrchu sefyllfa Cymru a'r DU gyfan o ran nifer y therapyddion.

Mae adsefydlu'n parhau i fod yn rhan ganolog o broses adfer y Bwrdd Iechyd ac mae ein staff therapi'n cymryd rhan weithredol yn ein rhaglenni gwaith er mwyn cefnogi'r boblogaeth sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig. Mae hyn yn cynnwys cleifion sydd â Covid Hir a'r cleifion sydd wedi bod yn aros am gyfnodau hir am fynediad i wasanaethau megis orthopaedeg.

# Profion COVID-19 a Brechu

## Darpariaeth Leol Profi, Olrhain, Diogelu

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu ym mis Mai 2020 ac fe'i diweddarwyd ym mis Mehefin 2020. Nod y Strategaeth oedd gwella gwyliadwriaeth iechyd yn y gymuned, ymgymryd ag olrhain cyswllt effeithiol a helaeth a chefnogi unigolion i hunanynysu lle bo angen.

Yn dilyn y cyhoeddiad cyntaf, gweithiodd y Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid Awdurdodau Lleol gogledd Cymru gyda'i gilydd er mwyn sefydlu ymateb integredig a chadarn, a sefydlwyd gwasanaeth olrhain aml-bartner, aml-haen. Cafodd hyn ei ategu gan ganllawiau cenedlaethol.

Er mwyn ateb y galw, cyflogwyd oddeutu 450 o staff yn y gwasanaeth olrhain ar draws y rhanbarth. Mae tua 70 o'r rhain yn gweithio yn yr Unedau Profi Cymunedol, y Safleoedd Profi Lleol a'r Unedau Profi Cymunedol a weithredir gan y Bwrdd Iechyd ac a gefnogwyd gan yr unedau profi torfol yng ngogledd Cymru a gafodd eu hariannu a'u rheoli drwy drefniadau Llywodraeth y DU.

Ers 2020, proseswyd mwy na dwy filiwn o brofion ar gyfer trigolion gogledd Cymru, nodir gweithgarwch olrhain cyswllt yn y tabl isod:

| Cyfnod | Cyfeirio Achos | Wedi olrhain cysylltiadau |
|---|---|---|
| Ebrill - Mehefin 2021 | 3,751 | 21,737 |
| Gorffennaf - Medi 2021 | 34,771 | 82,733 |
| Hydref - Rhagfyr 2021 | 64,368 | 103,825 |
| Ionawr - Mawrth 2022 | 86,913 | 98,591 |

Drwy gydol y flwyddyn, mae staff rheng flaen y Bwrdd Iechyd wedi cael profion llif unffordd rheolaidd i geisio adnabod cludwyr asymptomatig y feirws.

Yn ystod 2021/22, bu'r Bwrdd Iechyd yn arwain y gad o ran cefnogi cymunedau lleol, sefydlu Hybiau Cymorth COVID-19 ym mhob sir i ddarparu mynediad ychwanegol at brofion yn ogystal â chynnig cyngor am filiau ynni, cyllid a dyled, tlodi, bwyd a lles meddwl.

Gan fod trosglwyddo'r feirws COVID-19 wedi bod yn gyfnewidiol, mae'r gwasanaethau Profi, Olrhain a Diogelu wedi gorfod addasu i sefyllfa sy'n newid o hyd a hynny er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n ddigon hyblyg i fodloni gofynion y gymuned.

## Brechu COVID-19

Lansiwyd rhaglen frechu COVID-19 yng ngogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2020. Cwblhawyd y cam cyntaf erbyn 31 Awst 2021 ac fe'i dilynwyd gan y rhaglen atgyfnerthu a ddechreuodd yn yr hydref. Dechreuwyd y gwaith o roi dosau ychwanegol yn unol â chanllawiau cenedlaethol gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ym mis Mawrth 2022.

| Cyfanswm brechiadau (ar 11/04/22) | Dosau cynradd 1af | 2il Ddosau cynradd | 3ydd Dosau cynradd | Dosau Atgyfnerthu | Iach 5-11 mlwydd oed | 12-15 mlwydd oed | 16-17 mlwydd oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1,573,748 | 584,571 | 541,555 | 19,747 | 427,875 | 1704 | 29,414 | 20,081 |

Roedd cam dosau atgyfnerthu'r rhaglen yn cyd-daro â chymeradwyaeth y brechlyn Moderna. Ychwanegodd hyn hyblygrwydd at y rhaglen. Bu'n rhaid cyflymu'r broses o gyflwyno'r rhaglen ar frys ym mis Rhagfyr 2021 er mwyn ymateb i'r amrywiolyn 'Omicron' a oedd yn trosglwyddo'n gyflym ymysg unigolion. Yn sgil adleoli staff ac ymdrech aruthrol gan bawb, cyrhaeddodd nifer y dosau a roddwyd uchafbwynt o 113,000 yn ystod yr wythnos yn dechrau 13 Rhagfyr 2021.

Rydym wedi cyflwyno'r rhaglen drwy amrywiaeth o lwybrau, gan gynnwys Canolfannau Brechu ar raddfa fawr, practisau meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol a sesiynau gyrru drwodd symudol yn ogystal â rhoi brechlynnau mewn cartrefi gofal a chartrefi cleifion sy'n gaeth i'r tŷ. Rydym yn parhau i adolygu cynnydd yn rheolaidd yn enwedig mewn ardaloedd a chymunedau lle nad yw'r nifer sy'n cael eu brechu'n uchel, er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn cael cynnig brechlyn.

Ym mis Mai 2022, fe wnaethom ddechrau cynnig dosau atgyfnerthu pellach i oedolion hŷn sy'n parhau i fod fwyaf agored i effeithiau'r haint COVID-19. Byddai llawer o'r rhain wedi cael eu dos flaenorol ym mis Medi neu Hydref 2021 ac felly'n dod at ddiwedd y cyfnod pan allai lefel yr amddiffyniad a roir gan frechu ddechrau gostwng.

Ni fyddai'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo cyflawni hyn heb gymorth a chefnogaeth gan nifer o asiantaethau ac unigolion ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddynt. Maent yn cynnwys:

- Cynghorau Sir Conwy a'r Fflint a Phrifysgolion Bangor a Glyndwr y mae eu cyfleusterau wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer ein canolfannau brechu torfol;
- ein contractwyr gofal sylfaenol;
- personél gwasanaethau milwrol;
- staff awdurdodau lleol a Thân ac Achub Gogledd Cymru sydd wedi cynorthwyo gyda rhedeg llinellau ffôn archebu brechlyn yn y canolfannau;
- gwirfoddolwyr a oedd yn helpu gyda'r brechu; a
- gwirfoddolwyr a oedd yn arwain ac yn cynorthwyo'r rhai oedd yn mynychu'r canolfannau brechu.

**Cynllunio Imiwneiddio Ehangach ar gyfer y Dyfodol**

Mae brechu rhag afiechydion eraill yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n gwaith i amddiffyn ein cymunedau ac mae ein rhaglen frechu plentyndod wedi'i chynnal drwy gyfnod y pandemig.

Dros gyfnod gaeaf 2021/22 cymerodd y rhaglen 'frechu rhag y ffliw' fwy o bwys wrth i ni hefyd wynebu'r risgiau a gyflwynir gan yr amrywiolyn trosglwyddadwy iawn o COVID-19, Omicron. Yn gyffredin â Chymru yn gyffredinol, llwyddwyd i sicrhau cynnydd pellach yn y nifer sy'n cael y brechlyn ffliw ymhlith y rhai dros 65 oed, ond gwelsom ostyngiad yn y nifer sy'n manteisio ar y brechlyn ymhlith y grŵp sy'n agored i niwed yn glinigol ac yn y grŵp 2-3 oed. Roedd cyfraddau derbyn yng ngogledd Cymru yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer pob categori.

| | 2020/21 | | 2021/22 | |
|---|---|---|---|---|
| | BIPBC | Cymru Gyfan | BIPBC | Cymru Gyfan |
| 65 oed a throsodd | **78.2%** | 76.5% | **79.8%** | 78.0% |
| Dan 65 â risg glinigol | **54.2%** | 51.0% | **51.0%** | 48.2% |
| 2 a 3 mlwydd oed | **59.9%** | 56.3% | **51.3%** | 47.6% |

Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun strategol ar gyfer gweithgarwch imiwneiddio yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw ofynion am ragor o frechiadau atgyfnerthu COVID-19, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu Rhaglen Imiwneiddio effeithiol ac effeithlon, cynhwysfawr a chydlynol sydd ag adnoddau priodol.

# Ailgynllunio Gwasanaethau Acíwt i Ddarparu Gofal Covid-19

**Gofal wedi'i Gynllunio**

Roedd dyfodiad COVID-19 yn her sylweddol i'n gwasanaethau acíwt ac ysbytai eraill.

O brofiadau mewn mannau eraill, roeddem yn gwybod y gallem ddisgwyl gweld niferoedd mawr o dderbyniadau brys, gyda chyfran sylweddol o gleifion difrifol wael y byddai angen cymorth anadlol a chyfleusterau gofal critigol arnynt. Roedd hefyd yn amlwg y byddai rhai o'r cleifion hyn yn profi adferiadau araf a oedd yn gofyn am arosiadau estynedig yn yr ysbyty.

Yn ogystal, roedd natur heintus iawn y coronafeirws yn golygu y byddai gwahanu cleifion â COVID-19 oddi wrth weddill yr ysbyty, a chyfyngu ar symud staff rhwng ardaloedd, yn hanfodol er mwyn lleihau'r cyfleoedd i'r afiechyd ledaenu.

Roedd yr effaith ar Ofal Wedi'i Gynllunio yn sylweddol, gyda gweithgarwch arferol wedi'i gwtogi'n ddifrifol fel y gallem flaenoriaethu triniaeth canser a chyflyrau brys eraill.

Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn gweithredu cynllun adfer chwe phwynt. Mae hyn yn cynnwys bwriad strategol i fynd ar drywydd canolfannau triniaeth rhanbarthol wedi'u datgysylltu o ofal heb ei drefnu a mentrau fel y dull 'unwaith dros ogledd Cymru'. Helpodd yr olaf i gynnal gwasanaethau canser yng ngogledd Cymru yn ystod y pandemig, hyd yn oed os oedd hyn yn golygu symud cleifion ac adleoli staff clinigol i ysbytai eraill er mwyn i ni allu parhau i ddarparu triniaeth pan oedd safleoedd wedi'u heffeithio'n sylweddol gan COVID-19.

Mae'r cynllun adfer yn mabwysiadu egwyddorion o lwybrau canser Cymru gyfan a'r dull Ei Wneud yn Iawn y Tro Cyntaf a bydd yn cynnwys adolygiad o broses trefnu apwyntiadau a gwasanaethau gweinyddol.

Yn dilyn tonnau cychwynnol y pandemig, ein huchelgais oedd cyrraedd o leiaf 80% o'r lefelau gweithgarwch 2019/20 (y flwyddyn lawn ddiwethaf yr effeithiwyd arni gan y pandemig) a thrin yr holl gleifion a oedd wedi bod yn aros am fwy na 12 mis am driniaeth ym mis Mawrth 2020.

Roedd llawer o arbenigeddau yn gallu cyflawni'r ddau amcan, er gwaethaf y tarfu pellach a achoswyd gan amrywiolyn Covid-19, Omicron. Fodd bynnag, mae rhai meysydd, megis Orthopaedeg, wedi methu â chyflawni hyn oherwydd cyfyngiadau ar allu corfforol a phwysau parhaus ar welyau a lefelau staffio. Mewn ymateb i hyn, mae nifer o gontractau allanol wedi'u sefydlu, sy'n cynnig y cyfle i gleifion sy'n glinigol addas y mae angen llawdriniaeth orthopedig arnynt fel claf mewnol neu lawdriniaeth cataract i gael eu llawdriniaeth gyda darparwr iechyd arall. Bydd contractau pellach, yn enwedig yn seiliedig ar gontractau mewnol lle mae darparwr iechyd arall yn defnyddio cyfleusterau'r bwrdd iechyd ei hun, er enghraifft defnyddio capasiti ar y penwythnos, yn cael eu caffael ar gyfer 2022/23.

Mae'r pandemig wedi arwain at newidiadau yn y ffordd y mae rhai gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio'n cael eu darparu, er enghraifft wrth i delefeddygaeth gael ei chyflwyno ar gyfer gwasanaethau cleifion allanol a chyflwyno dulliau 'sylw i symptom' ar gyfer rhywfaint o weithgarwch dilynol. Er eu bod wedi'u cyflwyno'n wreiddiol i leihau nifer yr ymwelwyr â'n hysbytai a'n clinigau, mae'r mesurau hyn hefyd yn helpu i hybu hunanofal cleifion a monitro eu cyflyrau.

## Gofal Critigol ac Anestheteg

O'r cychwyn cyntaf, mae gofal critigol wedi bod yn ymwneud yn helaeth â'r ymateb i'r pandemig, ac mae cynllunio a darparu gwasanaeth llawer estynedig wedi golygu cydweithio digynsail rhwng safleoedd a chydweithio agos â gwasanaethau yn yr ysbyty ehangach, yn enwedig meddygaeth anadlol. Mae'r ffaith y gallai'r 36 o welyau gofal critigol sydd ar gael ar hyn o bryd gael ei ymestyn i 62 ar adeg galw brig yn dyst i ymrwymiad staff clinigol gofal critigol a chydweithwyr sy'n darparu cymorth y tu allan i'w meysydd clinigol arferol.

Yn ystod 2021/22, mae gofal critigol wedi parhau i reoli galwadau cystadleuol lluosog, gan gynnwys ton COVID-19 yr hydref, cymorth ar gyfer gofal brys ac argyfwng nad yw'n gysylltiedig â COVID, ac ailsefydlu llwybrau gofal wedi'i gynllunio. Mae sefydlu Unedau Gofal Ôl-Anesthetig newydd ar bob un o'r safleoedd acíwt yn ystod 2021 wedi bod yn hynod o amserol ac wedi helpu i leihau achosion o ganslo achosion llawfeddygol risg ganolraddol.

Mae gwaith ar y gweill yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac wedi'i gynllunio yn Ysbyty Gwynedd i adeiladu unedau gofal critigol newydd drwy addasu ardaloedd wardiau presennol; bydd y rhain yn fwy addas ar gyfer gofynion y gwasanaeth ac yn barod ar gyfer gweithredu System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru yn ystod 2023/24. Dim ond yn ystod y pandemig y daeth yr angen am dîm gofal critigol amlddisgyblaethol ag adnoddau priodol ar bob safle i gefnogi adferiad o salwch critigol i'r amlwg. At hynny, mae ymrwymiadau clinigol meddygon ymgynghorol yr ICU wedi aros yn sylweddol uwch na lefelau cyn y pandemig a bydd y ddwy elfen hyn yn cael sylw yng nghyd-destun adolygiad gwasanaeth ehangach a gynhelir yn ystod 2022/23.

## Ysbytai Dros Dro

Parhaodd y tri ysbyty dros dro a sefydlwyd yn gynnar yn 2020 i gefnogi ein hymateb i'r pandemig tan 2021/22, gan gael eu defnyddio fel canolfannau brechu torfol. Parhaodd hyn tan fis Gorffennaf 2021, yn achos y cyfleusterau ym Mangor a Llandudno, ac ar ôl hynny fe'u trosglwyddwyd yn ôl i'w perchnogion, tra parhaodd y rhaglen frechu mewn safleoedd lleol eraill. Yng Nglannau Dyfrdwy, cafodd y safle ei drosglwyddo'n rhannol i'r perchnogion yn ystod y flwyddyn, gyda'r ganolfan frechu'n parhau'n weithredol tan fis Mawrth 2022.

## Gofal Brys Ysbyty

Mae'r galw am ofal heb ei drefnu wedi bod ar lefel uchel iawn drwy gydol y flwyddyn, o ran y niferoedd sy'n cael eu gweld mewn gofal sylfaenol a difrifoldeb y salwch sy'n cael ei drin yn ein Hadrannau Achosion Brys (EDs). Trafodir y pwysau ar feddygon teulu mewn man arall yn yr adroddiad hwn, ac rydym yn gwerthfawrogi eu gwaith yn helpu i gyfyngu ar y niferoedd sy'n ceisio cymorth mewn unedau brys ysbytai.

Gwelodd nifer yr achosion yn y tair Adran Achosion Brys yng ngogledd Cymru, a ddisgynnodd yn sylweddol ar ddechrau pandemig COVID-19, gynnydd parhaus a chyson o fis Mawrth 2021 ymlaen. Roedd hyn yn cyd-daro â chodi'r cyfyngiadau haen 4 a oedd wedi dod i rym ym mis Rhagfyr 2020, ac erbyn mis Gorffennaf 2021 roedd lefelau gweithgarwch yn debyg i'r un cyfnod cyn y cyfnod clo. Gostyngodd nifer y derbyniadau wedyn dros weddill 2021 ac mae nifer y derbyniadau a'r achosion o gleifion ag amheuaeth o goronafeirws wedi gostwng yn ystod y flwyddyn.

Fodd bynnag, bu cynnydd nodedig yn aciwtedd cleifion a ddaeth i'r Adrannau Achosion Brys yn ystod y flwyddyn, fel y'i mesurwyd gan y niferoedd a gafodd eu brysbennu fel categori 1 a 2 (brys iawn/brys), er bod nifer y cleifion aciwtedd uchel a aeth i Adrannau Achosion Brys wedi lleihau yn ystod Chwarter 4.

Cafodd Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau, a oedd wedi'u cydleoli yn ein tair Adran Achosion Brys yn flaenorol, eu symud oddi ar y safleoedd acíwt yn 2020 oherwydd yr angen am gapasiti mewn Adrannau Achosion Brys i alluogi ymbellhau cymdeithasol, ac fe wnaethant aros oddi ar y safle trwy 2021/22 . Roedd yr effaith o gael gwasanaethau oddi ar y safle yn isel oherwydd yr aciwtedd uwch o gleifion a oedd yn mynychu'r Adrannau Achosion Brys.

Arhosodd y mesurau atal a rheoli heintiau a gyflwynwyd gyntaf yn 2020 yn eu lle ar bob safle ysbyty drwy gydol 2021/22. Roedd y mesurau yn cynnwys sgrinio cleifion am COVID-19 cyn iddynt fynd i mewn i Adran Achosion Brys a gwahanu unrhyw gleifion a ddangosodd symptomau COVID-19 posibl.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y mesurau cadw pellter cymdeithasol parhaus i gyfyngu ar argaeledd gwelyau a llif arafach o gleifion allan o'r ysbytai oherwydd bod llai o ddarpariaeth gofal cartref a lleoedd mewn cartrefi gofal ar gael. Fe wnaeth y ffactorau hyn, ynghyd â chynnydd yn absenoldeb staff oherwydd COVID-19 a hunanynysu, waethygu'r anawsterau yr oedd y system gofal heb ei drefnu eisoes yn eu profi i ddarparu gofal amserol o ansawdd i gleifion sy'n cyrraedd yr Adrannau Achosion Brys.

Mae canllawiau newydd a gyhoeddwyd ar ôl y flwyddyn yn diweddu, ym mis Mai 2022, wedi agor y ffordd ers hynny i ni leihau'n raddol y cyfyngiadau ar ymweliadau ag ysbytai a gofynion cadw pellter cymdeithasol.

Gostyngodd y perfformiad ar gyfer trosglwyddo ambiwlansys o fewn 15 munud yn ystod 2021/22, o 23% ym mis Ebrill 2021 i 15% ym mis Mawrth 2022, ac roedd adegau pan uwchgyfeiriodd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru at ei Diogelwch Clinigol Cynllun (CSP), a arweiniodd at 'heb anfon' o ran rhai meini prawf ar gyfer galwadau 999. O ganlyniad cynyddodd hyn nifer y cleifion a oedd yn hunangyflwyno a brysbennu fel categori 1 a 2 a effeithiodd yn ei dro ar y gallu i ddadlwytho ambiwlansys oherwydd yr angen i ddod â'r rheini i mewn o'r ystafell aros oherwydd dirywiad clinigol. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n cydweithwyr yn y Gwasanaeth Ambiwlans am eu cefnogaeth i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal tra'r oeddent yn aros i gael dod i mewn i'r Adrannau Achosion Brys ac, fel y nodir isod, byddwn yn parhau i weithio ar fesurau i leihau oedi o'r fath.

Yn ystod 2021/22, mae perfformiad Adrannau Achosion Brys ar draws y Bwrdd Iechyd wedi nodi bod 64% ar gyfartaledd o gleifion wedi'u gweld, eu trin a'u rhyddhau neu eu derbyn i'r ysbyty o fewn pedair awr o gyrraedd, o gymharu â tharged o 95% o gleifion.

Cafodd Rhaglen Gwella Gofal Heb ei Drefnu ddiwygiedig ei rhoi ar waith yn ystod 2021/22 gyda cham 1 yn dechrau ym mis Gorffennaf. Gwelodd hyn sefydlu pedair ffrwd waith yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau gyda'r prif bethau i'w cyflawni wedi'u nodi mewn cylchoedd 90 diwrnod, sy'n cyd-fynd â chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal brys ac argyfwng (gweler isod). Nodwyd prosiectau â blaenoriaeth ar gyfer pob ffrwd waith ac maent yn destun adolygiadau bob pythefnos.

Y pedair ffrwd waith yw:

- Camu i Fyny yn y Gymuned: ffocws blaenoriaeth - Unedau Mân Anafiadau;
- Drws Blaen / Adran Achosion Brys: ffocws blaenoriaeth - Gofal Brys yr Un Diwrnod (SDEC);
- Gofal Cleifion Mewnol: ffocws blaenoriaeth - Gwella Llif a Rowndiau Bwrdd;
- Camu i Lawr yn y Gymuned: ffocws blaenoriaeth - Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA);

Cafodd nifer o gynlluniau ychwanegol eu halinio hefyd â'r rhaglen i gynorthwyo gyda gwella capasiti dros fisoedd y gaeaf, gan gynnwys canfod cyllid i gefnogi gwelliannau i ofal brys.

Mae gwaith i safoni cwmpas a darpariaeth gwasanaeth unedau mân anafiadau yn mynd rhagddo, gyda rhaglen hyfforddi i uwchsgilio Ymarferwyr Brys a fydd yn parhau yn 2022/23.




**Chwe nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal Argyfwng.**

Mae gwaith i safoni cwmpas a darpariaeth gwasanaeth unedau mân anafiadau yn mynd rhagddo, gyda rhaglen hyfforddi i uwchsgilio Ymarferwyr Brys a fydd yn parhau yn 2022/23.

Rhan allweddol o'r rhaglen yw datblygu ac ehangu'r model SDEC ar bob safle er mwyn galluogi cleifion triniaethau gofal dydd ac sydd ag aciwtedd is sy'n mynd i'r adran achosion brys ar hyn o bryd i gael eu gweld yn gyflymach ar y diwrnod, gan leihau gorlenwi yn yr adran ac osgoi derbyniadau diangen. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i gadarnhau i alluogi recriwtio staff clinigol, nyrsio a staff eraill ychwanegol ac i gefnogi mân ofynion ystadau a meddalwedd. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd mwyafrif y swyddi nyrsio a staff eraill wedi'u penodi, er bod recriwtio i'r gweithlu meddygol ac ymgynghorol wedi bod yn fwy heriol.

O dan y drydedd ffrwd waith, bu ffocws sylweddol ar weithredu a chryfhau rowndiau bwrdd ar bob ward ysbyty acíwt a chymunedol, i leihau oedi am driniaeth ac ymyrraeth ac osgoi arosiadau hirach nag sydd angen yn yr ysbyty. Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu rhyddhau a arweinir gan feini prawf i hwyluso rhyddhau cleifion yn effeithiol ac yn effeithlon unwaith y bydd uwch feddyg wedi dynodi eu bod yn feddygol iach i wneud hynny.

Bydd Cam 2 y Rhaglen Gwella Gofal Heb ei Drefnu yn adolygu'r hyn a ddysgwyd o 2021/22, ac yn nodi meysydd blaenoriaeth newydd ar gyfer y ffrydiau gwaith i'w datblygu ar gyfer 2022/23, gan ganolbwyntio ar gyflawni dim goddefgarwch ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal ambiwlans a gwella perfformiad ar darged 4 awr yr Adrannau Achosion Brys.

**Hyfforddi a Lleoli staff**

Ar ddechrau'r pandemig rhoddwyd trefniadau ychwanegol ar waith i alluogi adleoli staff, i gefnogi gwasanaethau sy'n wynebu pwysau cynyddol ac i helpu meysydd sy'n wynebu prinder staff o ganlyniad i'r ffaith bod angen i gydweithwyr ynysu neu warchod, neu a oedd yn sâl.

# Mesurau Rheoli Heintiau a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE)

## Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

Fe wnaeth y sefyllfa o ran cyflenwad PPE, a oedd yn achos pryder mawr ar ddechrau'r pandemig, wella drwy gydol 2020, ac nid yw'r Bwrdd iechyd wedi profi unrhyw broblemau sylweddol yn ymwneud â chyflenwadau yn 2021/22. Rydym wedi parhau i ddarparu hyfforddiant i staff ar y defnydd cywir o PPE, gan ddiweddaru arferion lleol yn unol ag unrhyw newidiadau i ganllawiau cenedlaethol, a chynnal profion ffitio unigol ar gyfer pob aelod o staff sydd angen defnyddio masgiau anadlydd.

## Ailgynllunio Ystadau ac Addasiadau Ffisegol

Mae llawer o'r addasiadau ystad a roddwyd ar waith ar ddechrau'r pandemig, gan gynnwys gosod sgriniau a pharedau amddiffynnol, addasiadau i weithleoedd ac arwyddion i gefnogi pellter cymdeithasol ac mae cyflwyno systemau unffordd a rheolyddion mynediad ychwanegol wedi'u cynnal drwy 2021/22. Mae rhagor o waith wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf i wella trefniadau awyru a chyfnewid aer mewn nifer o safleoedd er mwyn helpu i leihau risgiau heintiau wrth i ni weithio i adfer capasiti yn ein gwasanaethau clinigol.

## Cyfathrebu

Mae cyfathrebu â'r cyhoedd wedi bod yn elfen allweddol o'n hymateb i'r pandemig. Mae hyn wedi bod yn angenrheidiol i gefnogi negeseuon iechyd cyhoeddus i helpu i hybu ymddygiadau ac yn helpu i gyfyngu ar ledaeniad haint, i egluro newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn ystod cyfnod y pandemig ac i gynghori cleifion ar sut y gallant parhau i gael mynediad at y gofal sydd ei angen arnynt.

Drwy gydol y pandemig rydym wedi gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i sicrhau bod ein negeseuon yn amserol, yn gywir, yn gyson ac yn glir.

Mae llwybrau cyfathrebu lluosog wedi'u defnyddio, gan gynnwys sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd, diweddariadau ar ein gwefan, drwy'r wasg a'r cyfryngau lleol a thrwy randdeiliaid.

Anfonir adroddiad dyddiol o weithgarwch cyfryngau i'r Bwrdd bob diwrnod o'r wythnos a dosberthir adroddiad llawn o'r holl weithgarwch cyfathrebu ac effaith bob dydd Gwener.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae elfen fawr o'r gwaith cyfathrebu wedi bod yn ymwneud â'r rhaglen frechu ac, yn arbennig, darparu'r rhaglen atgyfnerthu ar garlam tua diwedd 2021.

Mae ein gwefan bellach yn cynnwys adran ar ein gwaith i ailgychwyn gwasanaethau a mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am apwyntiadau a thriniaeth, gyda manylion o bob un o'n gwasanaethau sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd.

Mae ein tîm digidol hefyd wedi sefydlu cyfres o wybodaeth i gefnogi cleifion â Covid Hir, gan gynnwys gwybodaeth a chyngor ar-lein, dolenni i gyrsiau hunanreoli Covid Hir a'r ap adfer a dolen i gleifion cyfeirio eu hunain at wasanaeth Covid Hir y Bwrdd Iechyd.

Mae adran COVID-19 bwrpasol wedi'i chreu ar wasanaeth mewnrwyd mewnol newydd y Bwrdd Iechyd sy'n dod â'r holl ganllawiau a gwybodaeth allweddol i staff ar COVID-19 ynghyd, ac maen cael ei diweddaru'n gyson.

## Darparu Gofal a Thriniaeth nad yw'n Ymwneud â COVID-19

Fel y nodwyd eisoes, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau iechyd ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19. Cafodd llawer o wasanaethau arferol eu hatal er mwyn galluogi staff a chyfleusterau i gael eu hadleoli i sicrhau bod gennym y gallu i drin derbyniadau brys ac i gefnogi'r rhaglen frechu. Rydym hefyd wedi gorfod lleihau capasiti gwasanaethau o ganlyniad i'r mesurau atal heintiau ychwanegol sydd eu hangen i weithredu'n ddiogel tra bod y coronafeirws yn parhau i gylchredeg yn y boblogaeth.

Fodd bynnag, mae wedi bod yn hanfodol ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd i gleifion â chyflyrau ar wahân i COVID-19 lle bo angen gofal brys neu lle gallai gohirio triniaeth gael effaith andwyol ar ganlyniad claf yn y pen draw. Rydym wedi blaenoriaethu'r capasiti sydd ar gael ar gyfer llawdriniaeth ddewisol, a gwasanaethau radioleg ac endosgopi, i gleifion â chanser ar sail rhwydwaith ar draws gogledd Cymru er mwyn cynnal darpariaeth gwasanaethau.

### Canser

Drwy gydol y pandemig mae ein staff a'n gwasanaethau wedi ymdrechu i gadw amseroedd aros mor isel â phosibl ar gyfer yr holl gleifion a gyfeiriwyd atom ni â diagnosis canser posibl.

Wrth i Gymru ddod allan o'r cyfyngiadau symud ar ddechrau 2021/22, gwelsom gynnydd sylweddol yn nifer y cleifion a gyfeiriwyd â symptomau canser posibl. Ym mis Mawrth 2021, derbyniodd y Bwrdd Iechyd tua 150% o'n nifer arferol o gyfeiriadau amheuaeth o ganser (1000 o atgyfeiriadau ychwanegol); gostyngodd y nifer hwn wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen ond ar ddiwedd y flwyddyn roedd y gyfradd gyfeirio yn dal i fod tua 120% o lefelau cyn COVID-19. Er mwyn ateb y galw hwn, rydym wedi sefydlu capasiti ychwanwegol lle bo modd ar gamau cleifion allanol, diagnostig a thriniaeth y llwybr canser. Mae hyn wedi bod yn her oherwydd cyfyngiadau ffisegol ymbellhau cymdeithasol a'r effeith ar ein gweithlu, ond mae'n hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud diagnosis ac yn trin canser cyn gynted â phosibl.

Mae amseroedd aros ar gyfer cleifion yng Nghymru â chanser yn cael eu monitro yn erbyn targed unedig Llwybr Amau Canser . Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddechrau triniaeth claf o fewn 62 diwrnod ar ôl i'r amheuaeth gyntaf o ganser ddod i'r amlwg, lle bynnag y cododd hynny – er enghraifft gallai fod yn gyfeiriad gan feddyg teulu ar gyfer amheuaeth o ganser, derbyniad brys i'r ysbyty, yn dilyn canfyddiad annisgwyl ar sgan, o rhaglen sgrinio, neu yn ystod adolygiad claf allanol o glaf arferol.

Yn ystod 2021/22, mae ein perfformiad misol yn erbyn y targed wedi amrywio o 61% i 74%, sy'n golygu mai ni yw'r Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru am y rhan fwyaf o fisoedd. Fodd bynnag, nid ydym yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o hyd o 75% o gleifion yn cael eu trin o fewn 62 diwrnod i amheuaeth o ganser, ac felly rydym wedi cyflwyno nifer o fentrau gyda'r nod o gyrraedd a rhagori ar y targed hwn yn 2022/23. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddi mewn clinigau diagnostig un stop, llwybrau syth i brawf a chymorth ychwanegol gan nyrsys clinigol canser arbenigol i gleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser.

### Llawfeddygaeth Ddewisol - Rhestrau aros a Haeniad Risg

Mae llwybr cyfeirio am driniaeth (RTT) yn cwmpasu pedwar cam y bydd claf yn mynd drwyddynt ar ôl cael ei gyfeirio at driniaeth ysbyty yn y GIG yng Nghymru. Mae'r rhain yn amser a dreulir yn aros am unrhyw apwyntiadau ysbyty cychwynnol (claf allanol - cam 1), profion, sganiau neu weithdrefnau eraill y gall fod eu hangen cyn cael triniaeth (diagnosteg - camau 2 a 3) ac yna'r aros am driniaeth i ddechrau (claf mewnol neu achos dydd - cam 4).

Y targed yw y dylai o leiaf 95% o gleifion aros llai na 26 wythnos rhwng cyfeiriad a thriniaeth. Mae cyfeiriadau brys yn cael blaenoriaeth, gydag unrhyw glaf sy'n cael ei gyfeirio fel achos brys, neu achos brys o amheuaeth o ganser, yn cael ei roi ar lwybr cleifion allanol pythefnos. Mae ail gam y llwybr yn caniatáu hyd at 8 wythnos ar gyfer prawf diagnostig, fodd bynnag byddai'r rhai ar lwybr canser brys neu frys lle amheuir bod canser yn cael eu blaenoriaethu eto ar lwybr pythefnos.

Mae pandemig Covid-19 wedi lleihau ein gallu i ddarparu gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio yn ein hysbytai ac mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y cleifion ar ein rhestrau aros a hyd yr amser y mae'r cleifion hynny yn aros am driniaeth. Mae hyn wedi golygu bod angen dull newydd o fonitro a rheoli ein rhestrau aros.

Ynghyd â holl Fyrddau Iechyd Cymru a chyda chymorth gan Lywodraeth Cymru a'r Colegau Brenhinol, mae'r model Haeniad Risg wedi'i fabwysiadu. Mae hwn yn ddull a yrrir yn glinigol lle mae pob achos claf ar y rhestr aros yn cael ei adolygu gan glinigydd a dyrannu gwerth risg clinigol o rhwng un (P1) a phedwar (P4) yn seiliedig ar ganlyniadau clinigol aros am triniaeth ar gyfer cyflyrau gwahanol, ac eithrio mewn offthalmoleg lle defnyddir tri yn hytrach na phedwar grŵp blaenoriaeth.

Y flaenoriaeth uchaf (P1) yw'r achosion hynny lle mae angen triniaeth i atal colli bywyd neu niwed difrifol ac anwrthdroadwy. Yr achosion blaenoriaeth isaf (P4) yw'r rhai lle na ddylai oedi estynedig effeithio ar ganlyniad llawdriniaeth yn y pen draw, er ein bod yn cydnabod y gallai'r cleifion hyn â blaenoriaeth is fod yn profi effeithiau andwyol o'u cyflwr, megis poen neu gyfyngiadau ar eu symudedd, tra maent yn aros.

Sicrhaodd parhad y dull haenu risg fod cleifion yn y categorïau P1 a P2 yn dal i gael eu trin yn ystod ton amrywiadol Omicron o'r pandemig Covid, pan oedd angen staff clinigol i gefnogi'r rhaglen frechu a gweithgarwch gofal arferol wedi'i gynllunio (cleifion allanol, achosion dydd a triniaethau cleifion mewnol) wedi'i oedi am bron i ddau fis.

Fel y dangosir isod, mae'r niferoedd sy'n aros am driniaeth a hyd yr amser y mae cleifion yn aros wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â'r sefyllfa cyn-bandemig.



Er bod mwyafrif y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos yn achosion arferol, rydym yn cydnabod ei bod yn annerbyniol bod cleifion yn aros am yr amser hwnnw i gael eu hasesu, eu diagnosio a'u trin, a gall hyd yr oedi fod yn niweidiol i iechyd a llesiant yn gyffredinol.

Yn yr arbenigeddau sydd â'r heriau mwyaf (yn enwedig orthopaedeg ac offthalmoleg) rydym wedi sefydlu trefniadau llwyddiannus gyda'r sector iechyd annibynnol, ac wedi bod yn anfon 100 o gleifion y mis lle bo angen llawdriniaeth i osod clun a phen-glin newydd (a rhai llawdriniaethau ar y breichiau) a 400 o gleifion y mis lle bo angen llawdriniaeth cataract i ddarparwyr yn Swydd Gaer a Glannau Mersi. Rydym yn cydnabod y gall y pellter fod yn broblem i rai cleifion, ac rydym wedi darparu cymorth ar gyfer teithio lle y bo'n briodol.

Er bod y ffigurau hyn yn fach o'u cymharu â'r niferoedd cyffredinol sy'n aros, maent yn ein galluogi i gyflymu'r driniaeth i gleifion sydd wedi profi'r arosiadau hiraf ac mae trefniadau ychwanegol i ehangu'r capasiti triniaeth yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer 2022/23. Byddwn yn parhau â'r mesurau hyn hyd nes y bydd ein Canolfannau Triniaeth Rhanbarthol arfaethedig yn agor yn 2025.

Rydym yn parhau i ehangu ein cefnogaeth i gleifion tra'u bod yn aros am driniaeth, megis y defnydd o ragsefydlu. Mae hwn yn becyn meddygaeth ataliol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o hyfforddiant ymarfer corff dwyster uchel dan oruchwyliaeth, optimeiddio dietegol ac ymyrraeth seicoleg, sydd wedi'u cynllunio'n bennaf i sicrhau bod cleifion mor ffit â phosibl ar gyfer llawdriniaeth, yn enwedig cyn triniaethau cymhleth mawr sy'n peri risg uwch o gymhlethdodau ar ôl llawdriniaeth. Mae defnyddio pecynnau cynsefydlu tra bod cleifion yn aros am lawdriniaeth yn helpu cadw cleifion yn heini ac yn actif, yn gwella symudedd a gall helpu lleihau symptomau o ddydd i ddydd a lefelau poen. Dylai hyn helpu lleihau'r straen a'r gorbryder a all ddeillio o aros am amser hir am driniaeth, a gwella canlyniadau triniaeth yn y pen draw.

Rydym hefyd yn datblygu prosesau cymorth yn fwy cyffredinol, gan ddefnyddio ein staff ein hunain a'r rhieni mewn sefydliadau partner, megis Y Groes Goch Brydeinig, sydd â rhwydwaith helaeth o wirfoddolwyr a all gysylltu ag unigolion i sicrhau bod anghenion iechyd meddwl yn benodol yn cael sylw.

Gan edrych ymlaen, bydd 2022/23 yn ddechrau cyfnod parhaus o adferiad, er ein bod yn rhagweld y bydd yn cymryd tair i bedair blynedd mewn rhai arbenigeddau i adennill y tir a gollwyd oherwydd y pandemig.

**Gofal Llygaid**

Ar ddechrau'r pandemig ataliwyd triniaethau gofal llygaid nad ydynt yn rhai brys, er i ni barhau i drin achosion brys a chynnal clinigau ar gyfer dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran (AMD)

Ailgychwynodd weithgarwch dewisol ym mis Awst 2021 ers ym mis Awst 2021, ond mae'r angen i gadw pellter o fewn ein hadrannau offthalmoleg, sydd o faint cyfyngedig, yn golygu bod gallu ein gwasanaethau yn cael ei leihau'n sylweddol. O ganlyniad, bu effaith ddifrifol ar amseroedd aros.

Mae timau offthalmoleg yn parhau i gategoreiddio cleifion yn grwpiau risg a'r angen mwyaf: gyda'r cleifion sy'n aros hiraf sydd â'r risg fwyaf oherwydd oedi mewn triniaeth yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gofal.

O dan Fesur Gofal Llygaid Cymru, rhoddir dyddiad targed unigol i gleifion y tybir eu bod yn y categori risg uchaf i gael eu gweld, sy'n blaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen clinigol mwyaf er mwyn lleihau'r risg bosibl. Y bwriad yw na ddylai eu haroshiad gwirioneddol fod yn fwy na 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed personol.

Ym mis Mawrth 2022, roedd gan y Bwrdd Iechyd ychydig dros 35,000 o gleifion yn y categori risg uchaf yn aros am apwyntiad, ac roedd 45% ohonynt o fewn yr amserlen 'dyddiad targed +25%', sef yr un gyfran ag ym mis Mawrth 2021. Mae hyn yn cymharu â ffigur Cymru gyfan o 50%.

Mae'r gwasanaeth Offthalmoleg wedi gweithio gyda phartneriaid gofal sylfaenol ac allanoli i ddatblygu llwybrau gofal a mentrau i ddarparu mwy o gynaliadwyedd. Mae hyfforddi Chwistrellwyr Anfeddygol ychwanegol a darparu staff ychwanegol a chlinigau gyda'r nos ac ar y penwythnos yn darparu mynediad mwy amserol at driniaethau mewnfirealaidd.

Mae cleifion cataract yn cael eu ffrydio i'r angen mwyaf a'r rhai sy'n elwa o driniaeth achosion dydd. Mae hyn yn galluogi dilyniant llwybrau nifer uchel, cymhlethdod isel sy'n lleihau nifer yr ymweliadau ysbyty ar gyfer cleifion cyn llawdriniaeth. Yn ogystal, mae gweithio mewn partneriaeth â gofal sylfaenol wedi galluogi mwy nag 85% o gleifion i gael eu hadolygiad ôl-lawdriniaethol yn eu practis Optometreg lleol, gan ryddhau capasiti o fewn gwasanaethau ysbyty. Dechreuodd gwaith allanoli cataract ym mis Rhagfyr 2021, gan drin tua 400 o gleifion bob mis a thrwy hynny leihau'r niferoedd sy'n aros am driniaeth.

Mae ein gwasanaethau offthalmoleg hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â gofal sylfaenol i gyflwyno llwybrau gofal newydd i gleifion â diabetes a glawcoma sy'n golygu eu bod yn cael eu hadolygu mewn gofal sylfaenol ac yna anfonir adroddiad at y clinigwr i nodi'r camau triniaeth nesaf.

**Diagnosteg - Radioleg**

Parhaodd radioleg i ddarparu gwasanaeth yn ystod y pandemig a gwelodd nifer y cyfeiriadau yn disgyn o fewn rhai meysydd o ganlyniad i rai gwasanaethau gofal iechyd a darparwyr yn gweithredu ar gapasiti llai. Roedd hyn yn caniatáu i Radioleg ganolbwyntio ar y cyfeiriadau brys a lleihau rhestrau aros yn sylweddol yn y rhan fwyaf o feysydd y gwasanaeth tra'n cynnal mesurau rheoli heintiau a chadw pellter cymdeithasol.

Wrth i'r galw barhau i gynyddu wrth i wasanaethau gael eu hailddechrau, rydym yn dechrau gweld hyn yn mynd y tu hwnt i weithgarwch ac wedi rhoi mesurau ar waith i reoli'r cynnydd yn y galw drwy roi adnoddau i gapasiti ychwanegol.

Mae radioleg yn symud i gyfnod trawsnewid gydag offer newydd ar draws y tri phrif safle, a rhai safleoedd cymunedol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar ddatblygu cynllun cynaliadwy ar gyfer y pum mlynedd nesaf i gynnwys newidiadau i lwybrau / patrymau cyfeirio, lefelau staffio a'r galw cynyddol a ddisgwylir.

**Diagnosteg - Endosgopi**

Mae endosgopi yn y cyfnod adfer a thrawsnewid ar hyn o bryd, ac mae wedi datblygu cynllun byrdymor i dymor canolig i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o gapasiti ar ein hystad bresennol, gan gynnwys drwy gontractau mewnol ym mhob un o'r tri ysbyty.

Mae ôl-groniad o gleifion o hyd yn aros dros 8 wythnos am driniaeth yn 2022/23, a bydd ein cynllun yn helpu i leihau'r ôl-groniad a lliniaru'r risg o amseroedd aros hirach o nawr hyd agor dwy Ganolfan Driniaeth Ranbarthol yn haf 2025.

**Diagnosteg - Cardioleg a Chanolfan Gardiaidd Gogledd Cymru**

Drwy gydol y pandemig mae Canolfan Gardiaidd Gogledd Cymru wedi parhau i ddarparu triniaeth a gofal i gleifion â syndromau coronaidd acíwt. Mae'r gwasanaeth ymyriad coronaidd sylfaenol trwy'r croen (PCI), sy'n ailagor rhydwelïau sydd wedi'u blocio ar adeg trawiad ar y galon, wedi gweithredu 24 awr y dydd trwy gydol y cyfnod hwn. Fodd bynnag, trwy gydol 2021/22, mae sicrhau bod pobl â phoen yn y frest yn cael eu trosglwyddo i'r ysbyty mewn modd amserol wedi bod yn her i'r Ganolfan Gardiaidd. Mae gwaith yn parhau gyda chydweithwyr yng Ngwasanaeth Ambiwlans Cymru i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal o fewn amserlen briodol.

Mae pob un o'r tri safle yng Ngogledd Cymru yn cynyddu capasiti wyneb yn wyneb wrth sicrhau y cedwir at ganllawiau rheoli heintiau i gadw cleifion a staff yn ddiogel. Fodd bynnag, mae ôl-groniad o gleifion yn aros i gael eu gweld. Bydd ailgynllunio a gwella llwybrau, yn enwedig ehangu llwybrau dan arweiniad nyrsys a darparu mwy o ddiagnosteg a thriniaeth yn nes at y cartref, yn gwella llif cleifion a mynediad at brofion wrth sicrhau bod cleifion yn gweld clinigwr priodol.

Mae amseroedd aros ar gyfer ecocardiogramau (ECGs) yn parhau i fod yn heriol oherwydd prinder cenedlaethol o glinigwyr. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant ychwanegol a rolau parhaol i fyfyrwyr sy'n gorffen y cwrs ffisioleg gardiaidd.




**Sgrinio**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau sgrinio ar waith. Yn ystod 2021/22, canolbwyntiodd y rhaglenni cenedlaethol ar eu cynlluniau adfer yn dilyn seibiannau i wasanaethau oherwydd y pandemig.

Ers mis Hydref 2021, mae rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru wedi'i ymestyn i gynnwys y rhai 58 a 59 oed am y tro cyntaf, yn ogystal â'r rhai 60-70 oed a oedd eisoes yn cael eu gwahodd ar gyfer Sgrinio Coluddion. Nod hyn yw canfod mwy o ganserau'r coluddyn yn gynt pan fydd triniaeth yn debygol o fod yn fwy effeithiol a newidiadau goroesiad yn gwella.

Ym mis Ionawr 2022 estynnodd Sgrinio Serfigol Cymru ei gyfnod sgrinio serfigol arferol (ar gyfer y rhai 25-49 oed) o dair i bum mlynedd os na chaiff y firws papiloma dynol (HPV) ei ganfod yn eu sgrinio (prawf ceg y groth). Mae hyn yn dilyn argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

**Cleifion Allanol**

Mae ymbellhau cymdeithasol, effaith COVID-19 ar ein gweithlu a gohirio apwyntiadau arferol ar adegau penodol i sicrhau y gallai apwyntiadau brys a llwybrau canser barhau wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y cleifion ar draws gogledd Cymru sy'n aros am apwyntiadau. Tua diwedd mis Mawrth 2022, roedd dros 150,000 o gleifion yn aros am apwyntiad, ac roedd dros hanner ohonynt yn aros am apwyntiad cyntaf.

Mae ein timau wedi bod yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r ôl-groniad ac adeiladu ar ddatblygiadau a all ddarparu gofal gwell a mwy hygyrch i'n cleifion, megis ymgynghoriadau rhithiol dros y ffôn neu fideo, a gwell cyfathrebu. Wrth i gyfyngiadau COVID-19 ledled Cymru gael eu llacio, rydym yn cynnal asesiadau risg i asesu i ba raddau y mae'r newidiadau'n golygu y gallwn gynyddu'n ddiogel nifer yr apwyntiadau y gallwn eu cynnal yn ein clinigau.

Rydym yn parhau i estyn allan at gleifion sy'n profi amseroedd aros hir i roi sicrwydd iddynt fod eu llwybrau'n parhau i gael eu rheoli ac i sicrhau ein bod ond yn cynnig apwyntiadau i gleifion sy'n dal i fod angen, ac yn dymuno cael eu gweld. Rydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwybodaeth am gynnydd wrth i ni ailgychwyn ein gwasanaethau.

Mae clinigau grŵp yn darparu profiad cadarnhaol i gleifion trwy brofiadau a rennir, cefnogi hunanofal a gweithio tuag at nod cyffredin. Gan adeiladu ar y buddion hyn, rydym wedi lansio 'Ysgol ar y Cyd Rithiol' yn Ysbyty Gwynedd ac rydym ar y trywydd iawn i sicrhau bod hon ar gael i gleifion ar draws Gogledd Cymru.

Lle mae'n briodol ac yn glinigol ddiogel i wneud hynny, rydym yn cynnig y dewis i gleifion gael eu rhyddhau o apwyntiad dilynol arferol, gyda'r opsiwn ar gyfer naill ai 'Sylw i Symptom' (SoS) neu 'Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf' (PIFU). Mae hyn yn galluogi cleifion i ofyn am apwyntiadau dilynol os yw eu cyflwr yn gofyn am hyn, heb fod angen gweld eu meddyg teulu yn gyntaf i gael eu hailgyfeirio, yn hytrach na chael cynnig apwyntiadau dilynol yn awtomatig yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn gweld nifer cynyddol o feddygon teulu yn defnyddio technoleg rithiol i gysylltu â chydweithwyr gofal eilaidd am gyngor ac arweiniad arbenigol, gan alluogi cleifion i gael eu hanghenion wedi'u diwallu mewn gofal sylfaenol heb fod angen ymweliad ysbyty.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu**

Gostyngodd cyfeiriadau at ein Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn sylweddol ar ddechrau cyfnod y pandemig cyn gwella i lefelau cyn y pandemig yn haf 2020. Yn ystod 2021/22 cynyddodd lefelau cyfeirio ymhellach, sef 1142 o gyfeiriadau y mis ar gyfartaledd, o gymharu â 985 y mis yn 2020/21.

Parhodd gwasnaethau i weld cleifion drwy gydol y flwyddyn, wrth gweithio o fewn cyfyngiadau parhaus COVID-19 a'r cymhlethdodau a ddaw yn sgil hyn i'r amgylchedd a'r amgylchiadau lle gellir gweld cleifion. Mae'r cyfyngiadau hyn, ynghyd â'r cynnydd yn nifer y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn, wedi cael effaith ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru.

Mae cydymffurfiaeth â thargedau yn cael ei monitro'n ofalus, a'i chydbwyso yn erbyn y gofynion Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd sy'n diffinio sut mae'n rhaid i ni weithio â chleifion sydd wedi profi'n bositif am COVID-19. Er mwyn darparu ein gofal yn ddiogel ac yn effeithiol, mabwysiadodd y gwasanaethau ddull cyfunol o ddulliau rhithiol a wyneb yn wyneb o ddarparu gwasanaethau. Mae'r timau'n bwriadu adeiladu ar y dull hwn wrth symud ymlaen i 2022/23 o dan yr elfen ddigidol eu strategaeth glinigiol.

Er gwaethaf y pwysau o ddarparu gwasanaethau yn ystod y pandemig, bu hon yn flwyddyn i adolygu sut rydym yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl. Rydym yn cydnabod y diffyg yn ein gallu i gyflawni rhai targedau allweddol, gan gynnwys Mesur Iechyd Meddwl Rhan 1, targed amser aros 26 wythnos Therapïau Seicolegol ac, yn bwysicaf oll, y meysydd a amlygwyd yn arolygiadau diweddar AGIC. Rydym wedi bod yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid yn edrych ar ffyrdd o wella a gwella gofal ar gyfer ein cleifion, datblygu modelau gofal newydd, gwahanol ffyrdd o weithio, a manteisio ar gyfleoedd i wella systemau, llwybrau a phrosesau. Rydym yn datblygu cynllun gwella sy'n seiliedig ar arghymellion AGIC, adborth cleifion a staff i fynd i'r afael â'n hangen am well darpariaeth mewn safonau gofal.

O fewn ein hamgylcheddau cleifion mewnol, rydym wedi bod yn gweithio i wella hanfodion gofal drwy weithredu achrediad wardiau ar draws ein safleoedd. Mae pob un ond dwy o'n wardiau wedi derbyn statws Efydd, neu uwch, erbyn diwedd Mawrth 2022. Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod gan bob ward isafswm safon Efydd yn 2022 a byddwn yn ceisio symud ymlaen y tu hwnt i Efydd yn y dyfodol.

Rydym wedi cytuno ar fodel ar gyfer Gwasanaeth Seicosis Ymyrraeth Gynnar gwell ac wedi sicrhau cyllid ar gyfer y cyfle trawsnewidiol hwn i wella gofal cleifion ar draws Gogledd Cymru. Rydym eisoes wedi dechrau recriwtio i'n model newydd.

Mae ein gwasanaeth amenedigol presennol eisoes yn darparu gofal i famau beichiog sydd â phroblemau iechyd meddwl hysbys neu'r rhai sy'n datblygu problemau iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd neu ar ei ôl. Rydym wedi asesu ein gwasanaethau amenedigol yn erbyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac wedi cytuno ar fodel sy'n cyd-fynd â safonau Iechyd Meddwl Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Mae ein bydwraig arbenigol wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi Sefydliad Ymwelwyr Iechyd yn llwyddiannus ar draws y gwasanaeth a bydd yn parhau i ddarparu a chynnal yr hyfforddiant hwn, a gyflawnir gan staff ar draws gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau obstetreg, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd.

Mae ein gwasanaethau FEDRA'I wedi tyfu i gynnwys amrywiaeth o ganllawiau hunangymorth a fideos ar-lein, a mewnbwn gan Therapyddion Galwedigaethol i rai o'n practisau meddygon teulu a'n hybiau cymunedol sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau a chymorth heb fod angen cyfeiriad. Mae ein gwaith FEDRA'I yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaeth, ystod o fewnbwn arbenigol o bob rhan o'r bwrdd iechyd a phartneriaid trydydd sector, ac mae wedi gweld llwyddiant sylweddol ers y dechrau. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a meddygon teulu a byddwn yn parhau i ymestyn a gwella adnoddau FEDRA'I.

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl i gefnogi ein cymuned oedolion hŷn wedi cael eu gwella eleni yn dilyn adolygiad ansawdd o Ysbytai Cymunedol. Arweiniodd hyn at nifer o ddarnau o waith gwella a arweiniwyd gan Nyrsys Ymgynghorol Dementia y Bwrdd Iechyd. Mae'r gwaith hwn yn cydblethu â gwaith ein Gwasanaeth Asesu Cof ac mae'n cynnwys datblygiad llwybr gofal gwell a gwell hyfforddiant mewnol i staff ar draws gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol. Bydd gwaith ar y cyd â Phrifysgol Bangor yn cefnogi gwerthusiad o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn a chyfleoedd hyfforddi yn y dyfodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus cyn cofrestru ac ar ôl hynny.

Mae gwaith yn 2021/22 wedi arwain at welliant sylweddol yn y ddarpariaeth o therapïau seicolegol cymhleth. Mae ardaloedd y Gorllewin a'r Canolbarth wedi cyflawni a chynnal cydymffurfiaeth yn erbyn y targed o 80% trwy gydol y flwyddyn, ac mae gwaith cryfhau yn parhau yn y Dwyrain gyda recriwtio wedi'i gynllunio yn 2022. Rydym yn ehangu ein mewnbwn seicoleg i wasanaethau eraill, a bydd y gwaith hwn yn parhau yn y flwyddyn i ddod. Rydym bellach yn gallu cynnig therapi seicolegol i gleifion strôc diolch i sefydliad gwasanaeth newydd a bydd gwaith yn parhau i gynyddu mewnbwn seicoleg i feysydd niwrowyddoniaeth eraill i sicrhau gwasanaeth cynhwysfawr. Mae mewnbwn seicoleg i wasanaethau iechyd meddwl Gofal Sylfaenol amlddisgyblaethol wedi cynyddu a bydd yn parhau i wneud hynny wrth i recriwtio i swyddi barhau.

Rydym wedi defnyddio adborth, trafodaethau partneriaid a chanlyniadau ymarfer galw a chapasiti i werthuso ein gwasanaethau adsefydlu iechyd meddwl presennol a nodi meysydd i'w gwella. Cytunwyd ar gynllun trawsnewid tair blynedd a fydd yn diffinio ein modelau gofal yn y gwely, yn y gymuned a gofal therapiwtig, gan sicrhau bod ein cleifion yn cael y gofal cywir, ar yr amser cywir a hynny yn y lle cywir.

Mae ein Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau wedi parhau i ddarparu gwasanaethau drwy gydol y pandemig tra hefyd yn ceisio galluogi ymyriadau cynnar a gwella canlyniadau adferiad i'n cleifion. Yn ogystal, eleni rydym wedi adolygu ein hangen am gefnogaeth fferylliaeth a'r dulliau electronig o ragnodi a fydd yn allweddol i wella diogelwch cleifion a chanlyniadau ymhellach.

Eleni rydym wedi mynd i'r afael â'r diffyg sylweddol yn narpariaeth gwasanaethau Anhwylder Bwyta i Oedolion yng Ngogledd Cymru. Mae'r model ar gyfer y gwasanaeth wedi'i gytuno ac rydym wedi llwyddo i recriwtio i nifer o swyddi allweddol. Bydd y gwelliant yn y ddarpariaeth yn golygu bod ein cleifion yn cael gofal o safon, gydag ymyrraeth gynnar a thriniaethau yn nes at adref.

Gan gydnabod yr effaith sylweddol y mae darparu gwasanaethau drwy gydol y pandemig wedi'i chael ar staff, mae'r Uwch Adran Iechyd Meddwl wedi parhau i gyflwyno ei strategaeth Lles, Gwaith a Chi sy'n galluogi ac yn cefnogi staff i gynnal y llesiant gorau posibl.

**Trin pobl fel unigolion**

Mae gan ein cleifion, gofalwyr, perthnasau a defnyddwyr gwasanaeth eraill ystod amrywiol o anghenion ac mae bodloni'r rhain yn hanfodol i gyflawni canlyniadau gofal effeithiol a darparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Mae adborth gan ein cleifion a defnyddwyr gwasanaeth eraill yn ein galluogi i ddysgu ac arloesi ac mae'n dangos yn glir bod cyfathrebu'n agored ac yn onest yn cyfrannu at ofal diogel ac effeithiol, profiad cadarnhaol, yn ogystal ag ymdeimlad o gael eich gwerthfawrogi a'ch parchu.

Mae'r cyfyngiadau ar ymweld y bu eu hangen i helpu i amddiffyn cleifion, ac ymwelwyr, rhag y risg o haint Covid-19 wedi golygu bod cleifion mewnol wedi bod yn llai abl i gadw mewn cysylltiad ac elwa o gefnogaeth eu teuluoedd a'u ffrindiau. Mae hyn wedi bod yn arbennig o anodd i'n cleifion mwy agored i niwed, gan gynnwys yr henoed a'r rhai â dementia a nam gwybyddol. I liniaru effeithiau hyn rydym wedi darparu dyfeisiau iPad a chefnogi â galwadau fideo i ffrindiau ac ymestyn ein gwasanaeth llythyr at anwyliaid.

Rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol iawn o effaith benodol cyfyngiadau ar ymweliadau o ran gwasanaethau cynenedigol a mamolaeth a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar brofiad menywod a'u partneriaid. Er bod amddiffyn unigolion rhag risgiau Covid-19 wedi bod yn ystyriaeth allweddol erioed, rydym wedi ceisio darparu ar gyfer anghenion unigolion ag anghenion penodol ar sail achos eithriadol.

Yn ystod 2021/22 fe wnaethom barhau i wynebu heriau o ran sicrhau bod anghenion cyfathrebu cleifion a defnyddwyr gwasanaeth â nam ar y synhwyrau yn cael eu diwallu ar yr un sail â'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth eraill yng nghyd-destun y pandemig Covid-19 parhaus. Yn ganolog i gwrdd â'r heriau hyn bu cydweithio parhaus gyda'r Ganolfan Arwyddo Golwg a Sain a Grŵp Cydweithredol Colli Clyw Gogledd Cymru ar gyfer darparu'r rhaglen Gofal Iechyd Hygyrch, a ariennir gan y Bwrdd Iechyd.

Mae Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) y Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth i unigolion ag anghenion cyfathrebu er mwyn darparu ymatebion i ymholiadau a datrys pryderon yn gynnar heb fod angen troi at y weithdrefn gwyno ffurfiol. Mae'r gwasanaeth PALS ar gael i bob claf a defnyddiwr gwasanaeth, ar draws pob sector gofal, ac fe'i cefnogir gan hyrwyddwyr Profiad Cleifion a Gofalwyr.

Mae mentrau eraill gan y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth eraill â nam ar y synhwyrau yn dal yn gallu cael mynediad annibynnol a derbyn gofal o'r un safon â defnyddwyr gwasanaethau eraill yn cynnwys:

- darparu gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain o dan gynllun cenedlaethol WITS (Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd Cymru), gan gynnwys darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd o bell;
- ailddatblygu canllawiau Pecyn Cymorth Nam ar y Synhwyrau i staff; a
- datblygiad deunyddiau e-ddysgu i gefnogi mwy o ymwybyddiaeth a hunanwerthuso eto o ofynion safonau Cymru gyfan ar gyfer gwybodaeth a chyfathrebu i bobl â nam ar y synhwyrau.

Mae'r Tîm Profiad y Claf yn defnyddio amrywiaeth o fecanweithiau adborth amser real ac ôl-weithredol i sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth eraill yn cael eu hanfon ymlaen yn rheolaidd at reolwyr gwasanaethau ac y gellir eu defnyddio i gefnogi gwelliannau i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae system adborth digidol Civica y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei defnyddio yn galluogi segmentu adborth drwy is-set o nodweddion gwarchodedig. Er gwaethaf y mesurau sydd ar waith, mae defnyddwyr gwasanaethau dall a rhannol ddall, a byddar neu â nam clyw yn gyffredinol yn adrodd lefelau boddhad is o gymharu â defnyddwyr gwasanaeth eraill, yn enwedig o ran pa mor hawdd yw cael mynediad at wasanaethau a chymryd rhan ynddynt.

Serch hynny, ar ôl iddynt gael mynediad at ofal, mae'r adborth ansoddol ar brofiadau unigolion o'n gwasanaethau yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd sylwadau cynrychioliadol a dderbyniwyd yn ystod 2021/22 gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n nodi eu bod yn fyddar neu â nam ar eu clyw, neu'n ddall neu â nam ar eu golwg, yn cynnwys:

- *Mae hon yn ward hyfryd a chyfeillgar, gyda phwyslais ar gysur a lles y claf;*
- *Ni allai'r staff nyrsio fod yn fwy cymwynasgar a gofalgar, roeddwn i wir yn teimlo fy mod mewn dwylo diogel yma;*
- *Gwych fel arfer, roedd y staff i gyd yn barchus iawn;*
- *Gwasanaeth ardderchog, diolch am edrych ar fy ôl, roedd y staff yn ofalgar;*
- *Gofal hollol broffesiynol ar bob cam.*
- *Gwnaeth pawb bopeth o fewn eu gallu i wneud i mi ymlacio. Darperir ar gyfer pob angen. Byrbwyd a choffi hyfryd. Hynod o gwrtais a pharchus.*
- *Mae sgil anhygoel y staff clinigol i wneud yr hyn a wnaethant yn wych;*
- *Rwyf wedi fy ngorchfygu â diolchgarwch am y gofal yr wyf yn ei dderbyn.*

Mae timau ysbytai a chymunedol, gyda chymorth ychwanegol gan wasanaethau gofal lliniarol arbenigol, wedi cydweithio'n agos i gefnogi anghenion gofal lliniarol a diwedd oes cleifion a theuluoedd, gan gynnwys y rhai y mae Covid-19 yn effeithio arnynt. Bu nifer o wasanaethau hefyd yn cydweithio i ddarparu mynediad at gymorth profedigaeth.

## Gweithio i Wella

O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (a elwir yn Gweithio i Wella neu 'PTR') mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd roi sicrwydd a thystiolaeth i gymuned y sefydliad a rhanddeiliaid yr ydym yn parhau i ymdrin â hwy a dysgu o bryderon.

Yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd y pryderon canlynol gan y Bwrdd Iechyd:

- Cwynion 4,723 wedi'u derbyn;
- Digwyddiadau 41,150 wedi'u hadrodd;
- Hawliadau 314 o hawliadau esgeulustod clinigol ac anafiadau personol newydd wedi'u hagor.

Cafodd pandemig Covid-19 effaith ar nifer y cwynion a hawliadau a dderbyniwyd a nifer y digwyddiadau a gofnodwyd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld dychweliad i lefelau adrodd mwy arferol fel yr oeddent cyn y pandemig. Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â gwasanaethau gofal eilaidd, gyda mwyafrif y cwynion ffurfiol yn ymwneud â thriniaeth ac asesiadau clinigol, cyfathrebu gwael ac amseroedd aros am apwyntiadau. Roedd themâu arall a gododd dro ar ôl tro yn ymwneud â rhyddhau cleifion o ysbytai, rhagnodi a thriniaethau ddim yn darparu'r canlyniadau disgwyliedig.

Mae pob cwyn a dderbynnir yn cael ei chydnabod i ddechrau ac, wedi hynny, yn cael ymateb sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae nifer fach o'r cwynion hyn lle'r ystyrir bod y methiant yn torri ein dyletswydd gofal. Ymchwilir yn drylwyr i unrhyw achos o'r fath sydd wedi, neu a allai fod wedi achosi niwed gwirioneddol, er mwyn nodi achosion sylfaenol neu risgiau posibl fel y gallwn ddileu neu liniaru'r cyfle am unrhyw dordyletswydd gofal tebyg yn y dyfodol.

O dan y rheoliadau PTR, pan fo'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ymchwiliad i bryder yn unol â Rheoliad 23 ac y penderfynir bod atebolrwydd cymwys yn bodoli neu y gallai fodoli, rhaid i'r Bwrdd Iechyd benderfynu, yn unol â'r darpariaethau, a yw dylid cynnig iawn.

Mae gwneud iawn yn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae'r claf wedi'i niweidio a'r niwed hwnnw wedi'i achosi gan y Bwrdd Iechyd.

Yn ystod 2021/22,daeth y nifer canlynol o achosion i ben ar ôl ystyried Gwneud Iawn:

- Derbyniwyd 20 cynnig o iawndal ariannol;
- Cafodd 5 ymddiheuriad ysgrifenedig eu gwneud;
- Cynghorwyd 28 o achosion i fynd ar drywydd hawliad esgeulustod clinigol gan y byddai unrhyw gynnig o iawndal ariannol a wneir yn fwy na'r terfyn o £25,000 a ganiateir o dan Reoliadau PTR;
- Cynghorwyd 3 i ddilyn hawliad anaf personol;
- Aeth 11 ymlaen i ddod yn hawliad esgeulustod clinigol;
- Cyfeiriwyd 1 at Ofal Sylfaenol;
- Anfonwyd 47 o ymatebion eraill yn ystod y cyfnod a adolygwyd ar gyfer iawn ond y barnwyd nad oedd ganddynt unrhyw atebolrwydd cymwys;
- Dywedwyd wrth 5 nad oedd unrhyw atebolrwydd cymwys yn dilyn anfon ymatebion interim.

**Cwynion**

Mae'r rhan fwyaf o gwynion a dderbynnir yn cael eu rheoli fel 'datrysiad cynnar', sy'n golygu eu bod yn cael eu datrys o fewn dau ddiwrnod o'u derbyn ac i foddhad yr achwynydd. Mae'r rhai nad ydynt wedi'u datrys o fewn yr amserlen hon, neu sy'n fwy cymhleth, yn aml gyda honiadau o niwed wedi'u hachosi, wedi'u rheoli o dan PTR.

O'r holl gwynion a dderbyniwyd, rheolwyd 1,815 o dan PTR a 2,908 yn Ddatrysiadau Cynnar. Mae cwynion a reolir o dan PTR yn cael eu graddio yn erbyn lefelau difrifoldeb a bennir yn genedlaethol a manylir ar y dadansoddiad hwn isod:

| Graddio | Nifer y cwynion a reolir o dan PTR |
|---|---|
| Gradd 5 (Niwed Trychinebus) | 17 |
| Gradd 4 (Niwed Difrifol) | 94 |
| Gradd 3 (Niwed Cymredol) | 409 |
| Gradd 2 (Niwed Isel) | 921 |
| Gradd 1 (Dim Niwed) | 374 |

Cydnabyddir y gall cwynion ddod â nifer o wahanol agweddau ar ofal i'n sylw, a chaiff y rhain eu trin yn unigol o fewn ein hymateb. Mae sylwedd y pryderon yn cael eu categoreiddio mewn perthynas â'r prif bwnc, yn unol â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru, i gefnogi'r gwaith o nodi themâu sy'n dod i'r amlwg a meysydd pryder penodol sy'n arwain at waith gwella â ffocws.

Y tri phwnc a nodwyd amlaf o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

- Triniaeth/asesiad clinigol (ar draws yr holl wasanaethau);
- Materion cyfathrebu (ar draws yr holl wasanaethau);
- Apwyntiadau (yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau llawfeddygol).

Cafodd trefn gwyno newydd ei rhoi ar waith yn Ebrill 2021. Mae'r broses wedi cyfrannu at ansawdd gwell o adroddiadau ymchwilio ac wedi lleihau nifer yr ail ymatebion. Mae'r weithdrefn yn sicrhau bod y gwasanaethau'n deall eu cyfrifoldeb a'u hatebolrwydd wrth ymchwilio i'w cwynion tra'n archwilio niwed a thorri dyletswydd, a bod cynlluniau gweithredu cadarn yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o'r broses i sicrhau bod newidiadau cadarnhaol yn cael eu gwneud i wella diogelwch, gofal a phrofiad cleifion.

Cynhelir dadansoddiad thematig yn wythnosol i nodi meysydd sy'n peri pryder a rhennir unrhyw ddigwyddiadau rheolaidd gyda'r uwch reolwyr o fewn y gwasanaethau i ymchwilio ac adnabod cyfleoedd i wella.

Mae cyfathrebu yn thema eang o fewn cwynion; roedd 459 o gwynion yn ymwneud yn arbennig ag agweddau ar gyfathrebu; Roedd 431 yn ymwneud yn uniongyrchol â materion cyfathrebu a 28 yn ymwneud yn uniongyrchol â materion cyfrinachedd.

Fel Bwrdd Iechyd rydym yn parhau i ymdrechu i wella pob agwedd ar gyfathrebu. Cymerwyd y camau gweithredu canlynol y llynedd:

- mae'r Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) yn gweithio'n uniongyrchol gyda Swyddfa'r Archwilydd Meddygol i sicrhau bod teuluoedd yn cael cyfle i gael ateb i unrhyw gwestiynau heb eu hateb ynghylch colli anwyliaid ac i rannu eu profiadau;
- prynu dyfeisiau iPad a dalwyr iPad ychwanegol i'w defnyddio mewn ardaloedd ysbytai acíwt a chymunedol fel y gall cleifion gael galwadau fideo gyda'u perthnasau a'u gofalwyr yn ystod ymweliadau cyfyngedig;
- Gwaith wedi'i dargedu ar wardiau ysbyty i edrych ar ffyrdd o wella cyfathrebu rhwng staff a gofalwyr/teuluoedd di-dâl;
- Parhau i gynnig gwasanaeth 'llythyrau at anwyliaid' lle gall perthnasau a gofalwyr anfon neges dros y ffôn, llythyr neu e-bost a bydd yn cael ei ddosbarthu i'r claf;
- Casglu straeon cleifion am gyfathrebu cadarnhaol a negyddol er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da mewn cyfarfodydd ar draws y Bwrdd Iechyd.

Cydnabyddir nad yw pob pryder a fynegir yn gŵyn ond y gall fod yn gwestiwn, yn fynegiant barn neu'n ymholiad. Bydd ffocws y ffyrdd newydd o weithio ar ddatrys pryderon yn gynnar megis mynediad at wasanaethau ac amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau a gweithdrefnau, sef un o'r themâu sy'n arwain at nifer fawr o gwynion i'r Bwrdd Iechyd. Fel rhan o'r trefniadau newydd, mae Tîm Cwynion y Bwrdd Iechyd bellach yn gweithio'n agosach gyda'r Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) i ganolbwyntio ar y cyswllt cyntaf a datrys cwynion ac ymholiadau'n gynnar.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)**

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am ddarparwyr gofal yng Nghymru.

Yn ystod 2021/2022, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael cyfanswm o 213 o gysylltiadau gan yr Ombwdsmon. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys yr achosion hynny lle'r oedd yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio neu ymholi i fater, yn ogystal ag ymchwiliadau ac ymholiadau gwirioneddol. Cafwyd y ffigur hwn gan yr Ombwdsmon a'i groeswirio i ddata mewnol ac mae'n gywir ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd ar nifer yr achosion lle mae'r Ombwdsmon wedi codi ymholiadau ac ymchwiliadau, ond nid y rhai lle penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio. Mae'r Bwrdd Iechyd felly wedi adrodd ar ffigwr gwahanol, ac is, yn ei Adroddiadau Blynyddol PTR i'r hyn a adroddwyd gan yr Ombwdsmon yn ei Lythyr Blynyddol.

Cydnabyddir y gall y gwahaniaeth yn y meini prawf adrodd achosi dryswch. Wrth symud ymlaen, bydd y Bwrdd Iechyd a'r Ombwdsmon yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau aliniad rhwng y meini prawf adrodd ar draws y ddau adroddiad. Y gwahaniaethau yn natganiadau'r flwyddyn flaenorol yw:

| **Cyfnod Adrodd** | **Datgeliad BIPBC** (yr achosion hynny lle penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio neu ymholi i fater) | **Datgeliad yr Ombwdsmon** (cyfanswm y cysylltiadau, yn cynnwys achosion lle penderfynodd yr Ombwdsmon beidio â chymryd camau a'r rhai lle penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio neu ymholi i fater) |
|---|---|---|
| 2020/21 | 122 | 184 |
| 2019/20 | 166 | 227 |
| 2018/19 | 137 | 184 |

O bryd i'w gilydd, gall yr Ombwdsmon lunio 'adroddiad budd y cyhoedd', gan sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o fath penodol o achos. Yn ystod y cyfnod hwn derbyniodd y Bwrdd Iechyd ddau adroddiad budd y cyhoedd o dan Reoliad 23, roedd y cyntaf yn ymwneud â gwasanaethau wroleg a'r ail yn ymwneud â gofal claf yn Ysbyty Glan Clwyd.

**Digwyddiadau**

Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau sy'n cael eu cofnodi yn cael eu nodi fel 'esgeulusadwy' gan nad oedd unrhyw niwed wedi'i achosi gan y digwyddiad.

Y tri math mwyaf cyffredin o ddigwyddiad a gofnodwyd ar system adrodd am ddigwyddiadau'r Bwrdd Iechyd yn y flwyddyn 2021/22 yw:

- briwiau gwasgu/wlser decubitus;
- llithro, baglu a chodymau;
- dod i gysylltiad â sylwedd /haint peryglus.

Yn ystod y flwyddyn gwelodd y Bwrdd Iechyd gynnydd, yna chwymp a chynnydd eto, yn nifer y digwyddiadau a godwyd mewn perthynas â COVID-19 yn unol â lledaeniad amrywolion newydd ledled Cymru. Roedd y digwyddiadau a adroddwyd yn cynnwys achosion clwstwr ac achosion unigol o'r firws (ymhlith staff a chleifion). Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddefnyddio dull safonol Cymru gyfan i ymchwilio i'r achosion hyn o dan y rheoliadau PTR.

Mae grŵp goruchwylio strategol y Bwrdd Iechyd yn parhau i graffu ar achosion o godymau. Mae'r dull hwn yn galluogi'r grŵp i nodi unrhyw themâu a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, neu broblemau, ac i wneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

Ar ddechrau'r cyfnod, roedd parhad newidiadau cenedlaethol i drefniadau adrodd oherwydd pandemig COVID-19 yn golygu bod nifer y digwyddiadau difrifol yr adroddwyd amdanynt i Lywodraeth Cymru wedi'u cyfyngu i nifer fach o gategorïau. Roedd prosesau mewnol yn sicrhau bod pob digwyddiad difrifol yn cael ei adolygu gan ddefnyddio dull ymchwilio cymesur.

O 14 Mehefin 2021, roedd yn ofynnol i gyrff cyfrifol GIG Cymru weithredu Cam 1 Polisi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Adrodd am Ddigwyddiadau. Y newid amlycaf yng nghyfeiriad y polisi yw newid mewn terminoleg gan ddileu'r gair "difrifol" o'r term "digwyddiad difrifol". Y bwriad wrth ddileu'r gair difrifol yw cefnogi diwylliant mwy cyfiawn a dysgu lle nad yw adrodd am ddigwyddiadau yn teimlo'n gosbol.

Cododd Uned Gyflenwi GIG Cymru unrhyw gyfyngiadau adrodd a roddwyd ar waith oherwydd Covid-19 ar 14 Mehefin 2021, a darparodd restr o Gategorïau Digwyddiad Cenedlaethol Penodol yn ogystal â Threfniadau Adrodd Penodol. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae nifer y digwyddiadau'n parhau i fod yn llawer is na'r rhai yr adroddwyd amdanynt cyn y pandemig. Fodd bynnag, ers mis Hydref 2021 bu cynnydd cyson yn nifer y Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol.

Yn 2021/22, mae 12 o 'ddigwyddiadau na ddylent byth ddigwydd' wedi'u hadrodd. Mae'r rhain yn ddigwyddiadau andwyol difrifol y dylai ein systemau a'n prosesau sicrhau nad ydynt byth yn gallu digwydd. Cododd saith o'r digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd mewn theatrau a themâu cyffredin yw methiant i ddefnyddio LocSSIPs (Safon Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol), a methiant i ddefnyddio rhestr wirio llawfeddygol Sefydliad Iechyd y Byd yn ei chyfanrwydd. Mae ein hymagwedd at LocSSIPs a NatSSIPs (Safon Diogelwch Cenedlaethol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol) yn cael ei ailgynllunio ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliadau i'r digwyddiadau hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio i ddatblygu ymagwedd ffactorau dynol at ymchwiliadau, gan gydnabod pwysigrwydd rôl ymddygiadau dynol wrth weithio mewn system hynod gymhleth a heriol gan ganolbwyntio ar arferion o fewn y theatr llawdriniaethau. Mae Cymrawd Gwella Ansawdd Clinigol hefyd wedi'i benodi i gyflwyno rhaglen o waith gwella o ran diogelwch llawfeddygol.

Fel rhan o'r broses digwyddiad newydd, cynhelir "Paneli Dysgu Cyflym" (RLP) rhwng yr uwch dîm rheoli a swyddogion gweithredol clinigol tua 24 awr yn dilyn Digwyddiad Na Ddylai Byth Ddigwydd a/neu pan fydd digwyddiad anffafriol lle mae niwed sylweddol neu farwolaeth claf wedi digwydd. Rôl y cyfarfodydd hyn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddysgu uniongyrchol a'r camau sy'n cael eu cymryd (gan gynnwys unrhyw ddysgu uniongyrchol ar draws y Bwrdd Iechyd), nodi risgiau allweddol a darparu cymorth lle bo angen. Mae hyn yn cyd-fynd ag Adolygiad Cyflym Ei Wneud yn Ddiogel a gwblheir o fewn 72 awr gan y gwasanaeth priodol.

System rheoli pryderon electronig Cymru gyfan yw Datix Cymru a dderbyniodd y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2021. Mae arno fodiwlau lluosog (e.e. hawliadau, digwyddiadau, cwynion) ac mae gan bob modiwl gynllun gweithredu unigol. Mae'r modiwl digwyddiadau wedi'i brofi, mae hyfforddiant yn parhau a bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau o fis Ebrill 2022.

**Hawliadau**

Yn chwarter cyntaf 2021/22, roedd nifer yr hawliadau a dderbyniwyd yn ôl i'r lefel cyn y pandemig. Drwy gydol y rhan fwyaf o weddill y flwyddyn ariannol hon, mae'r niferoedd a dderbyniwyd wedi amrywio ychydig yn is na'r lefel cyn y pandemig.

Mae 238 o achosion wedi'u hagor y flwyddyn ariannol hon, sy'n ostyngiad bach ar y rhai a agorwyd y llynedd (255). Mae'n debygol y gellir priodoli'r gostyngiad i oedi wrth dderbyn hawliadau newydd o'r cyfnod pandemig pan gafodd llawer o hawliadau eu gohirio.

Teimlir hefyd y gallai'r swm sylweddol o waith ar yr adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau, ochr yn ochr â gweithdrefnau newydd Cronfa Risg Cymru a weithredwyd ym mis Hydref 2019, fod wedi bod yn ffactor a gyfrannodd at ostyngiad bach.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd 749 o hawliadau esgeulustod clinigol ac anaf personol, ar agor ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd gan y Bwrdd Iechyd hefyd bedwar mater adolygiad barnwrol yn agored sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gwasanaethau Gofal Iechyd yn CEM Berwyn. Yn ogystal, mae'r Tîm Cyfraith Gofal Iechyd yn cefnogi'r staff clinigol ehangach gydag ymholiadau cyffredinol am gyngor cyfreithiol gan gynnwys adolygu datganiadau ar gyfer materion yr heddlu ac achosion cyfraith teulu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ddisgwyl gweld cynnydd sylweddol yn yr holl hawliadau o ganlyniad i bandemig Covid-19, er nad yw'r nifer llawn yn hysbys eto. Mae'n debygol y bydd hawliadau o'r fath yn ymwneud nid yn unig ag effeithiau uniongyrchol Covid 19 (h.y. heintiau nosocomiaidd posibl), ond hefyd yr effeithiau anuniongyrchol (h.y. cleifion ag amseroedd aros hirach am lawdriniaeth o ganlyniad i ohirio gwasanaethau drwy 2020-22). Mae didwylledd, tryloywder, gwella diogelwch cleifion a dysgu gwersi yn parhau i fod yn allweddol i'r Bwrdd Iechyd.

Drwy gydol 2021/22, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sylwi ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn hawliadau yn y meysydd a ganlyn:

- Y defnydd o Dâp Rhwyll Di-Densiwn Traws-Wain (TVT) mewn achosion gynaecoleg. Mae hyn yn dilyn hawliad grŵp mwy, sydd wedi'i ddwyn yn erbyn cynhyrchwyr y Dyfeisiau Rhwyll TVT a llawer o gyhoeddusrwydd yn y newyddion yn genedlaethol ynghylch y mater hwn. Yn gyffredinol, mae'r honiadau'n seiliedig ar gafwyd caniatâd priodol cyn gosod y ddyfais ac a oedd y gofal, y rheolaeth a'r driniaeth a dderbyniwyd o'r safon briodol.
- Cynnydd bychan mewn hawliadau yn ymwneud â Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol Gogledd Cymru, yn enwedig yn ardal y Dwyrain. Mae'r hawliadau hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â gwaith deintyddol brys yn dilyn apwyntiadau a ganslwyd/nad oeddent ar gael oherwydd Covid-19. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Llithro a baglu, diogelu data a materion trais/ymosodedd mewn hawliadau anafiadau personol

Mae camau gweithredu a gwelliannau a wnaed yn dilyn ymchwilio i hawliadau yn cynnwys:

- Mae llawer o arbenigeddau o fewn y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ar ffurflenni cydsynio sy'n benodol i driniaethau i gefnogi cydsynio gwybodus ar gyfer ymyriadau. Mae platfform EIDO wedi'i gyflwyno i gefnogi'r safon gyson Cymru gyfan a ddatblygwyd gan Gronfa Risg Cymru. Mae EIDO yn blatfform sy'n cynnig taflenni gwybodaeth safonol, wedi'u cymeradwyo'n genedlaethol i gleifion ar gyfer ystod o driniaethau ac mae'n sicrhau bod y risgiau a'r buddion priodol yn cael eu hesbonio i gleifion i gefnogi'r broses gydsynio.
- Mae Hyfforddiant PROMPT (rhaglen diogelwch mamolaeth a ariennir gan Gronfa Risg Cymru ac a gefnogir gan Sefydliad Mamolaeth PROMPT - gweler https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/prompt-cymru/) a gafodd ei rhoi ar waith yng Nghymru yn 2018 ac sy'n parhau i fod ar waith mewn perthynas ag Obstetreg / Bydwreigiaeth gyda staff yn cael hyfforddiant diweddaru rheolaidd. Mae cyfraddau cydymffurfio'n uchel.
- Ym maes iechyd meddwl, mae polisïau derbyn ar gyfer gofal acíwt a thriniaeth yn y cartref wedi'u diweddaru a'u hymgorffori, ac mae Polisi Ymgysylltu ac Arsylwi Therapiwtig wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddefnyddio bellach.
- Mae'r canolfannau trefnu apwyntiadau bellach yn defnyddio system argraffu a phostio ganolog sy'n sicrhau bod dyddiad ar lythyrau a'u bod yn cael eu ffeilio'n briodol gan sicrhau bod system ar gyfer archwilio a lleihau'r risg y bydd materion gweinyddol a chyfathrebu yn amharu ar gleifion sy'n mynychu apwyntiadau.

## Darparu mewn Partneriaeth

Mae pandemig COVID-19 wedi dangos pwysigrwydd partneriaethau'r Bwrdd Iechyd a chydweithio â sefydliadau eraill.

Rydym wedi parhau i gydweithio â chydweithwyr ar draws cyrff iechyd eraill, awdurdodau lleol, sefydliadau academaidd, sefydliadau trydydd sector a'r fyddin, ymhlith eraill, i ddarparu ymateb effeithiol i'r heriau a gyflwynir gan COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn aelod o Grŵp Cydlynu Strategol Gogledd Cymru sy'n cydlynu'r cydweithio rhwng asiantaethau statudol ar draws y rhanbarth.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl sefydliadau sydd wedi cefnogi'r Bwrdd Iechyd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig mewn perthynas â darparu'r rhaglen frechu, drwy ganiatáu i ni ddefnyddio eu hadeiladau a'u cyfleusterau, rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd a darparu cymorth staffio.

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd cydweithio yn ganolog i sefydlu trefniadau i gyflawni'r Strategaeth Profi Olrhain a Diogelu (TTP) yng ngogledd Cymru.

### Gweithio gyda Fforwm Lleol Cymru Gydnerth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i gategoreiddio o fewn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) fel "Ymatebydd Categori 1" ac felly mae'n ofynnol cyflawni'r dyletswyddau deddfwriaethol llawn o dan y Ddeddf. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau cyfreithiol hyn, rhaid i'r Bwrdd Iechyd fodloni'r gofynion a nodir yng Nghanllawiau Craidd Cynllunio at Argyfwng GIG Cymru (Ebrill 2015). At hynny, fel arfer gorau, rydym wedi mabwysiadu ac yn cydymffurfio â Safonau Craidd GIG Lloegr ar gyfer Parodrwydd a Gwydnwch Argyfwng (EPRR).

Mae strwythur llywodraethu yn darparu trosolwg a chydlyniad o drefniadau parodrwydd ar gyfer argyfwng y Bwrdd Iechyd. Mae'r strwythur hwn yn cysylltu â Fforwm Gwytnwch Gogledd Cymru, sy'n darparu cynllunio cydlynedig a pharodrwydd ar draws pob asiantaeth sy'n gysylltiedig â gweithgaredd diogelu sifil.

Ar lefel genedlaethol, mae'r Tîm Cydnerthu yn rhan o'r Grŵp Cynghori Cynllunio Rhag Argyfyngau, sef fforwm a arweinir gan Lywodraeth Cymru sy'n dod â rheolwyr ac ymarferwyr cydnerthu iechyd ynghyd i sicrhau cysondeb o ran parodrwydd a gwybodaeth a rennir yn ymwneud ag ymateb. At hynny, mae'r Bwrdd yn cysylltu â strwythur cynllunio cydnerthedd GIG Lloegr a nifer o weithgorau penodol i Gymru gyfan megis y rhai sy'n ymwneud â rheoli anafiadau torfol a'r ymateb meddygol cyn-ysbyty i ddigwyddiadau mawr.

Er mwyn cefnogi gwaith trawsffiniol, mae'r Tîm Cydnerthu hefyd yn mynychu Cyfarfodydd Tîm Partneriaeth Cydnerthedd Iechyd yn Swydd Gaer a Glannau Mersi a gwahoddir cynrychiolydd o Swydd Gaer i fynychu Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl y Bwrdd Iechyd i gefnogi gwaith trawsffiniol.

### Cefnogi Gofal Cymdeithasol – Sicrhau Rhyddhau Diogel

Yn ystod y pandemig, daeth yn amlwg nad oedd y fethodoleg bresennol ar gyfer rheoli a monitro Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DToC) o'n hysbytai bellach yn ddigonol i sicrhau bod ein cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel ac yn amserol yng nghyd-destun parhaus COVID-19. Yn 2018, datblygwyd methodoleg newydd o'r enw 'Rhyddhau i Adfer ac Asesu' (D2RA) mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r holl fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ledled Cymru ac ym mis Ebrill 2020 fe wnaeth Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbytai COVID-19 ailffocysu'r angen i ymgorffori llwybrau D2RA ar draws y system.

Mae D2RA yn dod ag asiantaethau lluosog ynghyd, gan weithio mewn partneriaeth i alluogi rhyddhau cleifion yn amserol o welyau ysbyty acíwt i'w cartref neu i leoliad gofal mewn modd cyflymach a mwy diogel, gan sicrhau bod yr holl becynnau gofal a chymorth cywir sydd eu hangen ar gydweithwyr gofal cymdeithasol ar gael.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid Awdurdod Lleol i gyd-ddylunio a datblygu llwybrau rhyddhau a phrosesau cyfeirio newydd, ac i ffurfioli'r llwybrau rhyddhau presennol er mwyn gwella'r math ac ansawdd y cleifion yr ydym yn eu cyfeirio. Bydd hyn yn galluogi gofal cymdeithasol i flaenoriaethu cyfeiriadau yn effeithiol ac ymateb yn briodol, yn lle treulio amser yn brysbennu ac adolygu cyfeiriadau amhriodol. Rydym hefyd wedi mapio a mireinio ein llwybrau D2RA gyda'n partneriaid Awdurdod Lleol (ALl) i alluogi asesiad rhagweithiol o gleifion y tu allan i leoliad ysbyty acíwt. Mae hyn yn galluogi asesiad mwy cywir, yn lleihau gor-bresgripsiwn o ofal ac yn cefnogi pobl i gadw a/neu gynyddu eu hannibyniaeth.

Mae'r dull hwn yn ein helpu i leihau'r amser y mae cleifion yn aros yn yr ysbyty tra'n aros i drefniadau gofal gael eu rhoi ar waith, gan ein helpu i ryddhau capasiti gwelyau ar gyfer y rhai sydd angen gofal ysbyty acíwt brys, tra'n cefnogi adferiad a lleihau'r risgiau i'r rhai nad ydynt angen bod mewn gwely ysbyty acíwt yn hirach. Fodd bynnag, mae capasiti o fewn y sector gofal, mesurau staffio a rheoli heintiau a roddwyd ar waith i reoli COVID-19 yn parhau i effeithio ar gyflymder cyffredinol y broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty.

**Cefnogi Cartrefi Nyrsio**

Drwy gydol pandemig COVID-19 cydnabuwyd bod mwy o risg i breswylwyr cartrefi gofal fod yn agored i ledaeniad cyflym Covid-19. Defnyddiwyd dull partneriaeth cadarn i sicrhau bod ein hymateb a'n cymorth i gartrefi gofal yn amserol, yn effeithiol ac yn gyson, gan ganolbwyntio ar roi'r camau allweddol ar waith yng Nghynllun Gweithredu Cartrefi Gofal Unigol Llywodraeth Cymru.

Mae meysydd cydweithio a chymorth i gartrefi gofal sy'n cynnwys y Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a chydweithwyr awdurdodau lleol wedi cynnwys profion Covid-19, atal a rheoli heintiau, rheoli achosion clwstwr a brechu staff a phreswylwyr.

Nododd y gwaith hwn mai dim ond cynlluniau parhad busnes cyfyngedig oedd gan lawer o gartrefi gofal a darparwyr ac nad oeddent yn gallu atal neu reoli achosion o haint yn effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddarparu cymorth i sicrhau gwydnwch gwell yn y dyfodol. Mae hefyd wedi cadarnhau pwysigrwydd ymweliadau ansawdd 'gyda ffocws' i nodi pryd mae angen cymorth mwy rhagweithiol, yn ogystal â sicrwydd bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu.

Yn ogystal, rydym wedi ymgysylltu â'r sector cartrefi gofal i adolygu ansawdd ein cyfeiriadau rhyddhau o'r ysbyty ac o ganlyniad rydym yn datblygu ffurflen gyfeirio electronig ar gyfer Trosglwyddo Gofal (TOC) ar gyfer rhyddhau i'r sector cartrefi gofal o fewn model D2RA.

Bydd y ffurflen hon yn darparu gwybodaeth o ansawdd gwell i'r cartrefi gofal (gan arwain at well profiad a chanlyniadau i bobl) ac yn lleihau oedi wrth ryddhau ar gyfer grŵp o gleifion sy'n agored iawn i niwed, ac ymhen amser bydd yn darparu dull ychwanegol o asesu y gellir ymddiried ynddo. Bydd gweithredu'r cyfeiriad TOC newydd hefyd yn cryfhau ffocws a swyddogaeth ein Canolfannau Cartref yn Gyntaf trwy ddarparu gwybodaeth cyfeirio o ansawdd gwell am ein cleifion, gan ein galluogi i ffrydio cleifion yn well i'r capasiti gofal cymunedol cywir i fodloni eu hanghenion, a thrwy hynny wneud y defnydd gorau o'r capasiti iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael.

## Rheoli Gweithlu a Lles

### Sicrhau Lefelau Staffio Diogel

Drwy gydol y pandemig, rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr meddygol, nyrsio a chlinigol eraill i sicrhau bod lefelau staffio wedi'u cynnal fel y gallwn barhau i ddarparu'r gofal mwyaf effeithiol ar draws ein holl wasanaethau. Rydym wedi bod yn hyblygu'r gweithlu mewn modd ystwyth i ddarparu cymorth lle bo angen, p'un ai i fodloni'r cynnydd yn y galw brys ar ein gwasanaethau, i gyflymu ein rhaglen frechu neu i roi ein rhaglen adfer gofal wedi'i gynllunio ar waith.

Mae'r heriau hyn yn dal i fodoli a chydnabyddir y bydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu cymorth parhaus i staff ac edrych ar ffyrdd newydd o weithio fel yr ydym wedi'i wneud drwy gydol y pandemig i fodloni'r heriau staffio sydd o'n blaenau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth edrych ar lefelau staffio presennol ar draws modelau gwasanaeth traddodiadol sy'n cael eu harwain yn feddygol yn bennaf ac sy'n seiliedig ar welyau, ac wrth ystyried sut rydym yn mynd i'r afael â'r meysydd hynny lle mae prinder staff â chymwysterau addas ar lefel genedlaethol yn ei gwneud yn arbennig o anodd recriwtio. Fel rhan o adolygiadau gwasanaeth parhaus edrychir ar y cymysgedd sgiliau clinigol a, lle bo'n bosibl, caiff ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau eu cynnwys a'u mabwysiadu.

Roedd cynllunio i fynd i'r afael â phob un o'r sefyllfaoedd hyn yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd. Ailedrychwyd ar gynlluniau ymchwydd gweithlu a ddatblygwyd ar ddechrau'r pandemig a phrofwyd a choethwyd y seilwaith paratoi adnoddau i sicrhau y gellid cyflwyno'r cynlluniau yn ôl yr angen ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Mae'r dull hwn wedi parhau ac wedi'i ymgorffori yn ein blaengynllunio i sicrhau nad yw'r addysg a'r profiad a gafwyd dros y cyfnod diwethaf yn cael eu colli wrth i ni wynebu heriau parhaus o ran y gweithlu.

Gan adeiladu ar waith y blynyddoedd blaenorol i sicrhau bod ein staff yn cael eu cadw'n ddiogel yn yr amgylchedd gwaith, fe wnaethom drefnu rhaglenni cymorth pwrpasol i sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol a dealltwriaeth o'r rolau y gofynnwyd iddynt eu cyflawni fel rhan o'r ymateb parhaus i'r pandemig. Roedd hyn yn canolbwyntio'n benodol ar y rhaglen brechiadau atgyfnerthu er mwyn ein galluogi i ddod â'r staff gofynnol i mewn mewn cyfnod byr iawn i gefnogi'r broses gyflwyno gyflym ar draws mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022.

Darpariaethau parhaus ar gyfer staffio diogel yn amgylchedd COVID-19, gan gynnwys adnewyddu asesiadau risg unigol COVID-19, mesurau monitro i gefnogi pellhau cymdeithasol a chynnal addasiadau corfforol i'r amgylchedd gwaith, ochr yn ochr â sicrhau bod staff yn cael, a'u hyfforddi i ddefnyddio, offer diogelu personol priodol, yn cael eu cadw ar waith yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

### Mentrau Lles ar Gyfer y Staff

Rydym yn cydnabod bod darparu gofal yn ystod y pandemig wedi rhoi pwysau ychwanegol ar ein staff. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu ystod o wasanaethau i gefnogi iechyd meddwl a lles staff. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaeth hyfforddi mewnol, cwnsela a chymorth gan wasanaeth Iechyd a Lles Galwedigaethol y Bwrdd Iechyd, a gefnogir gan rwydwaith o hyrwyddwyr lles lleol a sicrhau bod gan staff fynediad at wasanaethau cenedlaethol megis Silver Cloud a gwasanaeth cymorth Iechyd i Weithwyr Proffesiynol Iechyd.

Yn gynnar yn y pandemig, sefydlwyd gwasanaeth cymorth lles staff ychwanegol (SWSS) sy'n cael ei arwain gan wasanaeth Seicoleg Glinigol y Bwrdd Iechyd. Darparodd hyn gefnogaeth seicolegol ac ymyriadau i staff sy'n gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd trwy gyfuniad o sesiynau galw heibio, wyneb yn wyneb a rhithiol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth hwn wedi'i ddatblygu ymhellach gyda phenodiadau cyfnod penodol ychwanegol a mynediad at therapi seicolegol ar gael trwy ddarparwr allanol. Rydym wedi darparu cyfleoedd hyfforddi gwydnwch emosiynol pellach i staff ac wedi rhoi cynlluniau ar waith i gyflwyno hyfforddiant hwyluswyr o fis Mehefin 2022 i ddatblygu rhwydwaith o hyfforddwyr o fewn y Bwrdd Iechyd. Yn ystod y flwyddyn mae llawer o waith wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth, a hwyluso mynediad ato, trwy fewnrwyd, negeseuon slip cyflog a chylchlythyrau'r Bwrdd Iechyd.

Mae ffocws y SWSS hyd yma wedi bod yn bennaf ar gefnogi iechyd emosiynol a lles seicolegol aelodau unigol o staff. Wrth i ymwybyddiaeth o SWSS gynyddu, mae ceisiadau am gymorth a chefnogaeth ar gyfer grwpiau/timau o staff a rheolwyr llinell wedi'u derbyn, gan adlewyrchu'r angen i gefnogi lles staff ar y cyd yn ogystal ag yn unigol. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ceisio mynd i'r afael ag ef yn ystod y flwyddyn nesaf.

Nod datblygu'r gwasanaeth ymhellach yw sefydlu pum haen o gymorth, yn amrywio drwy hyfforddiant hunanofal a gwydnwch emosiynol, mynediad at y Wellbeing Blitz a mentrau Cymryd Gofal a Rhoi Gofal sydd wedi'u treialu'n llwyddiannus yn ystod 2021/22, cymorth cwnsela, cymorth gan Seicolegydd Clinigol a llwybr newydd y cytunwyd arno gyda'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar gyfer staff a allai fod yn profi argyfwng acíwt. Y bwriad hefyd yw alinio'r agweddau llesiant ar y gwasanaeth Lles, Gwaith a Chi y mae'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu eisoes yn ei gynnig i'w staff gyda SWSS i sicrhau y darperir ystod gyson o gymorth unigol, tîm a rheolwyr llinell ar draws y Bwrdd Iechyd.

Yn ogystal, rydym wedi sefydlu tîm o Warcheidwaid Codi Llais yn Ddiogel. Mae'r unigolion hyn ar gael i wrando ar staff a'u cefnogi i fynegi, yn gyfrinachol, unrhyw bryderon y gallent gael ynghylch eu gwaith, p'un ai i ddiogelu diogelwch cleifion ac ansawdd gofal, i wella profiad staff o fewn y sefydliad neu cefnogi gwelliant a dysgu parhaus.

**Asesiadau Risg a Gwarchod Staff**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi diweddariadau rheolaidd i'r holl staff yn ystod pandemig Covid-19 i ddarparu manylion y cyngor a chymorth cyfredol, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a gwarchod y rhai yr ystyrir eu bod yn hynod agored i niwed yn glinigol (CEV). Mae'r canllawiau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru i sicrhau diogelwch ein staff a'r cleifion rydym yn eu gwasanaethu.

Mae offeryn cenedlaethol asesu risg y gweithlu wedi'i ddefnyddio ar gyfer yr holl staff i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch yn y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys nodi lle'r oedd angen cefnogi staff i weithio gartref, neu lle'r oedd angen addasiadau yn y gweithle i ddiogelu eu diogelwch ac os felly cynhaliwyd asesiad risg safle-benodol.

Mae'r asesiadau risg wedi'u trafod â'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur, a darparwyd cyngor arbenigol gan gydweithwyr Iechyd a Diogelwch, Iechyd Galwedigaethol a chlinigol i sicrhau bod y staff hynny sy'n wynebu risg benodol yn cael eu lleoli'n briodol. Fe wnaethom hefyd ddarparu PPE ychwanegol trwy'r rhaglen prawf ffitio i gefnogi lles seicolegol staff sy'n dychwelyd i'r gwaith. Roedd y porth adleoli yn cefnogi adleoli staff lle bo angen, gan gynnwys staff ar y rhestr warchod, gan sicrhau y gallai mwyafrif y staff barhau i weithio ar ddyletswyddau wedi'u haddasu/rhai amgen.

**Adolygu marwolaethau staff sy'n gysylltiedig â COVID-19**

Yn drasig, bu farw un aelod o staff y Bwrdd Iechyd gyda COVID-19 yn ystod 2021/22.

Mae pob marwolaeth wedi'i hadolygu trwy ymchwiliadau mewnol ac allanol i sefydlu a oes cysylltiad â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith ac a oes angen rhoi rheolaethau pellach ar waith yn y gweithle. Mae pob digwyddiad wedi cael ei adrodd yn briodol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch trwy'r Adroddiad ar Anafiadau a'r Crwner.

Mae cynllun yswiriant bywyd coronafeirws y GIG a gofal cymdeithasol wedi'i gymhwyso ym mhob achos lle bu farw aelod o staff yn ystod y pandemig.

**Rôl Grwpiau Cynghori Gweithwyr a Phroffesiynol**

Wrth i'r Bwrdd Iechyd ddychwelyd yn raddol i'r "drefn arferol" ailsefydlwyd pob cyfarfod ffurfiol. Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd wythnosol gyda'n partneriaid Undebau Llafur i drafod materion cyffredinol ac iechyd a diogelwch, yn ogystal â pharhau â'r cyfarfodydd mwy anffurfiol.

**Fforwm Partneriaeth Leol (LPF)**

Daeth y Fforwm Partneriaeth Lleol ynghyd bedair o weithiau yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, cynhaliwyd Grŵp Partneriaeth Gweithlu misol yn ogystal â chyfarfodydd wythnosol gydag uwch bartneriaid Undebau Llafur.

Mae'r cyfarfodydd wythnosol yn galluogi rhannu diweddariadau rheolaidd ar faterion allweddol, yn ogystal â'r gallu i sicrhau yr ymdrinnir â materion sy'n dod i'r amlwg yn gynnar. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar bynciau penodol gan gynnwys datblygu polisi, Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol a gwerthuso swyddi.

Ffocws allweddol cyfarfod y Fforwm oedd y gwaith datblygu sefydliadol, yn ogystal â rhannu gwybodaeth am ystod o faterion gan gynnwys cynllunio corfforaethol, gweithio ystwyth a gwaith yr is-grwpiau.

## Ein Dyfodol Digidol

Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth gwasanaethau digidol, a cheir manylion amdani ar ein gwefan yn https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/strategaeth-digidol/. Mae hon yn nodi sut rydym yn bwriadu defnyddio technoleg i drawsnewid profiad ein cleifion, gwella canlyniadau a sicrhau diogelwch. Yn y tymor hwy ein gweledigaeth yw Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar draws Gogledd Cymru, gan gefnogi a gwella cydweithio gyda'n hasiantaethau partner.

Drwy gydol yr adroddiad hwn mae cyfeiriadau at sut mae technoleg gwybodaeth a systemau yn cael eu defnyddio fwyfwy i gefnogi darparu gofal iechyd. Mae mabwysiadu'r technolegau newydd hyn wedi cael hwb ychwanegol dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i'r Bwrdd Iechyd ymateb i heriau'r pandemig COVID-19.

Mae llwyfannau digidol yn galluogi cleifion i ofyn a derbyn cyngor ac ymgynghoriadau gan eu practisau Meddyg Teulu, ac mae'r defnydd o ymgynghoriadau ar-lein neu dros y ffôn yn cynyddu ar draws llawer o wasanaethau iechyd. Mae systemau gwybodaeth symudol yn rhoi mynediad uniongyrchol at e-byst, systemau amserlennu ac adnoddau ar-lein i gydweithwyr sy'n gweithio yn y gymuned, fel nyrsys ardal. Mae datblygu systemau gyfeirio electronig yn sicrhau bod timau clinigol yn cael gwell gwybodaeth gyfeirio ac yn gallu cyfeirio cleifion at y gwasanaethau mwyaf priodol.

Mae ein gwefan wedi'i datblygu i alluogi apwyntiadau brechu COVID-19 yn cael eu trefnu'n uniongyrchol, ac i gleifion gyfeirio eu hunain yn uniongyrchol i'n gwasanaeth Covid Hir, yn ogystal â darparu gwybodaeth sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd yn ymwneud â'r pandemig, gan gynnwys newidiadau i gyfyngiadau ymweld a'n gwaith i ailddechrau gwasanaethau.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi rhoi'r system wybodaeth 'Symphony' ar waith ar draws ein holl adrannau achosion brys a system Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau Wellsky ar gyfer caffael cyffuriau, rheoli stoc a fferyllfa, ac rydym wedi cwblhau trawsnewid i System Gweinyddu Cleifion Cymru ar draws gogledd Cymru.

Rydym wedi cyflwyno System Profiad Cleifion ar-lein i gasglu adborth cleifion a gofalwyr i'n helpu i ddeall sut mae'r gwasanaethau rydym yn eu darparu yn gweithio, ac i glywed lle mae aelodau'r cyhoedd yn meddwl y gallwn wella gwasanaethau i ddarparu profiad gwell.

Gan edrych i'r dyfodol, mae gwaith wedi dechrau ar ystod o ddatblygiadau pellach gan gynnwys cyfeiriadau electronig gan feddygon teulu at feddygon ymgynghorol (Yn cynnwys e-Advice), Trawsgrifio Meddyginiaethau a Rhyddhau Electronig (MTeD), System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) a'r Rhaglen Gofal Llygaid, a mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cyflwyno rhagnodi electronig a System Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru.

## Casgliad ac Edrych Ymlaen

Mae 2021/22 wedi bod yn flwyddyn hynod o anodd arall ac ni fu unrhyw seibiant i'n staff sydd wedi wynebu deuddeg mis arall yn gweithio o fewn y cyfyngiadau sy'n deillio o bandemig COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys cyflenwi ar gyfer cydweithwyr sydd wedi bod yn absennol o'r gwaith pan oeddent yn sâl neu'n hunan-ynysu, neu a gafodd eu hadleoli i gefnogi'r rhaglen frechu, yr anghyfleustra o orfod defnyddio offer diogelu personol ychwanegol a cheisio darparu cymorth ychwanegol i gleifion nad ydynt wedi gallu cael ymweliadau gan bartneriaid a theulu.

Mae'r mesurau parhaus sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r risg o drosglwyddo a'r tonnau pellach o heintiau wedi parhau i gyfyngu ar gapasiti, gan roi pwysau ychwanegol ar staff rheng flaen sy'n ceisio darparu gofal brys ac achosi tarfu sylweddol ar ofal wedi'i gynllunio. O ganlyniad, mae ein sefyllfa o ran amseroedd aros wedi parhau i ddirywio, ac rydym bellach yn wynebu her enfawr i ddod â gwasanaethau yn ôl i'w capasiti llawn ac i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sydd angen ymgynghoriadau a thriniaeth.

Parhaodd y pwysau ar ofal sylfaenol i dyfu, gan adlewyrchu'n rhannol yr angen i gefnogi'r garfan gynyddol o gleifion sy'n aros am ofal eilaidd, yn ogystal ag ôl-groniad o gleifion a oedd wedi oedi cyn ceisio cyngor a thriniaeth yn ystod camau cynharach y pandemig. Ar yr un pryd, mae recriwtio meddygon teulu a swyddi gweigion yn parhau i fod yn faes sy'n peri anhawster, gan adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol. Aed i'r afael â hyn yn rhannol trwy fabwysiadu technoleg i gefnogi ymgynghoriadau rhithwir a gynhelir dros y ffôn neu fideo, sy'n galluogi mwy o gleifion i gael eu trin, ac ehangu gwaith amlddisgyblaethol o fewn timau gofal sylfaenol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod mynediad at ofal sylfaenol yn bryder sylweddol mewn rhai rhannau yng Ngogledd Cymru.

Mae sefyllfa debyg yn bodoli o fewn gwasanaethau deintyddol sylfaenol, lle mae nifer o bractisau yng ngogledd Cymru wedi cau, neu wedi tynnu'n ôl o ddarpariaeth y GIG yn y blynyddoedd diwethaf. Unwaith eto, mae anawsterau recriwtio wedi bod yn ffactor mawr ac, ynghyd ag effeithiau'r pandemig, mae hyn wedi arwain at fwy o anawsterau i ddinasyddion sy'n ceisio cael mynediad at ofal a thriniaeth ddeintyddol arferol.

Fodd bynnag, rydym wedi ennill mwy o brofiad a dealltwriaeth o COVID-19 a sut i'w reoli ac mae brechu ac esblygiad amrywolion newydd wedi lleihau nifer yr achosion o salwch difrifol sy'n deillio o'r firws. O ganlyniad, yn 2022/23 rydym yn disgwyl gweld llacio ymhellach ar y cyfyngiadau sydd wedi bod ar waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a ddylai roi'r cyfle i ni ddychwelyd i ffyrdd mwy arferol o weithio.

Mae blaenoriaethau cytûn y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys cyfres o ddatblygiadau trosfwaol ac sy'n benodol i wasanaethau a fydd yn ein helpu i symud y daith tuag at adferiad o effaith y pandemig. Fel enghreifftiau o'r rhain:

- Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu'r rhwydwaith o Ganolfannau Gofal Sylfaenol Brys mewn lleoliadau strategol i ryddhau capasiti yn ein Hadrannau Achosion Brys ysbytai a phractisau meddygon teulu.
- Adolygu niferoedd y gweithlu a chymysgedd sgiliau mewn adrannau achosion brys a Gwasanaethau Gofal Brys yr Un Diwrnod a chyflwyno model gwaith newydd i wella cyflymder ac ansawdd gofal.
- Gwaith trawsnewid a gwella mewn arbenigeddau a gwasanaethau penodol, gan gynnwys offthalmoleg, fasgwlaidd, awdioleg, wroleg, gynaecoleg, gwasanaethau strôc, radioleg, adrannau achosion brys a gwasanaethau gofal brys yr un diwrnod (SDEC) a llwybrau canser gyda'r nod o wneud gwasanaethau'n fwy diogel a chynaliadwy, gwella mynediad a chreu mwy o gapasiti i helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o weithgarwch.

- Byddwn yn cynnal gweithgarwch gwella ar draws sawl agwedd ar ein gwasanaethau iechyd meddwl i blant ac oedolion, gan gynnwys recriwtio ychwanegol i CAMHS, trefniadau pontio gwell ar gyfer unigolion sy'n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, sefydlu gwasanaeth ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl sy'n profi seicosis, timau anhwylderau bwyta newydd a datblygu cymorth gofal mewn argyfwng i oedolion hŷn ac unigolion â dementia.
- Erbyn diwedd 2022 ein nod yw bod wedi comisiynu cyflenwyr i ddylunio a datblygu'r cyntaf o'n Canolfannau Triniaeth Rhanbarthol arfaethedig, a ddylai fod yn weithredol erbyn 2025. Bydd y rhain yn cefnogi ein gwaith i leihau amseroedd aros drwy wella'r elfen ysbyty o ofal wedi'i gynllunio, drwy drawsnewid llwybrau clinigol gyda ffocws ar ddiagnosteg, asesu a thriniaeth i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy i boblogaeth gogledd Cymru.
- Bydd ein hacademi gofal sylfaenol yn cael ei datblygu ymhellach a bydd strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer gofal sylfaenol yn y gogledd yn cael ei rhoi ar waith. Bydd hyn yn cynyddu capasiti'r gweithlu o fewn gofal Sylfaenol a Chymunedol a nifer ac ystod y rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer staff sy'n gweithio yn y lleoliadau hyn, ac yn cefnogi datblygu a gwerthuso ffyrdd newydd o weithio i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau a dod â gofal yn nes i gartref.
- Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor i sefydlu Rhaglen Addysg Feddygol annibynnol Gogledd Cymru erbyn 2025.
- Byddwn yn gwella'r cymorth a ddarperir i'r sector cartrefi gofal a threfniadau Gofal Iechyd Parhaus.

Bydd llawer o'r meysydd datblygu hyn yn darparu buddion ehangach, gan adlewyrchu natur gydgysylltiedig iechyd a gofal cymdeithasol. Er enghraifft, bydd gwelliant mewn gofal parhaus yn helpu gyda llif cleifion allan o'r ysbyty, gan leddfu'r pwysau ar ein hadrannau achosion brys yn y pen draw. Dylai lleihau amseroedd aros am lawdriniaeth leddfu rhai o'r galwadau ychwanegol ar bractisau meddygon teulu.

Yn ystod y flwyddyn, byddwn hefyd yn cwblhau trawsnewid ein model gweithredu cymunedau iechyd. Bydd hyn yn golygu y byddwn yn dod â'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau i mewn i Gymunedau Iechyd tair ardal, sy'n cwmpasu gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac acíwt. Bydd hyn yn gwella'r broses o integreiddio a chydlynu gwasanaethau ac yn galluogi ffocws cynyddol ar iechyd y boblogaeth Bydd pedwar gwasanaeth (gwasanaethau menywod, canser, iechyd meddwl ac anabledd dysgu, diagnosteg a chymorth clinigol arbenigol) yn parhau i gael eu rheoli ar draws gogledd Cymru.

Ceir rhagor o fanylion am ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar ein gwefan ar: https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/ein-cynlluniau/.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi cyfle i ni feddwl yn wahanol ac i roi pwyslais newydd ar wella lles cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Ceneldaethau'r Dyfodol yn gofyn i ni feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill, ceisio atal problemau yn ogystal â chymryd ymagwedd mwy cydgysylltiedig. Mae'r ddeddf yn gosod saith nod lles ac mae angen i ni wella ein cyfraniad at bob un o'r saith:




Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, osod a chyhoeddi amcanion lles a mabwysiadu'r egwyddor datblygiad cynaliadwy. Dylid mewngorfforoi datblygiad cynaladwy o fewn prosesau corfforaethol presennol, ac ni ddylid ei drin fel ymarfer ar wahân i osod amcanion sy'n arwain y camau gweithredu a phenderfyniadau'r sefydliad.

Fe wnaeth ein strategaeth hirdymor gychwynnol ar gyfer iechyd, lles a gofal iechyd (*Byw'n Iach, Aros yn Iach* – a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018) ymgysylltu â miloedd o bobl i helpu i ddylunio'r strategaeth a rhoi eu barn i ni ar ein hamcanion lles. Yn ystod 2021/22, wrth i dair blynedd fynd heibio ac yng ngoleuni profiadau yn ystod y pandemig Covid-19, fe wnaethom gynnal ymarfer ymgysylltu ysgafn i brofi gyda'n staff, sefydliadau partner a'r cyhoedd a oedd yr amcanion yn dal yn berthnasol. Roedd y mwyafrif llethol naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â hyn. Nododd llawer o bobl mai'r nod cyntaf – gwella iechyd a lles i bawb – oedd bwysicaf, er bod nifer tebyg yn teimlo y dylai pob un o'r nodau gael yr un flaenoriaeth. Mynegwyd pryderon ynghylch ein cyflawniad yn erbyn yr amcanion, ac o ganlyniad buom yn gweithio i ddatblygu set gliriach o flaenoriaethau ar gyfer gweithredu wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer 2022 ymlaen, gyda chamau gweithredu SMART, a chanlyniadau a nodwyd y disgwyliwn eu cyflawni.

Mae canlyniad llawn yr ymarfer ymgysylltu wedi'i gyflwyno i'n Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth ac mae ar gael ar ein gwefan ym mhapurau'r pwyllgor yn https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/partnerships-people-and-population-health-committee/ppphc-agenda-20522-v10/

Ein amcanion lles:

- gwella iechyd meddwl, emosiynol a chorfforol a lles i bawb;
- targedu ein hadnoddau ar unigolion sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau;
- cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd;
- gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl - unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau- i gyflawni eu lles eu hunain;
- gwella diogelwch ac ansawdd bob gwasanaeth;
- parchu unigolion a'u hurddas;
- gwrando ar unigolion a dysgu o'u profiadau.

Wrth gyflawni'r amcanion hyn byddwn yn:

- defnyddio adnoddau'n ddoeth, trawsnewid gwasanaethau drwy arloesedd ac ymchwil;
- cefnogi ein staff, eu hyfforddi a'u datblygu i ragori.

Bydd yr amcanion llesi yn darparu'r sylfaen ar gyfer gwaith parhaus ar wella sut rydym yn gweithio fel Bwrdd Iechyd integredig i wella iechyd a lles a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Yn ystod 2021/22 buom hefyd yn gweithio i ddatblygu cynllun datgarboneiddio ar gyfer y Bwrdd Iechyd, yn gyson â chynllun cyflawni strategol datgarboneiddio GIG Cymru Llywodraeth Cymru. Bydd ein cynllun yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2022/23.

**Mabwysiadu'r Pum Ffordd o Weithio**

Mae pum ffordd o weithio wedi'u nodi yn y Ddeddf sy'n cefnogi'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy:

Drwy gydol y gwaith o ddatblygu ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021/22 rydym wedi ceisio defnyddio'r pum ffordd o weithio i lywio ein penderfyniadau a'n helpu i flaenoriaethu'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i weithio tuag at ein hamcanion lles ein hunain ac yn ei dro, cyfrannu at y saith nod lles cenedlaethol.

Mae gwaith pellach gyda phartneriaid wedi'i wneud drwy'r byrddau partneriaeth ffurfiol – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwynedd ac Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam).

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Bwrdd Rhan 9)**

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) wedi'i sefydlu o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n gweithio fel partneriaeth i gynllunio, rheoli a datblygu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol sy'n bodloni anghenion y boblogaeth leol orau yn strategol.

O dan y cynllun cenedlaethol hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â meddygon teulu, yn cydweithio i sefydlu a gwella gwasanaethau integredig yn y gymuned. Er bod y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol wedi cyflawni rhywfaint o lwyddiant ym maes trawsnewid digidol a gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r ystod o opsiynau gofal cartref a chymorth i bobl leol, nid yw'r rhaglen yn ei chyfanrwydd heb gyflawni ei nod o drawsnewid gwasanaethau iechyd, lles a gofal cymunedol yng Ngogledd Cymru. Dim ond rhai o'r materion a gyfrannodd at hyn oedd pandemig Covid-19 a datgysylltiad ag arweinwyr gweithredol a thimau.

Fodd bynnag, mae cyllid 'Trawsnewid Cymunedol' a chyllid 'Cymru Iachach' wedi'u defnyddio'n llwyddiannus gan bartneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sefydlu amrywiaeth o brosiectau a chynlluniau strategol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- datblygu ymyriadau ar gyfer plant a theuluoedd i wella iechyd a lles emosiynol, yn ogystal â darparu gwasanaethau 'cymorth cynnar' a gwasanaethau 'ymateb cyflym' (allgymorth mewn argyfwng);
- gwella bywydau pobl sy'n byw ag anableddau dysgu drwy helpu i leihau ynysu cymdeithasol, cynyddu'r defnydd o dechnoleg a galluogi mwy o fynediad at weithgareddau cymunedol;
- gweithredu gwasanaethau iechyd meddwl a lles FEDRA'I (Annibynnol, Cysylltiedig, Gweithredol, Rhwydweithiol). Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth cyflogaeth a datblygu hybiau cymunedol i gynnig cymorth hygyrch, cyfeiriadau, cwnsela a chyngor mewn lleoliadau gofal sylfaenol meddygon teulu.

Mae cyflawniadau eraill yn cynnwys sefydlu Is-grŵp Plant i ddarparu cyfeiriad strategol wrth gefnogi teuluoedd ar draws y rhanbarth ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, a datblygu'r 'Strategaeth Dim Drws Anghywir' i gefnogi gwydnwch emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, hyd at 25 oed, sy'n cael problemau iechyd meddwl.

Cadarnhawyd Cyllid Gofal Integredig (ICF) cylchol newydd yn 2021 i ddarparu llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, difrifol ac i wella gwasanaethau asesu cof ar gyfer pobl â dementia a'u gofalwyr.

Wrth symud ymlaen, yn 2022/23, bydd cynllun rhanbarthol ar gyfer gweithredu'r Cod Ymarfer Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a strategaeth ranbarthol i ystyried sut y gall asiantaethau gydweithio orau i ymateb i sbectrwm llawn anghenion plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cael ei datblygu.

Mae Canolfan Ymchwil, Arloesi a Gwella Gogledd Cymru wedi parhau i weithio gyda phartneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i wella'r gwaith o gydlynu gweithgarwch ymchwil, arloesi a gwella ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cyflawniadau yn 2021/22 yn cynnwys mapio'r gweithgarwch ymchwil, arloesi a gwella sy'n digwydd ar draws y rhanbarth a sefydlu adnoddau ar-lein fel bod gwybodaeth yn haws i bawb gael mynediad iddi. Mae'r Ganolfan wedi casglu'r cymorth sydd ar gael i ddatrys heriau iechyd a gofal a datblygu syniadau ar gyfer arloesi a gwella, y maent yn eu hyrwyddo trwy ddigwyddiadau, cyfryngau cymdeithasol a'u gwefan: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/hwb-cydlynu-ymchwil-arloesi-a-gwelliant/

Mewn ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gweithiodd chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd mewn partneriaeth i asesu anghenion gofal a'r cymorth y boblogaeth leol a'r gwasanaethau sydd eu hangen i fodloni'r anghenion hynny fel rhan o'r Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth (PNA). Nod y PNA yw gwella ein dealltwriaeth o'r boblogaeth leol a sut y gallai hynny newid dros y blynyddoedd i ddod er mwyn ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus.

Sefydlwyd Grŵp Llywio Rhanbarthol i arwain y gwaith, ac roedd ei aelodau yn cynnwys y chwe Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, y Tîm Iechyd Cyhoeddus lleol a phartïon eraill â buddiant megis swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyhoeddwyd y PNA ym mis Ebrill 2022 ar ôl cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Bwrdd Iechyd a'r chwe awdurdod lleol (www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru).

Er bod y PNA yn canolbwyntio ar y rhanbarth, bydd gweledigaeth a chynllun lleol ar gyfer gwasanaethau yn cael eu cynhyrchu ym mhob ardal awdurdod lleol. Wrth symud ymlaen, bydd y partneriaethau lleol a rhanbarthol yn ceisio parhau â gwaith y PNA i sicrhau bod asesu anghenion ein poblogaeth yn broses barhaus.

Mae gofyn pellach i Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd asesu digonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir i fodloni anghenion y boblogaeth ar ffurf Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR) rhanbarthol. Bydd yr MSR yn cael ei gyhoeddi yn 2022.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) yn cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru fel y cyrff allweddol sy'n gyfrifol ar y cyd am wella llesiant cymunedau ledled Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod ein cynlluniau strategol yn cyd-fynd ag amcanion llesiant lleol ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.

Yn ystod 2021/22, mae pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi canolbwyntio ar ddrafftio eu Hasesiadau Llesiant, y mae'n rhaid eu cynhyrchu bob 5 mlynedd fel gofyniad y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (mewn amserlen debyg i'r Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth). Bydd yr Asesiadau Llesiant yn asesu llesiant lleol ar draws pedwar piler: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliant a bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio amcanion llesiant o fewn y Cynlluniau Llesiant lleol. Mae PSBs wedi derbyn cefnogaeth gyda'u dull ymgysylltu gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru (i sicrhau bod lleisiau nas clywir yn aml yn cael y cyfle i gyfrannu) a Phartneriaeth Mewnwelediad ac Ymchwil Gogledd Cymru.

Rhaid i bob PSB gyhoeddi Cynllun Llesiant o fewn 12 mis o gyhoeddi'r Asesiadau Llesiant. Bydd gwaith i ddatblygu'r Cynlluniau Llesiant yn digwydd yn 2022/23.

Mae gan PSB Gwynedd ac Ynys Môn ddau brif amcan llesiant:

- cymunedau sy'n ffynnu ac sy'n ffyniannus yn y tymor hir;
- preswylwyr sy'n iach ac yn annibynnol gydag ansawdd bywyd da.

Mae'r cynnydd a wnaed yn 2021/2022 yn cynnwys:

- system fwy integredig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl gyda ffocws ar waith ataliol;
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Timau Adnoddau Cymunedol ymhellach (gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cydleoli sy'n darparu un cyswllt ar gyfer y boblogaeth leol);
- darparu arweiniad i holl staff derbynfeydd y sector cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn i hybu'r defnydd o'r Gymraeg wrth gyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd;
- sefydlu Grŵp Newid Hinsawdd sy'n galluogi partneriaid i ymateb i heriau newid hinsawdd;

Yng Nghonwy a Sir Ddinbych, mae'r PSB yn parhau i weithio tuag at y meysydd blaenoriaeth a nodwyd fel y manylir arnynt yn eu Cynllun Llesiant:

- cefnogi lles meddyliol da i bob oedran;
- cefnogi grymuso cymunedau;
- cefnogi gwytnwch amgylcheddol.

Mae meysydd cynnydd yn 2021/2022 yn cynnwys:

- gwella seilwaith digidol yng Nghonwy a Sir Ddinbych trwy fuddsoddi mewn dwy swydd Swyddog Digidol;
- sefydlu is-grŵp i fynd i'r afael â lles meddwl mewn ffermio, cymunedau gwledig a phlant mewn lleoliadau addysgol.

Wrth symud ymlaen, mae'r PSB yn awyddus i fwrw ymlaen â'r flaenoriaeth Gwydnwch Amgylcheddol, gan gynnwys ail-lansio'r 'addewidion gwyrdd cymunedol' (cynllun i helpu cymunedau i leihau eu heffaith amgylcheddol) a'r agenda lleihau carbon. Maent hefyd wedi nodi meysydd ffocws newydd ar gyfer gwneud y mwyaf o fannau gwyrdd a glas, a'r gobaith yw y bydd yn cefnogi adferiad o'r pandemig.

Er bod gan Sir y Fflint a Wrecsam Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar wahân, maent wedi penderfynu dod ynghyd i rannu gwybodaeth ac adnoddau er mwyn mynd i'r afael â heriau cyffredin - yn benodol y rhai sy'n ymwneud â gwydnwch cymunedol ac adferiad yn dilyn Covid-19. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd wedi cytuno ar bedair thema drawsbynciol: plant a phobl ifanc, tlodi ac anghydraddoldeb, yr amgylchedd/carbon ac iechyd meddwl. Mae pob un o'r themâu yn cael ei arwain gan bartner PSB gwahanol.

Yn 2021/22 mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Sir y Fflint ar y cyd wedi gwneud cynnydd yn y meysydd canlynol:

- sefydlu rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc a rhwydwaith Tlodi ac Anghydraddoldeb, sy'n cynnwys ymarferwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector; mae'r rhwydweithiau'n gweithio i herio arferion presennol a chyfnewid syniadau;
- nodi cyfres o gamau gweithredu i wella hygyrchedd i 'fannau gwyrdd' a lleihau carbon;
- datblygu prosiectau cydnerthedd cymunedol yn y Fflint, yr Holway a Gwersyllt.

Yn 2021/22, cadwodd PSB Sir y Fflint eu pum blaenoriaeth fel y disgrifiwyd yn y Cynllun Llesiant pum mlynedd (2017 – 2023):

- diogelwch cymunedol;
- economi a sgiliau;
- gmgylchedd;
- cydnerthu cymunedau;
- iechyd a byw'n annibynnol.

Mae'r cynnydd a wnaed yn 2021/2022 yn cynnwys:

- agor Cartref Gofal Pobl Hŷn estynedig a chyfleuster Rhyddhau i Asesu yn Nhŷ Marleyfield, Bwcle;
- hyrwyddo a chefnogi byw'n annibynnol drwy'r dull 'Beth sy'n Bwysig', gan ganolbwyntio ar yr anghenion a fynegwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau;
- darparu dewisiadau amgen i ofal mewn ysbyty, trwy ddarparu opsiynau gofal canolraddol gan gynnwys gwelyau camu i fyny a chamu i lawr;
- cefnogi datblygiad estyniad i gynyddu capasiti yng nghartref seibiant plant Arosfa, a reolir gan Gweithredu dros Blant.

Yn ystod pandemig Covid-19 mae PSB Wrecsam wedi rhoi'r rhan fwyaf o'u gwaith cynllunio strategol o'r neilltu i alluogi sefydliadau a chymunedau'r sector cyhoeddus i ganolbwyntio eu hymdrechion ar ddarparu ymateb cydlyniedig i ddarparu gwasanaethau hanfodol. Fodd bynnag, mae'r PSB wedi cynnal ei ffocws ar hawliau plant. Yn ystod 2021/2022 maent wedi:

- meithrin perthynas arbennig gyda Senedd yr Ifanc (Senedd Ieuenctid Wrecsam) sydd wedi mynd ati i lywio'r ffordd y mae'r PSB yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â phobl ifanc;
- cefnogi Rhaglen Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru a chynhyrchu tystiolaeth ar sut mae COVID-19 wedi effeithio ar iechyd meddwl a gwydnwch plant a phobl ifanc;
- gweithio gyda Phrifysgol y Plant i ddatblygu cyfleoedd i Wrecsam.

Rhoddwyd diweddariadau rheolaidd trwy gydol y flwyddyn i'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (hyd at fis Hydref) ac i'r Pwyllgor olynol, y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth wedi hynny. Ceir manylion llawnach ar dudalennau gwe Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Gwynedd ac Ynys Môn: https://www.llesiantgwyneddamon.org/cy/
- Conwy a Sir Ddinbych: https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/
- Sir y Fflint: https://www.flintshire.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Flintshire-Public-Services-Board.aspx
- Wrecsam: https://www.bgcwrecsam.org/

## Cynaliadwyedd

Yn ei weithgareddau, mae'r Bwrdd Iechyd yn ddefnyddiwr sylweddol o ynni ac o ganlyniad mae ganddo ôl troed carbon materol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ddefnyddiwr sylweddol o ddŵr ac yn cynhyrchu swm o wastraff bob blwyddyn.

Cyhoeddir manylion hyn ar ein gwefan yn https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/ein-cynlluniau/

Bydd ffigurau ar gyfer 2021/22 ar gael o ganol Gorffennaf 2022.

# Y Gymraeg

Mae darparu gwasanaethau i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol yn ffactor allweddol wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel, ac mae'n arbennig o bwysig i'n cleifion mwy agored i niwed. Yn 2018, mae *Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 7* yn nodi'r safonau y mae'n rhaid i'r GIG yng Nghymru eu bodloni wrth hwyluso a hybu defnydd o'r Gymraeg, gan ddod yn weithredol ym mis Mai 2019.

Mae Gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd yn cynnwys pedwar maes sy'n cefnogi'r sefydliad i fynd i'r afael ag anghenion iaith ein cleifion i ddarparu'r gofal gorau posibl ac i fodloni'r gofynion deddfwriaethol hyn:

- Mae ein Tîm Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn sicrhau bod gennym fecanweithiau cadarn ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Mae ein Swyddogion Iaith Gymraeg yn cychwyn prosiectau a chynlluniau sy'n cefnogi gwasanaethau ac uwch adrannau i fod mewn sefyllfa well i ddarparu gofal i'n cleifion mwyaf agored i niwed yn eu hiaith ddewisol, yn unol ag elfennau gweithredol 'Mwy na Geiriau', sef dogfen Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.
- Mae ein Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg bwrpasol yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau, yn benodol i anghenion gwasanaeth, i staff newydd a chyfredol gan ein Tiwtor Cymraeg mewnol. Darperir cymorth hyfforddi ychwanegol gan Swyddog Cymorth, a ariennir gan Gynllun Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru, sy'n darparu cymorth gweithredol pan fydd staff yn dychwelyd i'r gweithle. Mae datblygu'r gweithlu ar lefel strategol yn hanfodol i sicrhau bod gennym y cymysgedd sgiliau gorau posibl o fewn y sefydliad. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar ein Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog sy'n canolbwyntio ar ein hymrwymiad i brif-ffrydio gofynion y Gymraeg yn ein cynlluniau gweithlu a recriwtio.
- Mae'r Tîm Cyfieithu yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu gwybodaeth i gleifion yn eu hiaith ddewisol, yn unol â'r ddeddfwriaeth. Yn ystod blwyddyn adrodd 2021/22, mae'r tîm wedi gweld y nifer uchaf erioed o geisiadau, gyda dros 4.3 miliwn o eiriau wedi'u cyfieithu. Mae'r Tîm Cyfieithu hefyd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu cynhwysfawr i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn seiliedig ar gytundeb lefel gwasanaeth llwyddiannus, a fydd yn parhau y flwyddyn nesaf.

Yn ogystal, mae holl aelodau tîm Gwasanaethau'r Gymraeg yn cefnogi gweithgareddau i amlygu pwysigrwydd, a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith gan bob cydweithiwr.

**Datblygu'r Gweithlu**

Mae pandemig COVID-19 yn dal i effeithio ar waith y Tîm Hyfforddiant y Gymraeg sy'n parhau i addasu eu hadnoddau addysgu, eu modelau a'u harddulliau i sicrhau y gallant barhau i gefnogi ein staff hynod brysur ac ymroddedig. Yn ystod y flwyddyn mae'r Tiwtor wedi cynnig amrywiaeth o gyrsiau, ar wahanol lefelau, i dros 670 o aelodau staff, gydag adborth hynod bositif yn cadarnhau bod y lefel hon o gymorth mewnol yn darparu seilwaith hyfforddi unigryw i gynyddu ein capasiti a'n gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd seremoni Dysgwr y Flwyddyn y Bwrdd Iechyd, a gynhaliwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi. Dewiswyd rhestr fer o bump yn y rownd derfynol gan y beirniaid (Linda Tomos, Aelod Annibynnol o'r Bwrdd, Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus a beirniad a siaradwr gwadd, Bethan Gwanas, awdur a phersonoliaeth deledu) a aeth benben am y teitl o Ddysgwr y Flwyddyn. Cyflwynwyd gwobrau a roddwyd gan noddwyr i'r pump a gyrhaeddodd y rownd derfynol cyn i'r enillydd teilwng, Manuela Niemetscheck, Seicotherapydd Celf yn Uned Hergest Ysbyty Gwynedd, gael y fraint o oleuo Ysbyty Glan Clwyd yn lliwiau baner Cymru o goch, gwyn a gwyrdd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd y seremoni yn ddigwyddiad mawreddog a roddodd gydnabyddiaeth i ymdrechion ein holl ddysgwyr ac a adlewyrchodd lwyddiant ymdrechion tîm Hyfforddiant Iaith Gymraeg i adeiladu seilwaith hyfforddi i gefnogi ein staff.

**Gweithgareddau Hyrwyddo**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn achub ar bob cyfle i ddathlu'r Gymraeg, gan gynnwys ar Ddydd Gŵyl Dewi a thrwy ddathlu diwrnod Santes Dwynwen. Fodd bynnag, yr uchafbwynt eleni oedd ail-lansio ymgyrch 'Defnyddiwch Eich Cymraeg' Tîm y Gymraeg. Ffocws yr ymgyrch yw annog staff i ddefnyddio pa sgiliau Cymraeg bynnag sydd ganddynt yn y gwaith, gyda chydweithwyr, cleifion a/neu ymwelwyr. Mae ymchwil yn dangos bod cleifion Cymraeg eu hiaith yn teimlo'n fwy cyfforddus pan fyddant yn clywed ac yn gallu defnyddio eu hiaith gyntaf, ac os yw staff yn defnyddio'r Gymraeg, bydd cleifion yn teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy tebygol o ddefnyddio eu Cymraeg gyda staff. Mae ailgyflwyno'r ymgyrch hon ar draws y Bwrdd Iechyd wedi codi ymwybyddiaeth yn fewnol ymhlith staff o'r Gymraeg a'i phwysigrwydd o fewn y sector iechyd ac, o ganlyniad, wedi cael effaith bositif ar y cyfleoedd sydd gan gleifion i ddefnyddio'r iaith.

**Cydymffurfiaeth Statudol**

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu modiwl hyfforddi Cymru gyfan ar gydsynio, nododd y Bwrdd Iechyd yr angen i amlygu pwysigrwydd angen ieithyddol yn y broses gydsynio. Mae Tîm y Gymraeg wedi datblygu adran i'w chynnwys yn y pecyn hyfforddi sy'n canolbwyntio ar gydsynio gwybodus. Mae'r cynnwys yn amlygu'r maes hwn fel gofyniad cyfreithiol, a bydd hefyd yn cefnogi pob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Llywodraethu a Pherfformiad**

Mae llywodraethu mewnol yn parhau i fod yn bwynt ffocws i'r Bwrdd Iechyd, gyda'r arolygon Monitro Gwasanaethau Dwyieithog / 'Siopwr Cudd' yn cynnig dull hunanreoleiddiol o lywodraethu. Oherwydd y cyfyngiadau ymweld ar ein safleoedd oherwydd COVID-19, canolbwyntiodd y gwaith arolygu eleni ar wasanaethau ffôn, yn hytrach nag adolygiad gwasanaeth cyfan.

Ar ôl pob rownd o arolygiadau, darperir adroddiadau pwrpasol i arweinwyr gwasanaeth perthnasol sy'n cynnwys dadansoddiad o'r canfyddiadau perthnasol ac awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu posibl/ofynnol, ac fe'u gwahoddir wedyn i weithio ochr yn ochr ag aelodau o Dîm y Gymraeg i sicrhau bod unrhyw newidiadau neu welliannau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

Mae holl ysbytai cymunedol y Bwrdd Iechyd a phractisau meddygon teulu a reolir bellach wedi'u cynnwys yn y Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog ar o leiaf ddau achlysur ers iddo gael ei gyflwyno gyntaf yn 2018, ac mae ein harolygon diweddaraf wedi caniatáu inni fesur pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar bob safle ers ei gyflwyno.

Er gwaethaf y pandemig, mae canfyddiadau diweddar y Cynllun Monitro wedi cadarnhau bod safonau a gofnodwyd yn flaenorol yn dal i gael eu cynnal mewn llawer o leoliadau Byrddau Iechyd, tra bod rhai rheolwyr practisau a gwasanaethau hyd yn oed wedi gallu rhoi gwelliannau ar waith. Mae'r arolygon 'siopwr cudd' parhaus yn parhau i ddatgelu enghreifftiau niferus o arfer da sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â'r Gymraeg a chaiff y rhain eu rhannu wedyn â gwasanaethau neu feysydd eraill, fel y bo'n briodol. Er mwyn sicrhau mwy o atebolrwydd, mae canfyddiadau cyffredinol yn dal i gael eu rhannu gyda Thimau Rheoli Ardal/Ysbytai ac aelodau Fforwm Strategol y Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn chwarterol.

**Y Cynnig Rhagweithiol**

Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn lleoliadau aciwt a chymunedol o ran y "Cynnig Rhagweithiol", sef cynnig gwasanaeth i gleifion yn eu hiaith ddewisol, heb iddynt orfod gofyn amdano. Mae'r Cynllun Dewis Iaith, sy'n gweld magnetau adnabod 'siarad Cymraeg' oren yn cael eu gosod uwchben gwelyau cleifion, yn parhau i fod yn weithredol ar lefel ward i sicrhau bod y Gymraeg yn dal i gael ei hystyried fel elfen annatod o ofal. Mae Ffurflen Archwilio Misol wedi'i chreu i hwyluso'r broses o gasglu data perthnasol, gan roi cipolwg gweddol gynhwysfawr ar gyflawniad a llwyddiant y Cynllun Dewis Iaith ac, yn fwyaf amlwg, ei boblogrwydd ymhlith defnyddwyr gwasanaeth.

O dan Safonau'r Gymraeg, cynhyrchir adroddiad llawn ar gydymffurfiaeth ar gyfer pob blwyddyn, a chyhoeddir y rhain yn:
https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/yr-iaith-gymraeg/

**Llofnod:**

**Jo Whitehead**
**Prif Weithredwr a Swyddog Atebol** **Dyddiad: 24 Awst 2022**

# RHAN DAU- Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

**Y Bwrdd**

Cadeirydd y Bwrdd Iechyd yw Mark Polin. Y Prif Weithredwr yw Jo Whitehead. Roedd y ddau yn eu swyddi drwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn croesawyd Dr Nick Lyons fel Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Richard Micklewright a John Gallanders, Aelodau Annibynnol, i'r Bwrdd.

Rhoddir manylion aelodaeth lawn y Bwrdd yn Atodiad 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (tudalennau 32B-38B), ac yn yr Adroddiad Tâl ar dudalennau 71 i 79 o'r ddogfen hon.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn nodi manylion llawn strwythur pwyllgorau ategol y Bwrdd (Adran 3.10 tudalen 3B) a'u haelodaeth (Atodiad 2 tudalennau 32B-38B .

**Y Pwyllgor Archwilio**

Yn unol a'r safonau o lywodraethu da sy'n ofynnol o'r GIG yng Nghymru, mae gan y Pwyllgor Archwilio'r rôl allweddol o gynghori'r Bwrdd a chynnig sicrwydd iddynt fod gan y sefydliad trefniadau llywodraethu effeithiol yn eu lle ac sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau cadarn. Roedd ei aelodaeth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Cynghorydd Medwyn Hughes | Aelod Annibynnol |
| Is-Gadeirydd | Mrs Lyn Meadows | Aelod Annibynnol |
| Aelodau | Jacqueline Hughes | Aelod Annibynnol |
| | Mr Eifion Jones | Aelod Annibynnol (hyd at 31 Awst 2021) |
| | Richard Micklewright | Aelod Annibynnol (o 11 Tachwedd 2021) |
| Yn bresennol | (Cyfarwyddwr Arweiniol) | |
| | Louise Brereton | Ysgrifennydd y Bwrdd |

Yn ogystal, yn bresennol mae:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid;
- Prif Weithredwr
- Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth;
- Cyfarwyddwr/Pennaeth Llywodraethu;
- Pennaeth Archwilio Mewnol;
- Pennaeth/unigolyn sy'n gyfrifol am Archwilio Clinigol;
- Arbenigwr Atal Twyll Lleol;
- Cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol (Archwilio Allanol).

**Datganiad o Fuddiannau Cyfarwyddwyr**

Mae angen i holl aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant sydd ganddynt a allai effeithio ar eu hamhleidioldeb o ran eu gwaith yn y Bwrdd Iechyd.

Cyhoeddir y datganiadau a wnaed gan Gyfarwyddwyr ac Aelodau'r Bwrdd ar gyfer 2021/22 yn Nodyn 30 o'r Cyfrifon Blynyddol, ar dudalennau 65A-66A o'r ddogfen hon, ac maent ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd ar https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/cyfarfodydd-ac-aelodaur-bwrdd/aelodaur-bwrdd-iechyd/

**Diogelwch Data**

Yn ystod 2021/22, roedd y prif gyfrifoldeb am lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol, gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Sicrwydd yn ymgymryd â rôl ddynodedig Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Y Cyfarwyddwr Meddygol yw Gwarcheidwad Caldicott penodedig y Bwrdd Iechyd, a'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol yw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Bydd y trefniadau hyn yn newid yn ystod 2022/23 o ganlyniad i ailstrwythuro sefydliadol.

Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hunan-gofnodi pum toriad diogelwch data a ysgogodd gyfeiriad at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a Llywodraeth Cymru. Mae tri o'r digwyddiadau hunan-gofnodedig hyn wedi'u cau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac nid oes angen unrhyw gamau pellach oherwydd y camau gweithredu a'r gwelliannau uniongyrchol a roddwyd ar waith gan y Bwrdd Iechyd. Roedd y ddau arall yn dal ar agor ac yn aros am ymateb gan yr ICO ar ddiwedd y flwyddyn. Gwnaeth yr ICO un argymhelliad i wirio bod polisïau a gweithdrefnau'n dal i fod yn addas i'r diben ac y dylai'r holl staff sy'n trin data personol dderbyn hyfforddiant diogelu data rheolaidd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i roi ar waith. Ni chafodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gosb ariannol yn ystod y flwyddyn. Mae gwybodaeth ar berfformiad gwybodaeth llywodraethu wedi'i gynnwys yn adran 21.4 o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol (tudalen 27B).

**Cydymffurfio â Gofynion Dyrannu Costau**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai pob darn o wybodaeth nad yw'n bersonol a gedwir gan gyrff cyhoeddus fod ar gael yn hawdd, onid oes cost neu os oes eithriad yn bodoli.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf hon, ac unrhyw arweiniad cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd drwy ein Cynllun Cyhoeddi: https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/

# Datganiad ar gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y BILl

Mae Gweinidogion Cymru wedi gorchymyn mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r Bwrdd Iechyd.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb o ran priodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac o ran cadw cofnodion priodol, wedi'u hamlinellu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae gofyn i'r Swyddog Atebol gadarnhau, cyn belled ag y gŵyr ef neu hi, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni a bod y Swyddog Atebol wedi cymryd y camau priodol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i ddangos bod archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae gofyn i'r Swyddog Atebol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am y rhain a'r dyfarniad angenrheidiol ar gyfer pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd y gwn i ac y creda i, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a fynegwyd yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol yn gywir.

**Llofnod:**

**Jo Whitehead**
**Prif Weithredwr a Swyddog Atebol** **Dyddiad: 24ain Awst 2022**

## Datganiad ar Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon

Mae gofyn i'r Cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, â chymeradwyaeth y Trysorlys, yn gorchymyn y dylai'r cyfrifon hyn gyfleu darlun gwir a theg o sefyllfa'r Bwrdd Iechyd ac o incwm a gwariant y Bwrdd Iechyd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr:

- gymhwyso'n gyson yr egwyddorion cyfrifyddu a bennir gan Weinidogion Cymru â chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- datgan p'un ai a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau sylweddol a ddatgelir neu a esbonnir yn yr adroddiad.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol yr awdurdod ac i'w galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru a grybwyllir uchod.

**Ar Orchymyn y Bwrdd, llofnodwyd gan**

| | | |
|---|---|---|
| **Mark Polin** | **Jo Whitehead** | **Sue Hill** |
| **Cadeirydd** | **Prif Weithredwr** | **Cyfarwyddwr Cyllid** |
| **24ain Awst 2022** | **24ain Awst 2022** | **24ain Awst 2022** |

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn disgrifio ein trefniadau llywodraethu, strwythur ein pwyllgorau, a'r system rheolaeth fewnol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am:

- Rôl a chyfansoddiad y Bwrdd;
- Ein trefniadau i reoli risg a'r meysydd risg allweddol a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd;
- Prosesau Ansawdd a Llywodraethu;
- Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- Adolygiadau allanol annibynnol o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd a materion a nodwyd;
- Ein trefniadau cynllunio;
- Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r ffaith fod ei wasanaethau a'i swyddogaethau wedi dod yn destun Ymyrraeth wedi'i Thargedu.

Caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol llawn ei ddarparu fel atodiad i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

**Polisïau ynghylch Tâl Staff ac Uwch Reolwyr**

Y diffiniad o Uwch Reolwyr yw'r rhai sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo a rheoli gweithgareddau mawr y Bwrdd Iechyd cyfan; mae'r diffiniad hwn yn cynnwys y gweithwyr a'r Aelodau Annibynnol hynny sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd. Caiff enwau a theitlau aelodau'r Bwrdd eu datgelu yn y tabl o gyflogau isod.

Yn Hydref 2004, cyflwynwyd proses Agenda ar gyfer Newid y GIG, i gyflawni cysondeb o ran contractau ac amodau a thelerau ar draws GIG Cymru. Rhoddir contract Cymru gyfan i'r holl staff a'r rheolwyr (ac eithrio cyfarwyddwyr) pan gânt eu penodi.

Gan ddod i rym o 1 Ebrill 2021 ymlaen, mae'r diwygio strwythurol a oedd yn rhan o'r trefniadau cyflog 3 blynedd i'r holl fandiau cyflog wedi'i gwblhau. Bellach, mae gan bob band cyflog strwythur tal dau neu dri cham. Fodd bynnag, mae nifer fechan o elfennau terfynol y diwygio sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2021 ac mae angen parhau â'r trefniadau trosiannol ar gyfer rhai o'r pwyntiau cyflog ym mandiau 8a – 9. Fel rhan o hyn, roedd graddfeydd tâl diwygiedig 2021/22 yn cynnwys cynnydd o 3.0%.

Mae GIG Cymru wedi mabwysiadu'r Cyflog Byw. Felly, caiff cyflog staff sydd islaw ffigur gofynnol Cyflog Byw ei addasu i gyrraedd cyfradd fesul awr y Cyflog Byw. Ar gyfer 2021/22, cafodd cyflog staff ym Mand 1 (pwyntiau cyflog 1 i 3) a Band 2 (pwyntiau cyflog 1 i 2) r Agenda ar gyfer Newid ei addasu i sicrhau'r gyfradd ofynnol fesul awr o £9.50.

Llywodraethir staff meddygol a staff deintyddol gan amodau a thelerau meddygon a deintyddion sy'n berthnasol ar draws GIG Cymru. Cafodd y gweithwyr hyn godiad o 3.0% ar eu cyflog sylfaenol ar gyfer 2021/22.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu polisi GIG Cymru ar ddatblygiad cyflog cynyddol i staff ar raddfeydd cyflog yr Agenda ar gyfer Newid, sy'n cynnwys gweithredu'r Adolygiadau Gwerthuso a Datblygu Perfformiad (PADR).

Nid yw cyfarwyddwyr yn rhan o'r broses hon ac mae graddfa gyflog uwch rheolwyr wedi cael ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Penderfynir ar dâl ar y lefel genedlaethol a defnyddir y dyfarniadau yn lleol ar sail cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer 2021/22, cymhwyswyd cynnydd wedi'i gyfuno o 3.0% i'r holl raddfeydd cyflog ar unigolion sydd â swyddi gweithredwyr ac uwch. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system dâl ar sail perfformiad ar gyfer rheolwyr ar lefelau uchel iawn. Mae'r holl gontractau ar gyfer rolau parhaol yn barhaol a thri mis yw'r cyfnod o rybudd yn achos rheolwyr ar lefelau uchel iawn.

Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o bedair blynedd (a gellir eu penodi am uchafswm o wyth mlynedd). Mae Aelodau Annibynnol yn derbyn tâl a benderfynir arno ar y lefel genedlaethol yn ystod eu penodiad.

**Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth**

Cafodd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ei sefydlu ym mis Ionawr 2015. Bwriad y Pwyllgor yw rhoi sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd ar dâl a thelerau gwasanaeth y tîm gweithredol ac aelodau eraill o'r staff uwch, yn unol â'r hyn a amlinellir gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd ar drefniadau tâl a thelerau gwasanaeth ar gyfer yr holl staff ac mae'n cyflawni swyddogaethau dirprwyedig penodol. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd, Mark Polin, ers iddo ymuno â'r sefydliad ym mis Medi 2018.

Roedd y Pwyllgor wedi'i amserlennu fel mater o drefn i gyfarfod bedair gwaith yn ystod y cyfnod adrodd ac ar adegau eraill pe bai'r Cadeirydd yn ystyried fod hynny'n ofynnol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyfarfu'r Pwyllgor naw gwaith.

Cafodd y cyfarfodydd hyn eu cynnal yn gyhoeddus, gydag adran breifat o'r agenda'n dilyn pan gafodd gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol ei thrafod. Yn ychwanegol, cynhaliwyd tri chyfarfod preifat eithriadol.

Dyma oedd prif eitemau allweddol yr agenda a ystyriwyd yn ystod cyfnod adrodd 2021/22:

- Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor;
- Diweddaru telerau ac amodau cenedlaethol, polisi a thâl;
- Papur yn cynnwys opsiynau ynghylch cysoni tâl ar gyfer practisau a reolir;
- Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau - Cydraddoli cyfraddau Tâl Meddygon Teulu ar draws Gogledd Cymru;
- Adroddiad Tribiwnlys a chynnig ar baramedrau ar gyfer achosion disgyblu amlwg a thribiwnlysoedd cyflogaeth;
- Diweddariad ynghylch Uwch Reolwyr Dros Dro;
- Diweddariad ynghylch Uwch Reolwyr Dros Dro Asiantaethau;
- Ymddygiad, Gallu ac Iechyd Meddygon a Deintyddion;
- Adroddiad gan Aelod Penodedig y Bwrdd ar Gynnal Safonau Proffesiynol yng Nghymru (UPSW);
- Rheoliadau'r GIG (Rhestrau Cyflawnwyr) (Cymru) 2004;
- Adroddiad Diweddaru ar Reoli Achosion Safonau Proffesiynol – niferoedd yr achosion hirsefydlog;
- Penodi a Newid Cyfarwyddwr Gweithredol gan gynnwys newidiadau i Bortffolios;
- Adolygiad Perfformiad a Datblygu - Cyfarwyddwyr Gweithredol;
- Adolygiad Perfformiad a Datblygu - Prif Weithredwr;
- Diweddariad ar Bolisïau Cymru Gyfan;
- Adroddiad ar Amddiffyn Cyflogau;
- Diweddariad ar Gynnydd Codi Llais yn Ddiogel;
- Ailgylchu Pensiynau;
- Diweddariad ynghylch y Model Gweithredu a Rhyddhau yn Gynnar yn Wirfoddol;
- Adroddiad ar Gofrestriadau Proffesiynol 2020/21 y Cyngor Proffesiynau Gofal Iechyd (HCPC) a Chyngor Fferyllol Cyffredinol Cymru (GPhC);
- Codi Tâl Gweithwyr a Chyflogau sydd ar gyfraddau tâl ad hoc;
- Adroddiad Tâl a Staff 2021/22;
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth;
- Diweddariad ail-ddilysu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol 2020;
- Adroddiad Blynyddol Cofrestru, Ail-ddilysu ac Addasrwydd i Ymarfer 2020 y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;

Mae manylion llawn y materion a ystyriwyd ac a drafodwyd gan y Pwyllgor wedi'u dogfennu yn yr agenda a'r cofnodion sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd a gellir eu gweld o'r dudalen ganlynol:
https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/

Y canlynol oedd aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Mark Polin | Cadeirydd y Bwrdd Iechyd |
| Aelodau | Lucy Reid | Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd |
| | Cyng. Medwyn Hughes | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio |
| | Jacqueline Hughes | Aelod Annibynnol |
| Yn bresennol | Jo Whitehead | Prif Weithredwr |
| | Arpan Guha | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro (hyd at 22 Awst 2021) |
| | Nick Lyons | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (o 23 Awst 2021) |
| | Sue Green | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol |
| | Louise Brereton | Ysgrifennydd y Bwrdd |

Yn ogystal â'r aelodau craidd uchod, bydd Cyfarwyddwyr a Swyddogion eraill y Bwrdd Iechyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd. I weld rhestr lawn o bresenoldeb, gweler y cofnodion cymeradwy sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd drwy'r dudalen ganlynol: https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/

**Perthnasoedd Tâl**

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr / cyflogai sy'n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Nodyn 9.6 i'r Cyfrifon Blynyddol, ar dudalennau 34A-35A o'r ddogfen hon.

Nid yw bonws cynllun cydnabyddiaeth ariannol y GIG a gofal cymdeithasol (£735) i wobrwyo staff cymwys y GIG wedi'i gynnwys yng nghyfrifiadau Adroddiad Tâl y GIG. Nid taliad cytundebol yw'r taliad bonws hwn, ond taliad untro i wobrwyo staff cymwys am eu hymrwymiad a'u hymdrechion diflino dan yr amgylchiadau mwyaf heriol.

Y Prif Weithredwr oedd y cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf yn ystod 2021/22. Yn 2020/21, y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a gafodd y tâl mwyaf. Yn 2021/22, cafodd un ar bymtheg o weithwyr dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr a oedd â'r tâl mwyaf (o gymharu â deg gweithiwr yn 2020/21).

**Nifer y Pecynnau Tâl dros £100,000**

Mae Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhoi arweiniad ar dryloywder pecynnau tâl ar gyfer cyrff y Sector Cyhoeddus yng Nghymru Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i becynnau sy'n werth mwy na £100,000 gael eu datgelu mewn bandiau o £5,000. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r rheiny sy'n derbyn dros £100,000, a chaiff rhagor o fanylion eu darparu yn yr ail dabl.

| Grŵp Staff | Nifer y Pecynnau Tâl dros £100,000 |
|---|---|
| Y Prif Weithredwr ac Aelodau Gweithredol y Bwrdd | 10 |
| Cyfarwyddwyr ac Uwch Reolwyr eraill | 34 |
| Staff Clinigol | 562 |
| Staff clinigol asiantaethau (net o'r comisiwn rhagamcanedig | 63 |

| £'000 | Prif Weithredwr ac Aelodau'r Bwrdd | Cyfarwyddwyr ac Uwch Reolwyr eraill | Staff Clinigol | Asiantaethau |
|---|---|---|---|---|
| 100 - 105 | - | 4 | 25 | 5 |
| 105 - 110 | 1 | 9 | 39 | 9 |
| 110 - 115 | 1 | 6 | 32 | 3 |
| 115 - 120 | - | - | 42 | 3 |
| 120 - 125 | - | 7 | 49 | 5 |
| 125 - 130 | - | 1 | 30 | 3 |
| 130 - 135 | 1 | 1 | 32 | 4 |
| 135 - 140 | - | 2 | 39 | 5 |
| 140 - 145 | 2 | 1 | 27 | 2 |
| 145 - 150 | 2 | - | 41 | - |
| 150 - 155 | 1 | - | 32 | 4 |
| 155 - 160 | - | - | 27 | 3 |
| 160 - 165 | - | - | 23 | 4 |
| 165 - 170 | - | - | 23 | 1 |
| 170 - 175 | - | - | 10 | - |
| 175 - 180 | 1 | - | 17 | 1 |
| 180 - 185 | - | - | 14 | 2 |
| 185 - 190 | - | 1 | 11 | 1 |
| 190 - 195 | - | - | 7 | 3 |
| 195 - 200 | - | 1 | 5 | - |
| 200 - 205 | - | 1 | 10 | 1 |
| 205 - 210 | - | - | 4 | - |
| 210 - 215 | - | - | 2 | 2 |
| 215 - 220 | - | - | 3 | - |
| 220 - 225 | 1 | - | 4 | 2 |
| 225 - 230 | - | - | 2 | - |
| 230 - 235 | - | - | 5 | - |
| 235 - 240 | - | - | 2 | - |
| 240 - 245 | - | - | - | - |
| 245 - 250 | - | - | 1 | - |
| 250 - 255 | - | - | - | - |
| 255 - 260 | - | - | 1 | - |
| 260 - 265 | - | - | - | - |
| 265 - 270 | - | - | - | - |
| 270 - 275 | - | - | 1 | - |
| 275 - 280 | - | - | - | - |
| 280 - 285 | - | - | 1 | - |
| 285 - 290 | - | - | - | - |
| 290 - 295 | - | - | - | - |
| 295 - 300 | - | - | - | - |
| 300 - 305 | - | - | - | - |
| 305 - 310 | - | - | - | - |
| 310 - 315 | - | - | - | - |
| 315 - 320 | - | - | - | - |
| 320 - 325 | - | - | - | - |
| 325 - 330 | - | - | - | - |
| 330 - 335 | - | - | - | - |
| 335 - 340 | - | - | - | - |
| 340 - 345 | - | - | - | - |
| 345 - 350 | - | - | - | - |
| 350 - 355 | - | - | - | - |
| 355 - 360 | - | - | - | - |
| 360 - 365 | - | - | - | - |
| 365 - 370 | - | - | 1 | - |
| **Cyfanswm** | 10 | 34 | 562 | 63 |

**Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo**

Mae manylion yr holl daliadau diswyddo y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn ar gael yn Nodyn 9.5 i'r Cyfrifon Blynyddol, ar dudalen, ar dudalen 33A yn y ddogfen hon.

**Cyflog Uwch Reolwyr a Datgeliadau Pensiwn a Chyfanswm Ffigur Tâl**

Mae cyfanswm y ffigurau yn y tabl isod (Cyfanswm y Ffigur Tâl Unigol) ar gyfer pob Uwch Reolwr yn cynnwys ffigur ar gyfer buddion pensiwn yn ystod y flwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd gan Asiantaeth Bensiynau'r GIG. Nid yw'r ffigur hwn yn cynrychioli'r swm gwirioneddol a gafodd ei dalu i unigolyn yn ystod y flwyddyn ac mae'n adlewyrchu asesiad cyfrifyddu o'r cynnydd mewn buddion hirdymor wedi'u haddasu am chwyddiant. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn gan gynnwys newidiadau i gyflog unigolyn, cyfraniadau ychwanegol a wnaed gan unigolion a ffactorau prisio isorweddol ar y cynllun cyfan.

**Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod** (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn wedi'i asesu gan actiwarïaid sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddion wedi'u prisio yw buddion yr aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn i briod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddion sydd wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan â'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn rôl uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddi. Mae ffigurau CETV a'r manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn arall mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun Caiff CETVs eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a bennir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid.

**Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV**: Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Mae'n ystyried y cynnydd o ran pensiwn wedi'i gronni oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion sy'n cael eu trosglwyddo o gynllun neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

| | 2021/22 | | | | | | 2020/21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw a Rôl | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** |
| **S Dean**<br>Prif Weithredwr Dros Dro<br>01/04/20 – 31/08/20<br>*(nodyn 1)* | | | | | | | 95-100 | -- | -- | 60-65 | **160-165** | *215-220* |
| **Jo Whitehead**<br>Prif Weithredwr<br>01/04/21 – 31/03/22 | 220-225 | 5,700 | 20 | 0-5<br>*(nodyn 2)* | **245-250** | -- | 50-55 | 1,000 | 1 | -- | **55-60** | *210-215* |
| **G Harris**<br>Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth a Dirprwy Brif Weithredwr<br>01/04/21 – 31/03/22 | 175-180 | -- | *(nodyn 3)* | -- | **175-180** | -- | 110-115 | -- | *(nodyn 3)* | -- | **110-115** | *165-170* |
| Prif Weithredwr Dros Dro<br>01/09/20 – 31/12/20 | -- | -- | -- | -- | **--** | -- | 65-70 | -- | *(nodyn 3)* | -- | **65-70** | *195-200* |

| | 2021/22 | | | | | | 2020/21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw a Rôl | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** |
| **D Hickman** Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth 01/09/20 – 31/12/20 | | | | | | | 40-45 | -- | *(nodyn 4)* | -- | **40-45** | *130-135* |
| **Dr D Fearnley** Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol 01/04/20 – 30/09/20 | | | | | | | 110-115 *(nodyn 5)* | -- | 51 *(nodyn 6)* | -- | **165-170** | *225-230* |
| **Yr Athro A Guha** Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro 01/04/21 – 22/08/21 | 95-100 *(nodyn 5)* | -- | *(nodyn 3)* | -- | **95-100** | *230-235* | 110-115 *(nodyn 5)* | -- | *(nodyn 3)* | -- | **110-115** | *225-230* |
| **Dr N Lyons** Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol 23/08/21 - 31/03/22 | 120-125 | -- | *(nodyn 7)* | 5-10 *(nodyn 2)* | **130-135** | *200-205* | | | | | | |

| | 2021/22 | | | | | | 2020/21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw a Rôl | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** |
| **A Thomas** Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd 01/04/21 – 31/03/22 | 110-115 | -- | 53 | -- | **160-165** | -- | 105-110 | -- | 30 | -- | **135-140** | -- |
| **S G Evans** Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd 01/03/22 – 31/03/22 | 5-10 | *(nodyn 8)* | *(nodyn 8)* | -- | **5-10** | *110-115* | | | | | | |
| **Dr J C Stockport** Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol 01/04/21 – 31/03/22 | 145-150 | 6,000 | *(nodyn 3)* | -- | **150-155** | -- | 140-145 | 6,000 | *(nodyn 3)* | -- | **145-150** | -- |

| | 2021/22 | | | | | | 2020/21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw a Rôl | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** |
| **T Owen**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus<br>01/04/21 – 31/03/22<br>Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro<br>01/09/20 – 31/12/20 | 140-145 | -- | 90 | -- | **230-235** | -- | 130-135 | -- | 67 | -- | **200-205** | -- |
| **S Hill**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid<br>01/04/21 – 31/03/22<br>(Dros dro yn y swydd, 01/04/20 – 31/12/20) | 145-150 | -- | 40 | -- | **185-190** | -- | 140-145 | -- | 39 | -- | **180-185** | -- |
| **M Wilkinson**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad<br>01/04/21 – 24/08/21 | 60-65 | -- | *(nodyn 9)* | -- | **60-65** | *145-150* | 140-145 | -- | 49 | -- | **190-195** | -- |

| | 2021/22 | | | | | | 2020/21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw a Rôl | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** |
| **S Green**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol<br>01/04/21 – 31/03/22 | 145-150 | -- | 42 | -- | **185-190** | -- | 140-145 | -- | 48 | -- | **190-195** | -- |
| **L D Sharp**<br>Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd<br>01/04/20 – 10/01/21 | | | | | | | 85-90 | -- | *(nodyn 10)* | -- | **85-90** | *100-105* |
| **E Jones**<br>Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd<br>01/04/20 – 03/04/20 | | | | | | | 0-5 | -- | *(nodyn 11)* | -- | **0-5** | *70-75* |
| **J Parry**<br>Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd<br>01/04/20 – 27/04/20 | | | | | | | 5-10 | 100 | *(nodyn 12)* | -- | **5-10** | *75-80* |
| **A L Brereton**<br>Ysgrifennydd y Bwrdd<br>01/04/21 – 31/03/22 | 100-105 | -- | 55 | -- | **155-160** | -- | 20-25 | -- | 7 | -- | **25-30** | *100-105* |

| | 2021/22 | | | | | | 2020/21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw a Rôl | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** |
| **A Roach**<br>Aelod Cyswllt o'r Bwrdd Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu 01/04/20 – 30/11/20 | | | | | | | 50-55 | -- | 28 | 30-35<br>*(nodyn 13)* | **110-115** | *120-125* |
| **L Singleton**<br>Aelod Cyswllt Dros Dro o'r Bwrdd Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu 01/04/20 – 01/06/20 | | | | | | | 15-20 | -- | *(nodyn 14)* | -- | **15-20** | *90-95* |

| | 2021/22 | | | | | | 2020/21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw a Rôl | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** |
| **M Polin**<br>Cadeirydd<br>01/04/21 – 31/03/22 | 65-70 | -- | -- | -- | **65-70** | -- | 65-70 | -- | -- | -- | **65-70** | -- |
| **L Reid**<br>Is-gadeirydd<br>01/04/21 – 31/03/22 | 55-60 | -- | -- | -- | **55-60** | -- | 55-60 | -- | -- | -- | **55-60** | -- |
| **Cynghorydd C Carlisle**<br>Aelod Annibynnol<br>01/04/21 – 31/03/22 | 15-20 | -- | -- | -- | **15-20** | -- | 15-20 | -- | -- | -- | **15-20** | -- |
| **J Cunliffe**<br>Aelod Annibynnol<br>01/04/21 – 31/03/22 | 15-20 | -- | -- | -- | **15-20** | -- | 15-20 | -- | -- | -- | **15-20** | -- |
| **Cynghorydd R M Hughes**<br>Aelod Annibynnol<br>01/04/21 – 31/03/22 | 15-20 | -- | -- | -- | **15-20** | -- | 15-20 | -- | -- | -- | **15-20** | -- |
| **L Meadows**<br>Aelod Annibynnol<br>01/04/21 – 31/03/22 | 15-20 | -- | -- | -- | **15-20** | -- | 15-20 | -- | -- | -- | **15-20** | -- |

| | 2021/22 | | | | | | 2020/21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw a Rôl | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** |
| **H Wilkinson**<br>Aelod Annibynnol<br>01/04/20 – 23/11/20<br>(mae'n cynnwys cyfnod o absenoldeb gwirfoddol) | | | | | | | 5-10 | -- | -- | -- | **5-10** | *15-20* |
| **H E Jones**<br>Aelod Annibynnol<br>01/04/21 – 31/08/21 | 5-10 | -- | -- | -- | **5-10** | *15-20* | 15-20 | -- | -- | -- | **15-20** | -- |
| **E L Tomos**<br>Aelod Annibynnol<br>01/04/21 – 31/03/22 | 15-20 | -- | -- | -- | **15-20** | -- | 5-10 | -- | -- | -- | **5-10** | *15-20* |
| **J Hughes**<br>Aelod Annibynnol<br>01/04/21 – 31/03/22 | *(nodyn 15)* | -- | -- | -- | **--** | -- | *(nodyn 15)* | -- | -- | -- | **--** | -- |
| **Yr Athro N Callow**<br>Aelod Annibynnol<br>01/04/21 – 31/03/22 | *(nodyn 16)* | -- | -- | -- | **--** | -- | *(nodyn 16)* | -- | -- | -- | -- | -- |
| **R Micklewright**<br>Aelod Annibynnol<br>01/11/21 – 31/03/22 | 5-10 | -- | -- | -- | **5-10** | *15-20* | | | | | | |

| | 2021/22 | | | | | | 2020/21 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Enw a Rôl | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** | Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000** | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£** | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£'000** | Taliadau eraill (bandiau o £5,000) **£** | **Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000** | *Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000** |
| **J Gallanders BEM**<br>Aelod Annibynnol<br>01/11/21 – 31/03/22 | 5-10 | -- | -- | -- | **5-10** | *15-20* | | | | | | |
| **Ff Williams**<br>Aelod Cyswllt o'r Bwrdd<br>01/04/21 – 30/04/21 | *(nodyn 17)* | -- | -- | -- | **--** | -- | *(nodyn 17)* | -- | -- | -- | **--** | -- |
| **S G Evans**<br>Aelod Cyswllt o'r Bwrdd<br>01/04/21 – 28/02/22 | *(nodyn 18)* | -- | -- | -- | **--** | -- | *(nodyn 18)* | -- | -- | -- | **--** | -- |
| **M Edwards**<br>Aelod Cyswllt o'r Bwrdd<br>01/04/21 – 31/03/22 | *(nodyn 17)* | -- | -- | -- | **--** | -- | *(nodyn 17)* | -- | -- | -- | **--** | -- |
| **C Budden**<br>Aelod Cyswllt o'r Bwrdd<br>01/06/21 – 31/03/22 | *(nodyn 17)* | -- | -- | -- | **--** | -- | | | | | | |

**Nodiadau**

1. Cafodd S Dean ei secondio o Lywodraeth Cymru fel Prif Weithredwr Dros Dro ac roedd y trefniant mewn grym o 10fed Chwefror 2020 i 31ain Awst 2020. Yn ystod cyfnod y secondiad, Llywodraeth Cymru oedd cyflogwyr parhaol S Dean. Cododd cyfanswm o £162,326 o gostau yn 2020/21 mewn perthynas â'r secondiad. Roedd y rhain yn cynnwys cyflog gwerth £97,403 (gan gynnwys ôl-daliad gwerth £6,711 yn deillio o 2019/20), costau pensiwn gwerth £21,314, costau Yswiriant Gwladol gwerth £11,649, treuliau gwerth £4,906 a TAW na ellid ei hadennill gwerth £27,054. (2019/20: costau gwerth £50,495 mewn perthynas â'r secondiad, a oedd yn cynnwys cyflog gwerth £29,592, costau pensiwn gwerth £8,571, costau Yswiriant Gwladol gwerth £3,917, a TAW na ellid ei hadennill gwerth £8,415).
2. Mae'r gwerthoedd a gaiff eu cynnwys dan daliadau eraill yn 2021/22 yn ymwneud â phecynnau treuliau adleoli. Yn 2020/21, cafodd J Whitehead dreuliau adleoli yn y band £0-£5,000 a chafodd N Lyons dreuliau adleoli yn y band £5,000-£10,000.
3. Dewisodd y gweithwyr hyn beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r flwyddyn adrodd bresennol.
4. Dewisodd y gweithwyr hyn beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol.
5. Mae cyflogau Dr D Fearnley a'r Athro A Guha yn cynnwys tâl am eu Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol a ddyfarnwyd ar y lefel genedlaethol.
6. Mae ffigurau diwygiedig wedi'u defnyddio ar gyfer gwerthoedd pensiwn agoriadol gan fod swydd y Swyddog Iechyd Meddwl (MHO) wedi'i diwygio gan ddyblygu'r cyfrifiad.
7. Dewisodd y gweithwyr hyn beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd bresennol.
8. S G Evans yw Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd ers 1af Mawrth 2022. Oddi allan i'r cyfnod hwn, roedd G Evans yn cael ei gyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol ac ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud â rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd yn unig.
9. M Wilkinson oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad dros y cyfnod o 1af Ebrill 2021 i 24ain Awst 2021. Oddi allan allan i'r cyfnod hwn, roedd M Wilkinson yn cael ei gyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol ac ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud â rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cynllunio a Pherfformiad yn unig.
10. L D Sharp oedd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd yn ystod y cyfnod o 1af Medi 2019 i 10fed Ionawr 2021. Oddi allan i'r cyfnod hwn, roedd L D Sharp yn cael ei chyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol ac ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud yn unig â rôl Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd.
11. E Jones oedd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd o 18fed Rhagfyr 2019 i 3ydd Ebrill 2020. Oddi allan i'r cyfnod hwn, roedd E Jones yn cael ei chyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol ac ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud yn unig â rôl Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd.

12. J Parry oedd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd yn ystod y cyfnod o 6ed Chwefror 2020 i 27ain Ebrill 2020. Oddi allan i'r cyfnod hwn, roedd J Parry yn cael ei chyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol ac ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud yn unig â rôl Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd.
13. Fe wnaeth A Roach roi'r gorau i rôl Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar 30ain Tachwedd 2020. Mae tâl arall yr adroddwyd arno yn achos A Roach yn ymwneud â thaliad contract.
14. Roedd L Singleton yn Gyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu rhwng 20fed Tachwedd 2019 a 1af Mehefin 2020. Ar y dyddiad hwn, cafodd yr Arweinydd Gweithredol dros Iechyd Meddwl ei gadarnhau yn Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Parhaodd Mrs L Singleton fel Cyfarwyddwr Dros Dro'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu tan 20 Medi 2020, ar lefel Cyfarwyddwr Uwch Adran, nid ar lefel y Bwrdd. Ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud â rôl Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn unig.
15. Mae J Hughes yn un o gyflogeion y Bwrdd Iechyd ac mae'n Aelod Annibynnol sy'n dod o gefndir Undebau Llafur. Nid yw J Hughes yn cael ei thalu am ei rôl Aelod Annibynnol.
16. Yr Athro N Callow yw cynrychiolydd y Brifysgol ar y Bwrdd ac nid yw'n cael ei dalu gan y Bwrdd Iechyd.
17. Nid yw Ff Williams, M Edwards a C Budden yn gyflogeion y Bwrdd Iechyd ac nid ydynt yn cael eu talu ganddo.
18. Mae S G Evans yn un o gyflogeion y Bwrdd Iechyd ac mae'n Aelod Cyswllt o'r Bwrdd ac yn Gadeirydd y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol. Ni chafodd Mr S G Evans ei dalu am rôl Aelod Cyswllt o'r Bwrdd. Ar y 1af Mawrth 2022, cychwynnodd S G Evans yn rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd.

| | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) **£'000** | Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliad (bandiau o £2,500) **£'000** | Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,500) **£'000** | Cyfandaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,500) **£'000** | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2021 **£'000** | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2022 **£'000** | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod **£'000** | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **J Whitehead** Prif Weithredwr 01/04/21 – 31/03/22 | 0-2.5 | -- | 10-15 | -- | 154 | 176 | 18 | |
| **G Harris** Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth a Dirprwy Brif Weithredwr 01/04/21 – 31/03/22 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | *nodyn 1* |
| **Yr Athro A Guha** Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro 01/04/21 – 22/08/21 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | *nodyn 1* |
| **Dr N Lyons** Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol 23/08/21 - 31/03/22 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | *nodyn 2* |

| | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) **£'000** | Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliad (bandiau o £2,500) **£'000** | Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,500) **£'000** | Cyfandaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,500) **£'000** | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2021 **£'000** | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2022 **£'000** | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod **£'000** | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A Thomas** Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd 01/04/21 – 31/03/22 | 2.5-5.0 | 2.5-5.0 | 50-55 | 130-135 | 1,082 | 1,169 | 66 | |
| **S G Evans** Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd 01/03/22 – 31/03/22 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | *nodyn 4* |
| **Dr J C Stockport** Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol 01/04/21 – 31/03/22 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | *nodyn 1* |
| **T Owen** Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 01/04/21 – 31/03/22 | 5.0-7.5 | 5.0-7.5 | 55-60 | 115-120 | 951 | 1,065 | 88 | |

| | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) **£'000** | Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliad (bandiau o £2,500) **£'000** | Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,500) **£'000** | Cyfandaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,500) **£'000** | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2021 **£'000** | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2022 **£'000** | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod **£'000** | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **S Hill** Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid 01/04/21 – 31/03/22 | 2.5-5.0 | -- | 20-25 | -- | 259 | 310 | 28 | |
| **M Wilkinson** Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad 01/04/21 – 24/08/21 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | *nodyn 3* |
| **S Green** Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol 01/04/21 – 31/03/22 | 2.5-5.0 | 0-2.5 | 25-30 | 35-40 | 406 | 449 | 33 | |
| **A L Brereton** Ysgrifennydd y Bwrdd 01/04/21 – 31/03/22 | 2.5-5.0 | -- | 10-15 | -- | 110 | 149 | 24 | |

**Nodiadau**

1. Dewisodd y gweithwyr hyn beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r flwyddyn adrodd bresennol.
2. Dewisodd y gweithwyr hyn beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd bresennol.
3. M Wilkinson oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad am y cyfnod o 1af Ebrill 2021 i 24ain Awst 2021. Oddi allan allan i'r cyfnod hwn, roedd M Wilkinson yn cael ei gyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol ac ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud â rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cynllunio a Pherfformiad yn unig.
4. S G Evans yw Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd ers 1af Mawrth 2022. Oddi allan i'r cyfnod hwn, roedd G Evans yn cael ei gyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol ac ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud â rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd yn unig.

# Adroddiad Staff

Adroddir ar nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gyflogwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2021/22 isod.

| Grŵp Proffesiynol | FTE Cyfartalog 2021/22 |
|---|---|
| Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 656 |
| Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol | 3,451 |
| Gweinyddol a Chlercyddol | 3,292 |
| Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | 1,065 |
| Ystadau ac Ategol | 1,249 |
| Gwyddonwyr Gofal Iechyd | 259 |
| Meddygol a Deintyddol | 1,611 |
| Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig | 5,248 |
| Myfyrwyr | 27 |
| **Cyfanswm** | **16,858** |

Roedd cyfanswm gwirioneddol y staff yn eu swyddi ar 31ain Mawrth 2022 yn 19,335 ac mae manylion y gymysgedd rhywiau i'w gweld yn y tabl isod.

| Cyfansoddiad Staff | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr | 6 | 4 | 10 |
| Rheolwr (Band 8c ac uwch) | 122 | 83 | 205 |
| Staff | 15,421 | 3,719 | 19,140 |
| **Cyfanswm** | **15,549** | **3,806** | **19,355** |

*At ddiben yr adroddiad hwn, diffinnir rheolwr fel aelod o staff ar Fand 8c ac uwch (neu lefel gyfatebol ar gyfer staff meddygol) sydd wedi'i leoli mewn swyddogaeth gorfforaethol neu Uwch Adran weithredol sydd â chyfrifoldebau sylweddol fel rheolwr neu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y sefydliad cyfan. Nid yw rheolwyr yn cynnwys swyddi Nyrsys Ymgynghorol, Bydwragedd Ymgynghorol a Gwyddonwyr Clinigol Ymgynghorol

Mae'r data ar absenoldeb salwch ar gyfer 2021/22 wedi'u darparu isod:

| | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Dyddiad FTE a gollwyd (hirdymor)*1 | 230,669 | 259,713 |
| Dyddiad FTE a gollwyd (byrdymor)*1 | 91,138 | 118,023 |
| **Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd** | **321,808** | **377,736** |
| Nifer y dyddiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd | 12 | 14 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod cyfnod (nifer yr unigolion)*2 | 19,261 | 19,066 |
| Cyfanswm staff a gyflogwyd yn ystod cyfnod na fu'n absennol o gwbl (nifer yr unigolion)*2 | 8,136 | 5,457 |
| **Canran y staff na fu'n absennol o gwbl oherwydd salwch** | **43.19%** | **30.48%** |

*1 - Caiff y ffigurau hyn eu cyfrifo ar sail Cyfwerth ag Amser Llawn. Caiff absenoldeb oherwydd salwch ei fesur gan ddefnyddio diwrnodau calendr ar system y Cofnod Staff Electronig, sy'n cynnwys yr holl ddiwrnodau o ddechrau hyd at ddiwedd cyfnod absenoldeb, yn cynnwys penwythnosau neu ddiwrnodau pan na fyddai aelod o staff wedi cael ei roi ar y rhestr ddyletswyddau i weithio. Felly mae nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd yn is na'r ffigur sy'n ymwneud â diwrnodau a gollwyd.

*2 - Cyfartaledd dros 12 mis

*Sylwch fod hyn yn cynnwys staff newydd a ddechreuodd yn ystod y cyfnod adrodd fel yr argymhellir gan safonau data Cymru Gyfan.

Roedd cyfanswm cyffredinol yr absenoldeb oherwydd salwch yn 2021/22 yn 6.3% (2020/21, 5.48%). Mae ffactorau megis cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref a chofnodi absenoldeb staff a oedd cysgodi ac yn hunanynysu fel absenoldeb arbennig wedi effeithio ar ganran y staff na fu'n absennol o gwbl oherwydd salwch.

### Ymrwymiadau oddi ar y Gyflogres a Gwaith Ymgynghori

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu gwariant ar ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ac ar ymgynghori. Mae'r tablau isod yn amlinellu manylion am yr ymrwymiadau oddi ar y gyflogres sydd gan y Bwrdd Iechyd ar waith. Dylid nodi bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cyflwyno rheolau newydd mewn perthynas â rheoliadau treth a ddaeth i rym ar 6ed Ebrill 2017. Mae'r newidiadau hyn wedi ehangu cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd o ran rheoli'r ymrwymiadau oddi ar y gyflogres a bydd y rhan fwyaf o'r ymrwymiadau'n ddarostyngedig i dreth ac Yswiriant Gwladol wrth eu tarddiad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal asesiadau IR35 ar gyfer yr holl ymrwymiadau oddi ar y gyflogres sy'n berthnasol.

| **Nifer yr ymrwymiadau cyfredol am fwy na £245 y dydd-ar 31 Mawrth 2022** | **296** |
|---|---|
| *O blith y rhain...* | |
| Nifer sy'n bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg adrodd | 127 |
| Nifer sy'n bodoli ers 1 - 2 flynedd ar adeg adrodd | 43 |
| Nifer sy'n bodoli ers 2 - 3 blynedd ar adeg adrodd | 43 |
| Nifer sy'n bodoli ers 3 - 4 blynedd ar adeg adrodd | 80 |
| Nifer sydd wedi bodoli ers pedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd | 3 |

| **Nifer yr ymrwymiadau newydd oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y dydd rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022** | **128** |
|---|---|
| *O blith y rhain...* | |
| Nifer a aseswyd fel rhai a oedd yn berthnasol i IR35 | 120 |
| Nifer a aseswyd fel rhai nad oeddent yn berthnasol i IR35 | 8 |
| Nifer a ymrwymodd yn uniongyrchol (trwy PSC o dan gontract i'r adran) ac sydd ar y gyflogres adrannol | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau a gafodd eu hailasesu at ddibenion cysondeb / sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau lle gwelwyd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad o gysondeb | 0 |

| **Nifer yr ymrwymiadau oddi ar gyflogres o ran aelodau'r bwrdd a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022** | **0** |
|---|---|
| | |
| (Nifer yr unigolion sydd wedi'u hystyried yn "aelodau o'r bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol" yn ystod y flwyddyn ariannol, yn cynnwys ymrwymiadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres) | 27* |

*Aelodau'r Bwrdd a'r Uwch Swyddogion a ystyrir i fod yn Uwch Reolwyr yw'r unigolion y mae manylion eu cyflogau wedi'u datgelu ar y tudalennau o dudalen 71 i dudalen 79 yn yr adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, £0.605m oedd gwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau ymgynghori allanol.

**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Cytunwyd ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ar gyfer y cyfnod 2020-2024 gan y Bwrdd a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020. Mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-andprocedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/cynlluniau-strategol-cydraddoldeb/

Yn ystod ail flwyddyn y cynllun hwn rydym wedi parhau i ymateb i'r heriau sydd wedi deillio o bandemig COVID-19 a'r anghydraddoldeb iechyd y mae hynny wedi'i amlygu a'i waethygu, ac ar yr un pryd, rydym wedi canolbwyntio o'r newydd ar ein bwriad i gryfhau'r gwaith o reoli perfformiad y CCS ar draws holl swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd Rydym hefyd wedi blaenoriaethu gweithrediad y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd ar draws ein holl wasanaethau yng Ngogledd Cymru.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â chymunedau, unigolion a grwpiau, ein staff a'n harbenigwyr i lywio ein gwaith cydraddoldeb ac rydym yn ddiolchgar am fewnwelediad a chymorth cynifer o bobl wrth i ni gydweithio ar draws Gogledd Cymru. Mae rhagor o fanylion ar ein cynnydd wedi'u cyhoeddi ar ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2021/22, sydd ar gael yn https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/adroddiadau-cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/

**Llofnod:**

**Jo Whitehead**
**Prif Weithredwr a Swyddog Atebol** **Dyddiad: 24ain Awst 2022**

# Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd lunio a chyhoeddi Adroddiad Atebolrwydd, y caiff ei gynnwys ei ragnodi gan Lywodraeth Cymru.

**Rheoleidd-dra'r Gwariant**

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn diffinio rheoleidd-dra fel y gofyniad i'r holl eitemau gwariant dderbyn sylw yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdodau dirprwyedig a rheolau perthnasol Cyfrifyddu Llywodraethol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd y grym i wario yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac mae'n derbyn dyraniadau refeniw ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Nod proses pennu cyllideb y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar draws y sefydliad at ddibenion dilys. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau dirprwyedig gyda deiliaid cyllideb ac mae'n rhaid iddynt weithredu'n unol â'u Cytundebau Atebolrwydd a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI) y Bwrdd Iechyd.

Mae trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r SFIs hyn ac adroddir ar y rhain wrth bob Pwyllgor Archwilio trwy'r Adroddiad Cydymffurfiaeth. Yn ogystal â rhaglen gynhwysfawr o Archwilio Mewnol, mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Gwrth-dwyll Lleol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â safonau adrodd cydnabyddedig i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Sector Cyhoeddus a chaiff y cyfrifon eu llunio'n unol â'r Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Caiff ffurflenni monitro ariannol misol eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn cynnwys esboniadau dros amrywiannau

Adroddodd y Bwrdd Iechyd ar warged o £0.289m yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw ar gyfer y flwyddyn. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei darged statudol i fod mewn sefyllfa i adennill costau dros y cyfnod tair blynedd o 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2022 ac mae wedi cofnodi diffyg cronnus gwerth £37.917m.

**Ffioedd a Thaliadau**

Ni chodir ffioedd a thaliadau ar gleifion y GIG fel mater o drefn oni chaniateir i'r Bwrdd Iechyd godi tâl o dan y ddeddfwriaeth. Byddai enghreifftiau'n cynnwys gwaith deintyddol a mynediad at gofnodion iechyd. Cadarnheir, hyd eithaf ein gwybodaeth, fod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfraddau codi tâl.

**Rhwymedigaethau Digwyddiadol o Bell**

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd gyfrifyddu o ran yr holl rwymedigaethau diwgyddiadol o bell yn unol â Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 37 (IAS37). Mae'r rhain wedi'u datgelu'n llawn yn Nodyn 21 yn y Datganiad Cyfrifon.

Byddai rhwymedigaethau digwyddiadol o bell eraill nas cyfrifyddir yn IAS37 yn cynnwys llythyrau cysur a gwarantau trydydd parti a roddir gan reolwyr. Hyd ag y gwyddom ni, nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw rwymedigaethau o'r fath lle byddai angen eu datgelu.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Senedd Cymru

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Betsi Cadwaladr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain March 2022 dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad am Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti Talwyr Trethi a nodiadau cysylltiol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yn gyfreithiol gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan y DU, fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn y sail ar gyfer barn amodol ar yr adran datganiadau ariannol isod, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn wir a theg am sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Betsi Cadwaladr ar 31ain Mawrth 2022 ac am ei gostau gweithredu net yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan hyn gan Weinidogion Cymru.

**Y sail i'r farn amodol am y datganiadau ariannol**

Fel y nodir isod, nid wyf wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio briodol i brofi bod yr holl symiau taladwy a chroniadau yn bodoli ar 31 Mawrth 2022; bod yr holl wariant wedi digwydd yn ystod y flwyddyn; neu, y rhoddwyd cyfrif priodol am yr holl wariant yn y cyfnod cyfrifo cywir.

O ganlyniad, nid wyf wedi gallu pennu a oedd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r symiau hyn. Gan nad wyf wedi gallu asesu maint llawn y gwall a'r ansicrwydd yn y datganiadau ariannol, rwy'n amodi fy marn archwilio ar y sail nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu darparu digon o dystiolaeth archwilio briodol i brofi bod:

- Symiau taladwy a chroniadau gwerth £73.2 miliwn i sefydliadau ydynt yn rhan o'r GIG yn Nodyn 18 ('Masnach a Symiau Taladwy Eraill') yn bodoli ar 31 Mawrth 2022; a
- bod y gwariant gwerth £122.2 miliwn yn Nodyn 3.3 ('Gwariant ar Ysbytai a Gwasanaeth Iechyd yn y Gymuned') wedi digwydd yn ystod y flwyddyn neu y rhoddwyd cyfrif am hynny yn briodol yn ystod y cyfnod cyfrifyddu cywir.

Gellir gweld rhagor o fanylion yn fy adroddiad atodedig.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio'r mater a ddisgrifir yn y Sail i'r Farn Amodol am Reoleidd-dra yn yr adran ar Reoleidd-dra yn fy adroddiad, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriedid gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Y sail i'r farn amodol am reoleidd-dra

Rwyf wedi amodi fy marn am reoleidd-dra datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr oherwydd:

- mae'r datganiadau hynny'n cynnwys darpariaeth o £2.3 miliwn sy'n ymwneud ag atebolrwydd amcangyfrifiedig y Bwrdd Iechyd sy'n deillio o'r Cyfarwyddyd Gweinidogol dyddiedig 18 Rhagfyr 2019 ar bensiynau uwch glinigwyr. Yn fy marn hwn, mae'r gwariant hwn yn afreolaidd ac yn faterol berthnasol yn ôl ei natur.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Betsi Cadwaladr wedi torri rheolau yn ymwneud â therfyn ei adnoddau trwy wario £37.9 yn fwy na'r swm y'i awdurdodwyd i wario yn y cyfnod rhwng 2019-2020 a 2021-22. Mae'r gwariant hwn yn gyfystyr a gwariant afreolaidd.

Mae rhagor o fanylion am hyn yn fy adroddiad atodedig.

## Sail y barnau

Ymgymerais â fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol yn ymwneud ag Archwilio yn y DU (ISA (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau dan y safonau hyn ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilwyr ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol i'r Bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i fy marn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu fod y defnydd o sail cyfrifo busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydw i wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau, boed yn unigol neu gyda'i gilydd, a all fwrw amheuaeth arwyddocaol dros allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr o ran busnes hyfyw o fewn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Y wybodaeth arall yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd am hynny. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall, a, heblaw hyd y nodir yn amlwg yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd i'r casgliad ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall , ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos ei fod wedi'i gam-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau perthnasol tebygol neu anghysondebau, mae'n ofynnol i i benderfynu a yw hyn yn golygu bod camddatganiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, y byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiadau sylweddol o'r wybodaeth arall, mae'n ofynnol i mi adrodd ar hynny.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd am hyn.

**Adroddiad ar ofynion eraill**

**Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w archwilio wedi cael ei baratoi'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed yn unol â hynny gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a ymgymerwyd wrth wneud fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael paratoi, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllaw'r Gweinidogion Cymreig;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol mewn perthynas â hi yn gyson a'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad ar Berfformiad ac Atebolrwydd wedi cael ei baratoi yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**Materion rwy'n eu hadrodd yn ôl eithriad**

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y Bwrdd a'i amgylchedd a gafwyd wrth wneud yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu.

Mewn perthynas yn unig â'r materion y cyfeirir atynt uchod yn y sail i fy marnau amodol am y datganiadau ariannol:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ni chafwyd ymatebion digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau na chafodd ymweliad gan fy nhîm; ac
- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Nid oes gennyf unrhyw beth arall i'w adrodd o ran y materion canlynol, y byddwn yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifo digonol wedi'u cadw, neu os na chafwyd ymatebion digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau na chafodd ymweliad gan fy nhîm;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ymatebion; ac
- na ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru ynghylch tâl neu drafodion eraill.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiadau ar Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr ar dudalennau 64 a 65, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi barn wir a theg ac unrhyw reolaethau mewnol y bydd y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r bwrdd i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu fel sy'n briodol, materion sy'n ymwneud â busnes hyfyw, a defnyddio sail busnes hyfyw cyfrifo oni bai y penderfynir yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw derbyn sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfryw yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant bod archwiliad a ymgymerwyd yn unol â ISA (DU) bob amser yn darganfod camddatganiadau materol, os ydynt yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, ac fe'u hystyrir yn faterol, os ydynt, yn unigol neu ar y cyd, gallent ddisgwyl dylanwadu'n rhesymol ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr, yn sgil y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn ddigwyddiadau o ddiffyg cydymffurfio gyda chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddatgelu camddatganiadau materol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn cynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr yn ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un ai a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - datgelu ac ymateb i'r risgiau o dwyll a ph'un ai oes ganddynt wybodaeth o unrhyw dwyll gwirioneddol, neu a amheuir; a
  - rheolau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau yn ymwneud a thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a lle y gall twyll ddigwydd o fewn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial am dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw a chyhoeddi dyddlyfrau anarferol; a
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Betsi Cadwaladr yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheolaethol eraill y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithredu yn unol â hwyl, ân ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a oedd wedi cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a oedd wedi cael effaith sylfaenol ar weithrediadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a ddynodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau i'r datganiadau ariannol a phrofi'r ddogfennaeth gefnogol i asesu cydymffurfiaeth gyda'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol fel y trafodwyd uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithio a hawliadau posibl a gwirioneddol;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth ymdrin â'r risg o dwyll trwy brif reoliadau rheoli, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu p'un ai yw'r farn a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo yn arwydd o duedd posibl; a gwerthuso sail resymegol busnes o unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Yn ychwanegol, hysbysais holl aelodau'r tîm archwilio am yr holl gyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd ac roeddwn yn wyliadwrus am unrhyw ddangosyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar allu fy ngweithdrefnau i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Betsi Cadwaladr, a natur, amseriad ac ehangder y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Gellir gweld disgrifiad manylach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

**Cyfrifoldebau i sicrhau rheoleidd-dra**

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n rhaid i mi dderbyn digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y diben a fwriedid gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adroddiad**

Gweler fy Adroddiad atodedig.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**26 Awst 2022**

**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

## Rhagarweiniad

Yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus 2004, rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd am ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Rwy'n adrodd am y datganiadau ariannol hyn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 i ddwyn sylw at bedwar mater allweddol ar gyfer fy archwiliad, fel a ganlyn:

- amodi fy marn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg oherwydd anallu i gael digon o dystiolaeth briodol yn ymwneud â chroniadau penodol, symiau taladwy a gwariant a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol;
- amodi fy marn ar reoleidd-dra yn ymwneud â gwariant a gydnabyddir o ganlyniad i Gyfarwyddyd y Gweinidog ar bensiynau uwch glinigwyr;
- amodi fy marn ar reoleidd-dra oherwydd methiant y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf; a
- methiant y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ail ddyletswydd ariannol.

## Barn amodol yn sgil methu cael tystiolaeth ddigonol am groniadau a gwariant

Nododd fy mhrofion archwilio cychwynnol lefelau sylweddol o wallau ac ansicrwydd ynghylch pa un ai a oedd symiau taladwy a chroniadau o £9.1 miliwn yn bodoli ar 31 Mawrth 2022 ac a ddigwyddodd gwariant o £9.4 miliwn yn ystod y flwyddyn neu a roddwyd cyfrif priodol amdano yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Mae'r gwallau a'r ansicrwydd a nodwyd gan fy mhrofion cychwynnol o £9.4 miliwn yn gyfystyr â 7.8% o'r sampl a brofwyd o blith £121.2 miliwn.

Gan ystyried lefel y gwallau a'r ansicrwydd a nodwyd yn wreiddiol, dywedais wrth y Bwrdd Iechyd fod angen i mi gynnal profion ychwanegol i asesu graddau pellach unrhyw wallau yn y datganiadau ariannol.

Ymatebodd y Bwrdd Iechyd gan gyfleu na fyddai'n gallu fy nghefnogi i gynnal unrhyw brofion pellach oherwydd 'adnoddau cyfyngedig yn y tîm cyllid a'r gwaith ychwanegol y bu'n rhaid iddynt ei wneud ers mis Ebrill; yr effaith sylweddol y byddai unrhyw oedi pellach yn ei chael ar Gyfrifon Cryno Llywodraeth Cymru a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r goblygiadau canlyniadol ar gyfer cynhyrchu Cyfrifon Adnoddau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r gofyniad i'r tîm cyllid ganolbwyntio ar y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei amcanion ar gyfer 2022-23'. O ganlyniad, nid wyf wedi gallu cwblhau'r profion pellach angenrheidiol i asesu graddau llawn y gwallau a'r ansicrwydd yn y datganiadau ariannol.

Nodaf fod adran 21.6 o Lywodraethu Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu'r methiannau sylweddol mewn perthynas â rheolaeth fewnol o ran cydnabod croniadau, symiau taladwy a gwariant yn ystod y flwyddyn, cam-ddosbarthu gwariant cyfalaf fel refeniw, a'r methiant i gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd ar gyfer contract cronedig gwerth dros £1 miliwn, yn groes i Ddeddf Rheolau Sefydlog a'r GIG (Cymru) 2006. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fod yn rhoi ystod o gamau ar waith i gryfhau ei amgylchedd rheolaeth ariannol i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd.

Gan nad wyf wedi gallu asesu maint llawn y gwall a'r ansicrwydd yn y datganiadau ariannol, rwy'n amodi fy marn archwilio ar y sail nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu darparu digon o dystiolaeth archwilio briodol i brofi bod:

- Symiau taladwy a chroniadau gwerth £73.2 miliwn i sefydliadau ydynt yn rhan o'r GIG yn bodoli ar 31 Mawrth 2022
- bod y gwariant gwerth £122.2 miliwn wedi digwydd yn ystod y flwyddyn neu y rhoddwyd cyfrif am hynny yn briodol yn ystod y cyfnod cyfrifyddu cywir.

Gan nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi fy nghefnogi i gynnal unrhyw brofion pellach, nid wyf wedi gallu asesu lle mae'r symiau taladwy a'r croniadau gwerth £73.2 miliwn i sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r GIG yn cael eu cydnabod mewn gwariant. Gallai cyfanswm y £73.2 miliwn neu ran o'r swm fod wedi'i gynnwys yn y gwariant gwerth £122.2 miliwn y cyfeirir ato uchod neu gallai fod wedi'i gydnabod mewn rhan arall o'r datganiadau ariannol.

Rwy'n argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- cynnal ymarfer cynhwysfawr i nodi'r gwallau yn ei gofnodion cyfrifyddu a'u hunioni;
- nodi'r cywiriadau y mae angen iddo'u gwneud i sicrhau bod ei gyfrifon ar gyfer 2022-23 yn cyfleu darlun gwir a chywir; a
- chynnal adolygiad i ddeall pam y digwyddodd y materion hyn a chryfhau ei reolaethau yn unol â hynny.

Gofynnaf i'r Bwrdd Iechyd ysgrifennu ataf i erbyn 30 Medi 2022 yn amlinellu sut mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion uchod.

**Cyfarwyddyd y gweinidogion ar bensiynau uwch glinigwyr**

Nid yw cynllun Pensiwn y GIG a deddfwriaeth treth pensiwn wedi'i ddatganoli i Gymru. Roedd newidiadau i'r trefniadau treth gan Drysorlys EM ar gyfraniadau pensiwn mewn blynyddoedd diweddar yn cynnwys gostyngiad i'r terfyn Lwfans Blynyddol o dros £200,000 yn 2011-12 i £40,000 yn 2018-19. O ganlyniad, mewn achosion lle'r oedd cyfraniadau pensiwn unigolyn yn fwy na therfynau lwfans cyfraniadau pensiwn blynyddol penodol / neu gyfraniadau oes, yna maent yn cael eu trethu ar gyfradd uwch ar eu holl gyfraniadau, gan greu cynnydd cyflym mewn rhwymedigaeth treth.

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 13 Tachwedd 2019, nododd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod cyrff GIG Cymru yn: 'adrodd yn rheolaidd fod uwch staff clinigol yn anfodlon cymryd gwaith a sesiynau ychwanegol oherwydd y rhwymedigaeth treth gosbedigol posibl'. Mewn rhai amgylchiadau gallai hyn arwain at gostau treth ychwanegol yn fwy nag unrhyw incwm ychwanegol a enillwyd.

Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru (gan efelychu gweithred flaenorol gan Ysgrifennydd Gwladol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lloegr) Gyfarwyddyd Gweinidogol i'r Ysgrifennydd Parhaol i symud ymlaen gyda chynlluniau i ymrwymo i wneud taliadau i staff clinigol i adfer gwerth eu pecynnau buddion pensiwn. Pe bai clinigwyr y GIG yn dewis defnyddio'r cyfleuster 'Cynllun Taliadau' i setlo costau treth lwfans blynyddol yn codi o'u harbedion pensiwn GIG 2019-20 (h.y. setlo'r gost trwy ostwng pensiwn blynyddol, yn hytrach na gwneud taliad un waith), yna byddai eu cyflogwyr yn y GIG yn cwrdd ag effaith y costau treth hynny ar eu pensiwn pan fyddent yn ymddeol.

Roedd Cyfarwyddyd y Gweinidogion yn ofynnol oherwydd gellid gweld y datrysiad hwn gan CThEM i fod yn sefydlu cynllun treth ac o bosibl osgoi treth, gan felly wneud y gwariant yn un afreolaidd. Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (sy'n efelychu ei gyfwerth yn Lloegr) yn nodi'r benodol 'na ddylai sefydliadau'r sector cyhoeddus ymgysylltu mewn ... efadu treth, osgoi treth neu gynllunio treth'.

Nid yw Cyfarwyddyd gan Weinidogion yn gwneud yn rheolaidd beth a fyddai fel arall yn afreolaidd, ond mae'n symud yr atebolrwydd ar gyfer penderfyniadau o'r fath oddi wrth y Swyddog Cyfrifol i'r Gweinidog sy'n cyhoeddi'r cyfarwyddyd.

Mae'r datrysiad yn berthnasol yn unig i gostau treth lwfans blynyddol sy'n codi o gynnydd yn y buddion a gronnwyd yn y Cynllun Pensiwn GIG yn ystod y flwyddyn dreth yn diweddu 5 Ebrill 2020. Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 5 Ebrill 2021, cynyddodd y Canghellor y trothwy ar gyfer y lwfans blynyddol graddedig ac, o ganlyniad, rhagwelir fod y risg i gyflenwad staff clinigol wedi'i liniaru.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael gwybodaeth ddigonol yn ystod y flwyddyn i gyfrifo a chydnabod amcangyfrifiad o gost bosibl digolledu uwch staff clinigol ar gyfer buddion pensiwn a fyddent fel arall wedi'i golli,, gan ddefnyddio'r trefniant 'Cynllun Talu'. O ganlyniad, cydnabuwyd gwariant fel darpariaeth fel y gwelir yn Nodyn 20 y datganiadau ariannol.

Caiff holl gyrff y GIG eu rhyddarbed ar gyfer effaith Cyfarwyddyd y Gweinidog, ond yn fy marn i, mae'r trafodion a gynhwysir yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i gydnabod y rhwymedigaeth hon yn anghyson ac yn faterol berthnasol yn ôl eu natur. Mae hyn oherwydd mae'r taliadau yn groes i baragraff 5.6.1 Rheoli Arian Cyhoeddus ac yn creu ffurf o gynllunio treth a fydd yn golygu y bydd Trysorlys mewn sefyllfa waeth ar y cyfan. Nid yw cyfarwyddyd y Gweinidog ei hun yn unioni'r cynllun. Ymhellach, mae'r trefniadau yn newydd a dadleuol ac o bosibl yn gosod cynsail. O ganlyniad, rwyf wedi amodi fy marn am reoleidd-dra ar gyfer 2021-22.

**Dyletswyddau ariannol**

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol, sef y ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ddyletswydd ariannol fel y'u gelwir.

Yn achos 2021-22, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail.

<u>Methiant i gyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf</u>

Mae'r **ddyletswydd ariannol gyntaf** yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i Fyrddau Iechyd drwy ganiatáu iddynt fantoli eu hincwm gyda'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd. Y cyfnod tair blynedd sy'n cael ei fesur yn unol â'r ddyletswydd hon yw'r cyfnod o 2019-20 i 2021-22.

Fel y gwelir yn Nodyn 2.1 i'r Datganiadau Ariannol, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd reoli ei wariant refeniw o fewn cwmpas yr adnoddau a ddyfarnwyd iddo yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn, gan wario £37.9 miliwn yn fwy na'i gyfyngiad adnoddau refeniw cronnus gwerth £5.3 biliwn.

Os na fydd Bwrdd Iechyd yn llwyddo i fantoli dros gyfnod treigl tair blynedd, bydd unrhyw wariant ar ben yr adnoddau a ddyrannwyd iddo (h.y. y cyfyngiad gwariant) yn ystod y tair blynedd hynny yn fwy na'r hyn y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i awdurdodi i'w wario, felly mae'n 'afreolaidd'. Dan amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid i mi amodi fy 'marn am reoleidd-dra', faint bynnag fo gwerth y gwariant gormodol.

Methiant i gyflawni'r ail ddyletswydd ariannol

Mae'r **ail ddyletswydd ariannol** yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig ar gyfer cyfnod treigl o dair blynedd, a chael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i'r cynllun hwnnw. Mae'r ddyletswydd hon yn sail hanfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o ansawdd. Ystyrir y bydd Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2021-22 os yw wedi cyflwyno cynllun yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22 i Weinidogion Cymru ac wedi cael eu cymeradwyaeth i'r cynllun erbyn 30 Mehefin 2019. Nid yw'r ddyletswydd hon wedi newid ers 2019-20 oherwydd ataliwyd y ddyletswydd i baratoi cynllun tair blynedd newydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2021-22 a 2023-24 oherwydd y pandemig, gan barhau â dyletswydd y flwyddyn flaenorol.

Fel y gwelir yn Nodyn 2.3 y Datganiadau Ariannol, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni ei ail ddyletswydd ariannol i sefydlu cynllun tymor canol integredig tair blynedd yn cwmpasu'r cyfnod o 2019-20 i 2021-22.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**26 Awst 2022**

Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol

# RHAN TRI – Cyfrifon Blynyddol

## Rhagair

Paratowyd y cyfrifon hyn gan y Bwrdd Iechyd Lleol dan atodlen 9 adran 178 Para 3(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (c.42) ar y ffurf y mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn amdano, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

**Cefndir statudol**

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1 Hydref 2009 yn dilyn gweithredu Rhaglen Genedlaethol Diwygio Cymru'n Un ar gyfer y GIG yng Nghymru a chyfuniad Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru a'r chwe chyn Fwrdd Iechyd Lleol canlynol:

- Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn
- Bwrdd Iechyd Lleol Conwy
- Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych
- Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint
- Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ystod lawn o wasanaethau ysbyty cychwynnol, cymunedol, iechyd meddwl ac acíwt i boblogaeth gogledd Cymru o dri prif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau tîmau cymuned. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith y meddygfeydd a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng ngogledd Cymru.

**Rheoli Perfformiad a Chanlyniadau Ariannol**

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/054 yn disodli WHC/2015/014 'Dyletswyddau Cyllidol Statudol a Gweinyddol yr Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol' ac yn egluro dyletswyddau cyllidol statudol cyrff GIG Cymru ymhellach ac yn effeithiol ar gyfer 2021-22. Diddymwyd y ddyletswydd gyllidol adennill costau ac wedi dychwelyd i ddyletswydd tair blynedd, gydag asesiad cyntaf y dyletswydd yn 2016-17.

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru gydymffurfio'n llawn â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys i'r graddau sy'n berthnasol iddynt. O ganlyniad, y Prif Ddatganiad o incwm a gwariant o fewn y flwyddyn yw'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, sy'n dangos y gost gweithredu net a achoswyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu wrth ei dderbyn yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Dan Ddeddf Cyllid Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 mae'r gofynion i gyflawni'r balans yn erbyn Cyfyngiadau Adnoddau wedi cael ei amnewid gyda dyletswydd i sicrhau, mewn cyfnod treigl 3 blynedd nad yw cyfanswm ei wariant ,yn fwy na chyfanswm ei gyfyngiadau cymeradwy.

Daeth y Ddeddf i rym o 1 Ebrill 2014, ac o dan y Ddeddf cynhaliwyd yr asesiad cyntaf o'r ddyletswydd ariannol treigl 3 blynedd ddiwedd 2016-17.

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021-22 £000 | 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol | 3.1 | **340,935** | 331,772 |
| Gwariant ar ofal iechyd gan ddarparwyr eraill | 3.2 | **428,395** | 398,786 |
| Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty a Gwasanaethau Iechyd Cyr | 3.3 | **1,260,458** | 1,230,631 |
| | | **2,029,788** | 1,961,189 |
| Wedi tynnu: Incwm Amrywiol | 4 | **(156,644)** | (152,515) |
| **Costau gweithredu BILl cyn llog ac enillion a cholledion eraill** | | **1,873,144** | 1,808,674 |
| Refeniw Buddsoddi | 5 | **0** | 0 |
| (Enillion) / Colledion Eraill | 6 | **219** | 34 |
| Costau cyllid | 7 | **(10)** | 11 |
| **Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol** | | **1,873,353** | **1,808,719** |

Manylion perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei ddyraniadau Refeniw a Chyfalaf dros y tri chyfnod ariannol a ddarperir yn Nodyn 2 ar dudalennau 23A-24A.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 74A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Gwariant Net Cynhwysfawr Eraill

| | 2021-22 £000 | 2020-21 £000 |
|---|---|---|
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio adeiladau, peiriannau ac offer | **(16,545)** | (9,116) |
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio asedau anghyffwrddadwy | **0** | 0 |
| (Enillion) / colledion ar gronfeydd eraill wrth gefn | **0** | 0 |
| (Enillion)/colledion ar ailbrisio PPE ac asedau anghyffwrddadwy a ddelir ar werth | **0** | 0 |
| (Enillion)/colledion ar ailbrisio asedau cyllidol a ddelir ar werth | **0** | 0 |
| Gostyngiadau a childroadau | **0** | 0 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | **0** | 0 |
| Trosglwyddiadau (i)/o gyrff eraill o fewn y Ffiniau Cyfrifo Adnoddau | **0** | 0 |
| Ailddosbarthu addasiad ar warediad o asedau ariannol ar werth sydd ar gael | **0** | 0 |
| Gwariant net cynhwysfawr eraill ar gyfer y flwyddyn | **(16,545)** | (9,116) |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | **1,856,808** | 1,799,603 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 74A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 31 Mawrth 2022 £000 | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Adeiladau, peiriannau ac offer | 11 | **617,716** | 588,095 |
| Asedau anghyffwrddadwy | 12 | **988** | 848 |
| Masnach ac eitemau derbyniadwy | 15 | **63,074** | 33,047 |
| Asedau ariannol eraill | 16 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **681,778** | 621,990 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Rhestr eiddo | 14 | **19,106** | 18,365 |
| Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill | 15 | **105,783** | 77,254 |
| Asedau ariannol eraill | 16 | **0** | 0 |
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod | 17 | **6,678** | 3,242 |
| | | **131,567** | 98,861 |
| Asedau anghyfredol a ddosberthir fel "Cedwir i'w Werthu" | 11 | **0** | 185 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **131,567** | 99,046 |
| **Cyfanswm asedau** | | **813,345** | 721,036 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 18 | **(257,141)** | (222,922) |
| Rhwymedigaethau ariannol cyfredol | 19 | **0** | 0 |
| Darpariaethau | 20 | **(13,675)** | (3,377) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(270,816)** | (226,299) |
| **Asedau/ (rhwymedigaethau) cyfredol net** | | **(139,249)** | (127,253) |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 18 | **(841)** | (900) |
| Rhwymedigaethau ariannol eraill | 19 | **0** | 0 |
| Darpariaethau | 20 | **(61,998)** | (34,272) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(62,839)** | (35,172) |
| **Cyfanswm asedau a ddefnyddir** | | **479,690** | 459,565 |
| | | | |
| **Ariannwyd gan :** | | | |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | | **298,002** | 288,642 |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | | **143,332** | 132,567 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **441,334** | 421,209 |

Mae'r Bwrdd Iechyd ag awdurdod a ddirprwywyd ar gyfer cymeradwyo datganiadau ariannol 2021-22 i'r Pwyllgor Archwilio, sy'n is-bwyllgor o'r Bwrdd. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 2A-6A gan y Pwyllgor ar 24 Awst 2022 a llofnodwyr ar ei ran gan:

Prif Weithredwr a'r Swyddog Atebol: Jo Whitehead Dyddiad: 24 Awst 2022

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 74A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2022

| | Cronfa Gyffredinol | Cronfa wrth gefn Ailbrisio | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr ar gyfer 2021-22** | | | |
| Balans ar 31 Mawrth 2021 | 288,642 | 132,567 | **421,209** |
| Addasiad | 0 | 0 | **0** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | 288,642 | 132,567 | **421,209** |
| Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | (1,873,353) | | **(1,873,353)** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | 0 | 16,545 | **16,545** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau anghyffwrddadwy | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau ariannol | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net ar aibrisio asedau a gedwir i'w gwerthu | 0 | 0 | **0** |
| Gostyngiadau a childroadau | 0 | 0 | **0** |
| Symudiadau wrth gefn eraill | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 5,780 | (5,780) | **0** |
| Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i SoCNE | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau i/o BILlau | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2021-22** | (1,867,573) | 10,765 | **(1,856,808)** |
| Cyllid Net Llywodraeth Cymru | 1,841,350 | | **1,841,350** |
| Cyllideb Llywodraeth Cymru tybiannol | 35,583 | | **35,583** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | 298,002 | 143,332 | **441,334** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 74A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn yn cynrychioli'r balans a gedwir yn y gronfa wrth gefn ailbrisio ar gyfer asedau anghyfredol y cafwyd gwared arnynt yn ystod y flwyddyn (£153,000) a dibrisiad ychwanegol a godwyd ar asedau sydd wedi bod yn amodol ar ailbrisiad i fyny (£5,627,000).

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021

| | Cronfa Gyffredinol | Cronfa wrth gefn Ailbrisio | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr ar gyfer 2020-21** | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | 356,698 | 128,513 | **485,211** |
| Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | (1,808,719) | | **(1,808,719)** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer | 0 | 9,116 | **9,116** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau anghyffwrddadwy | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau ariannol | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net ar aibrisio asedau a gedwir i'w gwerthu | 0 | 0 | **0** |
| Gostyngiadau a childroadau | 0 | 0 | **0** |
| Symudiadau wrth gefn eraill | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 5,062 | (5,062) | **0** |
| Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i SoCNE | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau i/o BILlau | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2020-21** | (1,803,657) | 4,054 | **(1,799,603)** |
| Cyllid Net Llywodraeth Cymru | 1,701,908 | | **1,701,908** |
| Cyllideb Llywodraeth Cymru tybiannol | 33,693 | | **33,693** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | 288,642 | 132,567 | **421,209** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 74A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn yn cynrychioli'r balans a gedwir yn y gronfa wrth gefn ailbrisio ar gyfer asedau anghyfredol y cafwyd gwared arnynt yn ystod y flwyddyn (£142,000) a dibrisiad ychwanegol a godwyd ar asedau sydd wedi bod yn amodol ar ailbrisiad i fyny (£4,920,000).

## Datganiad o Lifau Arian ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2022

| | Nodyyn | 2021-22<br>£000 | 2020-21<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llif Arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol | | **(1,873,353)** | (1,808,719) |
| Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio | 27 | **(28,644)** | 115,166 |
| Addasiadau llif arian eraill | 28 | **136,299** | 55,545 |
| Darpariaethau a ddefnyddir | 20 | **(29,640)** | (30,511) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(1,795,338)** | (1,668,519) |
| | | | |
| **Llifau Arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | | **(43,644)** | (34,789) |
| Elw o gael gwared ar eiddo, peiriannau ac offer | | **294** | 67 |
| Prynu asedau anghyffwrddadwy | | **(390)** | (165) |
| Elw o gael gwared ar asedau anghyffwrddadwy | | **0** | 0 |
| Taliadau ar gyfer asedau ariannol eraill | | **0** | 0 |
| Elw o gael gwared ar asedau ariannol eraill | | **0** | 0 |
| Taliadau ar gyfer asedau ariannol eraill | | **0** | 0 |
| Elw o gael gwared ar asedau eraill | | **0** | 0 |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(43,740)** | (34,887) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net cyn cyllido** | | **(1,839,078)** | (1,703,406) |
| | | | |
| **Llifau arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru (yn cynnwys cyfalaf) | | **1,841,350** | 1,701,908 |
| Derbynebau cyfalaf a ildiwyd | | **0** | 0 |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd | | **1,221** | 1,590 |
| Elfen gyfalaf o dâl o ran prydles gyllidol a Chynlluniau on-SoFP PFI | | **(57)** | 0 |
| Arian a drosglwyddwyd (i)/ gan gyrff GIG eraill | | **0** | 0 |
| **Cyllid net** | | **1,842,514** | 1,703,498 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod** | | **3,436** | 92 |
| **Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill 2021** | | **3,242** | 3,150 |
| **Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 31 Mawrth 2022** | | **6,678** | 3,242 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 74A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Adroddwyd ar lif arian parod yn ymwneud ag elfen gyfalaf taliadau mewn perthynas â phrydlesi cyllid ar Gynlluniau on-SOFP PFI ar wahân am y tro cyntaf yng nghyfrifon blynyddol 2021-22. Cafodd y ffigur cyfwerth o (£57,000) ar gyfer 2021-21 ei gynnwys o fewn Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio.

## Nodiadau at y Cyfrifon

### 1. Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gofyn i ddatganiadau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru fodloni gofynion cyfrifyddu Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru. O ganlyniad, mae'r datganiadau ariannol canlynol wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifon 2021-22. Mae'r polisiau cyfrifo a gynhwysir yn y llawlyfr hwn yn dilyn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) 2021-22 yn unol â safonau cyfrifo rhyngwladol mewn cydymffurfiad â gofynion y Ddeddf Cwmniau 2006, heblaw am 16 o Lesoedd IFRS, a ohiriwyd tan 1 Ebrill 2022; i'r raddfa eu bod yn ystyrlon a phriodol i'r GIG yng Nghymru.

Ble mae'r Llawlyfr Cyfrifon y BILl yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu a deimlir i fod fwyaf perthnasol i'r amgylchiadau penodol y BILl at ddiben rhoi safbwynt cywir a theg yn cael ei ddewis. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadir gan y BILl isod. Mae'r polisïau hyn wedi cael eu defnyddio wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn ddeunyddiau o ran y cyfrifon.

#### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan gonfensiwn cost hanesyddol a addaswyd ar gyfer ailbrisio eiddo, offer, cyfarpar, asedau anniriaethol a rhestrau eiddo.

#### 1.2 Caffaeliadau a gweithrediadau a derfynwyd

Ystyrir bod gweithgareddau yn 'gaffaeledig' dim ond os ydynt yn cael eu cymryd o du allan i'r sector cyhoeddus. Ystyrir bod gweithgareddau 'wedi'u terfynu' os ydynt yn darfod yn llwyr. Nid ydynt yn cael eu hystyried 'wedi'u terfynu' os ydynt yn trosglwyddo o un corff cyhoeddus i un arall.

#### 1.3 Incwm a chyllid

Prif ffynhonnell o arian ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yw dyraniad gan Lywodraeth Cymru (Cyllid Llywodraeth Cymru) o fewn cyfyngiad arian cymeradwy, sy'n cael ei roi i Gronfa Gyffredinol y BILl. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod yn y cyfnod ariannol y mae'r arian yn cael ei dderbyn.

Mae cyllid annewisol y tu allan i'r Terfyn Adnoddau Refeniw yn cael ei ddyrannu i gyd-fynd â gwariant gwirioneddol a achoswyd ar gyfer darpariaeth gwasanaethau fferyllol neu offthalmig penodol a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwariant annewisol yn cael ei ddatgelu yn y cyfrifon, a'u tynnu o'r costau gweithredu a godir yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw.

Mae cyllid ar gyfer caffael asedau sefydlog a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei roi yn y Gronfa Gyffredinol.

Mae incwm amrywiol yn incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) ac nid yw'n cael ei gyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys taliadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn unigryw gan y BILl ar gyfer Llywodraeth Cymru megis cyllid a ddarperir i asiantaethau a chostau nad ydynt yn weithgareddau a achoswyd gan y BILl yn ei rôl darparwr. Mae incwm a dderbyniwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol yn trafod â Byrddau Iechyd eraill yn cael ei drin bob amser fel incwm amrywiol.

O 2018-19, mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid yn cael ei ddefnyddio, fel y dehonglwyd ac addaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus, yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM). Mae'n cymryd lle'r safonau IAS 11 blaenorol Contractau Adeiladu ac IAS 18 Refeniw, a dehongliadau SIC ac IFRIC perthnasol. Mae'r diwygiadau posibl a nodwyd o ganlyniad i fabwysiadu IFRS 15 yn arwyddocaol is na'r lefelau perthnasedd.

Mae incwm yn cael ei gynnwys drwy ddefnyddio'r confensiwn croniadau. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn ystod y cyfnod y mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu. Os derbyniwyd incwm gan drydydd partïon ar gyfer gweithgaredd penodol i'w ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd yr incwm hwnnw yn cael ei ohirio.

Dim ond incwm nad yw'n un y GIG y gellir ei ohirio.

### 1.4 Budd-daliadau gweithwyr

#### 1.4.1 Budd-daliadau gweithwyr tymor byr

Mae cyflogau, tâl a thaliadau sy'n gysylltiedig â gweithwyr yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r gwasanaeth yn cael ei dderbyn gan weithwyr. Nid yw'r BILl fel arfer yn caniatáu cario gwyliau blynyddol ymlaen o un cyfnod i'r nesaf ond cydnabyddir bod Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar allu gweithwyr i gymryd gwyliau blynyddol yn ystod 2020-21 a 2021-22.

Fel rhan o'r setliad tâl ychwanegol y cytunwyd arno ym mis Rhagfyr 2021, gwnaeth sefydliadau'r GIG a chydweithwyr Undebau Llafur weithio mewn partneriaeth i ddatblygu cynllun er mwyn caniatáu i unigolion werthu hyd at uchafswm o ddeg diwrnod o wyliau blynyddol heb eu defnyddio yn ystod y flwyddyn wyliau gyfredol.

Mae'r cynllun hefyd yn caniatáu i staff gario hyd at ddeg diwrnod o wyliau i 2022-23 (pro rata ar gyfer staff rhan-amser) ynghyd â hyblygrwydd mewn amgylchiadau eithriadol i reolwyr gymeradwyo deg diwrnod arall o wyliau sy'n uwch na'r lefel hon ar yr amod bod cynllun cytunedig yn ymwneud â sut mae unigolyn yn bwriadu defnyddio'r gwyliau hyn yn ystod y flwyddyn wyliau nesaf.

Mae cost y gwyliau a ennillwyd ond na chymerwyd gan weithwyr ar ddiwedd y cyfnod ariannol yn cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol i'r graddau bod gweithwyr yn cael hawl i gario gwyliau ymlaen i'r cyfnod nesaf.

#### 1.4.2 Costau budd-dal ymddeol

Mae darpariaeth Cynllun Pensiwn y GIG yn cwmpasu gweithwyr presennol a chyn-weithwyr. Mae'r cynllun yn gynllun buddion diffiniedig, heb ei ariannu, sy'n darparu ar gyfer cyflogai'r GIG, Meddygfeydd Cyffredinol a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'n fwriad rhedeg y cynllun mewn modd a fyddai'n galluogi cyrff GIG i ddynodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun sylfaenol. Felly, cyfrifir y cynllun fel y byddai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig: mae cost y cynllun i'r corff GIG sy'n rhan ohono yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo.

Mae canlyniadau gwerth Cynllun Pensiwn diweddaraf y GIG yn dangos bod angen cynnydd mewn buddion o 6.3% (14.38% i 20.68%) a weithredwyd o 1 Ebrill 2019.

Fel sefydliad o fewn y sgôp cyllido llawn, byddai'r cyd-drefniant trawsnewidiol (yn GIG Cymru a GIG Lloegr) a weithredwyd yn 2019-20, ble byddai cyflogwyr yn y Cynllun yn parhau i dalu 14.38% o gyfraniadau cyflogwyr dan eu proses dalu misol arferol, yng Nghymru mae'r 6.3% ychwanegol yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i'r gweinyddydd Cynllun Pensiwn, yr Awdurdod Gwasanaethau Busnes GIG (BSA Asiantaeth Bensiynau'r GIG).

Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r BLlau roi cyfrif am eu cyfraniadau cyflogwr **i staff** o 20.68% yn llawn ac ar sail gros, yn eu cyfrifon blynyddol. Cyfrifir taliadau a wnaed ar eu rhan gan Lywodraeth Cymru ar sail tybiannol. Am wybodaeth fanwl, gweler Nodyn Arall o fewn y cyfrifon hyn.

Ar gyfer ymddeoliadau cynnar ar wahân i rai salwch, nid yw'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn cael eu hariannu gan y cynllun. Mae cost lawn y rhwymedigaeth ar gyfer y costau ychwanegol yn cael ei chodi ar wariant ar yr adeg mae'r BILl yn ymrwymo ei hun i'r ymddeoliad, waeth beth fo'r dull o dalu.

Lle mae cyflogai yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn buddion diffiniedig mae hyn yn cael ei ddatgelu. Gall asedau a rhwymedigaeth y cynllun sydd i'w priodoli i'r gweithwyr hynny gael eu dynodi, ac maent yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon sefydliad GIG Cymru. Mae'r asedau'n cael eu mesur ar werth teg, a'r rhwymedigaethau ar y gwerth presennol o oblygiadau'r dyfodol. Mae'r cynnydd yn yr atebolrwydd o'r gwasanaeth pensiynadwy a enillwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod o fewn y treuliau gweithredu. Mae'r cynnydd disgwyliedig yn ystod y flwyddyn o asedau cynllun yn cael ei gydnabod o fewn incwm cyllid. Mae'r gost llog yn ystod y flwyddyn sy'n codi o ddatod y disgownt yn rhwymedigaethau'r cynllun yn cael ei gydnabod o fewn costau cyllid.

### 1.4.3 Cynllun Pensiwn NEST

Mae'n rhaid i gynllun pensiwn amgen i weithwyr nad ydynt yn gymwys i ymuno â chynllun Pensiynau'r GIG gael ei gynnig. Felly, mae'r cynllun Pensiwn NEST (Ymddiriedolaeth Cenedlaethol Cynilion Cyflogaeth) yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac mae cost y cynllun i'r corff GIG sy'n rhan ohono yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo.

## 1.5 Costau eraill

Mae costau gweithredu eraill ar gyfer nwyddau neu wasanaethau yn cael eu cydnabod pan maent yn cael eu derbyn, ac i'r graddau y maent wedi cael eu derbyn. Maent yn cael eu mesur ar y gwerth teg o'r ystyriaeth sy'n daladwy.

## 1.6 Eiddo, peiriannau ac offer

### 1.6.1 Cydnabyddiaeth

Mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu cyfalafu os:

- y'u cedwir ar gyfer eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol;
- yw'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol yn llifo i, neu os bydd potensial gwasanaeth yn cael ei gyflenwi i'r sefydliad GIG Cymru;
- disgwylir iddynt gael eu defnyddio ar gyfer mwy nag un flwyddyn ariannol;
- yw cost yr eitem yn gallu cael ei mesur yn ddibynadwy; a
- oes gan yr eitem gost o leiaf £5,000; neu
- ar y cyd, mae gan nifer o eitemau werth o o leiaf £5,000 ac yn unigol maent werth mwy na £250, lle mae'r asedau yn rhyngddibynnol yn ymarferol, lle mae ganddynt ddyddiadau prynu cydamserol yn fras, rhagwelir bod ganddynt yr un dyddiadau gwaredu, ac maent o dan reolaeth unigol; neu
- yw'r eitemau yn rhan o gost sefydlu a chyfarparu cychwynnol adeilad newydd, ward neu uned, waeth beth fo'u cost unigol neu gost ar y cyd.

Lle mae ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o elfennau sydd ag oes ased gwahanol iawn, mae'r elfennau yn cael eu trin fel asedau ar wahân, ac yn cael eu dibrisio dros eu bywydau economaidd defnyddiol eu hunain.

### 1.6.2 Prisiad

Mae bob eiddo, peiriant ac offer yn cael eu mesur i ddechrau ar gost, gan gynrychioli'r gost sydd i'w briodoli yn uniongyrchol i gaffael neu adeiladu'r ased, a dod ag o i'r lleoliad ac yn y cyflwr sy'n briodol iddo fod yn gallu gweithredu yn y modd y bwriedir iddo gan reolwyr.

Nodir y tiroedd a'r adeiladau a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol (SoFP) ar eu gwerthoedd a ail-brisiwyd, sef gwerth teg ar ddyddiad yr ailbrisio, wedi tynnu unrhyw ddibrisiad a cholledion gostyngiadau cronedig olynol. Mae ailbrisiadau yn cael eu perfformio yn ddigon cyson i sicrhau nad yw symiau dwyn ymlaen yn sylweddol wahanol i'r rhai a fyddai'n cael eu pennu ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae gwerthoedd teg yn cael eu pennu fel a ganlyn:

- Tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol - gwerth y farchnad ar gyfer deunydd presennol;
- Adeiladau arbenigol - cost amnewid wedi'i dibrisio.

Mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi mabwysiadu dull safonol at brisiadau cost amnewid wedi'i dibrisio yn seiliedig ar asedau cyfwerth modern, a, lle y byddai'n bodloni gofynion lleoliad y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, gellir prisio safle amgen. Mae cyrff GIG Cymru wedi cymhwyso'r gofynion prisio newydd hyn o 1 Ebrill 2009.

Mae eiddo sy'n cael ei adeiladu at ddibenion gweinyddol neu wasanaeth yn cael eu cynnal ar gost, wedi tynnu unrhyw golledion gostyngiad. Mae costau yn cynnwys ffioedd proffesiynol ond dim costau benthyca, sy'n cael eu cydnabod fel treuliau ar unwaith, fel y caniateir gan IAS 23 ar gyfer asedau a gedwir ar werth teg. Mae ailbrisio a dibrisio asedau yn dechrau pan maent yn dechrau cael eu defnyddio.

Yn 2017-18 defnyddiwyd ymarfer ailbrisio ffurfiol ar gyfer tir ac eiddo. Bydd gwerth dwyn ymlaen yr asedau presennol ar y dyddiad yn cael ei ddileu dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill, ac mae darnau gosod ac offer newydd yn cael eu cynnal ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio, gan nad yw hwn yn cael ei ystyried i fod yn wahanol o ran deunyddiau o'r gwerth teg.

Mae cynnydd sy'n codi wrth ailbrisio yn mynd i'r gronfa wrth gefn ailbrisio ac eithrio pan mae'n gwrthdroi gostyngiadau ar gyfer yr un ased a gydnabuwyd yn flaenorol yn y gwariant, ac felly mae'n cael ei roi i wariant i'r graddau gostyngiad a godir yn flaenorol. Mae gostyngiad ailbrisio nad yw'n arwain at golled o werth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel gostyngiad a godir i'r gronfa ailbrisio i'r graddau bod balans yn y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac, wedyn, i'r gwariant. Dylai colledion gostyngiad sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd gael eu cynnwys yn y gwariant.

Mae'r cyfeiriadau yn IAS 36 at gydnabod colled gostyngiad o ased wedi'i ailbrisio sy'n cael ei drin fel gostyngiad ailbrisio i'r graddau nad yw'r gostyngiad yn fwy na'r swm yn y warged ailbrisio ar gyfer yr un ased, yn cael eu haddasu fel mai'r colledion gostyngiad nad ydynt o ganlyniad i dreuliant clir o fuddion economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn unig (yn cynnwys o ganlyniad i golled neu niwed sy'n deillio o weithrediadau busnes arferol) sy'n mynd i'r gronfa wrth gefn ailbrisio. Dylai colledion gostyngiadau sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd gael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE).

Rhaid cydymffurfio â Mesurau Gwerth Teg IFRS 13 yn llawn o 2015-16. Er hynny, mae IAS 16 ac IAS 38 wedi cael eu haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus, sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau lle mae prisiant yn cael ei baratoi dan IFRS 13. Dylai asedau a gedwir ar gyfer eu potensial gwasanaeth, ac sy'n cael eu defnyddio gael eu mesur ar eu gwerth cyfredol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Ar gyfer asedau arbenigol, dylai gwerth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gael ei ddehongli fel gwerth presennol y potensial gwasanaeth sy'n weddill, y gellir ei gymryd ei fod yn gyfartal o leiaf i gost amnewid y potensial gwasanaeth. Os nad oes dosbarth sengl o ased sy'n disgyn o fewn IFRS 13, dylai datgeliadau fod ar gyfer eitmau materol yn unig.

Yn unol ag addasiadau IAS 16 yn nhabl 6.2 o'r FReM, ar gyfer asedau nad ydynt yn arbenigol mewn deunydd gweithredol, mae gwerth cyfredol mewn deunydd presennol yn cael ei ddehongli fel gwerth marchnad ar gyfer deunydd presennol sy'n cael ei ddiffinio yn Llyfr Coch RICS fel Gwerth Deunydd Presennol (EUV).

Dylai asedau a gadwyd fwyaf diweddar ar gyfer eu potensial gwasanaeth ond sy'n weddill, gael eu prisio ar werth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, os oes cyfyngiadau ar y sefydliad GIG neu'r ased fyddai'n atal mynediad at y farchnad ar y dyddiad adrodd. Pe byddai'r sefydliad GIG yn cael mynediad at y farchnad yna dylid defnyddio'r ased gwarged ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13. Wrth benderfynu a yw ased nad yw'n cael ei ddefnyddio yn warged, dylid gwneud asesiad a oes cynllun clir i ddod â'r ased yn ôl i ddeunydd fel ased gweithredol. Os oes cynllun clir, nid yw'r ased yn warged, a dylid cynnal y gwerth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Fel arall, dylai'r ased gael ei asesu fel bod yn warged a'i brisio dan IFRS 13.

Dylai asedau nad ydynt yn cael eu cadw ar gyfer eu potensial gwasanaeth gael eu prisio yn unol ag IFRS 5 neu IAS 40 yn dibynnu ar a yw'r ased yn cael ei gadw'n weithredol i'w werthu. Os nad yw ased yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau ac nid oes cynllun i'w ddefnyddio eto, heb unrhyw gyfyngiadau rhag gwerthu, ac nad yw'n bodloni meini prawf IAS 40 a IFRS 5, mae'r asedau hyn yn warged ac yn cael eu prisio ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13.

### 1.6.3 Gwariant dilynol

Lle mae gwariant dilynol yn gwella ased y tu hwnt i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gost y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol yn cael ei chyfalafu. Lle mae gwariant dilynol yn adennill yr ased i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gwariant yn cael ei gyfalafu, ac mae unrhyw werth dwyn ymlaen yr eitem sy'n cael ei amnewid yn cael ei gofnodi a'i godi ar y SoCNE. Fel y pwysleisiwyd yn y blynyddoedd blaenorol, nid oes gan y GIG yng Nghymru systemau yn eu lle i sicrhau y gall yr holl eitemau sy'n cael eu "hamnewid" gael eu dynodi, ac felly dyna pam mae'r gost sy'n gysylltiedig yn cael ei feintioli. Felly mae'r GIG yng Nghymru wedi sefydlu protocol cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safon cyn belled ag y bo'n gallu, sy'n cael ei amlinellu ym mhennod cyfrifyddu cyfalaf y Llawlyfr ar gyfer Cyfrifon. Mae hyn yn pennu i sicrhau nad yw asedau sy'n cario gwerthoedd yn cael eu gorbwysleisio'n faterol. Ar gyfer y Cynlluniau Cyfalaf Cymru Gyfan sy'n cael eu cwbllhau mewn blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG sicrhau ailbrisiad yn ystod y flwyddyn dan sylw (cyn iddynt gael eu defnyddio) ac mae angen ailbrisiadau tebyg ar gyfer bob Cynllun Adeiladu Disgresiwn a gwblhawyd sydd â gwariant mwy na £0.5m. Mae'r gostyngiadau a ddynodwyd yng ngwerth yr asedau yna'n cael eu cynnwys yn y costau gweithredu.

## 1.7 Asedau anghyffwrddadwy

### 1.7.1 Cydnabyddiaeth

Mae asedau anghyffwrddadwy yn asedau heb fod yn rhai ariannol heb sylwedd ffisegol, sy'n gallu cael eu gwerthu ar wahân i weddill y busnes, neu sy'n codi o hawliau cytundebol neu hawliau cyfreithiol eraill. Maent yn cael eu cydnabod yn unig pan mae hi'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol yn llifo i sefydliad GIG Cymru, neu pan fydd potensial gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r BILl; lle gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy, a lle mae'r gost o leiaf £5,000.

Mae asedau anghyffwrddadwy a gafwyd ar wahân yn cael eu cydnabod ar werth teg i ddechrau. Mae meddalwedd sy'n anhepgor i'r ffordd y mae caledwedd yn gweithio, er enghraifft system weithredu, yn cael ei gyfalafu fel rhan o'r eitem berthnasol o eiddo, peiriannau ac offer. Mae meddalwedd nad yw'n anhepgor i'r ffordd y mae caledwedd yn gweithio, er enghraifft meddalwedd cymhwysiad, yn cael ei gyfalafu fel ased anghyffwrddadwy. Nid yw gwariant ar ymchwil yn cael ei gyfalafu: mae'n cael ei gydnabod fel treuliant gweithredu yn y cyfnod a achoswyd. Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cydnabod, a dim ond os yw bob un o'r canlynol yn cael eu harddangos:

- y dichonolrwydd technegol o gwblhau'r ased anghyffwrddadwy fel ei fod ar gael i'w ddefnyddio;
- y bwriad i gwblhau'r ased anghyffwrddadwy a'i ddefnyddio;
- y gallu i ddefnyddio'r ased anghyffwrddadwy;
- sut bydd yr ased anghyffwrddadwy yn cynhyrchu buddion economaidd tebygol y dyfodol;
- argaeledd adnoddau technegol, ariannol ac adnoddau eraill digonol i gwblhau'r ased anghyffwrddadwy a'i ddefnyddio;
- y gallu i fesur gwariant i'w briodoli yn ddibynadwy i'r ased anghyffwrddadwy yn ystod ei ddatblygiad.

### 1.7.2 Mesur

Y swm a gydnabyddir i ddechrau ar gyfer asedau anghyffwrddadwy a gynhyrchir yn fewnol yw'r swm o'r gwariant a achoswyd o'r dyddiad pan mae'r meini prawf uchod wedi eu bodloni i ddechrau. Lle na ellir cydnabod unrhyw asedau anghyffwrddadwy a gynhyrchir yn fewnol, mae'r gwariant yn cael ei gydnabod yn y cyfnod yr achoswyd.

Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol, mae asedau anghyffwrddadwy yn cael eu cynnal ar werth teg drwy gyfeirio at farchnad weithredol, neu, lle nad oes marchnad weithredol yn bodoli, ar gost amnewid wedi'i hamorteiddio (sail asedau cyfwerth modern), yn cael eu mynegrifo ar gyfer cynnydd mewn pris perthnasol, fel dirprwy ar gyfer gwerth teg. Mae meddalwedd a ddatblygir yn fewnol yn cael ei chadw ar gost hanesyddol i adlewyrchu'r effeithiau gwrthwynebus o gynnydd mewn costau datblygiad a datblygiadau technolegol.

### 1.8 Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariadau

Nid yw tir rhydd-ddaliadol, asedau wrthi'n cael eu hadeiladu ac asedau a gedwir i'w gwerthu yn cael eu dibrisio.

Fel arall, mae dibrisiad ac amorteiddiad yn cael eu codi i gael gwared ar gostau neu brisiad yr eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anghyffwrddadwy anghyfredol, wedi tynnu unrhyw werth dros ben, dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, mewn modd sy'n adlewyrchu'r treuliant o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth yr asedau. Yr amcangyfrif o oes ddefnyddiol ased yw'r cyfnod y mae'r sefydliad GIG Cymru yn disgwyl cael buddion economaidd neu botensial gwasanaeth gan yr ased. Mae hwn yn benodol i'r sefydliad GIG Cymru, ac efallai y bydd yn llai nac oes gorfforol yr ased ei hun. Mae amcangyfrif o oes ddefnyddiol a gwerth gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn, gydag effaith unrhyw newid yn cael ei gydnabod ar sail arfaethedig. Mae asedau a gedwir dan brydlesau cyllid yn cael eu dibrisio dros gyfnod byrraf y brydles, ac amcangyfrif o oes ddefnyddiol.

Ar ddiwedd bob cyfnod adrodd, bydd y sefydliad GIG Cymru yn gwirio a oes unrhyw arwydd bod unrhyw rai o'i asedau anghyfredol diriaethol neu anghyffwrddadwy wedi dioddef o golled amhariad. Os oes awgrym bod colled amhariad, mae gwerth adferadwy'r ased yn cael ei amcangyfrif i benderfynu a oes colled wedi bod, ac os oes, ei swm. Mae asedau anghyffwrddadwy nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto yn cael eu profi ar gyfer amhariadau'n flynyddol.

Mae colledion amhariad nad ydynt o ganlyniad i golled o werth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel amhariad a godir i'r gronfa wrth gefn ailbrisio i'r graddau bod balans ar y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac wedyn, i'r SoCNE. Mae colledion amhariad sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd yn cael eu cynnwys yn y SoCNE. Mae balans unrhyw gronfa ailbrisio (hyd at lefel yr amhariad) y byddai'r amhariad wedi eu codi arni dan IAS 36 yn cael eu trosglwyddo i'r enillion argadwedig.

### 1.9 Ymchwil a Datblygiad

Mae gwariant ymchwil a datblygiad yn cael ei godi ar gostau gweithredu yn y flwyddyn yr achoswyd, ar wahân i'r ffaith ei fod yn berthnasol i brosiect a ddiffinnir yn glir, a ellir ei wahanu o weithgaredd gofal cleifion, a gellir yn rhesymol ystyried buddion o hynny ymlaen fel rhai sicr. Mae gwariant gohiriedig yn gyfyngedig i werth buddion y dyfodol disgwyliedig, ac mae'n cael ei amorteiddio drwy'r SoCNE ar sail systematig dros y cyfnod a ddisgwylir i elwa o'r prosiect.

### 1.10 Asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu

Mae asedau anghyfredol yn cael eu dosbarthu fel eu bod yn cael eu cadw i'w gwerthu os bydd eu swm dwyn ymlaen yn cael ei adennill drwy werthiant am arian parod yn bennaf yn hytrach na thrwy ddeunydd parhaus. Ystyrir bod y cyflwr wedi'i fodloni pan mae'r gwerthiant yn debygol iawn, bod yr ased yn barod i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol, a bod rheolwyr yn ymroddedig i'r gwerthiant, y disgwylir iddo gymhwyso ar gyfer cydnabyddiaeth fel gwerthiant gorffenedig o fewn blwyddyn o ddyddiad y dosbarthiad. Mae asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu yn cael eu mesur ar y lefel isaf o'u swm dwyn ymlaen blaenorol a gwerth teg, wedi tynnu'r costau i werthu. Mae gwerth teg yn werth marchnad agored yn cynnwys dibenion amgen.

Yr enillion neu'r colledion sy'n codi o gael gwared ar ased yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion gwerthu a'r swm dwyn ymlaen, ac mae'n cael ei gydnabod yn y SoCNE. Wrth gael gwared arno, mae balans yr ased yn y gronfa ailbrisio, yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Nid yw eiddo, peiriannau ac offer sydd i'w sgrapio neu eu chwalu yn gymwys ar gyfer ei gydnabod fel eu bod yn cael eu gadw i'w gwerthu. Mae'n cael ei gadw fel ased gweithredol yn hytrach ac mae ei oes economaidd yn cael ei addasu. Rhoir y gorau i gydnabod yr ased wth gael ei sgrapio neu ei chwalu.

### 1.11 Prydlesau

Mae prydlesau yn cael eu dosbarthu fel prydlesau cyllid pan mae'r holl risgiau a thaliadau sylweddol o berchnogaeth yn cael eu trosglwyddo i'r deiliaid prydles. Mae'r holl brydlesau eraill yn cael eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu.

#### 1.11.1 Y Sefydliad GIG Cymru fel deiliaid prydles

Mae eiddo, peiriannau ac offer a gedwir dan brydlesau cyllid yn cael eu cydnabod i ddechrau, ar ddechrau'r brydles, ar eu gwerth teg neu, os yw'n llai, ar y gwerth presennol o leiafswm taliadau prydles, gyda rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer rhwymedigaeth prydles i'r prydleswr. Mae taliadau prydles gweithredu yn cael eu cydnabod fel traul ar sail llinol dros gyfnod y brydles, er mwyn cyflawni cyfradd gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill. Mae ffioedd ariannol yn cael eu codi'n uniongyrchol i'r SoCNE.

Mae taliadau prydles gweithredu yn cael eu cydnabod fel traul ar sail llinol dros gyfnod y brydles. Mae mentrau prydles yn cael eu cydnabod i ddechrau fel rhwymedigaeth, ac fel gostyngiad yn rhenti ar sail llinol dros gyfnod y brydles wedyn. Mae rhenti amodol yn cael eu cydnabod fel traul yn y cyfnod y maent wedi eu hachosi.

Os yw'r brydles ar gyfer tir ac adeiladau, mae'r elfennau tir ac adeiladau yn cael eu gwahanu ac yn cael eu hasesu'n unigol o ran a ydynt yn brydlesau gweithredu neu brydlesau cyllid.

#### 1.11.2 Y Sefydliad GIG Cymru fel prydleswr

Mae'r symiau sydd eu hangen gan ddeiliaid prydlesau dan brydlesau cyllid yn cael eu cofnodi fel eitemau derbyniadwy yn nifer buddsoddiad net y sefydliad GIG Cymru yn y prydlesau. Mae incwm prydles cyllid yn cael ei ddosbarthu i gyfnodau cyfrifyddu er mwyn adlewyrchu cyfradd enillion cyfnodol cyson ym muddsoddiad net y sefydliad GIG Cymru sy'n weddill o ran y prydlesau.

Mae incwm rhent o brydlesau gweithredu yn cael ei gydnabod ar sail llinol dros gyfnod y brydles. Mae costau uniongyrchol cychwynnol a achoswyd wrth drafod a threfnu unrhyw brydles gweithredu yn cael eu hychwanegu at y swm dwyn ymlaen o'r ased ar brydles, ac yn cael eu cydnabod ar sail llinol dros gyfnod y brydles.

### 1.12 Rhestrau Eiddo

Er ei bod hi'n gonfensiwn cyfrifyddu i restrau eiddo gael eu prisio ar y gost isaf, a gwerth gwireddadwy net gan ddefnyddio fformiwla'r gost cyfartaledd wedi'u pwysoli neu cost cyntaf i mewn y cyntaf allan, dylid cydnabod bod y GIG yn achos arbennig o ran nad yw rhestrau eiddo yn cael eu cadw yn gyffredinol ar gyfer y bwriad o ailwerthu, ac yn wir nid oes marchnad eisoes ar gael lle gellir gwerthu'r eitemau o'r fath. Mae rhestrau eiddo yn cael eu prisio ar gost, ac mae hyn yn cael ei ystyried i fod yn fras amcan rhesymol i werth teg oherwydd y trosiant uchel o stoc. Mae gwaith ar y gweill yn cynnwys nwyddau mewn cyfnodau canolraddol cynhyrchu. Nid yw contractau sydd wedi'u cwblhau yn rhannol ar gyfer gwasanaethau cleifion yn cael eu hystyried fel gwaith ar y gweill.

### 1.13 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn arian parod mewn llaw ac arian cadw gydag unrhyw sefydliad ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb gyda rhybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o ddyddiad y caffael, ac sy'n drosadwy yn rhwydd i nifer sy'n hysbys o arian parod gyda risg ddinod o newid mewn gwerth. Yn y Datganiad o Lifau Arian (SoCF), dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb gynnwys gorddrafft banc sy'n ad-daladwy ar alw, ac sy'n rhan anhepgor o reoli arian parod.

### 1.14 Darpariaethau

Mae darpariaethau'n cael eu cydnabod pan mae gan y sefydliad GIG Cymru rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad o'r gorffennol, mae'n debygol y bydd hi'n ofynnol i'r sefydliad GIG Cymru setlo'r rhwymedigaeth, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ystyried y risgiau a'r ansicrwydd. Lle mae darpariaeth yn cael ei mesur gan ddefnyddio'r llifau arian a amcangyfrifir i setlo'r rhwymedigaeth, ei swm dwyn ymlaen yw'r gwerth presennol o'r llifau gwaith hynny gan ddefnyddio'r gyfradd disgownt a ddefnyddir gan Drysorlys ei Mawrhydi.

Lle disgwylir i ychydig neu'r holl fuddion economaidd sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael eu hadennill gan drydydd parti, mae'r eitem dderbyniadwy yn cael ei chydnabod fel ased os yw'n bron iawn yn sicr y bydd ad-daliadau yn cael eu derbyn, a gellir mesur swm yr eitemau derbyniadwy yn ddibynadwy.

Mae rhwymedigaethau presennol sy'n codi dan gontractau beichus yn cael eu cydnabod a'u mesur fel darpariaeth. Ystyrir bod contract beichus yn bodoli os oes gan y sefydliad GIG Cymru gontract lle mae'r costau na ellir eu hosgoi o fodloni'r rhwymedigaethau dan y contract yn fwy na'r buddion economaidd a ddisgwylir i'w derbyn oddi tano.

Mae darpariaeth ailstrwythuro yn cael ei chydnabod pan mae'r sefydliad GIG Cymru wedi datblygu cynllun ffurfiol manwl ar gyfer yr ailstrwythuro, ac wedi codi disgwyliad dilys o ran y rhai a effeithir arnynt y bydd yn cynnal yr ailstrwythuro drwy ddechrau gweithredu'r cynllun neu gyhoeddi ei brif nodweddion i'r rhai a effeithir arnynt ganddo. Mae mesur darpariaeth ailstrwythuro yn cynnwys y gwariant uniongyrchol yn unig sy'n codi o'r ailstrwythuro, sef y symiau hynny sydd eu hangen oherwydd ailstrwythuro ac nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus yr endid.

#### 1.14.1 Costau esgeulustod clinigol ac anaf personol

Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn gweithredu cynllun cronni risg sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r opsiwn o gael mynediad at gytundeb rhannu risg a ariennir gan gyrff GIG Cymru cyfranogol. Gweithredwyd yr opsiwn rhannu risg yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22. Mae'r WRP yn cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

#### 1.14.2 Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (FLS) - Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI)

Mae'r FLS yn gynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i ddarparu Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) ar gyfer esgeulustod clinigol ar gyfer darparwyr gwasanaeth GMP yng Nghymru.

Ym Mawrth 2019, cyhoeddoedd y Gweinidog Gyfeiriad i Ymddiriedolaeth GIG Felindre i alluogi'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i weithredu'r Cynllun. Tanategir y GMPI gan ddeddfwriaeth eilaidd newydd, Rheoliadau (Cynllun Esgeulustod Clinigol) y GIG (Cymru) 2019 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019.

Nid yw Darparwyr Gwasanaeth GMP yn aelodau uniongyrchol o'r GMPI FLS, eu rhwymedigaethau cymhwysol yw testun trefniant rhyngddyn nhw a'r BILl perthnasol, sy'n aelod o'r cynllun. Nid yw'r ad-daliadau cymwys i'r BILl yn destun i'r gormodedd o £25,000.

### 1.15 Offerynnau Ariannol

O 2018-19 mae Offerynnau Ariannol IFRS 9 wedi'u gosod, fel y'u dehonglir ac addaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus yn y FReM. Prif effaith mabwysiadu IFRS 9 gan sefydliadau GIG Cymru, oedd i newid y sail gyfrifyddu ar gyfer darpariaethau dyled ddrwg, newid o sail colledion a ysgwyddir i sail colledion credyd disgwyliedig am oes (ECL).

Roedd yr holl endidau a weithredodd y FReM yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng y swm dwyn ymlaen blaenorol a'r swm dwyn ymlaen ar ddechrau'r cyfnod adrodd blynddol oedd yn cynnwys y dyddiad ymgeisio dechreuol wrth agor y gyllideb gyffredinol o fewn yr ecwiti Trethdalwyr.

### 1.16 Asedau ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol ar y SoFP pan fo'r sefydliad GIG Cymru yn arwyddo contract offeryn ariannol neu, yn achos eitemau masnach sy'n dderbyniadwy, pan fydd y nwyddau neu wasanaethau wedi eu darparu. Rhoir y gorau i gydnabod asedau ariannol pan fydd hawliau'r contract wedi dod i ben neu pan fydd yr asedau wedi eu trosglwyddo.

Mae'r dewis polisi cyfrifyddu a ganiateir dan IFRS 9 ar gyfer eitemau masnach sy'n dderbyniadwy, asedau contract sy'n cynnwys elfen cyllid sylweddol (yn unol ag IFRS 15), ac eitemau prydles sy'n dderbyniadwy, o fewn cwmpas IAS 17 wedi cael eu tynnu'n ôl, a dylai endidau bob amser gydnabod lwfans colled am swm sy'n hafal i Golledion Credyd oes gyfan Disgwyliedig. Dylai bob endid sy'n defnyddio'r FReM ddefnyddio'r dull IFRS 9 wedi'i symleiddio at ostyngiadau ar gyfer asedau perthnasol.

Roedd gofynion IFRS 9 angen ymagwedd ddiwygiedig ar gyfer cyfrifio'r ddarpariaeth dyled ddrwg, gan weithredu egwyddorion colledion credyd disgwyliedig, gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol o fewn IFRS9 i adeiladu matricsau darpariaeth.

#### 1.16.1 Cydnabyddir asedau ariannol ar werth teg i ddechrau

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu i'r categorïau canlynol: asedau ariannol 'ar werth teg drwy SoCNE'; 'buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd'; asedau ariannol 'ar gael i'w gwerthu', a 'benthyciadau ac eitemau derbyniadwy'. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar natur a phwrpas yr asedau ariannol, gaiff ei benderfynu ar adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol.

#### 1.16.2 Asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE

Caiff deilliadau wedi eu sefydlu a chanddynt wahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau a chanddynt ddeilliadau wedi eu sefydlu nad oes modd gwybod eu gwerth ar wahân, eu trin fel asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE. Fe'u cedwir ar werth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y SoCNE. Mae'r elw neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log a enillwyd ar yr ased ariannol.

#### 1.16.3 Buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd

Mae buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd yn asedau ariannol anneilliadol gyda thaliadau sefydlog neu fesuradwy ac aeddfedrwydd sefydlog, ac mae yna fwriad a gallu positif i'w dal hyd aeddfedrwydd. Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, cant eu dal ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw ostyngiadau. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

### 1.16.4 Asedau ariannol ar gael i'w gwerthu

Mae asedau ariannol ar gael i'w gwerthu yn asedau ariannol anneilliadol sydd wedi eu dynodi fel rhai sydd ar gael i'w gwerthu neu yn rhai nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r tri dosbarthiad arall o asedau ariannol. Cânt eu mesur ar werth teg a chymerir newidiadau mewn gwerth i'r gronfa ailbrisio wrth gefn, ac eithrio colledion amhariad. Ailgylchir enillion neu golledion cronedig i'r SoCNE wrth roi'r gorau i gydnabod.

### 1.16.5 Benthyciadau a symiau derbyniadwy

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn asedau ariannol anneilliadol a chanddynt daliadau sefydlog neu fesuradwy nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad actif. Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, cânt eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw amhariadau. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Penderfynir ar werth teg trwy gyfeirio at brisiau'r farchnad a ddyfynnir lle bo'n bosibl, fel arall trwy dechnegau prisio.

Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n lleihau'n union amcangyfrif arian parod a dderbynnir yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i swm dwyn ymlaen net yr ased ariannol.

Ar ddyddiad y SoFP, mae'r sefydliad GIG Cymru yn asesu a oes yna unrhyw asedau ariannol, ar wahân i'r amhariadau i'r rhai hynny wedi eu dal ar 'werth teg drwy elw a cholled'. Mae asedau ariannol wedi eu hamharu a cholledion amhariadau wedi eu cydnabod os oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad o ganlyniad i un digwyddiad neu fwy a gafwyd wedi cydnabyddiaeth gychwynnol yr ased ac sy'n effeithio ar lifau arian amcangyfrifedig yr ased yn y dyfodol.

O ran asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi ei hamorteiddio, caiff swm colled yr amhariad ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng swm dwyn ymlaen yr ased a gwerth presennol y llifau arian diwygiedig y dyfodol wedi ei leihau ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased. Cydnabyddir y golled yn y SoCNE a chaiff swm dwyn ymlaen yr ased ei leihau ar unwaith, neu drwy ddarparu ar gyfer amhariadau mewn symiau derbyniadwy.

Os, mewn cyfnod dilynol, bydd swm colled yr amhariad yn gostwng a gellir cysylltu'r gostyngiad yn wrthrychol â digwyddiad sy'n digwydd ar ôl cydnabod yr amhariad, caiff colled yr amhariad a gydnabuwyd yn flaenorol ei wrthdroi drwy'r SoCNE i'r graddau bod swm dwyn ymlaen y swm derbyniadwy ar ddyddiad gwrthdroi'r amhariad ddim yn fwy na'r hyn y byddai'r gost wedi ei hamorteiddio wedi bod pe na fyddai'r amhariad wedi'i gydnabod.

## 1.17 Rhwymedigaethau ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y SoFP pan fo'r sefydliad GIG Cymru yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn ariannol neu, yn achos eitemau masnach sy'n daladwy, pan fo'r nwyddau neu wasanaethau wedi eu derbyn. Rhoir y gorau i gydnabod rhwymedigaethau ariannol pan fo'r rhwymedigaeth drosodd, hynny yw, mae'r rhwymedigaeth wedi ei dalu neu wedi dod i ben.

### 1.17.1 Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar werth teg i ddechrau

Dosberthir rhwymedigaethau ariannol fel un ai rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy SoCNE neu rwymedigaethau ariannol eraill.

### 1.17.2 Rhwymedigaethau ar werth teg drwy'r SoCNE

Caiff deilliadau wedi eu sefydlu a chanddynt wahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau a chanddynt ddeilliadau wedi eu sefydlu nad oes modd gwybod eu gwerth ar wahân, eu trin fel rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy elw a cholled. Fe'u cedwir ar werth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y SoCNE. Mae'r elw neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log a enillwyd ar yr ased ariannol.

### 1.17.3 Rhwymedigaethau ariannol eraill

Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff pob rhwymedigaeth ariannol arall eu mesur ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n lleihau'r union amcangyfrif arian parod a delir yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i swm dwyn ymlaen net y rhwymedigaeth ariannol. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

### 1.18 Treth ar Werth (TAW)

Mae rhan fwyaf o weithgareddau'r sefydliad GIG Cymru y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allosod yn berthnasol ac nid yw treth mewnbwn ar bryniant yn adferadwy. Mae TAW anadferadwy yn cael ei godi i'r categori gwariant perthnasol neu ei gynnwys yn y gost prynu cyfalafu o asedau sefydlog. Lle mae'r dreth allbrint yn cael ei godi neu TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb gynnwys TAW.

### 1.19 Arian tramor

Mae trafodion o werth arian tramor yn cael eu newid i sterling ar y gyfradd gyfnewid mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion. Mae enillion a cholledion amnewid dilynol yn cael eu cymryd i'r SoCNE. Ar ddyddiad y SoFP, mae eitemau ariannol o werth arian tramor yn cael eu hail drosi ar y cyfraddau sydd yn eu lle ar y dyddiad adrodd.

### 1.20 Asedau trydydd parti

Nid yw asedau sy'n perthyn i drydydd parti (megis arian a gedwir ar ran cleifion) yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gan sefydliad GIG Cymru unrhyw ddiddordeb buddiol ynddynt. Mae manylion asedau trydydd parti yn cael eu rhoi yn y Nodiadau yn y cyfrifon.

### 1.21 Colledion a Thaliadau Arbennig

Mae colledion a thaliadau arbennig yn eitemau na fyddai Llywodraeth Cymru wedi eu hystyried pan y cytunodd ar arian ar gyfer y gwasanaeth iechyd neu pan basiodd ddeddfwriaeth. Yn ôl eu natur, maent yn eitemau na ddylai godi yn ddelfrydol. Maent felly yn amodol ar weithdrefnau rheoli arbennig o'i gymharu â chyffredinolrwydd taliadau. Maent wedi cael eu rhannu i gategorïau gwahanol, sy'n rheoli'r ffordd y mae bob achos unigol yn cael ei drin.

Mae colledion a thaliadau arbennig yn cael eu codi i'r penawdau swyddogaethol perthnasol yn y SoCNE ar sail croniadau, yn cynnwys colledion a fyddai wedi cael eu gwneud yn iawn drwy yswiriant pe na bai'r sefydliad GIG Cymru wedi bod yn goddef eu risgiau eu hunain (gyda phremiwm yswiriant yna'n cael ei gynnwys fel gwariant refeniw arferol). Er hynny, mae'e nodyn ar golledion a thaliadau arbennig wedi'u casglu yn uniongyrchol o'r gofrestr colledion sy'n cael ei pharatoi ar sail arian parod.

Mae'r sefydliad GIG Cymru yn rhoi cyfri am yr holl golledion a chyfanswm taliadau arbennig (yn cynnwys cymorth gan y WRP).

Mae'r sefydliad GIG Cymru yn cronni neu'n darparu ar gyfer yr amcangyfrif gorau o daliadau'r dyfodol ar gyfer rhwymedigaethau penodol, ac mae'n datgelu bob taliad posibl arall fel rhwymedigaethau amodol, onid yw tebygrwydd y rhwymedigaethau yn dod yn daladwy yn annhebygol.

Mae pob hawliad am golledion neu daliadau arbennig yn cael eu darparu ar eu cyfer, lle mae tebygrwydd o setlo hawliad unigol dros 50%. Lle gellir gwneud amcangyfrifon dibynnol, mae digwyddiadau o esgeulustod clinigol yn erbyn lle nad yw hawliad wedi ei dderbyn, hyd yn hyn, yn cael eu darparu yn yr un ffordd. Mae ad-daliadau disgwyliedig gan y WRP yn cael eu cynnwys yn y dyledwyr. Ar gyfer yr hawliadau hynny lle mae'r tebygrwydd setlo rhwng 5-50%, mae'r rhwymedigaeth yn cael ei datgelu fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

### 1.22 Cyllidebau wedi'u cyfuno

Mae'r BILl wedi dod yn rhan o drefniadau cyllidebau wedi'u cyfuno gyda'r awdurdodau lleol ar draws gogledd Cymru. Dan y trefniadau mae cyllidebau'n cael eu cyfuno yn unol ag adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ar gyfer gweithgareddau penodol a ddiffinnir yn Nodyn 32 - cyllidebau ar y cyd.

Mae'r BILl yn gyfrifol am ei gyfran o'r asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant o'r gweithgareddau yn unol â'r trefniadau pob cyllideb wedi'u cyfuno.

### 1.23 Dyfarniadau Cyfrifyddu Allweddol a phrif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth ddefnyddio polisïau cyfrifyddu, mae gofyn i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau dwyn ymlaen o asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio os yw'r diwygiadau yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu gyfnod y diwygiad a chyfnodau'r dyfodol os yw'r diwygiad yn effeithio ar gyfnodau presennol a'r dyfodol.

### 1.24 Prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Y prif dybiaethau sy'n ymwneud â'r dyfodol yw'r canlynol, a ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif ar ddyddiad y SoFP, sydd â risg sylweddol o achosi addasu deunydd i'r gwerth dwyn ymlaen os yw'r asedau a'r rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

Gwneir amcangyfrifon arwyddocaol o ran esgeulustod clinigol parhaus a hawliadau anafiadau personol. Darperir tybiaethau o ran canlyniadau tebygol, y rhwymedigaethau posibl ac amseru'r hawliadau ymgyfreithiadau hyn gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Bydd unrhyw newidiadau materol mewn rhwymedigaethau a gysylltir â'r hawliadau hyn yn gallu cael eu hadfer drwy Gronfa Risg Cymru.

Gwneir amcangyfrifon arwyddocaol hefyd ar gyfer costau gofal parhaus yn deillio o hawliadau ôl 1 Ebrill 2003. Gwneir asesiad o ganlyniadau tebygol, rhwymedigaethau posibl ac amseru'r hawliadau hyn ar sail bob achos unigol. Addasir newidiadau materol cysylltiedig â'r hawliadau hyn yn y cyfnod y'u hadolygir.

Gwneir amcangyfrifon hefyd ar gyfer gwasanaethau gofal cychwynnol dan gontract. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y lefelau taliad diweddaraf. Addasir y newidiadau cysylltiedig â'r rhwymedigaethau hyn yn y cyfnod adrodd canlynol.

Yn ystod 2020-21, gwnaeth y BILl amcangyfrifon sylweddol o rwymedigaethau yn ymwneud â gwyliau blynyddol heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (1.4.1 yn cyfeirio).

#### 1.24.1 Darpariaethau

Mae'r sefydliad GIG Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol ar gyfer esgeulustod clinigol, anaf personol a chostau amddiffyniad y mae eu hamseru neu swm yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol ar gyfer setlo'r rhwymedigaeth.

Mae hawliadau yn cael eu hariannu drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu cost ceisiadau ad-daliad a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS bob yn ail fis. Ar ôl i'r sefydliad GIG Cymru setlo hawliadau unigol, mae'r gost lawn yn cael ei chydnabod o fewn y flwyddyn, ac yn cyd-fynd ag incwm (tynnu troswariant o £25,000) drwy ddyledwr WRPS, nes i ad-daliad gael ei dderbyn gan y Pwyllgor WRPS.

### 1.24.2 Achosion Pendant a Thebygol – Triniaeth Gyfrifo

Mae darpariaeth ar gyfer yr achosion hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 37. Mae achosion yn cael eu hasesu a'u rhannu yn bedwar categori yn unol â'u tebygolrwydd o setlo;

| | | |
|---|---|---|
| **Gwan** | Tebygolrwydd Setlo | 0 - 5% |
| | Triniaeth Gyfrifo | Rhwymedigaeth wrth gefn |
| **Posibl** | Tebygolrwydd Setlo | 6% - 49% |
| | Triniaeth Gyfrifo | Ffi'r Amddiffynnydd - Darpariaeth<br>Rhwymedigaeth wrth Gefn ar gyfer bob gwariant arall a amcangyfrifir. |
| **Tebygol** | Tebygolrwydd Setlo | 50% - 94% |
| | Triniaeth Gyfrifo | Darpariaeth lawn |
| **Pendant** | Tebygolrwydd Setlo | 95% - 100% |
| | Triniaeth Gyfrifo | Darpariaeth lawn |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol a phendant yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a adroddir arnynt gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Bydd y cyfreithiwr yn amcangyfrifo gwerth yr achos yn cynnwys ffioedd amddiffyniad, gan ddefnyddio barn broffesiynol a drwy ofyn am gyngor y cwnsler. Mae elfennau colled y dyfodol yn cael eu tynnu o'r prisiad gan ddefnyddio disgwyliadau oes unigol a thablau'r actiwari (tablau Ogden) a chyfradd Disgownt Anaf Personol o finws 0.25%.

Mae rhwymedigaethau'r dyfodol ar gyfer achosion pendant a thebygol gyda thebygolrwydd o 95%-100% a 50-94% yn y drefn honno yn cael eu cadw fel darpariaeth ar y fantolen. Mae achosion fel arfer yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel, ble mae cyfnod o ddatblygiad yn angenrheidiol i sefydlu hyd a lled yr anaf a achoswyd.

### 1.25 Cyfraddau Disgownt

Mae'r BILl yn cymhwyso cyfraddau disgownt a ddarperir gan System Gwariant Cyhoeddus Trysordy Ei Mawrthydi (PES) i ddarpariaethau ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth a adroddwyd yn Nodyn 20 Darpariaethau ar dudalennau 52A a 53A. Y gyfradd ddisgownt berthnasol ar gyfer 2021-22 yw -1.3% (2020-21 – 0.95%)

Adroddir ar effaith dad-ddirwyn disgowntiau yn Nodyn 7 Costau Cylllid ar dudalen 30A.

### 1.26 Trafodion Menter Cyllid Preifat (PFI)

Mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi penderfynu y dylai cyrff llywodraeth gymryd cyfrifoldeb dros gynlluniau PFI isadeiledd, pan fo'r cyrff llywodraeth yn rheoli deunydd o'r isadeiledd a'r diddordeb gweddillol yn yr isadeiledd ar ddiwedd y trefniant fel trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae'r sefydliad GIG Cymru felly yn cydnabod yr ased PFI fel eitem o eiddo, peiriannau ac offer ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdanynt. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir gan y contract yn cael eu cofnodi fel costau gweithredu.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu i'r cydrannau canlynol, gan ddefnyddio'r technegau amcangyfrif priodol lle bo'n briodol:

a) Taliad ar gyfer gwerth teg o wasanaethau a dderbyniwyd;

b) Taliad ar gyfer yr ased PFI, yn cynnwys costau ariannol; a

c) Taliad ar gyfer amnewid elfennau o'r ased yn ystod 'amnewid cylch oes' y contract.

### 1.26.1 Gwasanaethau a dderbyniwyd

Mae gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gofnodi dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn 'costau gweithredu'.

### 1.26.2 Ased PFI

Mae'r asedau PFI yn cael eu cydnabod fel eiddo, peiriannau ac offer, pan maent yn cael eu defnyddio. Mae'r asedau yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Ar ôl hynny, mae'r asedau yn cael eu mesur ar werth teg, sy'n cael eu cadw'n gyfredol yn unol â dull y sefydliad GIG Cymru ar gyfer bob dosbarth perthnasol o ased yn unol ag egwyddorion IAS 16.

### 1.26.3 Rhwymedigaeth PFI

Mae rhwymedigaeth PFI yn cael ei gydnabod ar yr un pryd ag y mae'r asedau PFI yn cael eu cydnabod. Mae'n cael ei fesur i ddechrau ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI, ac mae'n cael ei fesur ar ôl hynny fel rhwymedigaeth prydles cyllid yn unol ag IAS 17.

Mae cost ariannol flynyddol yn cael ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles i'r rhwymedigaeth prydles agoriadol ar gyfer y cyfnod, ac yn cael ei dalu drwy'r 'Costau Ariannol' o fewn y SoCNE.

Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei ddyrannu fel rhent prydles ariannol yn cael ei gymhwyso i fodloni'r gost ariannol flynyddol ac i ad-dalu'r rhwymedigaeth prydles dros gyfnod y contract.

Mae elfen o gynnydd taliad unedol blynyddol oherwydd mynegeio cronnus yn cael ei ddyrannu i'r brydles ariannol. Yn unol ag IAS 17, nid yw'r swm hwn yn cael ei gynnwys yn y lleiafswm taliad prydles, ond mae'n cael ei drin fel rhent amodol yn hytrach ac mae'n cael ei gostio fel swm a achoswyd. Yn ei hanfod, mae'r swm hwn yn gost ariannol o ran y rhwymedigaeth, ac mae'r gost yn cael ei chyflwyno fel cost ariannol amodol yn y SoCNE.

### 1.26.4 Amnewid Cylch Oes

Mae elfennau o'r ased a amnewidir gan y gweinyddwr yn ystod y contract ('amnewid cylch oes') yn cael eu cyfalafu lle maent yn bodloni meini prawf y sefydliad GIG Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf. Maent yn cael eu cyfalafu pan maent yn cael eu darparu gan y gweinyddwr, ac maent yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg.

Mae elfen o'r taliad undebol blynyddol a ddyrannir i'r amnewid cylch oes yn cael ei bennu ymlaen llaw ar gyfer bob blwyddyn o'r contract o raglen gynlluniedig amnewid cylch oes y gweinyddwr. Pan fo'r elfen cylch oes yn cael ei darparu yn gynt neu'n hwyrach na'r disgwyl, mae rhwymedigaeth prydles ariannol neu ragdaliadau tymor byr yn cael eu cydnabod yn y drefn honno.

Pan fo gwerth teg cydran cylch bywyd yn llai na'r swm a benderfynwyd yn y contract, cydnabyddir y gwahaniaeth fel cost pan ddarperir amnewidiad. Os yw'r gwerth teg yn fwy na'r swm a benderfynwyd yn y contract, bydd y gwahaniaeth yn cael ei drin fel ased 'rhydd' a chydnabyddir gweddill incwm gohiriedig. Caiff yr incwm gohiriedig ei ryddhau i'r incwm gweithredol dros gyfnod byrrach yr hyn sy'n weddill o gyfnod y contract neu ddeunydd economaidd defnyddiol y cydran sy'n amnewidiol.

### 1.26.5 Asedau a gyfranwyd gan y sefydliad GIG Cymru i'r gweithredwr i'w defnyddio yn y cynllun

Bydd asedau a gyfranwyd i'w defnyddio yn y cynllun yn parhau i gael eu cydnabod fel eitemau o eiddo, offer neu gyfarpar yn SoFP y sefydliad GIG Cymru.

### 1.26.6 Asedau eraill a gyfranwyd gan y sefydliad GIG Cymru i'r gweithredwr

Cydnabyddir asedau a gyfranwyd (e.e. taliadau arian parod, eiddo dros ben) gan y sefydliad GIG Cymru cyn bod yr ased yn cael ei ddefnyddio, a fwriedir i dalu costau cyfalaf y gweithredwr, i ddechrau fel rhagdaliadau yn ystod cyfod adeiladu'r contract. Ar ôl hyn, pan fydd yr ased ar gael i'r sefydliad GIG Cymru, bydd y rhagdaliad yn cael ei drin fel taliad dechreuol tuag at rwymedigaeth les cyllid ac fe'i gosodir yn erbyn gwerth cario'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth PFI yn cael ei gydnabod ar yr un pryd ag y mae'r asedau PFI yn cael eu cydnabod. Fe'i mesurir ar werth presennol yr isafswm taliadau lês, gyda disgownt wrth ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlyg. O ganlyniad, fe'i fesurir fel rhwymedigaeth lês cyllid yn unol ag IAS 17.

Wrth gydnabod yr ased i ddechrau, cydnabyddir y gwahaniaeth rhwng gwerth teg yr ased a'r rhwymedigaeth dechreuol fel incwm gohiriedig, sy'n cynrychioli'r gwasanaeth potensial i'r dyfodol i'w dderbyn gan y sefydliad GIG Cymru, drwy'r asedau i fod ar gael i ddefnyddwyr trydydd parti.

### 1.27 Amodol

Mae rhwymedigaeth amodol yn ymrwymiad posibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffenol, a dim ond drwy ddigwyddiad neu anddigwyddiad un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr y dyfodol, nid yn hollol dan reolaeth y sefydliad GIG Cymru bydd eu presenoldeb yn cael eu cadarnhau, neu ymrwymiad presennol na gydnabyddir, oherwydd nad yw'n debygol bydd angen taliad i setlo'r ymrwymiad neu nid oes modd mesur swm yr ymrwymiad yn ddigon dibynadwy. Datgelir rhwymedigaeth amodol oni bai bod posibilrwydd o daliad yn brin.

Mae ased amodol yn ased posibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol a chadarnheir ei fodolaeth drwy ddigwyddiad neu anddigwyddiad un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol, nid yn hollol o fewn rheolaeth y sefydliad GIG Cymru. Datgelir ased amodol lle mae mewnlif o fuddion economaidd yn debygol.

Lle mae gwerth amser arian yn faterol, datgelir amodau ar eu gwerth presennol.

Mae rhwymedigaethau amodol prin yn rhai a ddatgelir dan ofynion adrodd Seneddol ac nid dan IAS 37, ac os yn ymarferol, bydd gofyn am amcangyfrif o'u heffaith ariannol.

### 1.28 Cyfrifio amsugnol

Cyfrifir trosglwyddiadau gweithrediadau fel un ai cydsoddiad neu drwy gyfrifo amsugnol, yn ddibynnol ar y driniaeth a ragnodwyd yn FReM. Ar gyfer cyfrifo amsugnol, mae angen cyfrif endidau ar gyfer eu trafodion dros y cyfnod y digwyddodd heb fod angen ailgyfriflen o berfformiad.

Pan fydd gweithrediadau yn trosglwyddo rhwng BILlau, bydd yr elw neu golled a ddaw yn sgil yr asedau a'r rhwymedigaeth yn trosglwyddo yn cael ei gydnabod yn y SoCNE ac fe'i datgelir ar wahân i'r costau gweithredu.

### 1.29 Safonau cyfrifo sydd wedi'u cyflwyno ond heb eu mabwysiadau hyd yn hyn

Mae'r safonau cyfrifo canlynol wedi'u cyflwyno neu eu diwygio gan yr IASB ac IFRIC ond hyd yn hyn heb gael eu mabwysiadu, oherwydd nid yw FReM yn nodi bod rhaid eu mabwysiadu:

- IFRS 14 Cyfrifon Oedi Rheolaethol
  Yn berthnasol i fabwysiadwyr IFRS y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2016. Felly ddim yn berthnasol.
- IFRS 16 Lesoedd i fod yn effeithiol o 1 Ebrill 2022.
- IFRS 17 Contractau Yswiriant, Angen ceisiadau ar gyfer cyfnodau cyfrifo yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2021, ond heb gael eu mabwysiadu hyd yn hyn gan FReM: felly ni chaniateir mabwysiadu cynnar.

### 1.30 Safonau cyfrifo a gyflwynwyd a fabwysiadwyd yn gynnar

Yn ystod 2021-22, ni fabwysiadwyd unrhyw safonau cyfrifo yn gynnar. Arweinir pob mabwysiad cynnar safonau cyfrifon gan Drysorlys EM.

### 1.31 Elusennau

Yn dilyn cytundeb y Trysorlys i weithredu IAS 27 i Elusennau'r GIG o 1 Ebrill 2013, mae'r BILl wedi sefydlu gan ei fod yn ymddiriedolwr corfforaethol yr elusen cysylltiedig "Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac elusennau cysylltiol eraill", fe'i ystyrir ar gyfer cydymffurfiad â safonau cyfrifo i fod â rheolaeth o'r Elusen fel rhywbeth atodol. Felly, mae'n rhaid cydgrynhoi canlyniadau'r elusen o fewn cyfrifon statudol y BILl.

Mae'r penderfyniad rheoli yn brawf safonau cyfrifo o reoli ac ni fu newid i weithrediad yr Elusen na'i annibyniaeth o ran rheoli'r cyllidebau elusennol.

Fodd bynnag, mae'r BILl, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, wedi mabwysiadu eithriad IAS 27 (10) i gydgrynhoi. Bydd Llywodraeth Cymru fel rhiant eithaf y Byrddau Iechyd Lleol yn cydgrynhoi a datgelu Cyfrifon Elusennol y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru.

Ceir manylion y trafodion gyda'r elusen yn Nodyn 30 o Nodiadau Perthnasol y Partïon.

## 2. Perfformiad Dyletswyddau Ariannol

Daeth Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 i rym ar 1 Ebrill 2014. Roedd y Ddeddf yn diwygio dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol dan adran 175 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. O 1 Ebrill 2014, mae adran 175 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) yn gosod dwy ddyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol:

- Dyletswydd dan adran 175 (1) i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na'r cyfanswm o gyllid a ddyrannwyd iddo dros gyfnod o 3 blynedd ariannol.

- Dyletswydd dan adran 175 (2A) i baratoi cynllun yn unol â chyfarwyddiadau cynllunio, a roddwyd gan Weinidogion Cymru, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd dan adran 175 (1), tra'n gwella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdanynt, a darpariaeth gofal iechyd i bobl fel hyn, ac i'r cynllun gael ei gyflwyno i a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Mae asesiad cyntaf perfformiad yn erbyn y ddyletswydd statudol 3 blynedd, dan adran 175 (1) ar ddiwedd 2016-17, sef cyfnod 3 blynedd cyntaf yr asesiad.

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/054 "Dyletswyddau Statudol ac Ariannol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG" yn esbonio dyletswyddau ariannol statudol cyrff GIG Cymru ac mae'n weithredol ar gyfer 2016-17.

### 2.1 Perfformiad Adnoddau Refeniw

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| **Costau gweithredol net am y flwyddyn** | 1,660,768 | 1,808,719 | 1,873,353 | **5,342,840** |
| Llai gwaraint gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant cyfyngedig heb fod yn arian parod eraill | 84 | 538 | 637 | **1,259** |
| Llai oblygiadau Refeniw os deuir â chynlluniau PFI at SoFP | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cyfanswm gwariant gweithredol | 1,660,852 | 1,809,257 | 1,873,990 | **5,344,099** |
| Dyraniad Adnoddau Refeniw | 1,622,156 | 1,809,747 | 1,874,279 | **5,306,182** |
| **Tan/(dros)wariant yn erbyn dyraniad** | (38,696) | 490 | 289 | **(37,917)** |

Nid yw BILl Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bodloni ei dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Therfyn Adnodd Refeniw dros y 3 mlynedd rhwng 2019-20 a 2021-22.

Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd dderbyn unrhyw gymorth parod ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd cymorth arian parod cronnus o £149.694 miliwn yn ystod cyfnodau ariannol blaenorol i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i wneud taliadau i staff a chyflenwyr; nid oes gofyniad i'r balans hwn gael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru.

### 2.2 Perfformiad Adnodd Cyfalaf

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | **£000** |
| **Gwariant cyfalaf gros** | 25,714 | 35,587 | 47,598 | **108,899** |
| Adio: Colledion wrth waredu ar asedau a gyfrannwyd | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Tynnu NBV o eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anddiriaethol a waredwyd | (38) | (100) | (513) | **(651)** |
| Tynnu grantiau cyfalaf a dderbyniwyd | 0 | (782) | (779) | **(1,561)** |
| Tynnu cyfraniadau a dderbyniwyd | (1,591) | (808) | (442) | **(2,841)** |
| Cost yn erbyn Dyraniad Adnodd Cyfalaf | 24,085 | 33,897 | 45,864 | **103,846** |
| Dyraniad Adnodd Cyfalaf | 24,109 | 33,958 | 45,886 | **103,953** |
| **(Tros)/Tanwariant yn erbyn Dyraniad Adnodd Cyfalaf** | 24 | 61 | 22 | **107** |

Mae BILl Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cwrdd â'i ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Gyfyngiad Adnoddau Cyfalaf dros y 3 blynedd 2019-20 hyd 2021-22.

## 2.3 Dyletswydd i baratoi cynllun integredig 3 blynedd

Oherwydd y pandemig Covid-19, rhoddwyd seibiant ar y broses ar gyfer cynllun integredig 2020-23 yng ngwanwyn 2020 a rhoddwyd trefniant cynllunio dros dro ar waith. O ganlyniad i'r ddyletswydd gynllunio sy'n bodoli ar gyfer 2021-22, mae gofyn i gyflwyno a chymeradwyo cynllun integredig 2019-22 yn parhau, fel yr amlinellir yn Fframwaith Gynllunio GIG Cymru 2019-22.

Ni wnaeth BILl Betsi Cadwaladr gyflwyno cynllun integredig 2019-22 yn unol â'r fframwaith gynllunio gan fod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu o dan Gynllun Blynyddol gyda chytundeb Llywodraeth Cymru.

Cymeradwyaeth y Gweinidog Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n bodoli

| | |
|---|---|
| **Statws** | Heb ei gymeradwyo |
| **Dyddiad** | Ddim yn berthnasol |

Felly nid yw BILl Betsi Cadwaladr wedi bodloni ei dyletswydd statudol i gael cynllun ariannol wedi'i gymeradwyo.

## 2.4 Taliad Credydwyr

Mae'n rhaid i'r BILl dalu 95% o'r niferoedd o filiau heb fod yn rai y GIG o fewn 30 diwrnod o ddderbyn y nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag ddaw hwyraf). Mae'r BILl wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol:

| | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y biliau heb fod yn GIG a dalwyd | **348,666** | 301,116 |
| Cyfanswm y nifer o filiau heb fod yn GIG a dalwyd o fewn y targed | **332,630** | 289,037 |
| Canran y biliau heb fod yn GI a dalwyd o fewn targed | 95.4% | 96.0% |

Mae'r BILl wedi cwrdd â'r targed.

## 3. Dadansoddiad o gostau gweithredu gros

### 3.1 Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol

| | Cyfyngedig i arian parod | Cyfyngedig i nwyddau heb fod yn arian | 2021-22 Cyfamswm | 2020-21 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | 148,642 | | **148,642** | 144,643 |
| Gwasanaethau Fferyllol | 34,964 | (7,303) | **27,661** | 27,475 |
| Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol | 37,914 | | **37,914** | 32,992 |
| Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol | 2,082 | 6,666 | **8,748** | 8,066 |
| Gwariant Gofal Iechyd Cychwynnol arall | 5,668 | | **5,668** | 4,583 |
| Cyffuriau ac offer a ragnodwyd | 112,302 | | **112,302** | 114,013 |
| **Cyfanswm** | **341,572** | **(637)** | **340,935** | 331,772 |

Nodyn 3.1 Mae gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol yn cynnwys costau cyflog o £25,219,000 (2020-21 £24,955,000) sy'n cynnwys:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | £22,964,000 | (2020-21 | £23,395,000) |
| Gwasanaethau Fferyllol | £178,000 | (2020-21 | £83,000) |
| Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol | £732,000 | (2020-21 | £423,000) |
| Gwariant Gofal Iechyd Cychwynnol | £1,345,000 | (2020-21 | £1,054,000). |

### 3.2 Gwariant am ofal iechyd gan ddarparwyr eraill

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Nwyddau a gwasanaethau gan Fyrddau Iechyd GIG Cymru eraill | **5,563** | 5,363 |
| Nwyddau a gwasanaethau gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru eraill | **11,588** | 10,402 |
| Nwyddau a gwasanaethau gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) | **0** | 0 |
| Nwyddau a gwasanaethau gan gyrff GIG eraill heb fod yn Gymreig | **70,709** | 66,743 |
| Nwyddau a gwasanaethau gan PGIAC / PGAB | **203,522** | 189,594 |
| Awdurdodau Lleol | **11,141** | 0 |
| Sefydliadau Gwirfoddol | **10,553** | 8,826 |
| Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG | **8,515** | 8,473 |
| Gofal Parhaus | **101,897** | 106,173 |
| Darparwyr Preifat | **4,907** | 3,212 |
| Prosiectau penodol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru | **0** | 0 |
| Arall | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **428,395** | 398,786 |

Mae gwariant awdurdodau lleol o £11,141,000 (2020-21 £6,450,000) yn ymwneud â gwariant a gododd mewn gofal iechyd mewn ymateb i bandemig Covid-19, gan gynnwys Cell Ranbarthol Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) a chymorth mewn Canolfannau Brechu Torfol. Cafodd y gwariant ei gynnwys yn Nodyn 3.3. Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol – Cyflenwadau a gwasanaethau – cyffredinol yn 2021-21. Nid yw ffigurau ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi cael eu hailddatgan.

### 3.3 Gwariant am Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol

| | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Costau Cyfarwyddwyr | **2,058** | 2,330 |
| Costau Staff Gweithredol | **894,959** | 880,195 |
| Cost Hyfforddai Staff cyflogwr arweiniol unigol | **18,156** | 6,844 |
| Cost Staff Banc Cydweithredol | **0** | 0 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau - clinigol | **162,508** | 147,059 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau - cyffredinol | **63,345** | 58,143 |
| Gwasanaethau Ymgynghorol | **605** | 59 |
| Sefydliad | **11,252** | 9,057 |
| Cludiant | **5,110** | 6,210 |
| Adeiladau | **56,294** | 78,811 |
| Contractwyr Allanol | **0** | 0 |
| Dibrisiad | **36,704** | 34,635 |
| Amorteiddiad | **284** | 278 |
| Amhariadau a gwrthdroadau asedau sefydlog (Eiddo, peiriannau a chyfarpar) | **(2,934)** | (3,156) |
| Amhariadau a gwrthdroadau asedau sefydlog (Asedau anddiriaethol) | **0** | 0 |
| Amhariadau a gwrthdroadau asedau cyllidol | **0** | 0 |
| Amhariadau a gwrthdroadau o asedau heb fod yn gyfredol a ddelir ar werth | **0** | 0 |
| Ffioedd archwilio | **402** | 388 |
| Taliadau eraill i archwilwyr | **0** | 0 |
| Colledion, taliadau arbennig a dyledion na ellir eu hadfer | **5,868** | 5,225 |
| Ymchwil a Datblygiad | **434** | 519 |
| Costau gweithredu eraill | **5,413** | 4,034 |
| **Cyfanswm** | **1,260,458** | 1,230,631 |

Mae gostyngiadau a childroadau asedau sefydlog (Eiddo, peiriannau a chyfarpar) yn Nodyn 3.3 yn cynnwys credyd o £6,379,000 (2020-21 £3,662,000) o ran cildroad gostyngiad a godir ar wariant mewn cyfnodau blaenorol. Mae gwerth gostyngiad cildroadau hefyd wedi'i nodi yn adran Cost a Prisiad Nodyn 11.1 Eiddo, peiriannau a chyfarpar ar dudalen 38A y cyfrifon hyn.

### 3.4 Colledion, taliadau arbennig a dyledion na ellir eu hadfer: taliadau i gostau gweithredu

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| **Cynnydd/(lleihad) mewn darpariaeth ar gyfer taliadau'r dyfodol:** | **£000** | £000 |
| Esgeulustod Clinigol | | |
| Gofal Eilaidd | **64,671** | 1,658 |
| Gofal Cychwynnol | **(6)** | 0 |
| Iawndal Gofal Eilaidd | **236** | 68 |
| Iawndal Gofal Cychwynnol | **0** | 0 |
| Anaf personol | **336** | 123 |
| Holl golledion eraill a thaliadau arbennig | **2,848** | 3,019 |
| Ffioedd cyfreithiol amddiffyn a chostau gweinyddol eraill | **2,127** | 1,704 |
| Cynnydd/(lleihad) gros mewn darpariaeth ar gyfer taliadau'r dyfodol | **70,212** | **6,572** |
| Cyfraniad at Gronfa Risg Cymru | **0** | 0 |
| Premiwm ar gyfer trefniadau yswiriant eraill | **0** | 0 |
| Dyledion na ellir eu hadfer | **849** | (314) |
| **Tynnu: incwm a dderbyniwyd/taliadwy gan Gronfa Risg Cymru** | **(65,193)** | (1,033) |
| **Cyfanswm** | **5,868** | 5,225 |

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Anafiadau parhaol wedi'u cynnwys o fewn anafiadau personol: | **107,000** | 171,000 |

## 4. Incwm Amrywiol

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Byrddau Iechyd Lleol | **5,284** | 4,927 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) / Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) | **45,189** | 44,170 |
| Ymddiriedolaethau GIG Cymru | **6,520** | 5,934 |
| Awdurdodau Iechyd Arbenigol Cymru | **17,355** | 15,443 |
| Ymddiriedolaethau Sylfaen | **1,222** | 723 |
| Cyrff GIG Lloegr eraill | **18,084** | 14,770 |
| Cyrff GIG eraill | **672** | 349 |
| Awdurdodau Lleol | **15,728** | 12,835 |
| Llywodraeth Cymru | **10,500** | 8,899 |
| Cyrff Cynhaliol Llywodraeth Cymru | **0** | 0 |
| Cyrff Cynhaliol Llywodraeth Cymru | | |
| Heb fod yn GIG: | **19** | 24 |
| Incwm ffioedd presgripsiwn | **3,902** | 1,876 |
| Incwm ffioedd deintyddol | **310** | 369 |
| Incwm cleifion preifat | **71** | 102 |
| Cleifion tramor (anghytbwys) | **840** | 896 |
| Cynllun Adfer Costau Anafiadau (ICR) | **12,743** | 10,706 |
| Gwasanaethau cludiant cleifion | **0** | 0 |
| Addysg, hyfforddiant ac ymchwil | **6,518** | 4,709 |
| Elusennol a chyfraniadau eraill at wariant | **1,027** | 1,333 |
| Derbyn asedau NWSSP Covid a brynwyd yn ganolog | **0** | 15,740 |
| Derbyn Asedau Covid a brynwyd yn ganolog gan sefydliadau eraill | **0** | 0 |
| Derbyn asedau a gyfrannwyd | **442** | 808 |
| Derbyn asedau a roddwyd gan y Llywodraeth | **779** | 1,712 |
| Cynlluniau cynhyrchu incwm gofal heb fod i gleifion | **293** | 260 |
| Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) | **0** | 0 |
| Incwm gohiriedig a ryddhawyd i gyllid | **65** | 90 |
| Incwm rhent amodol o lesoedd cyllid | **0** | 0 |
| Incwm rhent o lesoedd gweithredol | **314** | 319 |
| Incwm arall: | | |
| Darpariaeth gwasanaethau golchdy, patholeg a chyflogres | **167** | 106 |
| Ffioedd llety ac arlwyo | **2,847** | 2,282 |
| Ffioedd marwdy | **377** | 299 |
| Taliadau staff am ddefnyddio ceir | **968** | 1,073 |
| Uned fusnes | **0** | 0 |
| Cynllun yn Talu Ad-daliad Tybiannol | **2,256** | 0 |
| Arall | **2,152** | 1,761 |
| **Cyfanswm** | **156,644** | 152,515 |
| Incwm arall yn cynnwys; | | |
| Ailgodi tâl staff na chynhwysir ar linellau eraill | **780** | 716 |
| Lleihad mewn Colledion Credyd Disgwyliedig (ECLs) ar incwm drwy anfonebau | **225** | (160) |
| Incwm Ad-Trac | **0** | 258 |
| **Cyfanswm** | **1,005** | 814 |

Incwm Cynllun Adfer Costau Anafiadau (ICR)

| | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| | % | % |
| Er mwyn adlewyrchu cyfraddau casglu, mae incwm ICR yn destun i ddarpariaeth ar gyrfer amhariad o: | 23.76 | 22.43 |

**Ffynonellau Incwm Covid-19**

Mae llinell Llywodraeth Cymru yn Nodyn 4 yn cynnwys £81,000 (2020-21 £58,000) o incwm amrywiol yn ymwneud â Covid-19. Cafodd yr holl incwm refeniw Covid-19 arall a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 ei ddarparu fel rhan o'r Dyraniad Adnoddau Refeniw (Nodyn 34.2 tudalen 70A).

Roedd derbyn asedau a roddwyd gan y Llywodraeth o £779,000 (2020-21 £1,712,000) yn ymwneud ag eitemau cyfalaf a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol heb unrhyw gost.

**Cynllun Adfer Costau Anaf (ICR)**

Mae incwm Cynllun Adfer Costau Anafiadau (ICR) fel arfer yn destun i ddarpariaeth amhariad o 23.76% i adlewyrchu cyfraddau disgwyliedig o gasgliad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'r ddarpariaeth gyfradd amhariad ymhellach ar achosion oed penodol i adlewyrchu'r risg pellach o ddiffyg adfer posibl.

## 5. Incwm o Fuddsoddiadau

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Refeniw rhenti:** | | |
| Incwm les Cyllid PFI | | |
| cynlluniwyd | **0** | 0 |
| amodol | **0** | 0 |
| Refeniw les ariannol eraill | **0** | 0 |
| **Refeniw llogau:** | | |
| Cyfrifon banc | **0** | 0 |
| Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy eraill | **0** | 0 |
| Asedau ariannol diffygiol | **0** | 0 |
| Asedau ariannol eraill | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | 0 |

## 6. Enillion a cholledion eraill

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Enillion/(colledion) wrth waredu ar eiddo, peiriannau ac offer | **(219)** | (34) |
| Enillion/(colledion) wrth waredu ar asedau anniriaethol | **0** | 0 |
| Enillion/(colledion) wrth waredu ar asedau a ddaliwyd ar werth | **0** | 0 |
| Enillion/(colledion) wrth waredu ar asedau ariannol | **0** | 0 |
| Newid mewn cyfnewid tramor | **0** | 0 |
| Newid mewn gwerth teg asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE | **0** | 0 |
| Newid mewn gwerth teg a rhwymedigaethau ariannol drwy SoCNE | **0** | 0 |
| Ailgylchu enillion/(colledion) o ecwiti ar waredu asedau ariannol a ddaliwyd ar werth | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **(219)** | (34) |

## 7. Costau Ariannol

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Llogau ar fenthyciadau a gorddrafftiau | **0** | 0 |
| Llogau ar oblygiadau dan lesoedd ariannol | **0** | 0 |
| Llogau ar oblygiadau dan gontractau PFI | | |
| prif gost cyllid | **33** | 35 |
| cost cyllid amodol | **0** | 0 |
| Llog ar daliad hwyr dyled masnachol | **0** | 0 |
| Costau llogau eraill | **0** | 0 |
| **Cyfanswm costau llog** | **33** | 35 |
| Darpariaethau dad-ddirwyn disgownt | **(43)** | (24) |
| Costau cyllid eraill | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **(10)** | 11 |

## 8. Lesoedd gweithredu

**BILl fel deilydd les**

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y Bwrdd Iechyd 1,643 o gytundebau les gweithredol yn eu lle ar gyfer 52 adeilad, 365 eitem o offer a 1,226 cerbyd.

Daeth trefniadau les ar gyfer 2 adeilad, 98 eitemau offer a 420 o gerbydau i ben yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-22.

| **Taliadau a gydnabyddir fel gwariant** | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Isafswm taliadau les | **8,119** | 5,690 |
| Rhenti amodol | **0** | 0 |
| Taliadau is-lesoedd | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **8,119** | 5,690 |

| **Cyfanswm isafswm taliadau les y dyfodol** | | |
|---|---|---|
| **Taladwy** | **£000** | £000 |
| Dim hwyrach na blwyddyn | **6,647** | 5,282 |
| Rhwng un a phum mlynedd | **11,065** | 10,406 |
| Ar ôl 5 mlynedd | **24,028** | 24,211 |
| **Cyfanswm** | **41,740** | 39,899 |

**BILl fel prydleswr**

| **Refeniw rhent** | **£000** | £000 |
|---|---|---|
| Rhent | **317** | 292 |
| Rhenti amodol | **0** | 0 |
| **Cyfanswm refeniw rhenti** | **317** | 292 |

| **Cyfanswm lleiafswm taliadau les i'r dyfodol** | | |
|---|---|---|
| **Derbyniadwy** | **£000** | £000 |
| Dim hwyrach na blwyddyn | **317** | 292 |
| Rhwng un a phum mlynedd | **316** | 134 |
| Ar ôl 5 mlynedd | **809** | 357 |
| **Cyfanswm** | **1,442** | 783 |

## 9. Buddion gweithwyr a niferoedd staff

### 9.1 Costau gweithwyr

| | Staff Parhaol | Staff ar secondiad mewnol | Staff asiantaeth | Hyfforddai Arbenigol (SLE) | Staff Banc Cydweithredol | Arall | Cyfanswm | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau ac enillion | 677,452 | 3,131 | 34,512 | 14,460 | 0 | 21,494 | **751,049** | 740,885 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 68,548 | 0 | 0 | 1,734 | 0 | 0 | **70,282** | 63,401 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr at Gynllun Pensiwn y GIG | 114,857 | 0 | 0 | 1,962 | 0 | 0 | **116,819** | 110,605 |
| Costau pensiwn eraill | 522 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **522** | 421 |
| Buddion eraill i weithwyr | 2,256 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **2,256** | 0 |
| Buddion terfyniad | 1,923 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1,923** | 55 |
| **Cyfanswm** | **865,558** | **3,131** | **34,512** | **18,156** | **0** | **21,494** | **942,851** | 915,367 |

| | | |
|---|---|---|
| Codwyd ar gyfalaf | **535** | 843 |
| Codwyd ar refeniw | **942,316** | 914,524 |
| | **942,851** | 915,367 |
| Symudiad net mewn buddion gweithwyr a gronwyd (gwyliau staff a gronwyd na gymerwyd wedi'i gynnwys uchod) | **5,396** | 19,585 |
| Symudiad Net Covid 19 mewn buddion gweithwyr a gronwyd (gwyliau staff a gronwyd na gymerwyd wedi'i gynnwys uchod) | **5,383** | 21,784 |

Mae'r golofn staff "eraill" yn cynnwys staff dros dro a chontract, megis contractau tymor byr ymgysylltiad uniongyrchol, staff IR35 cymwys, MT y tu allan i oriau a Meddygon Locwm GMS. Cynhwysir costau nawdd cymdeithasol sy'n ymwneud â'r grwpiau staff hyn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 o fewn y golofn Staff Parhaol o'r nodyn uchod.

Mae buddion cyflogaeth eraill yn ymwneud â chost gychwynnol sefydlu darpariaethau ar gyfer trefniadau Cynllun yn Tall 2019-20. Mae rhagor o fanylion wedi'u darparu yn Nodyn 34.5 ar dudalen 74A.

Mae'r cynnydd mewn buddion cronedig gweithwyr yr adroddir arnynt uchod yn ymwneud yn bennaf â hawliau gwyliau blynyddol nad oedd gweithwyr yn gallu eu cymryd yn ystod 2021-22 oherwydd effaith pandemig Covid-19. . Darperir Nodyn Polisi Cyfrifo 1.4.1 ar fuddion tymor byr gweithwyr ar dudalen 8A.

### 9.2 Nifer cyfartaledd o weithwyr

| | Staff Parhaol | Staff ar secondiad mewnol | Staff asiantaeth | Hyfforddai Arbenigol (SLE) | Staff Banc Cydweithredol | Arall | Cyfanswm | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
| Gweinyddol, clercyddol ac aelodau Bwrdd | 3,180 | 15 | 97 | 0 | 0 | 0 | **3,292** | 3,065 |
| Meddygol a deintyddol | 1,182 | 19 | 26 | 283 | 0 | 101 | **1,611** | 1,561 |
| Nyrsio, bydwreigiaeth cofrestredig | 5,023 | 2 | 224 | 0 | 0 | 0 | **5,249** | 5,029 |
| Staff proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 644 | 12 | (0) | 0 | 0 | 0 | **656** | 734 |
| Gwasanaethau clinigol ychwanegol | 3,447 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 | **3,451** | 3,292 |
| Proffesiynau Iechyd Cysylltiol | 1,026 | 0 | 39 | 0 | 0 | 0 | **1,065** | 949 |
| Gwyddonwyr Gofal Iechyd | 258 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | **259** | 250 |
| Ystadau ac ategol | 1,241 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 | **1,249** | 1,296 |
| Myfyrwyr | 27 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **27** | 106 |
| **Cyfanswm** | **16,028** | **48** | **399** | **283** | **0** | **101** | **16,858** | 16,282 |

## 9.3. Ymddeoliadau oherwydd salwch

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Nifer | 15 | 15 |
| Amcangyfrif costau pensiwn ychwanegol £ | 755,168 | 705,980 |

Mae'r nodyn hwn yn datgelu'r nifer a'r gost pensiwn ychwanegol i unigolion sydd wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn oherwydd salwch.

Cyfrifiwyd y costau pensiwn ychwanegol hyn ar sail cyfartaledd a'i ysgwyddo gan Gynllun Pensiwn y GIG.

## 9.4 Buddion gweithwyr

Mae buddion gweithwyr yn cyfeirio at fuddion heb fod yn dâl nad ydynt wedi'u priodoli i weithwyr unigol, er enghraifft aelodaeth grŵp o glwb. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu cynlluniau buddion gweithwyr ar hyn o bryd.

## 9.5 Adrodd am gynlluniau iawndal eraill - pecynnau gadael

| Bandiau cost pecynnau gadael (gan gynnwys unrhyw elfennau taliadau arbennig) | 2021-22<br>Nifer y diswyddiadau gorfodol<br>Rhifau llawn yn unig | 2021-22<br>Nifer yr ymadawiadau eraill<br>Rhifau llawn yn unig | 2021-22<br>Cyfanswm y nifer o becynnau gadael<br>Rhifau llawn yn unig | 2021-22<br>Nifer yr ymadawiadau lle gwnaed taliadau arbennig<br>Rhifau llawn yn unig | 2020-21<br>Cyfanswm nifer y pecynnau gadael<br>Rhifau llawn yn unig |
|---|---|---|---|---|---|
| Ilai na £10,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £10,000 i £25,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £25,000 i £50,000 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| £50,000 i £100,000 | 0 | 5 | 5 | 0 | 1 |
| £100,000 i £150,000 | 0 | 7 | 7 | 0 | 0 |
| £150,000 i £200,000 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 |
| mwy na £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 0 | 17 | 17 | 0 | 1 |

| Bandiau cost pecynnau gadael (gan gynnwys unrhyw elfennau taliadau arbennig) | 2021-22<br>Cost y diswyddiadau gorfodol<br>£ | 2021-22<br>Cost yr ymadawiadau eraill<br>£ | 2021-22<br>Cyfanswm cost y pecynnau gadael<br>£ | 2021-22<br>Cost elfen arbennig a gyhwysir yn y pecynnau gadal<br>£ | 2020-21<br>Cyfanswm cost pecynnau gadael<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Ilai na £10,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £10,000 i £25,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £25,000 i £50,000 | 0 | 49,640 | 49,640 | 0 | 0 |
| £50,000 i £100,000 | 0 | 350,406 | 350,406 | 0 | 55,078 |
| £100,000 i £150,000 | 0 | 869,708 | 869,708 | 0 | 0 |
| £150,000 i £200,000 | 0 | 652,916 | 652,916 | 0 | 0 |
| mwy na £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 0 | 1,922,670 | 1,922,670 | 0 | 55,078 |

| Costau ymadael a dalwyd yn y flwyddyn ymadael | Cyfanswm a dalwyd mewn blwyddyn<br>2021-22<br>£ | Cyfanswm a dalwyd mewn blwyddyn<br>2020-21<br>£ |
|---|---|---|
| Costau Ymadael a dalwyd mewn blwyddyn | 0 | 55,078 |
| **Cyfanswm** | 0 | 55,078 |

Mae'r datgeliad hwn yn adrodd ar y nifer a gwerth y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn. Efallai y bydd dyddiad gwirioneddol yr ymadawiad yn ystod cyfnod dilynol ac efallai y bydd y gwariant mewn perthynas â chostau ymadael wedi cronni mewn cyfnod blaenorol. Cyfanswm y costau ymadael a dalwyd yn ystod 2021-22, y flwyddyn ymadael, £0 (2020-21 £55,078).

Mae'r Bwrdd Iechyd yn talu holl gostau diswyddo ac ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Rhyddhau Gwirfoddol Cynnar y GIG (VERS). Mae costau ychwanegol sy'n ymwneud ag ymddeoliad cynnar, gan gynnwys ymddeoliad cynnar ar sail diswyddo ar gyfer gweithwyr sydd â hawl i fuddion pensiwn yn cael eu bodloni gan y Bwrdd Iechyd ac nid gan Gynllun Pensiwn y GIG.

Mae costau ymddeoliadau yn sgil salwch yn cael eu cwrdd gan Gynllun Pensiwn y GIG ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

### 9.6 Datgeliadau Tâl Teg

#### 9.6.1 Perthnasau Tâl

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr / gweithiwr sy'n ennill y tâl uchaf yn eu sefydliad a thâl y 25fed canradd, canolrifol a 75fed canradd o weithlu'r sefydliad. Blwyddyn ariannol 2021-22 yw'r flwyddyn gyntaf i ddatgeliadau mewn perthynas â'r gymhareb dâl yn y 25fed canradd a'r 75fed canradd fod yn ofynnol.

| | **2021-22** | **2021-22** | **2021-22** | 2020-21 | 2020-21 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswn Tal a Manteision** | **Prif Weithredwr** | **Gweithiwr** | **Cymhareb** | Prif Weithredwr | Gweithiwr | Cymhareb |
| Cymhareb dâl y 25fed canradd | **223** | **23** | **9.67** | 213 | 22 | 9.66 |
| Tâl canolrifol | **223** | **32** | **6.95** | 213 | 31 | 6.94 |
| Cymhareb dâl y 75fed canradd | **223** | **42** | **5.30** | 213 | 40 | 5.31 |
| **Elfen Cyflog o Cyfanswn Tal a Manteision** | | | | | | |
| Cymhareb dâl y 25fed canradd | **223** | **20** | **11.13** | 213 | 19 | 11.18 |
| Tâl canolrifol | **223** | **26** | **8.56** | 213 | 25 | 8.50 |
| Cymhareb dâl y 75fed canradd | **223** | **39** | **5.71** | 213 | 38 | 5.59 |

| **Cyfanswn Tal a Manteision** | **Cyfarwyddwr Ar Y Cyflog Uchaf** | **Gweithiwr** | **Cymhareb** | Cyfarwyddwr Ar Y Cyflog Uchaf | Gweithiwr | Cymhareb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhareb dâl y 25fed canradd | **223** | **23** | **9.67** | 228 | 22 | 10.34 |
| Tâl canolrifol | **223** | **32** | **6.95** | 228 | 31 | 7.43 |
| Cymhareb dâl y 75fed canradd | **223** | **42** | **5.30** | 228 | 40 | 5.69 |
| **Elfen Cyflog o Cyfanswn Tal a Manteision** | | | | | | |
| Cymhareb dâl y 25fed canradd | **223** | **20** | **11.13** | 228 | 19 | 11.97 |
| Tâl canolrifol | **223** | **26** | **8.56** | 228 | 25 | 9.10 |
| Cymhareb dâl y 75fed canradd | **223** | **39** | **5.71** | 228 | 38 | 5.99 |

Yn 2021-22, derbyniodd 16 (2020-21, 10) o weithwyr dâl a oedd yn uwch na thâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

Roedd tâl staff yn amrywio o £18,576 - £365,000 (2020-21, £18,005 - £310,000). Mae ystod yr holl staff yn cynnwys cyfarwyddwyr (gan gynnwys y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf) ac nid yw'n cynnwys buddion pensiwn yr holl weithwyr.

**Crynodeb o'r flwyddyn ariannol**

Ar gyfartaledd, mae'r Berthynas Dâl yn 2021-22, wedi parhau i fod yn gyson i raddau helaeth ac mae mân gynyddiadau a gostyngiadau ar draws y cymarebau tâl.

Gwnaeth tâl canolrifol y gweithlu gynyddu o £1,000 (wedi'i thalgrynnu) yn ystod y flwyddyn. Adlewyrchir hyn gan fod y Cyfarwyddwr â'r tâl uchaf wedi bod â band tâl tebyg yn 2020-21 a 2021-22. Y newid tâl canolraddol ar gyfer 2020-21 hyd at 2021-22 oedd £1,549 (2019-20 hyd at 2020-21 £1,061).

Derbyniodd staff sy'n rhan o gytundeb yr Agenda ar gyfer Newid gynnydd tâl trwy chwyddiant o 3% ar gyfartalog yn ystod 2021-22. Gwnaeth Staff Meddygol dderbyn ddyfarniad tâl o 3%.

### 9.6.2 Newidiadau i Ganrannau

| | **2020-21 hyd at 2021-22** | 2019-20 hyd at 2020-21 |
|---|---|---|
| Newid % ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r a Prif Weithredwr | **%** | **%** |
| Cyflog a lwfansau | **5** | 0 |
| Tâl perfformiad a bonysau | **0** | 0 |
| Newid % ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf | | |
| Cyflog a lwfansau | **(2)** | 0 |
| Tâl perfformiad a bonysau | **0** | 0 |
| Newid % ar gyfartaledd ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r hyn mae'r gweithiwr yn ei dderbyn yn ei gyfanrwydd | | |
| Cyflog a lwfansau | **5** | 3 |
| Tâl perfformiad a bonysau | **0** | 0 |

Nid yw'r cyfrifiadau hyn yn cynnwys Taliad Bonws y GIG y cytunwyd arno yn 2021-21 ac a gafodd ei dalu i'r holl staff cymwys yn ystod y flwyddyn. Y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf yn ystod 2021-22 oedd y Prif Weithredwr. Yn ystod 2020-21, y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf oedd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.

Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd dalu unrhyw dâl perfformiad neu fonysau yn 2021-22.

### 9.7 Costau pensiwn

Mae darpariaeth y ddau Gynllun Pensiwn y GIG yn cwmpasu gweithwyr presennol a chyn-weithwyr. Gellir dod o hyd i fanylion y buddion taladwy a rheolau'r cynlluniau ar wefan Pensiynau'r GIG yn www.nhsbsa.nhs.uk/pensions. Mae'r ddau yn gynlluniau buddion diffiniedig, heb eu hariannu, sy'n darparu ar gyfer cyflogwyr y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Ni chawsant eu cynllunio i gael eu rhedeg mewn modd a fyddai'n galluogi cyrff GIG i ddynodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun sylfaenol. Felly, cyfrifir bob cynllun fel eu bod yn gynlluniau cyfraniadau a ddiffiniwyd: Cymerir y gost i'r corff GIG sy'n cymryd rhan ym mhob cynllun fel cyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun hwn ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

Er mwyn i'r ymrwymiadau buddion a ddiffiniwyd yn y gyfriflen ariannol beidio amrywio'n faterol o'r rhai a benderfynir ar y dyddiad adrodd drwy brisiad actwraidd ffurfiol, mae'r FReM yn gofyn bod "y cyfnod rhwng prisiadau ffurfiol yn bedair blynedd, gydag asesiadau brasamcanu yn y blynyddoedd cyfamser". Bydd amlinelliad o'r rhain yn dilyn:

**a) Prisiad cyfrifyddol**

Ymgymerir â phrisiad o rwymedigaeth cynllun yn flynyddol gan actwari'r cynllun (Adran Actwari'r Llywodraeth ar hyn o bryd) fel ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae hyn yn defnyddio asesiad actwraidd ar gyfer y cyfnod cyfrifo blaenorol, ar y cyd â data aelodaeth ac ariannol a ddiweddarwyd ar gyfer y cyfnod adrodd presennol, ac fe'u derbyniwyd eu bod yn darparu ffigyrau cadarn addas ar gyfer pwrpasau adrodd ariannol. Mae prisiad rhwymedigaeth y cynllun fel ar 31 Mawrth 2022, yn seiliedig ar ddata prisiad fel ar 31 Mawrth 2021, wedi'i ddiweddaru i 31 Mawrth 2022 gyda chrynodeb o ddata aelodaeth a chyfrifyddol crwn. Wrth ymgymryd â'r asesiad actwraidd hwn, mae'r fethodoleg a ragnodwyd yn IAS 19, dehongliadau FReM perthnasol a'r gyfradd disgownt a ragnodwyd gan Drysorlys EM, hefyd wedi'u defnyddio.

Mae asesiad diweddaraf y cynllun wedi'i gynnwys yn adroddiad actiwari'r cynllun, sy'n ffurfio rhan o Gyfrifon Pensiwn Blynyddol y GIG. Gellir gweld y cyfrifon hyn ar wefan Bensiynau'r GIG ac fe'u cyhoeddir yn flynyddol. Gellir cael copïau hefyd o Lyfrfa Ei Mawrhydi.

**b) Prisiad Actwraidd Llawn (cyllid)**

Pwrpas y prisiad hwn yw asesu lefel rhwymedigaeth o ran buddion sy'n daladwy dan y cynllun (gan ystyried profiad demograffig diweddar), ac argymell cyfraddau cyfraniadau taladwy gan weithwyr a chyflogwyr.

Cwblhawyd y prisiad actwraidd diweddaraf ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG ar 31 Mawrth 2016. Mae canlyniadau'r prisiad hwn yn gosod cyfradd cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy o Ebrill 2019 ar 20.6% o dâl pensiynadwy.

Gwnaeth y prisiad cyllid 2016 brofi cost y Cynllun mewn perthynas â'r cap cost cyflogwr a osodwyd yn dilyn prisiad 2012. Yn y lle cyntaf, roedd oedi yn elfen rheoli costau prisiadau 2016, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch buddion aelodau a achoswyd gan y dyfarniad gwahaniaethu o ran yr achos McCloud.

Cyhoeddodd HMT gyfarwyddiadau ar brisio dyddiedig 7 Hydref 2021 (gweler Cyfarwyddiadau Diwygio 2021) a oedd yn amlinellu'r manylion technegol am sut caiff y costau adfer ym mhroses brisio 2016. Yn dilyn y cyfarwyddiadau hyn, mae actwari'r cynllun wedi cwblhau'r elfen reoli costau ar gyfer prisiad 2016 ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG, sy'n dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw newidiadau i fuddion neu gyfraniadau aelodau. Mae adroddiadau prisio 2016 ar gael ar wefan Pensiynau'r GIG ar https://www.nhsbsa.nhs.uk/nhs-pension-scheme-accounts-and-valuation-reports

**c) National Employment Savings Trust (NEST)**

2.9 Mae'r sefydliad yn parhau i gydweithio'n agos ag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wrth iddo barhau â'i ymateb, a chynllunio at y cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn yn sail i hyn, ynghyd a'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol.

## 3 Ein Fframwaith Llywodraethu

3.1 Bwrdd y Cyfarwyddwyr yw'r corff gwneud penderfyniadau allweddol yn y Bwrdd Iechyd, â chyfrifoldeb am sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei amcanion.

3.2 Yn ystod cyfnod 2021/22, newidiodd aelodaeth y Bwrdd, ac ychwanegwyd dau Aelod Annibynnol newydd o'r bwrdd, sef Richard Micklewright a John Gallanders, a ymunodd â'r Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2021. Daeth cyfnod Lyn Meadows fel aelod annibynnol o'r Bwrdd i ben ar 31 Mawrth 2022.

3.3 Yn ychwanegol, ymunodd Dr Nick Lyons â'r Bwrdd fel Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ym mis Awst 2021 ar sail barhaol, gan olynu'r Athro Arpan Guha, a oedd wedi ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Meddygol dros dro hyd at fis Awst 2021.

3.4 Gadawodd Mark Wilkinson y Bwrdd ar ddiwedd Awst 2021.

3.5 Fe wnaeth y Bwrdd groesawu trosiant y sefydliad fel cyfle i adnewyddu ac ailfywiogi ymdrechion, wrth ddatblygu'r Bwrdd Iechyd, â chymorth rhaglen Datblygu Byrddau a gefnogir gan elusen Cronfa'r Brenin.

3.6 Fel rhan o raglen Datblygu'r Bwrdd, hwylusodd Cronfa'r Brenin werthusiad o effeithiolrwydd, trwy ddadansoddiad o'r gwaith a gyflawnwyd mewn cymhariaeth â gwaith a gynlluniwyd, presenoldeb, cyfarfod â chworwm, ac arolygon blynyddol o'r aelodau yn cwmpasu strategaeth, perfformiad, risg a sicrwydd, perfformiad Pwyllgorau a pherfformiad y Bwrdd drwyddo draw. Lluniwyd y broses i gydymffurfio â gofynion o ran arferion gorau megis Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio, Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, canllaw The Healthy NHS Board ac astudiaeth Taking It on Trust, lle bo'n briodol.

3.7 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgorffori gofynion arfer gorau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yng nghylch gorchwyl y pwyllgor a'r seilwaith cysylltiedig.

3.8 Mae'r Bwrdd yn cyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau â chymorth ei gylch busnes blynyddol, sy'n strwythuredig ac â ffocws pendant, ac yn ystyried pennu strategaethau a monitro risgiau allweddol, perfformiad, llywodraethu, a materion yn ymwneud â diwylliant ac ansawdd. Mae'r gwaith o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wedi'i ymgorffori yng nghylch blynyddol y Bwrdd.

3.9 Ceir rhagor o fanylion ynghylch presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod cyfnod 2021/22 yn atodiad 3. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd hyn yn 89% ar gyfartaledd, a chynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd naw gwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

3.10 Yn ystod cyfnod 2021/22, y rhain oedd Pwyllgorau'r Bwrdd:

- Y Pwyllgor Archwilio;
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad;
- Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth;
- Y Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth, hyd at fis Hydref 2021, pan gyfunwyd y pwyllgor hwn â'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
- Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth, o fis Hydref 2021
- Y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth, hyd at fis Hydref 2021;
- Y Pwyllgor Pobl, Partneriaethau ac Iechyd Cyhoeddus, o fis Hydref 2021;
- Pwyllgor y Ddeddf Iechyd Meddwl, hyd at fis Gorffennaf 2021;
- Y Pwyllgor Galluedd a Chydymffurfiaeth Iechyd Meddwl, o fis Gorffennaf 2021;
- Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.

3.11 Mae Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd a'r is-bwyllgorau perthnasol yn cadw golwg ar drefniadau statudol a rheoleiddiol y Bwrdd Iechyd, ac mae eu hawdurdod wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd.

3.12 Ceir Aelodau Annibynnol ym mhob pwyllgor, i wella effeithiolrwydd busnes y Pwyllgorau. Mae Aelodau Annibynnol y Pwyllgorau Ansawdd a Chyllid yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio hefyd.

3.13 Mae Pwyllgorau'r Bwrdd wedi caniatáu i'r Bwrdd ganolbwyntio ar ei fusnes craidd, ac ar yr un pryd, cael sicrwydd rheolaidd trwy gyfrwng adroddiadau ar sicrwydd gan Gadeiryddion Pwyllgorau, yn unol ag arferion gorau.

3.14 Mae effeithiolrwydd y Pwyllgorau yn cael ei wella gan gynlluniau gwaith cynhwysfawr a thrwy sicrhau bod cyfarfodydd y Bwrdd a rhai ei bwyllgorau yn cyd-fynd a'r cynlluniau hynny. Mae hyn yn sicrhau bod meysydd cyfrifoldebau sydd wedi'u dirprwyo gan y Bwrdd i'r Pwyllgorau yn cael eu monitro'n amserol trwy dderbyn adroddiadau sicrwydd gan y Cadeirydd a chofnodion, a cheir dull o uwchgyfeirio materion i sylw'r Bwrdd, pan fo hynny'n briodol. Yn ystod cyfnod 2021/22, fe wnaeth y Bwrdd a'i Bwyllgorau gynnal cydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU mewn perthynas â Chyfansoddiad y Bwrdd, Effeithiolrwydd y Bwrdd, a Rheoli Risg.

3.15 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynorthwyo'r Bwrdd â'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol, trwy gynllun gwaith blynyddol strwythuredig, sy'n cyd-fynd â gofynion y Llawlyfr i Bwyllgorau Archwilio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Prif rôl y Pwyllgor yw ceisio sicrwydd bod systemau llywodraethu a rheoli risg y Bwrdd Iechyd yn addas i'w diben, bod ganddynt adnoddau digonol, a'u bod yn cael ei defnyddio'n effeithiol.

3.16 I gynorthwyo i ddarparu'r sicrwydd hwn, mae cynllun gwaith y Pwyllgor yn cynnwys adolygu prosesau rheoli risg y sefydliad, a'r gofrestr risgiau corfforaethol. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael sicrwydd gan y swyddogaethau Archwilio Mewnol ac Allanol, trwy bennu'r cynllun Archwilio Mewnol blynyddol a monitro'r dull o'i gyflawni yn rheolaidd, a goruchwylio'r gwaith o roi argymhellion archwiliadau ar waith. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn arolygu gwaith pwyllgorau eraill mewn perthynas â'r system o reolaethau mewnol.

3.17 Mae gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio rôl allweddol, sef craffu'n annibynnol ar effeithiolrwydd camau gweithredu rheolwyr o ran lliniaru risgiau, trwy adolygu cofrestr risgiau'r Bwrdd Iechyd yn rheolaidd. Yn ychwanegol, mae rôl y Pwyllgor yn cynnwys:

- Monitro cynnydd rheolwyr o ran gweithredu argymhellion Archwiliadau Mewnol ac Allanol;
- Craffu ar effeithiolrwydd y trefniadau atal twyll, ac olrhain cynnydd o ran cyflawni cynllun gwaith blynyddol yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol;
- Cynnal adolygiadau ffurfiol o'r system o reolaethau mewnol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd, trwy gael sicrwydd ynghylch dulliau o reoli risgiau manwl yn eu tro.

3.18 Yn ystod cyfnod 2021/22, cafodd y Pwyllgor adroddiadau archwilio mewnol yn trafod ystod eang o systemau llywodraethu a rheoli risg y Bwrdd Iechyd.

3.19 Mae hunanasesiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2021/22 wedi ymgorffori safbwyntiau archwilwyr mewnol ac allanol, a rhai'r swyddogaeth atal twyll. Mae canlyniadau cyffredinol yr asesiad yn dangos bod y Pwyllgor yn cyflawni ei gylch gwaith ac yn cyflawni gofynion canllawiau ar arferion gorau, yn unol â'r hyn a nodir yn y Llawlyfr y GIG ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

3.20 Mae rhagor o naratif ynghylch trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd ar gael yn adran 10 y ddogfen hon.

## 4. Sicrhau Ansawdd Data

4.1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei drefniadau mewn perthynas ag ansawdd data i wella ansawdd a manwl gywirdeb data ynghylch amseroedd aros am wasanaethau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw a metrigau eraill. Mae'r Grŵp Trawsnewid Gofal wedi'i Gynllunio yn adolygu ac yn monitro data rhestrau aros byw mewn perthynas â manwl gywirdeb, perfformiad a thargedau. Hefyd, mae gan y Grŵp Trawsnewid Gofal wedi'i Gynllunio system i ddilys ac archwilio ei ddata ynghylch amseroedd aros am wasanaethau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw yn wythnosol ac yn fisol, a chynhelir hapwiriadau ar arbenigeddau i sicrhau ansawdd y broses dilysu. Adolygwyd y trefniadau hyn gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod y 2021/22, a rhoddwyd barn archwilio 'sicrwydd cyfyngedig'. Mae cynlluniau gweithredu ar waith i fynd i'r afael yn ddi-oed â'r bylchau a nodwyd.

4.2 Caiff y risgiau mewn perthynas ag ansawdd a manwl gywirdeb y data hyn ynghylch amseroedd amser eu harchwilio'n wythnosol i sicrhau y caiff gweithgarwch ei gofnodi'n gywir ac yn brydlon. Os bydd anawsterau'n codi, caiff camau unioni eu cytuno, eu gweithredu a'u monitro'n ddi-oed.

4.3 Bydd y gwaith blynyddol o ddilysu rhestrau aros hefyd yn digwydd trwy gyfrwng archwilio mewnol ac ystod o adroddiadau ar ansawdd data byw sy'n cael eu datblygu i fonitro ansawdd data dangosyddion perfformiad allweddol yn wythnosol ac yn fisol.

## 5. Diben y System o Reolaethau Mewnol

5.1 Lluniwyd y system o reolaethau mewnol i reoli risgiau ar lefel resymol yn hytrach na diddymu pob risg. Felly, gall gynnig sicrwydd rhesymol ynghylch effeithiolrwydd, nid sicrwydd llwyr.

5.2 Mae'r system o reolaethau mewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i llunio i nodi a blaenoriaethu risgiau a allai atal cyflawni polisïau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system o reolaethau mewnol wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

## 6. Asesu Risgiau

6.1 Mae gan y sefydliad broses i nodi ac asesu risgiau.

6.2 Caiff y gofrestr risgiau ei llenwi ar lefel leol/weithredol ac ar lefel gorfforaethol. Mae'r gofrestr risgiau yn hysbysu'r broses cynllunio busnes ac mae'n ystyriaeth allweddol o safbwynt rheoli gweithrediadau cyffredinol ar lefelau unedau gwasanaethau, unedau busnes clinigol, a chorfforaethol.

6.3 Caiff risgiau strategol eu nodi a'u hasesu mewn perthynas â'u bygythiad i'r gallu i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Caiff risgiau 'o'r gwaelod i fyny' eu nodi trwy gyfrwng staff lleol yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau ac asesiadau risg, a chaiff risgiau sefydliadol eu nodi trwy gyfrwng cynlluniau busnes, prosesau ynghylch Digwyddiadau Difrifol, a phrosesau yn ymwneud â Phobl, megis recriwtio. Caiff risgiau 'o'r brig i lawr' eu hasesu trwy ddatblygu ac adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, cynlluniau busnes strategol, a rheoli contractau.

6.4 Sicrhawyd cynnydd yn ystod y flwyddyn i liniaru risgiau allweddol yn ymwneud â phrif amcanion y Bwrdd Iechyd. Ar sail sgôr risgiau anodd cael gwared arnynt, dyma oedd y prif risgiau sylweddol i'r sefydliad a oedd yn weddill yng nghyfnod 2021/22 ac a oedd yn effeithio'n sylweddol ar y system o reolaethau mewnol:

**6.4.1 BAF 21-09 – Atal a Rheoli Heintiau: sgôr risg bresennol: 20**

6.4.1.1 Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn i liniaru'r risg hon, mewn perthynas â chryfhau'r seilwaith i gynorthwyo i atal heintiau.

6.4.1.2 Mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys y lliniaru a oedd yn ymwneud â chyflwyno awyru priodol, ac mae bylchau o 3.6m rhwng gwelyau wedi cael eu cyflawni gan yr Adran Ystadau fel rhan o'r rhaglen Gofal Glân Diogel. Mae sicrwydd ynghylch gweddill y lliniariadau yn dal i gael ei fonitro trwy gyfrwng y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, a gwneir hynny'n rheolaidd fel rhan o'r cylch busnes.

**6.4.2 BAF 21-10 – Gwrando a dysgu: sgôr risg bresennol: 20**

6.4.2.1 Mae camau gweithredu yn ymwneud â hyfforddiant wedi cael eu gohirio gan gydnabod y pwysau presennol a wynebir yn ystod cyfnod y gaeaf a'r cyfarwyddyd i flaenoriaethu gwasanaethau clinigol hanfodol yn ystod y pandemig.

6.4.2.2 Fe wnaeth Archwilwyr Mewnol adolygu trefniadau'r sefydliad ynghylch gwrando a dysgu a mynegi barn archwilio sicrwydd rhesymol yn ystod cyfnod 2021/22.

**6.4.3 BAF 21-12 – Gwasanaethau Diogelwch a**
**BAF 21-13 – Iechyd a Diogelwch: sgôr risg bresennol: 20**

6.4.3.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu lliniariadau allweddol i fynd i'r afael â'r risgiau hyn, a chafodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ddiweddariadau manwl o ran sicrwydd yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys diweddariadau manwl ynghylch Sicrwydd Iechyd a Diogelwch. Roedd hynny'n cynnwys diweddariad ynghylch cynnydd polisïau (megis y Polisi Rheoli Trais ac Ymosodedd) ac am fesurau manwl i sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr unigol.

6.4.3.2 Yn ychwanegol, mae cynlluniau yn eu lle i unioni bylchau o ran cydymffurfiaeth a nodwyd gan yr Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Mae manylion y rhain ar gael yn adran 19 y ddogfen hon.

6.4.3.3 Sefydlodd y Bwrdd Iechyd nifer o reolaethau, yn cynnwys gweithio tuag at sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ynghylch Dyletswydd i Amddiffyn (Cyfraith Martyn) erbyn 31ain Mawrth 2022, a Pholisi Diogelwch sy'n cynnwys lliniariadau priodol.

**6.4.4 BAF 21-03 – Gwasanaeth iechyd cynaliadwy Gofal Sylfaenol: sgôr risg bresennol: 20**

6.4.4.1 Mae cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â rhai o'r lliniariadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r risg hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynlluniau braenaru Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (cafodd yr achos busnes ei gymeradwyo yn Nhachwedd 2021). Mae gwaith ar y gweill i fwrw ymlaen â gweithredu'r uned Hyfforddiant Deintyddol ym Mangor. Mae'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl a Phoblogaeth yn dal i oruchwylio'r lliniariadau sy'n ymwneud â'r risg hon.

### 6.4.5 BAF 21-04 – Mynediad Prydlon i Ofal wedi'i Drefnu: sgôr risg bresennol: 20

6.4.5.1 Mae dilysu â llaw yn parhau ar draws y tri safle ynghyd â'r gwaith o gwblhau'r argymhellion sy'n deillio o'r Archwiliad yn ymwneud â Rheoli Rhestrau Aros. Mae'r risg hon yn dal i gael ei monitro gan y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth.

### 6.4.6 BAF 21-16 – Ystadau ac Asedau Digidol: sgôr risg bresennol: 20

6.4.6.1 Yn dilyn ei lansio yn 2021, mae'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Ddigidol yn parhau, ac mae sicrwydd manwl yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl a Phoblogaeth, trwy gyfrwng y dangosfwrdd digidol.

### 6.4.7 BAF 21-01 – Gofal Brys: sgôr risg bresennol: 20

6.4.7.1 Fe wnaeth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad gymeradwyo cynyddu sgôr bresennol y risg hon o 16 i 20 yn Nhachwedd 2021, yn sgil cynnydd yn y pwysa ar ofal heb ei drefnu.

6.4.7.2 Mae'r gwaith o weithredu'r cynllun gwella Gofal Heb ei Drefnu yn parhau, yn cynnwys gwaith gwella sy'n mynd rhagddo mewn wardiau yn canolbwyntio'n benodol ar wella llif cleifion a rhyddhau'r brydlon.

6.4.7.3 Mae lliniariadau allweddol mewn perthynas â'r risg hon yn dal i gael eu monitro gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, a rhoddir adroddiadau deufisol ychwanegol i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth at ddibenion rhoi sicrwydd ynghylch datblygiadau strategol ym maes gofal heb ei drefnu.

## 7. Y Fframwaith Risgiau a Rheolaethau

7.1 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses i nodi, asesu a rheoli risgiau. Mae'n ddull systematig sy'n asesu canlyniadau a thebygolrwydd pob digwyddiad risg a lliniariadau cysylltiedig, ac mae'n ein galluogi i nodi risgiau a allai fod yn annerbyniol i'r sefydliad.

7.2 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu dull dynamig, ystwyth, cynhwysfawr a strwythuredig i nodi, asesu, rheoleiddio a lliniaru risgiau a'u rheoli'n effeithiol, er mwyn cyflawni ei amcanion gweithredol a strategol. Caiff dull y Bwrdd Iechyd o reoli risgiau ei hysbysu gan fframwaith a strwythur rheoli risgiau cryf, yn cynnwys prosesau a systemau sydd wedi'u hysbrydoli gan arferion gorau ac ISO 3100:2018 i gynorthwyo staff i sganio'r gorwel yn rheolaidd i ganfod risgiau sy'n dod i'r amlwg, eu lliniaru a'u rheoli'n briodol. Cytunodd Bwrdd y Bwrdd Iechyd ar Strategaeth Rheoli Risg newydd ar gyfer y sefydliad, a lansiwyd hynny ar 1af Hydref 2020.

7.3 Yn ystod cyfnod 2021/22, parhaodd y Grŵp Rheoli Risgiau i gryfhau gweithgareddau ei fusnes craidd er mwyn sicrhau cyngor gwell, sicrwydd a chynnig argymhellion effeithiol i Dîm y Gweithredwyr ynghylch uwchgyfeirio risgiau a'u rheoli'n briodol. Mae'r Grŵp hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd systemau, prosesau a threfniadau llywodraethu cryf fel y gellir hwyluso lliniaru a rheoli effeithiol ac ymgorffori arferion gorau o ran rheoli risgiau ar draws y sefydliad. Yn Hydref 2021, y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yw cadeirydd y grŵp hwn. Cyn hynny, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth/y Dirprwy Brif Weithredwr oedd yn gwneud y gwaith hwn.

7.4 Mae'r Strategaeth Rheoli Risgiau yn nodi fframwaith i danategu dull cyffredinol y Bwrdd Iechyd a'i weledigaeth a'i drefniadau o ran rheoli ar bob lefel ar draws ei holl Wasanaethau, ei Adrannau, a'i Uwch Adrannau. Mae hefyd yn hysbysu'r dulliau priodol o reoli risgiau sy'n gysylltiedig â Covid-19, gan sicrhau y caiff risgiau eu huwchgyfeirio a'u dad-ddwysáu yn brydlon ac ar adegau priodol. Lluniwyd canllawiau symlach ar reoli risgiau'r ymateb i COVID-19, er mwyn hwyluso'r broses o ddynodi risgiau COVID-19, eu hasesu, eu lliniaru, eu rheoli a'u huwchgyfeirio/dad-ddwysáu yn brydlon. Roedd y canllaw hwn yn cydymffurfio â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (fel y'i diwygiwyd) yn ogystal â chanllawiau arfer da ar gyfer ymatebwyr Categori 1 yn unigol ac ar y cyd fel rhan o "Gymuned" Cydnerthedd Lleol i fabwysiadu dull rhagweithiol, dynamig ac ar sail risg o reoli risgiau Covid-19 a rhai cysylltiedig.

7.5 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos ag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wrth iddo barhau â'i ymateb, a chynllunio at y cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli risgiau integredig a chadarn yn sail i hyn, ynghyd â'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei amcanion strategol.

7.6 Mae'r fframwaith risgiau a rheolaethau yn ymgorffori ystod o systemau cefnogi a pholisïau cysylltiedig sy'n darparu dull strwythuredig a chyson o reoli risg.

7.7 Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill:

- Strategaeth a Pholisi Rheoli Risgiau;
- Safonau Ymddygiad Busnes;
- Rheoli Rhestrau Aros;
- Polisi a Gweithdrefn Mynegi Pryderon (Chwythu'r Chwiban);
- Polisi Rheoli Digwyddiadau a Digwyddiadau Difrifol;
- Polisi Datrys Cwynion a Phryderon;
- Polisi Rheoli Hawliadau;
- Polisi Bod yn Agored;
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Gorchmynion Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo.

7.8 Yn ystod cyfnod 2021/22, defnyddiwyd y Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo Neilltuol yn y modd a oedd yn cydnabod, mewn cyfnod digynsail, fod cyfyngiadau ar allu Byrddau a Phwyllgorau i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb lle nad yw hyn yn angenrheidiol ac y gellir ei gyflawni trwy ddulliau eraill. Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 mae'n ofynnol i'r sefydliad gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus. O ganlyniad i'r risg i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r pandemig bu cyfyngiadau ar gynulliadau cyhoeddus ac felly ni fu'n bosibl caniatáu i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn bersonol am gyfnod y cyfnod ariannol. Fel rhan o ymdrechion i gynnal busnes mewn modd didwyll a thryloyw yn ystod y cyfnod hwn, cymerwyd y camau canlynol:

- Defnydd o dechnoleg er mwyn cynnal cyfarfodydd rhithwir, gan gynnwys darparu cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg. Gan gychwyn ym mis Mai, cafodd cyfarfodydd y Bwrdd eu recordio a sicrhawyd eu bod ar gael i'r cyhoedd ar-lein, â chyfarfodydd dilynol yn cael eu ffrydio'n fyw;
- Cyhoeddi agendâu a phapurau mor bell ymlaen llaw â phosibl gan gyfeirio at y Rheolau Sefydlog;
- Cynnydd yn y defnydd o adrodd llafar a gofnodir yng nghofnodion cyfarfodydd;
- Cyhoeddi set o gofnodion o'r cyfarfod (drafft a gymeradwyir gan y Cadeirydd) ar y wefan gyhoeddus cyn gynted â phosibl – yn ddelfrydol o fewn 3 diwrnod gwaith.

7.9 Gwnaethpwyd asesiadau ynglŷn â phenderfyniadau y tybid eu bod yn dyngedfennol o ran amser, na ellid eu gohirio hyd nes y bydd modd caniatáu i aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd. Yn ogystal, bu angen mwy o ddefnydd o gamau gweithredu'r Cadeirydd (a gefnogir gan brosesau gwell fel y'u nodir yn y papurau ynghylch cynnal llywodraethu da) er mwyn osgoi oedi i fusnes hanfodol. Er bod sefyllfa COVID-19 wedi gwella'n fawr erbyn adeg cyhoeddi hwn, yn bennaf oherwydd llwyddiant y rhaglen frechu, ar adeg ysgrifennu hwn, roedd yn dal yn anhysbys pryd y bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb y Bwrdd yn ailddechrau. Bydd angen adolygu hyn yn rheolaidd.

7.10 Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb cyffredinol am reoli risgiau.

7.119 Fel Swyddog Atebol, rwy'n sicrhau y caiff adnoddau digonol eu neilltuo ar gyfer y gwaith o reoli risgiau ac mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn fy nghefnogi i ymgymryd â'r rôl hon.

7.12 Ar lefel weithredol, caiff risgiau eu cofnodi ar system rheoli risgiau Datix a'u cynnal ar lefel cofrestrau risgiau lleol a/neu gorfforaethol, yn dibynnu ar sgôr y risg.

7.13 Mae risgiau lleol yn cael eu monitro a'u lliniaru mewn cofrestrau risgiau lleol a chofrestrau risgiau gwasanaethau, ac maent yn cael eu monitro ar lefel Cyfarwyddwyr Gweithredol os oes ganddynt sgôr o 15 neu ragor.

7.14 Caiff y gofrestr risgiau corfforaethol ei hadolygu gan bob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn unigol er mwyn goruchwylio eu risgiau priodol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y broses yn annibynnol er mwyn cynnal y gofrestr risgiau yn effeithiol.

7.15 Os bydd sgorau risgiau yn ddigon i effeithio'n sylweddol, fwy na thebyg, ar y gallu i gyflawni amcanion strategol, byddant yn cael eu hychwanegu at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Iechyd, sy'n cael ei adolygu bob chwarter gan y Bwrdd, a gan Bwyllgorau'r Bwrdd fel un o'u heitemau sefydlog.

7.16 Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn gwneud cyfraniadau allweddol at gan graffu ar effeithiolrwydd camau gweithredu rheolwyr i liniaru risgiau, trwy adolygu cofrestr risgiau'r Bwrdd Iechyd yn rheolaidd, yn ogystal â chofrestrau risgiau swyddogaethau corfforaethol ac unedau gwasanaethau, ar sail dreigl.

7.17 Mae pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn gyfrifol am elfennau o'r system rheoli risgiau, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnig sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol y system, gan ystyried yr adolygiad blynyddol a wneir gan y Swyddogaeth Archwilio Mewnol.

7.18 Mae Strategaeth Rheoli Risgiau'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r fframwaith i barhau i ddatblygu prosesau rheoli risgiau, ar sail yr egwyddorion a'r cynlluniau sy'n gysylltiedig â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Iechyd, y Gofrestr Risgiau, gofynion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a blaenoriaethau cenedlaethol.

7.19 Mae naratif manwl ar atal risgiau rhag codi, ac mesurau atal twyll wedi'i ymgorffori yn adran 15 (Trefniadau Atal Twyll a Gwrth-lwgrwobrwyo) o'r ddogfen hon.

## 8. Elfennau o'r Fframwaith Sicrwydd

8.1 Mae elfennau allweddol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cynnwys:

- Amcanion sefydliadol y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd a nodi'r prif risgiau a allai fygwth cyflawni'r amcanion hyn;
- Nodi cynllun rheolaethau allweddol a fwriedir i reoli'r prif risgiau hyn;
- Gosod y trefniadau er mwyn cael sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau allweddol ar draws pob maes o brif risgiau;
- Nodi sicrwydd a meysydd lle mae bylchau mewn rheolaethau a/neu sicrwydd;
- Rhoi cynlluniau ar waith i gymryd camau cywiro lle mae bylchau wedi'u nodi mewn perthynas â phrif risgiau;
- Cynnal trefniadau rheoli risg deinamig gan gynnwys cofrestr risg â sail dda.

8.2 Yn seiliedig ar fy asesiad o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, (a gan ystyried canfyddiadau adolygiad rheoli risg yr adolygiad archwilio mewnol 2021/22) rwyf wedi nodi tair blaenoriaeth allweddol i'w rhoi ar waith yn 2022/23 er mwyn gwella'r trefniadau rheolaeth mewnol.

8.3 Bydd gweithredu'r camau hyn yn cryfhau amlygrwydd y Bwrdd o liniaru risgiau sylweddol ymhellach

8.4 Y blaenoriaethau hyn yw:

- Craffu ac adolygu sicrwydd ynghylch lliniaru risg gan y Bwrdd neu bwyllgorau perthnasol, lle bo'n briodol;
- Cryfhau'r broses o gyflawni graddfeydd risg targed, fel y nodir yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- Alinio cylch busnes y Bwrdd a Phwyllgorau â risgiau BAF sylweddol i sicrhau adolygiad amserol ac effeithiol o risgiau.

8.5 Bydd y Bwrdd yn goruchwylio gweithrediad y blaenoriaethau hyn, gan dderbyn sicrwydd o waith Pwyllgorau Bwrdd perthnasol.

## 9. Archwilio Mewnol

9.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu prosesau ar gyfer rheoli risgiau sy'n effeithio ar ansawdd a diogelwch gwybodaeth, staff a chleifion.

9.2 Yn 2021/22, cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiadau sefydliadol o'r meysydd a ganlyn gyda graddfeydd sicrwydd wedi'u crynhoi isod:

| Teitl yr Adolygiad | Graddfa Sicrwydd |
|---|---|
| Systemau a Ariennir gan Gyfalaf | Sylweddol |
| Cydymffurfiaeth Statudol – Rheoli Asbestos | Rhesymol |
| Cynnal Safonau Proffesiynol yng Nghymru | Rhesymol |
| Trefniadau Trawsffiniol Mamolaeth | Rhesymol |
| Caffael: Rheoli Contractau a Hepgoriadau Tendr Unigol | Rhesymol |
| Ymyriad wedi'i Dargedu | Rhesymol |
| Dysgu Gwersi | Rhesymol |
| Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol (VERS) | Rhesymol |
| Rheolaeth Ariannol, Adrodd a Rheolaeth Gyllidebol | Rhesymol |
| Cyfarwyddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS). | Rhesymol |
| Gwaith clwstwr - Llywodraethu | Rhesymol |
| Recriwtio – Cyflogi meddygon locwm meddygol | Rhesymol |
| Rheoli Gwastraff | Rhesymol |
| Asesiadau Effaith | Rhesymol |
| Rheoli Risg | Rhesymol |
| Rheoli'r Sefydliad: Rheoli Ymadawyr | Cyfyngedig |
| Safonau Ymddygiad Busnes | Cyfyngedig |
| Llywodraethu Byrddau Gwasanaethau Integredig | Cyfyngedig |
| Rheoli Rhestrau Aros: Adolygiad o Ymarfer Dilysu Cleifion a ddechreuodd Llywodraeth Cymru, Haenu Risg a thynnu cleifion oddi ar restrau | Cyfyngedig |
| Rheoli rhestr ddyletswyddau nyrsio: Cyflwyno e-daflenni amser ar gyfer staff yr Asiantaeth | Cyfyngedig |
| Archwiliad Clinigol | Cyfyngedig |
| Trefniadau ar-alwad | Cyfyngedig |
| Cynlluniau Parhad Busnes | Cyfyngedig |
| Adolygiad Anfoneb Diogelwch | Sicrwydd yn Amherthnasol |
| Adroddiadau allanol Ockenden a HASCAS: Datblygiad argymhellion ac adrodd | Sicrwydd yn Amherthnasol |
| Uwch Adran Gofal Eilaidd - Ysbyty Glan Clwyd | Sicrwydd yn Amherthnasol |
| Dilyniant - Cynnydd yn erbyn argymhellion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC): Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Sicrwydd yn Amherthnasol |
| Ysbytai Dros Dro: Parhau ag argymhellion KPMG | Sicrwydd yn Amherthnasol |
| Adroddiadau allanol Ockenden a HASCAS: Cynnydd argymhellion ac adrodd – Gweithlu | Sicrwydd yn Amherthnasol |
| Digomisiynu Ysbytai Enfys Dros Dro | Sicrwydd yn Amherthnasol |

9.3 Yn ystod y flwyddyn, cytunwyd ar gynlluniau gweithredu gyda'r Archwilwyr Mewnol ar gyfer pob archwiliad, gyda ffocws penodol ar ganlyniadau archwilio sicrwydd cyfyngedig.

9.4 Fel rhan o'm hadolygiad, rwyf hefyd yn dibynnu ar farn annibynnol Pennaeth Archwilio Mewnol 2021/22 ar sicrwydd cyfyngedig, sy'n cadarnhau'r datgeliad hwn. Mae'r farn yn seiliedig ar adolygiad o'r systemau a'r prosesau sy'n sail i'r Fframwaith Sicrwydd a'r cynlluniau archwilio mewnol ar sail risg yr adroddwyd arnynt yn ystod y cyfnod 2018/19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi camau gweithredu ar waith sy'n deillio o adolygiadau archwilio mewnol ac yn rhoi sicrwydd ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio.

9.5 Ar gyfer 2021/22, mae Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol fel a ganlyn:

*"Mae sgôp fy marn wedi cael ei gyfyngu i'r meysydd a archwilwyd yn y cynllun archwilio'n seiliedig ar risg y cytunwyd arno gydag uwch reolwyr ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio. Dylid dehongli asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a chael ei weld fel gyrrwr mewnol ar gyfer gwelliant parhaus. Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad wedi'i nodi isod.*

| | | |
|---|---|---|
| ***Sicrwydd cyfyngedig*** | | *Mae angen sylw rheolwyr ar faterion mwy arwyddocaol*<br><br>***Effaith gymedrol*** *ar amlygiad risg weddilliol nes ei fod wedi'i ddatrys.* |

*"Bydd angen i'r farn hon gael ei hadlewyrchu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ynghyd â chadarnhad o'r camau a gynllunnir i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Dylid canolbwyntio'n benodol ar yr ymateb y cytunwyd arno i unrhyw farn Sicrwydd Cyfyngedig a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ac arwyddocâd yr argymhellion a wnaed (y cafwyd wyth archwiliad yn 2021/22)."*

## 10. Llywodraethu Ansawdd ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

10.1 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith llywodraethu ansawdd sy'n galluogi monitro risgiau i ansawdd gwasanaethau, drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer monitro, lle mae'r risgiau hyn yn arwyddocaol i gyflawni amcanion strategol y sefydliad.

10.2 Mae systemau a rheolaethau ar waith i sicrhau bod Datganiadau Ansawdd yn cael eu cyflwyno (pan fo'n berthnasol), ac mae'r dystiolaeth gysylltiedig hefyd yn llywio fy asesiad o effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol, mewn perthynas â risgiau i ansawdd.

10.3 Mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn darparu dull strwythuredig o fonitro'r modd y cyflawnir rhwymedigaethau cytundebol a chenedlaethol y Bwrdd Iechyd, a'r mesurau lliniaru cysylltiedig ar gyfer risgiau i ddiogelwch.

10.4 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygwr a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn adolygu ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru, ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd yn erbyn ystod o safonau, polisïau a rheoliadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofal iechyd, gan amlygu meysydd i'w gwella. Mae AGIC hefyd yn monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac yn adolygu'r gwasanaeth Iechyd Meddwl i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael gofal o ansawdd da mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Mae Arolygiaeth Carchardai EM hefyd yn gofyn i AGIC ddarparu adolygiad clinigol o ofal iechyd carcharor os bydd yn marw yn y ddalfa.

10.5 Mae systemau a rheolaethau ar waith i sicrhau bod safonau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn parhau i gael eu hymgorffori yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau â'i berthynas waith positif ag AGIC drwy gyfarfodydd ymgysylltu misol ag arweinydd y berthynas dynodedig a thrwy ddeialog barhaus rheolaidd.

10.6 Oherwydd y pandemig COVID-19 parhaus, parhaodd AGIC i ddefnyddio model tair haen o sicrwydd ac arolygu yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, sy'n lleihau'r ddibyniaeth ar weithgarwch arolygu ar y safle fel y prif ddull o gael sicrwydd:

- **Haen 1** - bydd gweithgaredd yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl oddi ar y safle ac yn cael ei ddefnyddio at nifer o ddibenion ond, ar hyn o bryd, yn bennaf lle na ellir datrys problemau trwy eu proses pryderon safonol a lle mae'r risg o gynnal arolygiad ar y safle yn parhau i fod yn uchel;
- **Bydd Haen 2** yn cyflwyno cyfuniad o weithgaredd oddi ar y safle a gweithgaredd cyfyngedig ar y safle, tra bydd
- **Haen 3** yn cynrychioli arolygiad ar y safle mewn modd mwy traddodiadol.

10.7 Fel y gellid disgwyl, cynhaliwyd mwyafrif yr arolygiadau yn y cyfnod Ebrill 2021 - Mawrth 2022 oddi ar y safle drwy broses a nodwyd fel 'Haen 1 – Gwiriad Ansawdd'. Roedd y broses hon yn cynnwys llenwi ffurflen hunanasesu a galwad gyda rheolwr lleol/arweinydd yr ardal a oedd yn cael ei harolygu. Mae'r dull yn ceisio sicrwydd ynghylch pedwar maes gwasanaeth allweddol. Mae'r rhain yn drefniadau ar gyfer delio â COVID-19; Amgylchedd; atal a rheoli heintiau (IPC); a llywodraethu.

**Crynodeb o Arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Ebrill 2021-Mawrth 2022**

**10.8 Adolygiad o Ddiogelwch, Preifatrwydd, Urddas a Phrofiad Cleifion Wrth Aros mewn Ambiwlansys yn ystod Oedi wrth Drosglwyddo, Ebrill 2021**

10.8.1 Fel rhan o'u rhaglen flynyddol, cynhaliodd AGIC adolygiad o bell o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST). Ffocws yr adolygiad oedd ystyried effaith arosiadau ambiwlans y tu allan i Adrannau Achosion Brys (ED) ar ddiogelwch, preifatrwydd, urddas a phrofiad cleifion yn gyffredinol. Cyfrannodd y Bwrdd Iechyd at yr adolygiad cenedlaethol hwn. O ganlyniad i'w canfyddiadau o'r adolygiad hwn, gwnaeth AGIC nifer o argymhellion cenedlaethol ynghylch llif cleifion drwy'r adrannau achosion brys, uwchgyfeirio a throsglwyddo staff a gwella profiad cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu lleol yn rhagweithiol.

**10.9 Adolygiad Cenedlaethol o Atal Argyfwng Iechyd Meddwl yn y Gymuned, Ebrill 2021**

10.9.1 Cynhaliodd AGIC adolygiad cenedlaethol o bell o Atal Argyfwng Iechyd Meddwl yn y Gymuned. Ffocws yr adolygiad hwn oedd nodi sut mae pobl sy'n wynebu risg, neu sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl, yn cael eu cefnogi yn y gymuned, a sut y gellir cael mynediad at gymorth amserol.

10.9.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, ymgysylltodd AGIC â gweithwyr proffesiynol yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol a Gofal Sylfaenol ynghyd ag arolwg cyhoeddus cenedlaethol i gasglu barn pobl. O ganlyniad i'w canfyddiadau, gwnaeth AGIC nifer o argymhellion ynghylch cael mynediad at wasanaethau a derbyn gofal amserol. Ar adeg ysgrifennu hwn, cyflwynwyd cynllun gweithredu i'r Grŵp Diogelwch Cleifion ac Ansawdd ym mis Mai 2022.

**10.10 Ward Mesen Fach, Ysbyty Bryn y Neuadd, Mai 2021**

10.10.1 Cynhaliodd AGIC archwiliad ansawdd o bell ar ward Mesen Fach, Ysbyty Bryn y Neuadd. Mae Mesen Fach yn darparu asesiad a thriniaeth, a gwasanaethau cymorth therapiwtig ar gyfer hyd at naw claf ag anableddau dysgu.

10.10.2 Nododd y gwiriad ansawdd un argymhelliad ar gyfer gwella ynghylch y datblygiad o ran cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion a dderbynnir am arhosiad. Ar y cyfan, canfu AGIC dystiolaeth o dîm staff ymroddedig a oedd yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion. Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth gref a chefnogol a chanfu AGIC fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

**10.11 Arolygiad Cydymffurfiaeth IR(ME)R o'r Adran Delweddu Diagnostig – Ysbyty Maelor Wrecsam, Hydref 2021**

10.11.1 Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth gwasanaethau â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017. Cwblhaodd AGIC arolygiad IR (ME)R wedi'i gyhoeddi o'r Adran Delweddu Diagnostig a nododd feysydd i'w gwella o ran llywodraethu ac arweinyddiaeth, gan ddarparu gofal diogel ac effeithiol a phrosesau gweithlu.

**10.12 Uned Hergest, Ysbyty Gwynedd, Medi 2021**

10.12.1 Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ddau arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Ysbyty Gwynedd, Uned Hergest o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Y cyntaf yn dechrau gyda'r nos ar 6 Medi 2021, a'r ail yn dechrau gyda'r nos ar 20 Medi 2021. Yn ystod yr arolygiad a ddechreuodd ar 6 Medi, nododd AGIC nifer o feysydd a oedd yn peri pryder, yn enwedig o ran Atal a Rheoli Heintiau, a Llywodraethu ac Arwain. Oherwydd pryderon am ddiogelwch cleifion, cyhoeddodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith, yn ysgrifennu at y gwasanaeth yn syth ar ôl yr arolygiad gyda'u canfyddiadau yn gofyn am gamau cywiro brys. Aethant yn ôl wedyn i gynnal arolygiad dirybudd pellach ar 20-22 Medi i sicrhau bod Uned Hergest yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Ar y cyfan, canfuwyd tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau rhoi systemau a phrosesau ar waith i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd yn y camau sicrwydd uniongyrchol a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, nodwyd gwelliannau pellach yn yr arolygiad ar 20-22 Medi 2021.

10.12.2 Canfu'r arolygiad dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymroddedig i ddarparu safon uchel o ofal i gleifion a thrin cleifion ag urddas a pharch. O'u canfyddiadau roedd angen gwelliannau o ran mesurau atal heintiau, llywodraethu ac arweinyddiaeth, a diogelwch cleifion, a chyhoeddwyd llythyr sicrwydd ar unwaith. Codwyd materion staffio hefyd yn ystod yr arolygiad ynghyd â materion cyfathrebu ac ymgysylltu. Roedd angen gwelliannau hefyd o ran cwblhau cynlluniau gofal cleifion a rotas staff.

10.12.3 Mae'r adroddiad cyhoeddedig wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad lle mae diweddariadau wedi'u monitro mewn perthynas â chynlluniau gweithredu.

**10.13 Tan Y Coed, Bryn Y Neuadd, 19 Hydref 2021**

10.13.1 Cynhaliodd AGIC arolygiad dirybudd o Tan y Coed ar 19-20 Hydref 2021. Mae Tan y Coed yn darparu gwasanaeth adsefydlu i bobl ag anableddau dysgu. Canfu AGIC dystiolaeth fod y gwasanaeth yn gyffredinol yn darparu profiad positif i gleifion, gyda lefel dda o ofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i gleifion. Canfu AGIC dystiolaeth o dîm rheoli sydd wedi'i hen sefydlu, a oedd yn cael ei gefnogi gan weithlu ymroddedig a threfniadau llywodraethu lleol cadarn. Nododd yr arolygiad nifer fach o welliannau i gryfhau'r model gwasanaeth a hyrwyddo profiad o ansawdd i gleifion.

**10.14 Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion, Rhagfyr 2021**

10.14.1 Fel rhan o'u rhaglen adolygu flynyddol, mae AGIC yn cynnal adolygiad cenedlaethol o Lif Cleifion. Ffocws yr adolygiad yw cael gwell dealltwriaeth o'r heriau y mae gwasanaethau gofal iechyd yn eu hwynebu o ran sut mae cleifion yn llifo drwy systemau gofal iechyd, a phrofi a yw'r trefniadau ar gyfer llif cleifion yn gadarn. Er mwyn asesu effaith heriau llif cleifion ar ansawdd a diogelwch gofal i gleifion sy'n aros am asesiad a thriniaeth, penderfynodd AGIC ganolbwyntio ein hadolygiad ar gleifion sy'n teithio ar hyd y llwybr strôc. Bydd hyn yn cynnwys y pwynt o ofyn am ambiwlans (neu rywun sy'n hunan-gyflwyno mewn Adran Achosion Brys), hyd at eu rhyddhau o'r ysbyty neu drosglwyddo gofal i wasanaethau eraill. Yn dilyn cyflwyno hunanasesiad a diweddariad ar brosesau rhyddhau (yn erbyn argymhellion cenedlaethol) bydd AGIC yn cynnal ymweliadau safle, a fydd yn canolbwyntio ar astudiaethau achos o bobl sy'n teithio ar hyd y llwybr strôc. Mae AGIC wedi cadarnhau y bydd yn ymweld ag YGC ar 9 – 11 Awst 2022.

10.14.2 Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad ar gael ar wefan AGIC.

**10.15 Adran Achosion Brys, Ysbyty Gwynedd, Chwefror 2022**

10.15.1 Cynhaliodd AGIC wiriad ansawdd o bell dau gam o'r adran ED, a oedd yn canolbwyntio ar atal heintiau, yr amgylchedd, llywodraethu a staffio. Canfu'r arolygiad fod angen sicrwydd ar unwaith o ran mynediad amserol, cynllunio i ryddhau cleifion a chadw cofnodion, a nodwyd gwelliannau sydd eu hangen i gleifion gael mynediad at gyfleusterau yn yr adran a goruchwyliaeth staff o'r mannau aros. Cyflwynwyd a derbyniwyd Cynllun Gwella Sicrwydd Ar Unwaith gan AGIC; rydym ar hyn o bryd yn aros i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi.

**10.16 Ward Foelas, Bryn y Neuadd, Chwefror 2022**

10.16.1 Cynhaliodd AGIC archwiliad ansawdd o bell ar Ward Foelas, sy'n ward anabledd dysgu wyth gwely. Roedd ffocws y gwiriad ansawdd ar atal heintiau, yr amgylchedd, llywodraethu a staffio a'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Canfu'r arolygiad dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion. Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth gref a chefnogol a chanfu AGIC fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Nododd y gwiriad ansawdd un argymhelliad ar gyfer gwella ynghylch yr asesiadau risg ar gyfer ataliaeth fecanyddol i'w cynnwys mewn asesiadau risg. Cyflwynwyd a derbyniwyd Cynllun Gwella gan AGIC.

**10.17 Gwasanaethau Fasgwlaidd – Gwasanaeth sydd angen statws gwelliant sylweddol, Mawrth 2022**

10.17.1 Yn dilyn cyhoeddi Adolygiad o Gofnod Clinigol Gwasanaethau Fasgwlaidd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, cyhoeddodd AGIC statws Gwasanaeth a oedd yn gofyn am welliant sylweddol i'r gwasanaeth, oherwydd arwyddion o risgiau sylweddol i gleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth fasgwlaidd.

10.17.2 Bydd y broses hon yn galluogi AGIC i gael sicrwydd ynghylch materion penodol a amlinellwyd yn adroddiad yr RCS, gan gynnwys gwaith gwael gan y Tîm Amlddisgyblaethol (MDT), dogfennaeth a chadw cofnodion gwael, ac ansawdd gofal clinigol, y gall pob un ohonynt achosi risg i ddiogelwch a chanlyniadau cleifion. At hynny, o ganlyniad i ganfyddiadau adroddiad RCS, mae gan AGIC bryderon ynghylch trefniadau llywodraethu ansawdd o fewn gwasanaethau fasgwlaidd.

10.17.3 Mae gweithrediad y camau adferol hyn yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor QSE, trwy adroddiadau Sicrwydd Cadeirydd y Grŵp Llywio Fasgwlaidd yn ogystal ag adroddiadau rheolaidd mewn cyfarfodydd Bwrdd.

10.17.4 Yn ystod cyfnod 2021/22 sefydlwyd Panel Fasgwlaidd annibynnol at ddibenion craffu ar yr adolygiadau achos unigol a phenderfynu pa achosion a allai fod angen mynd i mewn i'r broses Gweithio i Wella.

**10.18 Adran Achosion Brys, Ysbyty Glan Clwyd, Mawrth 2022**

10.18.1 Cynhaliodd AGIC wiriad ansawdd o bell dau gam o'r adran Achosion Brys, mewn ymateb i gudd-wybodaeth a dderbyniwyd o ddigwyddiad arwyddocaol a adroddwyd i Lywodraeth Cymru, a gwybodaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd. Roedd y gwiriad ansawdd yn canolbwyntio ar gleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol. Yn dilyn y gwiriad ansawdd canfu AGIC fod angen gwelliannau sicrwydd ar unwaith o ran mynediad amserol, cynllunio rhyddhau, cadw cofnodion, rheoli risg, a llywodraethu ac arweinyddiaeth. Mae Cynllun Gwella Sicrwydd Ar Unwaith wedi'i gyflwyno a'i dderbyn gan AGIC.

10.18.2 Yn dilyn hynny, cynhaliodd AGIC arolygiad dirybudd o'r safle rhwng 3 a 5 Mai 2022, gan arwain at gyhoeddi statws Gwasanaeth Angen Gwelliant Sylweddol arno oherwydd tystiolaeth gyfyngedig o welliant mewn perthynas â'r materion Sicrwydd Ar Unwaith a nodwyd yn ystod gwiriad ansawdd mis Mawrth. Yn ogystal, nododd AGIC feysydd ychwanegol o bryder yn ymwneud â diogelwch cleifion. Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau cynllun gwella a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar 26 Mai 2022.

## 11. Rheoliad 28 (Atal Marwolaethau yn y Dyfodol)

11.1 Ymatebodd y Bwrdd Iechyd i 3 Hysbysiad Rheoliad 28 (PFD) yn ystod y flwyddyn lawn ddiwethaf (Ebrill 2021 i Fawrth 2022) gan fynd i'r afael â'r pwyntiau a ganlyn:

- Gweithredu'r weithdrefn SNAP – lle gellir rhoi N Acetylcysteine (NAC – y gwrthwenwyn parasetamol safonol), o 31/01/2022 ymlaen, yn ddiogel dros gyfnod byrrach nag o'r blaen;
- Cadarnhad bod y broses ar gyfer uwchgyfeirio canlyniadau Patholeg annormal wedi'i chymeradwyo a'i rhoi ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd;
- Manylion y Broses Rheoli Digwyddiad newydd;
- Gweithredu cyfarfod diogelwch diwedd dydd mewn timau iechyd meddwl cymunedol i sicrhau bod cynlluniau diogelwch ar waith ar gyfer cleifion agored i niwed ac yn cael eu trosglwyddo i dimau y tu allan i oriau.

11.2 Parhaodd y Pwyllgor QSE i oruchwylio gweithrediad y cynlluniau gweithredu cysylltiedig yn ystod cyfnod 2021/22. Yn ogystal, mae adolygiad o PFDs a gaewyd yn flaenorol yn mynd rhagddo er mwyn nodi unrhyw fylchau o ran gweithredu ac effeithiolrwydd.

## 12. Diogelwch Data

12.1 Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yw Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) y sefydliad, gan ddarparu arbenigedd rheoli risg gwybodaeth ar lefel Bwrdd. Mae'r SIRO yn goruchwylio gweithrediad cyson y broses asesu risg gwybodaeth gan Berchnogion Asedau Gwybodaeth, fel y disgrifir yn y fframwaith a pholisi Rheoli Risg Gwybodaeth.

12.2 Y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol sy'n bennaf gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd, gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Sicrwydd Gwybodaeth yn cyflawni rôl ddynodedig Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.

12.3 Y Cyfarwyddwr Meddygol yw Gwarcheidwad Caldicott penodedig y Bwrdd Iechyd. Rhoddir sicrwydd ffurfiol i'r Bwrdd ar ansawdd data trwy adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth. Drwy gydol y cyfnod 2021/22 roedd y sicrwydd yn bwydo i mewn i'r Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Gwybodaeth (DIG), ac i'r Pwyllgor PPPH o fis Hydref 2021.

12.4 Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth â dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas ag ansawdd ac effeithiolrwydd systemau gwybodaeth y bydd perfformiad y Bwrdd Iechyd yn cael ei asesu yn eu herbyn yn rheolaidd.

12.5 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hunan-gofnodi chwe thoriad diogelwch data a ysgogodd gyfeiriad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a Llywodraeth Cymru. Mae tri o'r digwyddiadau hunan-gofnodedig hyn wedi'u cau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac nid oes angen unrhyw gamau pellach oherwydd y camau gweithredu a'r gwelliannau uniongyrchol a roddwyd ar waith gan y Bwrdd Iechyd.

12.6 Roedd y tri arall yn dal ar agor ac yn aros am ymateb gan yr ICO ar ddiwedd y flwyddyn. Gwnaeth yr ICO un argymhelliad i wirio bod polisïau a gweithdrefnau'n dal i fod yn addas i'r diben ac y dylai'r holl staff sy'n trin data personol dderbyn hyfforddiant diogelu data rheolaidd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i roi ar waith. Ni chafodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn. Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â'n toriadau data llywodraethu gwybodaeth wedi'i chynnwys yn adran 21.4 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 13. Trefniadau Cynllun Pensiwn y GIG

13.1 Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae gan y Bwrdd Iechyd fesurau rheoli ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â holl rwymedigaethau cyflogwyr rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion cynllun pensiwn aelodau'n cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau.

13.2 Mae'r systemau a'r prosesau hyn yn destun archwilio ac adolygu rheolaidd gan Archwilio Cymru fel rhan o'r archwiliad blynyddol o'r datganiadau ariannol, ac archwiliad mewnol o'r systemau cyflogres.

## 14. Addasu at Newid yn yr Hinsawdd

14.1 Yn ystod cyfnod 2021/22 gwnaed ymdrechion sylweddol i weithredu gofynion GIG Cymru mewn perthynas â chynaliadwyedd.

14.2 Ar 5 Awst 2021, adolygodd y Bwrdd a chytunwyd ar argymhellion, ynghylch ymateb y Bwrdd Iechyd i Gynllun Datgarboneiddio GIG Cymru Llywodraeth Cymru, y mae'r manylion wedi'u crynhoi yn yr adroddiad hwn.

14.3 Mewn cyfarfod ar 9 Rhagfyr 2021, cefnogodd y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth yr argymhellion i benodi'r Ymddiriedolaeth Garbon i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu cynllun datgarboneiddio pum mlynedd mewn ymateb i dargedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030.

14.4 I adlewyrchu'r amlygrwydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac adferiad cynaliadwy o'r pandemig, bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu Bwrdd Rhaglen Datgarboneiddio yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, dan gadeiryddiaeth arweinydd Gweithredol, gydag adnoddau i fynd i'r afael â'r targedau a nodir yn y cynllun a chydlynu ymateb sefydliadol integredig ehangach a chyson. Bydd Bwrdd y Rhaglen Datgarboneiddio yn bwydo i mewn i'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth.

14.5 Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i gasglu data carbon a darparu cymorth technegol sydd ei angen i lunio cynllun datgarboneiddio pum mlynedd pwrpasol sy'n adeiladu ar waith a wnaed eisoes.

14.6 Bydd sefydlu bwrdd rhaglen yn arwain y fenter drawsnewidiol hon ac yn ceisio datblygu cyfleoedd ar gyfer buddion ariannol i gynnal y rhaglen a sicrhau enillion eraill o ran cysylltu â rhaglenni sefydledig eraill (e.e. gweithio ystwyth) i fynd i'r afael â'r argyfwng iechyd wrth leihau allyriadau i gyflawni'r targedau uchelgeisiol o Gynllun Datgarboneiddio GIG Cymru.

14.7 Yn ystod cyfnod 2022/23, bydd y Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â gwaith ymgysylltu pellach a gweithredu'r cynllun datgarboneiddio i gael ei arolygu drwy'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth. Mae'r cynllun hefyd wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022-25.

## 15. Bod yn Barod am Argyfwng

15.1 O dan drefniadau Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys (EPRR) y Bwrdd Iechyd, mae dyletswydd i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau mawr, critigol a pharhad busnes wrth gynnal gwasanaethau i gleifion. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'i gategoreiddio o fewn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) fel 'Ymatebydd Categori 1' ac felly mae'n ofynnol iddo gyflawni'r dyletswyddau deddfwriaethol llawn o dan y Ddeddf.

15.2 Yn ogystal â'r cyfrifoldebau cyfreithiol hyn, rhaid i'r Bwrdd hefyd fodloni'r gofynion a nodir yng Nghanllawiau Craidd Cynllunio at Argyfwng GIG Cymru (Ebrill 2015). At hynny, fel arfer gorau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu ac yn cydymffurfio â Safonau Craidd GIG Lloegr ar gyfer Parodrwydd a Gwydnwch Argyfwng (EPRR). Fel Ymatebwr Categori 1 rhaid i'r sefydliad gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau ac argyfyngau a chadw at y dyletswyddau canlynol:

- Asesu'r risg y bydd argyfyngau'n digwydd a defnyddio hyn i lywio cynllunio wrth gefn;
- Gosod cynlluniau argyfwng ar waith;
- Gosod trefniadau rheoli parhad busnes ar waith;
- Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am faterion amddiffyn sifil a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn achos o argyfwng;
- Rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill i wella cydgysylltu;
- Cydweithredu ag ymatebwyr lleol eraill i wella cydlyniad ac effeithlonrwydd.

15.3 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i sicrhau y gall y sefydliad ymateb i ofynion digwyddiad a chwrdd â'r cyfrifoldebau dynodedig fel ymatebwr categori un, drwy ddarparu ymateb cydgysylltiedig sy'n cysylltu'r rheolwyr gweithredol, yn rhannu'r adnoddau sydd eu hangen ac yn cefnogi anghenion y gymuned iechyd a gofal cyfan yng ngogledd Cymru.

15.4 Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Argyfwng Mawr a ategir gan gynlluniau digwyddiad penodol i safle a gofal cymunedol a sylfaenol sy'n disgrifio ymateb y sefydliad i argyfwng a ddiffinnir fel digwyddiad mawr.

15.5 Mae strwythur llywodraethu yn darparu arolygiaeth ac mae'n cydlynu trefniadau parodrwydd argyfwng y Bwrdd Iechyd. Mae'r strwythur hwn yn cysylltu â Fforwm Gwytnwch Lleol Gogledd Cymru, sy'n darparu cynllunio cydlynedig a pharodrwydd ar draws pob asiantaeth sy'n gysylltiedig â gweithgareddau diogelu sifil;

15.6 I gefnogi hyn, comisiynodd y Bwrdd Iechyd adolygiad arbenigol allanol o'r trefniadau sefydliadol ar gyfer parodrwydd ar gyfer argyfwng, a'u heffeithiolrwydd yn erbyn y safonau Craidd ar gyfer EPRR, a gwnaed cyfres o argymhellion.

15.7 Roedd hyn yn cynnwys ffurfio Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl (CCAG) ar ei newydd wedd i weithio'n strategol ar ran y Tîm Rheoli Gweithredol i sicrhau bod Cynllun Rheoli Argyfwng a Chynlluniau Parhad Busnes y Bwrdd Iechyd yn addas i'r diben ac yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

15.8 Bydd y CCAG yn bwrw ymlaen â gweithredu argymhellion yr adolygiad allanol yn ogystal â'r agweddau perthnasol ar yr adroddiad archwilio mewnol cynllunio Parhad Busnes (a gyhoeddwyd barn archwilio o 'sicrwydd cyfyngedig'), gan gynnwys gwreiddio rheolaethau presennol, megis y polisi BCP a'r rhaglen waith gysylltiedig.

15.9 Derbyniodd y Pwyllgor PPPH raglen waith EPRR ar 20 Mai 2022, i alluogi'r sefydliad i sefydlu a dangos cydymffurfiaeth â dyletswydd a osodwyd ar y Bwrdd Iechyd drwy Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) Adolygir y rhaglen waith yn y CCAG i sicrhau bod y dyletswyddau'n cael eu cyflawni.

15.10 Mae Cofrestr Risg Argyfyngau Sifil Posibl yn ei lle, ynghyd â chofrestrau risg rhanbarthol unigol sy'n darparu modd o adrodd ar risgiau a'u huwchgyfeirio.

## 16. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

16.1 Mae mesurau rheoli yn eu lle i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr a staff ar wefan y Bwrdd Iechyd sy'n bodloni'r dyletswyddau cyhoeddi statudol.

16.2 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi ystod o systemau, prosesau a threfniadau llywodraethu ar waith i alluogi cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cael eu monitro gan y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth yn rheolaidd.

16.3 Mae'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn arolygu cyflawni strategaeth Cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd a chynlluniau gwaith cysylltiedig, sy'n ymgorffori cydymffurfiaeth orfodol â safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu.

16.4 Mae'r gwaith allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2021/22 yn cynnwys sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i oruchwylio cynllun gweithredu ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, yn ogystal â chanllawiau cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru yn barod ar gyfer y dyddiad mynd yn fyw; 31ain Mawrth 2022. Mae gweithdrefnau Asesiadau Effaith Economaidd-Gymdeithasol (SEIA) wedi'u sefydlu (gan gynnwys datblygu polisi a thempled SEIA).

16.5 Datblygwyd cynllun hyfforddi i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau uwch arweinwyr i gyflawni'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, a chyflwynwyd gweithdy i'r Bwrdd ym mis Ebrill 2021.

16.6 Mae ystod o ddogfennaeth a chanllawiau ategol wedi'u cyhoeddi, i sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran y Ddyletswydd Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol trwy ganllawiau penodol a ddosberthir trwy nodyn Briffio Cydraddoldeb BIPBC a'r safle mewnrwyd cydraddoldeb (BetsiNet). Camau Nesaf ar gyfer 2022/23: Mae gwaith yn mynd rhagddo i brif ffrydio'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ar draws y sefydliad, a bydd y Grŵp Cynghori ar Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn parhau i oruchwylio hyn a rhoi sicrwydd.

16.7 Cafodd adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Blynyddol 2021/22 ac adroddiadau Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau eu hadolygu a'u craffu gan y Pwyllgor Pobl ac Iechyd y Boblogaeth ar 20 Mai 2022, a bydd diweddariadau pellach yn parhau i gyfnod 2022/23.

## 17. Trefniadau Atal Twyll a Gwrth-Lwgrwobrwyo

17.1 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion atal twyll a gwrth-lwgrwobrwyo, fel y nodir yng Nghyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru i Gyrff y GIG ar Fesurau Atal Twyll a gyhoeddwyd ar 1af Rhagfyr 2005 i Gyrff y GIG yng Nghymru.

17.2 Ar lefel weithredol, mae yna sesiynau briffio staff a sesiynau diweddaru ymwybyddiaeth o dwyll i staff.

17.3 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod â rhaglen atal twyll ar waith yn ystod 2021/22 ac mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol (LCFS) yn diweddaru'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yn rheolaidd er mwyn monitro'r broses o gyflawni'r cynllun a thrafod achosion.

17.4 Cynhelir asesiad risg o dwyll yn flynyddol i asesu a nodi pa mor agored yw'r Bwrdd Iechyd i risgiau twyll. Defnyddir canlyniad yr asesiad i lenwi cofrestr risg twyll sy'n cryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i werthuso, lliniaru a monitro risgiau sy'n deillio o dwyll. Lle bo'n briodol, mae'r risgiau hyn yn bwydo i mewn i gofrestr risg y Bwrdd Iechyd.

17.5 Mae'r trefniadau canlynol ar waith:

- Cymerir camau rhagweithiol ac adweithiol gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol i atal a nodi, yn ogystal ag annog staff i adrodd, twyll; caiff gwrthdaro buddiannau ei ddatgan ym mhob cyfarfod Bwrdd, Pwyllgor ac is-bwyllgor;
- Mae prosesau'r Bwrdd Iechyd wedi'u halinio er mwyn parhau i gydymffurfio â'r canllawiau presennol ar wrthdaro buddiannau sydd wedi'u diweddaru i ymgorffori gofynion GIG Lloegr o fis Mehefin 2017;
- Mae trefniadau gweithredol yn eu lle i alluogi hysbysu'r LCFS neu'r Cyfarwyddwr Cyllid yn brydlon am bryderon sy'n ymwneud â thwyll, yr adroddir arnynt hefyd i'r Pwyllgor Archwilio;
- Mae Archwilio Mewnol a'r LCFS wedi cydgysylltu yn ystod y flwyddyn er mwyn trafod meysydd risg uchel. Os bydd rheolwyr yn nodi risgiau sy'n ymwneud â thwyll mae'r rhain yn cael eu hymgorffori ar y gofrestr risg, gyda mesurau lliniaru cysylltiedig.

17.6 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd ac adroddiad blynyddol ar gyflawni cynllun gwaith yr LCFS ac adroddiadau ymchwilio lle bo'n briodol. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn adolygu polisïau a gweithdrefnau gwrth-dwyll a llwgrwobrwyo'r Bwrdd Iechyd.

17.7 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cwblhau hunanasesiad blynyddol o'i drefniadau atal twyll yn erbyn nifer o Safonau a osodir gan y rheolydd gwrth-dwyll, CFA y GIG. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cymryd sicrwydd o'r gwaith hwn, sy'n sicrhau bod amcanion sefydliadol a gweithgareddau ymchwilio yn cael eu hymchwilio'n briodol a'u cwblhau mewn modd amserol i leihau risgiau posibl yn y dyfodol yn systemau rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd.

## 18. Cynllun Integredig Tymor Canolig

18.1 Yn ystod cyfnod 2021/22, cafodd trefniadau cynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) eu hailsefydlu ar draws GIG Cymru ar gyfer 2022-25 yn dilyn saib oherwydd y pandemig. Yn dilyn hynny, derbyniwyd Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar 9fed Tachwedd 2021 wedi'i fodelu yn erbyn blaenoriaethau Gweinidogol a amlinellwyd ym mis Gorffennaf 2021:

- Cymru Iachach - fel y cyd-destun polisi trosfwaol
- Iechyd y boblogaeth
- Covid - Yr ymateb
- Adferiad GIG
- Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol
- Cefnogi'r gweithlu iechyd a gofal
- Cyllid y GIG a rheoli o fewn adnoddau
- Gweithio ar y cyd â Gofal Cymdeithasol

18.2 Mae'r fframwaith cynllunio yn pwysleisio pwysigrwydd y Model Gofal Sylfaenol i Gymru sy'n nodi sut y bydd gofal sylfaenol yn gweithio o fewn y system gyfan i ddarparu dull seiliedig ar le (diffinnir gofal sylfaenol fel gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol).

18.3 Bu'r Bwrdd a'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn craffu ac yn adolygu datblygiad yr IMTP rhwng Rhagfyr 2021 a chymeradwyaeth y ddogfen ar 30ain Mawrth 2022. Mae'r ddogfen yn dangos bod y rhan fwyaf o'n ffocws ar gyfer 2022/23 ar ddychwelyd i fusnes craidd llawn, gan gynnwys mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith sy'n gysylltiedig â phandemig, a chyfuno gwaith datblygu sydd eisoes wedi dechrau ond heb ei orffen eto, gan gynnwys gwaith i gyflawni yn erbyn fframwaith Ymyrraeth wedi'i Dargedu LlC. Bydd nifer fach o fentrau newydd yn cael eu cychwyn, ond dim ond lle maent yn amlwg yn cyfrannu at gyflawni'r ddau faes ffocws uchod.

18.4 Ar ddyddiad llofnodi'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno IMTP a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar gyfer 2022/25 yn unol â Fframwaith Cynllunio'r GIG a statws hwn o ran ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Yn dilyn hynny, derbyniwyd hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ar 22 Gorffennaf 2022 na chymeradwywyd yr IMTP, ond fe'i derbyniwyd fel cynllun blynyddol. Ar adeg ysgrifennu hwn roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at ddatblygu IMTP ar gyfer y cyfnod 2023-2026.

Fel rhan o'i hadborth, cydnabu Llywodraeth Cymru y gwelliannau sylweddol yn yr IMTP, gan nodi'n arbennig y dull ymgysylltu cryf a ffocws a ddefnyddiwyd, a arweiniodd at IMTP cydlynol, sy'n eiddo i'r bwrdd ac a gymeradwywyd gan y bwrdd am y tro cyntaf mewn cyfnod o saith mlynedd. . Bydd yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i gryfhau ymhellach y broses ar gyfer y cyflwyniad IMTP nesaf

18.5 Bydd ein rhagdybiaethau cynllunio yn parhau i fynd i'r afael â rhaglenni Covid-19 ochr yn ochr ag ailsefydlu gwasanaethau. Byddwn yn casglu ac yn defnyddio ffyrdd newydd o weithio ac yn cynnal arfer da o wersi a ddysgwyd yn ystod y cam cyntaf ac ail don y pandemig. Mae'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth amddiffyn ein poblogaeth ac rydym yn bwriadu parhau â hyn.

## 19 Ymyrraeth wedi'i Thargedu

19.1 Ym mis Tachwedd 2020, trawsnewidiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o Fesurau Arbennig i lefel is o ymyrraeth wedi'i thargedu gan Lywodraeth Cymru. Roedd cwmpas y fframwaith Ymyrraeth wedi'i Thargedu yn ymestyn i'r meysydd canlynol:

- Iechyd Meddwl (oedolion a phlant);
- Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad;
- Arweinyddiaeth (gan gynnwys Llywodraethu, Trawsnewid a Diwylliant);
- Ymgysylltu (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid).

19.2 Ymhellach i'r risgiau rheolaeth fewnol, ansawdd a diogelwch a nodwyd yn adolygiadau Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, yn ogystal â'r Arolygiaeth Iechyd, o'r gwasanaeth fasgwlaidd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y penderfyniad i ehangu'r statws ymyrraeth wedi'i thargedu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ymgorffori Ysbyty Glan Clwyd.

19.3 Mae cwmpas ymyriad wedi'i dargedu YGC wedi'i ymestyn i gynnwys:

- Ysbyty Glan Clywd - Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth;
- Ysbyty Glan Clwyd – goruchwyliaeth weithredol a llywodraethu diogelwch clinigol gan gynnwys cadw cofnodion, rheoli digwyddiadau, gweithio mewn tîm, adrodd am bryderon, a chaniatâd;
- Gwasanaethau Fasgwlaidd;
- Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd;
- Safonau gwasanaeth clinigol.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt mewn perthynas â chynnwys y fframwaith

19.4 Parhaodd y Bwrdd Iechyd i roi cynlluniau gwella ar waith i symud ymlaen drwy'r statws Ymyrraeth wedi'i Thargedu, ers iddo gael ei dynnu o'r Mesurau Arbennig ym mis Tachwedd 2020.

19.5 Yn ystod 2021/22, cafodd y Bwrdd sicrwydd drwy'r Grŵp Llywio Ymyrraeth wedi'i Thargedu (TISG), a oedd yn parhau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau gwella.

19.6 Parhaodd y TISG i oruchwylio'r cynnydd o ran gweithredu targedau ymestyn yn ymwneud â'r pedwar Maes a nodir yn y Fframwaith Gwella a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, fel a ganlyn:

- Rheoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl (oedolion a phlant);
- Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad;
- Arweinyddiaeth (gan gynnwys Llywodraethu, Trawsnewid a Diwylliant);
- Ymgysylltu.

Mesurir lefelau aeddfedrwydd sefydliadol a gyflawnwyd yn ôl y raddfa ganlynol:

0 - Dim Cynnydd
1 - Lefel Sylfaenol
2 - Cynnydd Cynnar
3 - Canlyniadau
4 - Aeddfedrwydd
5 - Enghreifftiol

19.7 Adolygodd y Bwrdd gynigion hunanasesu TI, cyn cyfres o gyfarfodydd cymedroli a gynhaliwyd gydag Uwch Swyddog Cyfrifol ac Aelod Annibynnol Cyswllt pob maes, gyda'r Sefydliad Llywodraethu Da a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro. Yna gynhaliwyd cyfarfod safoni systemau, a gadeiriwyd gan Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen.

| **Maes** | **Lefel Tystiolaeth** | **Lefel Canlyniadau** | **Wedi eu hargymell Hunan Asesiad** |
|---|---|---|---|
| Iechyd Meddwl Pob Oed | 2 | Heb ei gwrdd ar lefel 2 eto | 2 |
| Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad | 2 | Heb ei gwrdd ar lefel 2 eto | 2 |
| Arweinyddiaeth | 2 | Heb ei gwrdd ar lefel 2 eto | 2 |
| Ymgysylltu | 2 | Wedi ei gyrraedd ar lefel 2 | 2 (uchel) |

19.8 Ym mis Tachwedd 2021 gosododd y Bwrdd dargedau i'w cyflawni ar gyfer yr asesiad hwn fel a ganlyn:

19.8.1 Iechyd Meddwl: 2 (uchel) – cydnabu'r Bwrdd fod hwn yn darged ymestyn, ac er bod tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y canlyniadau a ddiffiniwyd gan LIC yn y TIIF yr argymhelliad yw hunanasesu ar 2, mae'r dadansoddiad bwlch atodedig yn dangos rhywfaint o gynnydd o ran y lefel 3.

19.8.2 Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad: 2 (uchel): Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd yr IMTP i'w gyflwyno, ond yn dilyn hynny ni chymeradwywyd yr IMTP gan Lywodraeth Cymru ac felly yr argymhelliad yw 2. Mae'r dadansoddiad Bwlch yn dangos cynnydd i lefel 3

19.8.3 Arweinyddiaeth: 2 – argymhelliad wedi'i gyflawni.

19.8.4 Ymgysylltu: 2 (uchel) – argymhelliad wedi'i gyflawni.

19.9 Yn ystod cyfnod 2021/22, parhaodd y Bwrdd Iechyd i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy gydol y daith wella. Roedd y gwaith hwn yn destun craffu allanol gan Archwilio Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yma: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/targeted-intervention-framework-betsi-cadwaladr-university-health-board.pdf

## 20 Asesiad Strwythuredig Archwiliad Cymru

20.1 Yn ystod cyfnod 2021/22 cynhaliodd staff Archwilio Cymru Gam dau o'r Asesiadau Strwythuredig ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, a oedd yn ystyried sut mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi newid dros y 12 mis diwethaf.

20.2 Yn benodol, roedd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg o ddad-ddwysáu'r Bwrdd Iechyd i statws ymyrraeth wedi'i thargedu a'r dull a ddefnyddiwyd i sicrhau cydymffurfiaeth.

20.3 Yn ogystal, roedd cwmpas yr asesiad strwythuredig hefyd yn cynnwys adolygiad o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau o fewn y Bwrdd Iechyd yn cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

20.4 Asesodd Archwilio Cymru fod y Bwrdd Iechyd wedi dysgu o'r pandemig gan lywio trefniadau'r dyfodol ar gyfer sicrhau llywodraethu da a sicrhau gwerth am arian. Yn olaf, ceisiodd Archwilio Cymru gael trosolwg o waith craffu'r Bwrdd ar ddatblygu a chyflawni Cynllun Blynyddol 2021/22 y Bwrdd Iechyd.

20.5 Derbyniwyd allbwn yr adolygiad hwn gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2021, ac fe'i derbyniwyd wedi hynny gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2022. Negeseuon allweddol Archwilio Cymru yn dilyn ei Asesiad Strwythuredig oedd:

*"Ar y cyfan, canfuom, yng nghyd-destun ymdrin â phwysau sylweddol ar wasanaethau, fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau llywodraethu, cynllunio gwasanaethau a monitro ariannol. Mae'r ymateb cychwynnol i fframwaith Ymyrraeth wedi'i Thargedu Llywodraeth Cymru wedi bod yn gadarnhaol a bydd yn bwysig defnyddio hwn i ddangos cynnydd yn erbyn nifer o heriau hirsefydlog. Ffocws uniongyrchol y Bwrdd yw rheoli'r pwysau ar wasanaethau yn effeithiol ar draws yr holl uwch adrannau a sicrhau bod ei gynlluniau strategol ac adfer ehangach yn cyd-fynd â'r heriau adfer dybryd hynny ac yn siapio'r sefydliad ar gyfer y dyfodol."*

20.6 Mae negeseuon allweddol Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y'u nodir yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol wedi'u nodi isod. Gellir cael rhagor o fanylion am yr adroddiad llawn ar wefan Archwilio Cymru yn: https://www.audit.wales/publication/betsi-cadwaladr-university-health-board-structured-assessment-2021-phase-two

## 21. Materion o Bwys

### 21.1 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

#### 21.1.1 Gwasanaethau Fasgwlaidd, Ysbyty Glan Clwyd – Gwasanaeth sydd angen statws gwelliant sylweddol
**Dyddiad cyhoeddi: 1af Mawrth 2022**

21.1.1.1 Ymhellach i gyhoeddi Adolygiad o Gofnod Clinigol Gwasanaethau Fasgwlaidd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, cyhoeddodd AGIC statws gwelliant sylweddol i'r gwasanaeth, oherwydd arwyddion o risgiau sylweddol i gleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth fasgwlaidd.

21.1.1.2 Mae rhagor o fanylion am ganfyddiadau adolygiad RCS wedi'u hymgorffori yn adran 10 y ddogfen hon.

#### 21.1.2 Adran Achosion Brys, Ysbyty Glan Clwyd – Gwasanaeth angen statws gwelliant sylweddol
**Dyddiad cyhoeddi: 16eg Mai 2022**

21.1.2.1 Oherwydd canfyddiadau gwiriad ansawdd o bell ac arolygiad ar y safle yn yr Adran Achosion Brys, Ysbyty Glan Clwyd, dynododd AGIC yr Adran Achosion Brys yn YGC fel Gwasanaeth sydd angen statws gwelliant sylweddol oherwydd methiant i ddangos gwelliannau a gweithredu camau gweithredu yn y Cynllun Gwella Sicrwydd Ar Unwaith a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2022.

21.1.2.2 Mae rhagor o fanylion am ganfyddiadau adolygiad AGIC wedi'u cynnwys yn adran 10 o'r ddogfen hon.

### 21.2 Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

#### 21.2.1 Rheoli Hysbysiad Gwella o Offer Amddiffynnol Personol HSE

21.2.1.1 Llythyr toriad Rheoliadau Darparu Cyfarpar Diogelu Personol 2002

21.2.1.2 Dyddiad cyhoeddi 23ain Chwefror 2021.

21.2.1.3 Derbyniwyd y llythyr yn dilyn ymchwiliad gan HSE i ddigwyddiad o amlygiad posibl i Covid-19 yn y gweithle. Canfu'r ymchwiliad annigonolrwydd o ran sicrhau bod yr holl staff y mae'n ofynnol iddynt wisgo anadlyddion hanner wyneb wedi mynychu sesiwn ffitio.

21.2.1.4 Cafodd rhaglen gynhwysfawr ei rhoi ar waith ac roedd cydymffurfiaeth â'r llythyr yn parhau ar adeg y cyflwyniad hwn.

### 21.2.2 Hysbysiad Gwella Rheoli Cwympiadau Cleifion Mewnol HSE

21.2.2.1 Dyddiad cyhoeddi 16eg Mehefin 2021.

21.2.2.2 Cynhaliwyd ymchwiliad HSE yn dilyn adrodd o dan RIDDOR am ddau ddigwyddiad claf ar wahân o gwympiadau a arweiniodd at niwed. Nododd yr ymchwiliad fethiannau o ran cwblhau asesiadau cwympiadau ar gyfer y ddau glaf heb unrhyw esboniad clir o'r mesuriadau rheoli risg i'w dilyn na'r camau a gymerwyd. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i weithio drwy bob elfen o'r Hysbysiad Gwella a chyflwynwyd ymateb i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

21.2.2.3 Dyddiad cydymffurfio cychwynnol 16eg Medi 2021

21.2.2.4 Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad arfaethedig - 18fed Tachwedd 2021, nododd yr HSE nad oedd yr asesiadau risg yn cael eu cwblhau'n gywir o hyd a chyhoeddwyd Toriad Materol pellach.

### 21.2.3 Hysbysiad Gwella yn sgil Tramgwyddo HSE (Rheoli Sylweddau Peryglus)

21.2.3.1 Dyddiad cyhoeddi 19 Awst 2021.

21.2.3.2 Derbyniwyd llythyr Hysbysiad Tramgwyddo (NOC) yn dilyn ymweliad HSE â'r Uned Peirianneg Adsefydlu, sy'n rhan o'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd, yn Ysbyty Bryn y Neuadd. Nododd y llythyr ddau achos sylweddol o dorri Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (COSHH). Nid oedd yr adroddiad Archwiliad Trwyadl ar gyfer y system LEV yn yr uned yn addas gan nad oedd yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Cymeradwy.

21.2.3.3 Dyddiad cydymffurfio: Ionawr 2022.

### 21.2.4 Arolygiad wedi'i gynllunio BIPBC 16 - 18 Tachwedd 2021

21.2.4.1 Cyhoeddodd Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) eu rhaglen 'Arolygiadau o Drais ac Ymddygiad Ymosodol ac Anhwylderau Cyhyrysgerbydol mewn Gofal Iechyd' cyn y pandemig COVID-19. Mae hon yn rhaglen genedlaethol sydd wedi'i chynllunio i archwilio trefniadau rheoli ar gyfer trais ac ymddygiad ymosodol ac anhwylderau cyhyrysgerbydol mewn mannau sy'n darparu gofal yn y sector cyhoeddus.

21.2.4.2 Yn dilyn yr arolygiad hwn, gosodwyd Hysbysiad Tramgwyddo ar y Bwrdd Iechyd a oedd yn nodi wyth maes yr oedd angen eu gwella. Roedd y rhain yn cynnwys dau hysbysiad gwella, un am asesiadau risg codi a chario wrth borthora a'r llall am asesiadau risg trin cleifion, pedwar achos o dorri gofynion yn sylweddol a dau hysbysiad cynghori.

21.2.4.3 Dyddiad cydymffurfio: 17 Mawrth 2022

**21.2.5 Asesiadau risg trin cleifion.**

21.2.5.1 Mae'r arolygydd wedi gofyn am ymweliad arall ar 18 Mai 2022 er mwyn archwilio asesiadau risg mewn dau faes ar safle un ysbyty.

21.2.5.2 Yn dilyn yr ymyriadau uchod, cadarnhaodd yr HSE y bydd llythyr tramgwyddo yn cael ei gyflwyno i'r Prif Weithredwr yn ystod yr wythnos yn dechrau 8 Mai 2022. Bydd y llythyr yn cadarnhau'r meysydd lle'r ystyrir bod y Bwrdd Iechyd wedi mynd yn groes i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch mewn perthynas ag asesiad risg annigonol i gleifion mewnol (risg o hunanladdiad), darparu gwely heb nodweddion gwrthglymu a darparu'r rhwymyn. Bydd yr HSE yn ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd cyn bo hir i ofyn am eu cyflwyniadau cyfreithiol ynglŷn â'r posibilrwydd o gamau gorfodi ychwanegol.

22.2.5.3 Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd, wrthi'n gweithredu ar yr ail hysbysiad gwella a gyhoeddwyd gan yr HSE a oedd yn nodi gwendidau yn seilwaith gweithredol iechyd a diogelwch.

21.3 Mae gennym gynllun gwaith cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r bylchau mae'r HSE yn cyfeirio atynt. Bydd hefyd yn gwreiddio goruchwyliaeth a llywodraethu iechyd a diogelwch cadarn ac yn treiddio i'r Bwrdd.

**21.4 Torri Diogelwch Data**

21.4.1 Hunangofnododd y bwrdd iechyd chwe digwyddiad torri diogelwch data sy'n ysgogi cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn ymwneud â:

| | |
|---|---|
| Colli data/data ar gael | 3 |
| Mynediad amhriodol | 1 |
| Colli data | 1 |
| Canfod PPI mewn man cyhoeddus | 1 |
| **Cyfanswm** | **6** |

21.4.2 Caewyd tri (3) o'r digwyddiadau uchod gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth heb unrhyw gamau pellach oherwydd i'r Bwrdd Iechyd roi camau gweithredu a gwelliannu ar waith ar unwaith. Mae'r tri digwyddiad arall yn parhau i fod ar agor ac yn aros am ymateb gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

21.4.3 Gwnaethpwyd un argymhelliad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef gwirio bod polisïau a gweithdrefnau yn parhau i fod yn addas i'r diben a bod yr holl staff sy'n ymdrin â data personol yn derbyn hyfforddiant diogelu data rheolaidd. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi rhoi hyn ar waith. Ni chafodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2021/22, derbyniodd y Bwrdd Iechyd 3 hawliad anaf personol am niwed a thrallod a achoswyd gan dorri cyfrinachedd data ac mae wedi setlo 4 hawliad blaenorol â chyfanswm o £22,305 yn ystod y flwyddyn.

## 21.5 Adolygiadau archwilio mewnol barn sicrwydd cyfyngedig

21.5.1 Mae'r adroddiadau barn archwilio sicrwydd cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 wedi'u crynhoi fel materion o bwys:

| | |
|---|---|
| Rheoli'r Sefydliad: Rheoli Ymadawyr | Cyfyngedig |
| Safonau Ymddygiad Busnes | Cyfyngedig |
| Llywodraethu Byrddau Gwasanaethau Integredig | Cyfyngedig |
| Rheoli Rhestrau Aros: Adolygiad o Ymarfer Dilysu Cleifion a ddechreuodd Llywodraeth Cymru, Haenu Risg a thynnu cleifion oddi ar restrau | Cyfyngedig |
| Rheoli rhestr ddyletswyddau nyrsio: Cyflwyno e-daflenni amser ar gyfer staff yr Asiantaeth | Cyfyngedig |
| Archwiliad Clinigol | Cyfyngedig |
| Trefniadau ar-alwad | Cyfyngedig |
| Cynlluniau Parhad Busnes | Cyfyngedig |

## 21.6 Barn archwilio 'cywir a theg' amodol ar ddatganiadau ariannol 2021/22

21.6.1 Cafodd y Bwrdd Iechyd farn archwilio ‘cywir a theg’ amodol ar ddatganiadau ariannol 2021/22 gan Archwilio Cymru, gan nad oedd tystiolaeth archwilio briodol ddigonol fod croniadau a gwariant cysylltiedig wedi'u nodi yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.

21.6.2 Mae’r mater hwn hefyd wedi’i gynnwys yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i’r Senedd

21.6.3 Daeth y methiant yn y rheolaeth fewnol i'r amlwg pan ganfu'r archwilwyr wariant o £10.3m a ddyrannwyd i'r cyfnod 2021/22 (yn hytrach na'r cyfnod 2022/23), gan effeithio ar y datgeliad yn nodyn 2.1, 'Perfformiad Adnoddau Refeniw'.

(Mae nodyn 2.1 yn nodi tanwariant o £0.3m a fyddai'n cael ei ddiwygio i £10.6m, pe bai'r cyfrifon wedi'u haddasu.)

21.6.4 Cofnodwyd gwariant yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw pan oedd yn bodloni'r diffiniad o Wariant Cyfalaf ac y dylai fod wedi'i gofnodi yn erbyn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf.

21.6.5 Yn ogystal â hynny, darganfu'r archwiliad gontract gwerth dros £1m a oedd wedi'i gronni i'r cyfnod 2021/22 heb gymeradwyaeth y Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn unol â Deddf GIG (Cymru) 2006 a’r Rheolau Sefydlog.

21.6.6 Er mwyn sicrhau na fydd y gwallau hyn yn digwydd eto yng nghyfrifon statudol y dyfodol, bydd amrywiaeth o gamau gweithredu arwyddocaol yn cael eu cymryd i gryfhau'r amgylchedd rheolaeth ariannol, at ddibenion gwreiddio'r 3 llinell sicrwydd amddiffyn. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, roedd ystod o gamau gweithredu yn y broses o gael eu rhoi ar waith, fel rhan o gynllun gweithredu ehangach a oedd yn destun ymgynghoriad ac i’w gyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio a’r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer goruchwylio a monitro annibynnol, yn y drefn honno.

21.7 Mae'r materion sylweddol hyn yn dangos bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd flaenoriaethu adolygu trefniadau sicrwydd ar gyfer cydymffurfio, perfformiad, diogelwch a rheoli risg drwy weithredu model sicrwydd integredig.

## 22 Adolygu Effeithiolrwydd

22.1 Fel y Swyddog Cyfrifol, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol y sefydliad. Y nhw sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol, ac am y sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

22.2 Mae fy adolygiad hefyd wedi'i lywio gan:

- Adborth gan Lywodraeth Cymru a'r datganiadau penodol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Arolygiadau allanol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
- Cynlluniau archwilio ac adroddiadau gan Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol;
- Adborth gan y Cyngor Iechyd Cymuned;
- Adborth gan GIG Cymru;
- Adborth gan staff, cleifion, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd;
- Sicrwydd a ddarperir gan y Pwyllgor Archwilio a Phwyllgorau eraill y Bwrdd;
- Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru

22.3 Ar sail y materion o bwys y cyfeirir atynt yn adran 21, rwyf yn rhannol fodlon ag effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.

22.4 Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn drylwyr ac yn heriol. Caiff hyn ei ategu gan yr elfennau allweddol sy'n cefnogi effeithiolrwydd, megis adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau Aelodau Annibynnol i'r Bwrdd llawn, gwaith cydlynol Grŵp Rheoli Busnes y Pwyllgor ac allbwn y Pwyllgor Archwilio.

22.5 Fodd bynnag, ac fel y nodir gan Archwilio Cymru a thystiolaeth o ffynonellau eraill, gellir gwella'r system rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu ymhellach.

O ganlyniad, mae cydweithwyr yn gweithio'n barhaus ac mewn nifer o ffyrdd i wella effeithiolrwydd systemau llywodraethau'r Bwrdd Iechyd, er enghraifft:

- Adolygu strwythurau llywodraethu gan ganolbwyntio ar adroddiadau Pwyllgorau a Grwpiau gan Weithredwyr atebol;
- Rhaglen Datblygu'r Bwrdd wedi'i hwyluso a'i strwythuro i gyd-fynd ag anghenion cyfunol ac unigol;
- Gweithredu argymhellion adolygiadau allanol;
- Adolygiadau parhaus ledled y Bwrdd Iechyd a'r cytundeb i brynu'r Modiwl Polisi Datix cysylltiedig er mwyn gwella cadernid rheoli'r system yn gyffredinol;
- Adroddiadau perfformiad integredig a fframwaith atebolrwydd diwygiedig;
- Ymdrechion parhaus i fodloni disgwyliadau'r Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Thargedu (mae hyn wedi disodli'r Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig yn dilyn gostwng y lefel rhybudd, fel y cyfeiriwyd ato ynghynt yn y Datganiad hwn);
- Argymhellion mewn adroddiadau archwilio mewnol;
- Gwaith parhaus er mwyn gwella rheoli pryderon a chwynion;
- Adolygiad o'r Trefniadau Parhad Busnes;

- Cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynlluniau a strategaeth glinigol;
- Cryfhau'r trefniadau cynllunio gan gynnwys adolygiad annibynnol o'r swyddogaethau.

## 23 Casgliad

23.1 Rwyf wedi derbyn cyngor ar oblygiadau canlyniadau fy adolygiad o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd a gefnogir gan:

- Y Pwyllgor Archwilio sy'n ystyried y cynlluniau blynyddol ac adroddiadau'r Archwiliadau Mewnol ac Allanol.
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau sy'n goruchwylio'r systemau a'r prosesau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol ac ansawdd yn y Bwrdd Iechyd.
- Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth a barhaodd i oruchwylio llywodraethu ariannol, perfformiad a gwybodaeth.
- Y Tîm Rheoli Gweithredol sy'n goruchwylio gweithredu cyfeiriad strategol y Bwrdd Iechyd.

23.2 Yn ogystal â hyn, mae gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ddulliau ar gyfer nodi'r bylchau mewn rheolaeth sydd angen mynd i'r afael â nhw a'u cofnodi mewn adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae'r uwch reolwyr wedi cytuno ar gynlluniau gweithredu a chofnodir y manylion yn adroddiadau cynnydd Archwilio Mewnol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod.

23.3 O ran contractau a negodwyd gan yr Adran Iechyd ac nad oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw ddylanwad cytundebol neu ddylanwad arall dros y darparwyr gwasanaeth a reolir, mae'r Bwrdd Iechyd yn ddibynnol ar reolaethau systemau gwybodaeth sy'n cael eu gweithredu gan drydydd parti. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn sicrwydd ffurfiol gan yr Adran Iechyd ynglŷn ag effeithiolrwydd rheoli mewnol ar gyfer y systemau Cyflogres ESR ac Adnoddau Dynol.

23.4 Fel y nodwyd yn y datganiad hwn ac yn yr Adroddiad Blynyddol, mae'r angen i ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG yn ehangach a'r gymdeithas yn gyffredinol. Mae wedi gofyn am ymateb deinamig sydd, yn ogystal â'r risgiau, wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd. Bydd angen i'r sefydliad a'r gymdeithas barhau i ymateb i'r pandemig a cheisio adfer y sefyllfa drwy gydol 2022/23 a thu hwnt. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried ac yn ymateb i'r angen hwn.

23.5 Amlinellir y materion o bwys yn adran 21 yr adroddiad hwn.

23.6 Mae fy adolygiad yn cadarnhau bod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr system reolaeth fewnol rannol gadarn er mwyn ei helpu i gyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion. Fodd bynnag, o ran diogelwch cleifion a chydymffurfiaeth, mae prosesau y mae angen eu gwella'n sylweddol fel y nodir yn adran 18 yr adroddiad hwn. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn hefyd, bu methiannau rheoli mewn tri maes. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiadau manwl o gydymffurfiaeth ym mhob maes perthnasol o fewn y Bwrdd Iechyd er mwyn rhoi sicrwydd mai digwyddiadau unigol oedd y rhain ac i unioni unrhyw fylchau eraill yn ein rheoli.

**Llofnod:**

**Jo Whitehead**
**Prif Weithredwr a Swyddog Atebol** **Dyddiad: 24 Awst 2022**

## Atodiad 1 - Cyfarfodydd Y Bwrdd Iechyd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2021/22

| Cyfarfod | Dyddiad | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | 20/05/21 | 15/07/21 | 29/07/21 | 23/09/21 | 18/11/21 | 20/01/22 | 15/02/22 | 10/03/22 | 30/03/22 |
| Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (QSE) | 04/05/21 | 06/07/21 | 07/09/21 | 02/11/21 | 11/01/22 | 01/03/22 | 23/03/22 | | |
| Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&P) | 29/04/21 | 24/06/21 | 26/08/21 | | | | | | |
| Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Gwybodaeth | 18/06/21 | 10/09/21 | | | | | | | |
| Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIG) | | | | 28/10/21 | 23/12/21 | 24/02/22 | 24/03/22 | | |
| Pwyllgor Strategaeth, Partneriaeth ac Iechyd y Boblogaeth (SPPH) | 15/04/21 | 17/06/21 | 12/08/21 | | | | | | |
| Pwyllgor Partneriaeth, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth (PPPH) | | | | 14/10/21 | 09/12/21 | 10/02/22 | | | |
| Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth | 07/06/21 | 22/07/21 | 21/10/21 | 18/01/22 | | | | | |
| Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl | 25/06/21 | | | | | | | | |
| Pwyllgor Iechyd Meddwl a Chydymffurfedd Galluedd (MHCC) | | 24/09/21 | 17/12/21 | | | | | | |
| Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | 11/06/21 | 16/09/21 | 16/12/21 | 17/03/22 | | | | | |
| Y Pwyllgor Archwilio | 10/06/21 | 28/09/21 | 14/12/21 | 15/03/22 | | | | | |

**Atodiad 2 - Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau 2021/22**

Mae nifer o newidiadau wedi bod yn aelodaeth y Bwrdd gan gynnwys trefniadau dros dro a chamu i'r adwy ac fe'u hadlewyrchir yn y tabl isod.

| Enw | Swydd | Maes arbenigedd/rôl cynrychioli | Aelodaeth ar Bwyllgorau'r Bwrdd | Rolau pencampwr |
|---|---|---|---|---|
| Mark Polin | Cadeirydd | | • Cadeirydd y Bwrdd<br>• Cadeirydd Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth<br>• Cadeirydd Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad | |
| Lucy Reid | Aelod Annibynnol<br><br>Is-gadeirydd | Cymuned<br><br>Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Cadeirydd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Cadeirydd Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl<br>• Cadeirydd Pwyllgor Iechyd Meddwl a Chydymffurfedd Galluedd<br>• Aelod Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth | • Pryderon |
| Lyn Meadows | Aelod Annibynnol | Cymuned | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Cadeirydd Dros Dro Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Is-gadeirydd Pwyllgor Archwilio hyd at 14/12/21<br>• Is-gadeirydd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Pwyllgor Partneriaethau Aelodau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth *hyd at 09/12/21* | • Maeth<br>• Glanhau, Hylendid a Rheoli Heintiau |
| Y Cyng. Cheryl Carlisle | Aelod Annibynnol | Cymuned | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Aelod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Aelod Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl<br>• Aelod Pwyllgor Iechyd Meddwl a Chydymffurfedd Galluedd<br>• Aelod Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | • Gofalwyr<br>• Plant a Phobl ifanc |

| Enw | Swydd | Maes arbenigedd/rôl cynrychioli | Aelodaeth ar Bwyllgorau'r Bwrdd | Rolau pencampwr |
|---|---|---|---|---|
| Y Cyng. Medwyn Hughes | Aelod Annibynnol | Awdurdod Lleol | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Cadeirydd Pwyllgor Archwilio<br>• Is-gadeirydd Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth<br>• Aelod Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth *hyd at fis Hydref 2021* | • Cynnwys y Cyhoedd a Chleifion<br>• Y Gymraeg |
| Yr Athro Nichola Callow | Aelod Annibynnol | Prifysgol | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Aelod Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Aelod Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Is-gadeirydd Pwyllgor Partneriaeth, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth | |
| Jackie Hughes | Aelod Annibynnol | Undebau Llafur | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Aelod Pwyllgor Archwilio<br>• Aelod Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth<br>• Aelod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Cadeirydd Pwyllgor Cronfeydd Elusennol<br>• Ex Officio Fforwm Partneriaeth Leol | • Trais ac Ymddygiad Ymosodol<br>• Cydraddoldeb |
| John Cunliffe | Aelod Annibynnol | Cymuned | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Gwybodaeth<br>• Cadeirydd Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Cadeirydd Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Aelod Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Aelod Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth | |

| Enw | Swydd | Maes arbenigedd/rôl cynrychioli | Aelodaeth ar Bwyllgorau'r Bwrdd | Rolau pencampwr |
|---|---|---|---|---|
| Eifion Jones | Aelod Annibynnol *hyd at 31/08/21* | Cymuned | • Aelod o'r bwrdd<br>• Is-gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Aelod Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl<br>• Aelod Pwyllgor Archwilio | |
| Linda Tomos | Aelod Annibynnol | Cymuned | • Aelod o'r bwrdd<br>• Aelod Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Aelod Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Aelod Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Cadeirydd Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Aelod Pwyllgor Cronfeydd Elusennol | |
| Jo Whitehead | Prif Weithredwr | | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Yn bresennol Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth<br>• Yn bresennol Pwyllgor Archwilio (o leiaf yn flynyddol)<br>• Cyd Gadeirydd / Aelod Fforwm Partneriaeth Leol | |
| Gill Harris | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth / Dirprwy Brif Weithredwr | | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Aelod Fforwm Partneriaeth Leol<br>• Yn bresennol Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl<br>• Yn bresennol Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Yn bresennol Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Yn bresennol Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Yn bresennol Pwyllgor Archwilio | |

| Enw | Swydd | Maes arbenigedd/rôl cynrychioli | Aelodaeth ar Bwyllgorau'r Bwrdd | Rolau pencampwr |
|---|---|---|---|---|
| Sue Hill | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Yn bresennol Pwyllgor Archwilio<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Aelod Pwyllgor Cronfeydd Elusennol<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Aelod Fforwm Partneriaeth Leol<br>• Yn bresennol Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth *hyd at fis Hydref 2021* | |
| Teresa Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Yn bresennol Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Yn bresennol Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Yn bresennol Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Pwyllgor y Ddeddf Iechyd Meddwl<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Pwyllgor Iechyd Meddwl a Chydymffurfiaeth Galluedd | |

| Enw | Swydd | Maes arbenigedd/rôl cynrychioli | Aelodaeth ar Bwyllgorau'r Bwrdd | Rolau pencampwr |
|---|---|---|---|---|
| Sue Green | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol | | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth<br>• Yn bresennol Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Yn bresennol Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Yn bresennol Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth hyd at fis Hydref 2021<br>• Yn bresennol Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Aelod Fforwm Partneriaeth Leol<br>• Yn bresennol Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau | |
| Mark Wilkinson | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad *hyd at 24/08/21* | | • Aelod o'r Bwrdd<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Aelod Pwyllgor Cronfeydd Elusennol<br>• Yn bresennol Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid | |

| Enw | Swydd | Maes arbenigedd/rôl cynrychioli | Aelodaeth ar Bwyllgorau'r Bwrdd | Rolau pencampwr |
|---|---|---|---|---|
| Yr Athro Arpan Guha | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro *hyd at 11/07/21* | | • Aelod o'r bwrdd<br>• Yn bresennol Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Yn bresennol Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Yn bresennol Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Aelod Pwyllgor Cronfeydd Elusennol<br>• Yn bresennol Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth<br>• Yn bresennol Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth | |
| Nick Lyons | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol *o 12/07/21* | | • Aelod o'r bwrdd<br>• Yn bresennol Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Yn bresennol Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Yn bresennol Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad<br>• Aelod Pwyllgor Cronfeydd Elusennol<br>• Yn bresennol Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth<br>• Yn bresennol Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth | |
| Dr Chris Stockport | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol | | • Aelod o'r bwrdd<br>• Yn bresennol Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth | |

| Enw | Swydd | Maes arbenigedd/rôl cynrychioli | Aelodaeth ar Bwyllgorau'r Bwrdd | Rolau pencampwr |
|---|---|---|---|---|
| Adrian Thomas | Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd | | • Aelod o'r bwrdd<br>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd<br>• Yn bresennol Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau | |
| Louise Brereton | Ysgrifennydd y Bwrdd | | • Aelodau o'r Bwrdd<br>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio | |
| Aelodau Cyswllt o'r Bwrdd | | | | |
| Morwena Edwards | Aelod Cyswllt | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwynedd | • Aelod Cyswllt o'r Bwrdd | |
| Ffrancon Williams | Aelod Cyswllt | Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid | • Aelod Cyswllt o'r Bwrdd | |
| Claire Budden | Cyswllt Aelod | | • Aelod Cyswllt o'r Bwrdd | |
| Gareth Evans | Aelod Cyswllt | Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd | • Aelod Cyswllt o'r Bwrdd<br>• Yn bresennol Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau | |

**Atodiad 3 Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus yn 2021/22**

Y = Presennol A = Ymddiheuriadau P = Rhan o'r Cyfarfod

| | | 20/05/21 | 15/07/21 | 29/07/21 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol | 23/09/21 | 18/11/21 | 20/01/22 | 15/02/22 | 10/03/22 | 30/03/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mark Polin Cadeirydd | Aelod | Y | Y | Y | Y | Y | A | Y | Y | Y |
| Yr Athro Nichola Callow Aelod Annibynnol | Aelod | P | Y | Y | A | Y | Y | A | Y | A |
| Y Cyng. Cheryl Carlisle Aelod Annibynnol | Aelod | Y | Y | Y | Y | Y | Y | A | Y | P |
| John Cunliffe Aelod Annibynnol | Aelod | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | A |
| John Gallanders Aelod Annibynnol | Aelod | | | | | Y | Y | Y | Y | Y |
| Y Cyng. Medwyn Hughes Aelod Annibynnol | Aelod | Y | Y | Y | Y | A | Y | Y | Y | Y |
| Jackie Hughes Aelod Annibynnol | Aelod | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| Eifion Jones Aelod Annibynnol | Aelod | Y | Y | Y | | | | | | |
| Lyn Meadows Aelod Annibynnol | Aelod | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |

| | | 20/05/21 | 15/07/21 | 29/07/21 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol | 23/09/21 | 18/11/21 | 20/01/22 | 15/02/22 | 10/03/22 | 30/03/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Richard Micklewright<br>Aelod Annibynnol | Aelod | | | | | Y | Y | Y | Y | Y |
| Lucy Reid<br>Aelod Annibynnol/Is-gadeirydd | Aelod | Y | P | Y | Y | P | Y | Y | Y | Y |
| Linda Tomos<br>Aelod Annibynnol | Aelod | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| Jo Whitehead<br>Prif Weithredwr | Aelod | Y | P | Y | Y | P | Y | Y | Y | Y |
| Gill Harris<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth / Dirprwy Brif Weithredwr | Aelod | Y | Y | Y | Y | Y | Y | A | A | Y |
| Teresa Owen<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | Aelod | P | Y | Y | Y | Y | Y | Y | P | Y |
| Yr Athro Arpan Guha<br>Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro h*yd at 11.07.21* | Aelod | Y | Y | A | | | | | | |
| Nick Lyons<br>Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol *o Awst 2021* | Aelod | | | | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| Sue Hill<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | Aelod | Y | Y | Y | A | Y | Y | A | Y | Y |
| Sue Green<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol | Aelod | Y | A | Y | Y | Y | Y | A | Y | A |

| | | 20/05/21 | 15/07/21 | 29/07/21 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol | 23/09/21 | 18/11/21 | 20/01/22 | 15/02/22 | 10/03/22 | 30/03/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adrian Thomas<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd | Aelod | Y | Y | Y | Y | Y | A | A | A | A |
| Gareth Evans<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Therapïau a Gwyddorau Iechyd *o* 02/03/22 | Aelod | | | | | | | | Y | Y |
| Cadeirydd, Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd<br>*hyd at 01/03/22* | Aelod Cyswllt | Y | Y | A | A | Y | Y | | | |
| Dr Chris Stockport<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol | Aelod | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y |
| Mark Wilkinson<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad *hyd at 24/08/21* | Aelod | Y | Y | A | | | | | | |
| Louise Brereton<br>Ysgrifennydd y Bwrdd | Yn Bresennol | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | Y | A |
| Morwena Edwards<br>yn cynrychioli Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | Aelod Cyswllt | Y | A | Y | Y | P | Y | A | Y | Y |
| Clare Budden<br>Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid | Aelod Cyswllt | | | Y | A | Y | Y | Y | Y | P |

## Atodiad 4 Cylchlythyrau Iechyd Cymru 2021/22

| Rhif WHC | Dyddiad Derbyn | Disgrifiad | Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gweithredu | Dyddiad anfon ar gyfer gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 005 (2021) | 08/04/21 | Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) (Diwygio) 2021 a Chyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) (Diwygio) 2021 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 21/04/21 |
| 008 (2021) | 27/05/21 | Cerdyn Cenedlaethol Triniaeth Steroid Diwygiedig | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | 27/05/21 |
| 010 (2021) | 17/09/21 | Diwygiadau i Reolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol - GIG Cymru | Ysgrifennydd y Bwrdd | 21/09/21 |
| 011 (2021) | 23/04/21 | 2021/22 Canllaw i Ffurflenni Monitro Ariannol Misol Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau. | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 23/04/21 |
| 012 (2021) | 06/05/21 | Gweithredu'r Dull y Cytunwyd Arno ar gyfer Atal Trais ac Ymddygiad Ymosodol tuag at Staff y GIG yng Nhymru | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol | 06/05/21 |
| 015 (2021) | 28/05/21 | Taliadau Bonws y GIG ar gyfer Gofal Sylfaenol | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol | 01/06/21 |
| 019 (2021) | 04/08/21 | Rhaglen Genedlaethol Imiwneiddio Rhag y Ffliw 2021/22 | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | 04/08/21 |
| 021 (2021) | 31/08/21 | Cyflwyno Shingrix® ar gyfer Unigolion ag Imiwnedd Gwan (o fis Medi 2021) | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | 31/08/21 |
| 022 (2021) | 16/09/21 | Fframwaith Ansawdd a Diogelwch. | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | 17/09/21 |
| 023 (2021) | 23/09/21 | Penderfynu Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd: Sicrwydd a Gweithredu | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | 23/09/21 |

| Rhif WHC | Dyddiad Derbyn | Disgrifiad | Arweinydd Gweithredol ar gyfer Gweithredu | Dyddiad anfon ar gyfer gweithredu |
|---|---|---|---|---|
| 025 (2021) | 30/09/21 | Llwybr Syndrom Twnnel y Carpws Cymru Gyfan | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol | 13/10/21 |
| 026 (2021) | 11/10/21 | Cymhwyser Ymwelwyr Tramor i Gael Gofal Sylfaenol am Ddim | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol | 11/10/21 |
| 027 (2021) | 28/09/21 | Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru | Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd | 28/09/21 |
| 028 (2021) | 28/09/21 | Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd a Nodau Gwella Ymwrthedd Gwrthficrobaidd 2021/22 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | 28/09/21 |
| 030 (2021) | 13/10/21 | Canllawiau ar gyfer cyfeirio cyflyrau Wrolegol: Anhawster Codiad, Symptomau Llwybr Wrinol mewn Gwrywod (LUTS) Heintiau llwybr Wrinol Rheolaidd (UTI), Chwyddo Ceillgydol, ac Anymataliaeth Wrinol mewn Menywod | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol | 13/10/21 |
| 031 (2021) | 11/11/21 | Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022-2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol | 11/11/21 |
| 032 (2021) | 17/11/21 | Rôl a Darpariaeth Iechyd Deintyddol y Cyhoedd yng Nghymru | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol a Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | 17/11/21 |
| 033 (2021) | 20/12/21 | Rôl a Darpariaeth Llawdriniaeth ar y Geg yng Nghymru | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol | 23/12/21 |
| 034 (2021) | 22/12/21 | Dyraniadau Refeniw Byrddau Iechyd 2022/23 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 23/12/21 |
| 005 (2022) | 24/03/22 | Gofynion Data ar gyfer Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 25/03/21 |
| 007 (2022) | 01/03/22 | Cofnodi Codau Dementia | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | 01/03/22 |
| 010 (2022) | 30/03/22 | Brechlynnau Ad-daladwy a Charfannau Cymwys ar gyfer Rhaglen Frechu Rhag Ffliw Tymhorol (ffliw) y GIG 2022/2023 | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus a Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | 30/03/22 |
| 011 (2022) | 25/03/22 | Fframwaith Profi Cleifion - Canllaw wedi diweddaru | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus | 25/03/22 |